

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

07/05/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefnogi Busnesau](#)
[Welsh Conservatives Debate: Supporting Businesses](#)

[Dadl Plaid Cymru: Y Dreth Ystafell Wely](#)
[Plaid Cymru Debate: The Bedroom Tax](#)

[Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Ynni](#)
[Welsh Liberal Democrats Debate: Energy](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cost Bod yn Dlawd](#)
[Short Debate: The Cost of Being Poor](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Questions to the Minister for Health and Social Services

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that the Welsh Government announced a pilot project to test cancer waiting times today, I have decided to extend the opportunities for Members to scrutinise the Minister for Health and Social Services on this issue at question 6. The Minister has kindly agreed to that.

O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi prosiect peilot i brofi amseroedd aros canser heddiw, rwyf wedi penderfynu ymestyn y cyfleoedd i Aelodau graffu ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwn yng nghwestiwn 6. Mae'r Gweinidog wedi cytuno'n garedig i hynny.

Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yng Nghwbrân

Specialist and Critical Care Centre in Cwmbran

13:30 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol yng Nghwbrân? OAQ(4)0435(HSS)

1. Will the Minister provide an update on progress made towards delivering the Specialist and Critical Care Centre in Cwmbran? OAQ(4)0435(HSS)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

I thank Lynne Neagle for that question. Using the £12 million that was made available in the last financial year, Aneurin Bevan Local Health Board is now preparing a full business case, and expects to submit it to the Welsh Government in November 2015. The current timetable indicates that construction will start in 2016.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn. Gan ddefnyddio'r £12 miliwn a ryddhawyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn awr yn paratoui achos busnes llawn ac mae'n disgwyl ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2015. Mae'r amserlen gyfredol yn dynodi y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2016.

13:31

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. As you know, I see this development as fundamental to ensuring that my constituents in Torfaen, and residents in Gwent more generally, have access to the twenty-first century healthcare that they deserve. Now, while I recognise that capital cuts from Westminster have led to delays, and also that the critical care centre is central to the wider transformation of the hospital network in the south Wales programme area, what further assurances can you offer me today that this vital development remains a top priority for this Welsh Government? Furthermore, moving forward, will you commit to providing Members in the Chamber with regular updates on progress in delivering this flagship capital project?

Diolch i chi, Weinidog. Fel y gwyddoch, rwy'n gweld y datblygiad hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod fy etholwyr yn Nhorfaen a thrigolion yng Ngwent yn fwy cyffredinol yn cael y gofal iechyd unfed ganrif ar hugain y maent yn ei haeddu. Yn awr, er fy mod yn cydnabod bod toriadau cyfalaf o San Steffan wedi arwain at oedi a hefyd bod y ganolfan gofal critigol yn ganolog i'r gwaith o drawsnewid y rhwydwaith ysbytai yn ardal rhaglen de Cymru yn ehangach, pa sicrwydd pellach y gallwch ei gynnig i mi heddiw bod y datblygiad hanfodol hwn yn parhau'n brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru? Ar ben hynny, gan symud ymlaen, a wnech ymrwymo i roi diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau yn y Siambr ar gynydd y gwaith o gyflawni'r prosiect cyfalaf blaenllaw hwn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:31

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fully recognise the points that the Member has made about the importance of the SCCC. It was there as a pivotal part of services for Gwent, in each of the options that were considered within the south Wales programme, and because of that, I decided last year to move ahead with a funding package, in advance of the south Wales programme coming to a conclusion. The £12 million that has been provided not only allows Aneurin Bevan health board to prepare the full business case, but it means that a package of advanced works—including ecological measures, the demolition of redundant blocks, and some work to services on the site—are able to go ahead in this financial year, making sure that we will be able to move ahead with the project in a timely fashion.

Rwy'n cydnabod yn llawn y pwyntiau a wnaeth yr Aelod am bwysigrwydd y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol. Roedd yno'n rhan ganolog o'r gwasanaethau ar gyfer Gwent ym mhob un o'r opsiynau a ystyriwyd yn rhaglen de Cymru ac oherwydd hynny, y llynedd penderfynais symud ymlaen gyda phecyn ariannu, cyn i raglen de Cymru ddod i ben. Mae'r £12 miliwn a ddarparwyd nid yn unig yn caniatáu i fwrdd iechyd Aneurin Bevan baratoi'r achos busnes llawn, ond mae'n golygu fod pecyn o waith datblygedig—gan gynnwys mesurau ecolegol, dymchwel blociau diangen a rhywfaint o waith i wasanaethau ar y safle—yn gallu digwydd yn y flwyddyn ariannol hon, gan sicrhau y byddwn yn gallu symud ymlaen â'r prosiect mewn modd amserol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am grateful for your clarity on this. The Gwent Clinical Futures hospital reconfiguration is probably unusual compared with other reconfigurations in Wales, in that it is actually relatively popular, not just with clinicians and the public, and Lynne Neagle and me, but with everyone who has been involved in the project. There were concerns raised yesterday during the infrastructure statement that there might not be sufficient funding to see this project through to completion. I am grateful for what you said today. However, will you give us your absolute assurance that building work will start in 2016, and that it will not slip down, because, as Lynne Neagle has rightly said, patients in Cwmbran, and Monmouthshire, and in the wider south-east Wales area, need access to this twenty-first century facility?

Weinidog, diolch am eich eglurhad ar hyn. Mae gwaith ad-drefnu ysbytai Dyfodol Clinigol Gwent yn anarferol yn ôl pob tebyg o'i gymharu â gwaith ad-drefnu arall yng Nghymru, gan ei fod yn gymharol boblogaidd mewn gwirionedd, nid yn unig gyda chlinigwyr a'r cyhoedd, a Lynne Neagle a fi, ond gyda phawb sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect. Mynegwyd pryderon ddoe yn ystod y datganiad seilwaith efallai na fyddai digon o gyllid i gwblhau'r prosiect hwn. Rwy'n ddiolchgar am yr hyn a ddywedasocho heddiw. Fodd bynnag, a wnech roi sicrwydd llwyr y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn 2016 ac na fydd yn cael ei adael ar ôl oherwydd, fel yr oedd Lynne Neagle yn llygad ei lle'n ei ddweud, mae cleifion yng Nghwmbran a Sir Fynwy ac yn ne-ddwyrain Cymru yn ehangach, angen mynediad at y cyfleuster unfed ganrif ar hugain hwn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just to be clear, nothing was said in the Minister for Finance's statement yesterday, because the funding for the SCCC is already there, in the capital programme that I manage as the Minister for health. I am keen to see a proper start on that in 2016. I should have said in answer to Lynne Neagle's question that I will, of course, report further to the Assembly as we get further information from Aneurin Bevan health board, and as the project moves ahead.

I fod yn glir, ni ddywedwyd dim yn natganiad y Gweinidog ddoe oherwydd mae'r cyllid ar gyfer y Ganolfan eisoes yno yn y rhaglen gyfalaf rwy'n ei rheoli fel Gweinidog iechyd. Rwy'n awyddus i weld dechrau iawn ar hynny yn 2016. Dylwn fod wedi dweud wrth ateb cwestiwn Lynne Neagle y byddaf wrth gwrs yn cyflwyno adroddiadau pellach i'r Cynulliad wrth i ni gael rhagor o wybodaeth gan fwrdd iechyd Aneurin Bevan ac wrth i'r prosiect symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:33 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I have no reason, of course, to doubt you—I would never do so, but since this project was first proposed in 2005, and since, all along, there has been support from all the relevant agencies, we could ask why we still have to wait until 2019 before the centre is actually built. What has been the reason for the project to take so long, from first proposal to completion, since it is indeed the resource that is desperately needed for patients in south-east Wales?
- Weinidog, nid oes gennyf unrhyw reswm i'ch amau, wrth gwrs—ni fyddwn fyth yn gwneud hynny, ond ers i'r prosiect hwn gael ei argymhell gyntaf yn 2005, a chan y cafwyd cefnogaeth ar hyd yr amser gan yr holl asiantaethau perthnasol, gallem ofyn pam y mae'n rhaid i ni barhau i aros tan 2019 cyn i'r ganolfan gael ei hadeiladu. Pa reswm fod y prosiect wedi cymryd cymaint o amser o'i gynnig yn y lle cyntaf i'w gwblhau, gan ei fod yn adnodd y mae ei angen yn ddirfawr ar gyfer cleifion yn ne-ddwyrain Cymru?
- 13:34 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am not in a position to provide a history lesson on the SCCC this afternoon. What I am prepared to say—and I think what we should focus on in the Chamber—is that, with the south Wales programme in its very final stages of agreement, and with the SCCC there as a fundamental part of the south-east Wales alliance, as the programme sets it out, it is now going to happen; the plan is there, and the timescale is there. It is a very complex programme, and it is very important that the health board works hard to get it right in making sure that the relationships between the new centre, the Royal Gwent Hospital and what goes on at Nevill Hall Hospital are put properly in place, and I am determined to focus on that for the future.
- Nid wyf mewn sefyllfa i roi gwers hanes ar y Ganolfan Gofal Arbenigol a Chritigol y prynhawn yma. Yr hyn rwy'n barod i'w ddweud—a'r hyn rwy'n meddwl y dylem ganolbwyntio arno yn y Siambr—yw bod rhaglen de Cymru yn y camau olaf un o gael ei chytuno a chan fod y Ganolfan yno'n rhan sylfaenol o gynghrair de-ddwyrain Cymru fel y mae'r rhaglen yn ei nodi, mae'n mynd i ddigwydd yn awr; mae'r cynllun a'r amserlen yn eu lle. Mae'n rhaglen gymhleth iawn ac mae'n bwysig iawn bod y bwrdd iechyd yn gweithio'n galed i gael pethau'n iawn o ran sicrhau bod y berthynas rhwng y ganolfan newydd, Ysbyty Brenhinol Gwent a'r hyn sy'n digwydd yn Ysbyty Nevill Hall yn cael ei roi ar waith yn briodol ac rwy'n benderfynol o ganolbwyntio ar hynny ar gyfer y dyfodol.
- 13:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:35 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- You will forgive my constituents in Brecon and Radnorshire for being slightly cynical about this, Minister, because, with all due respect, we heard these promises from the previous Minister for health. Could you confirm that no services will be lost from Nevill Hall Hospital in Abergavenny prior to the new hospital opening for patients in 2019?
- Maddeuwch i fy etholwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed am fod ychydig yn sinigaidd am hyn, Weinidog, oherwydd gyda phob dyledus barch, clywsom yr addewidion hyn gan y Gweinidog iechyd blaenorol. A allwch gadarnhau na chollir unrhyw wasanaethau o Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni cyn agor yr ysbyty newydd i gleifion yn 2019?
- 13:35 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have seen nothing from Aneurin Bevan Local Health Board that leads me to believe that services would be lost in advance of the SCCC and because of the SCCC. What I will say is this: I am clear with the Aneurin Bevan health board that it has to come forward with proposals that describe the new relationship between existing services and the new service. This is an 'instead of' not just an 'as well as' hospital at the SCCC. It will make a difference to other parts of the jigsaw in Aneurin Bevan because that is the way that we need to provide health services in the future.
- Ni welais ddim gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan sy'n fy arwain i gredu y byddai gwasanaethau yn cael eu colli cyn agor y Ganolfan ac oherwydd y Ganolfan. Yr hyn a ddywedaf yw hyn: mae'n ddealedig rhyngof a bwrdd iechyd Aneurin Bevan fod yn rhaid iddo gyflwyno cynigion sy'n disgrifio'r berthynas newydd rhwng y gwasanaethau presennol a'r gwasanaeth newydd. Ysbyty 'yn lle' yw hwn, nid ysbyty 'yn ogystal â' yn unig yn y Ganolfan. Bydd yn gwneud gwahaniaeth i rannau eraill o'r jig-so yn Aneurin Bevan oherwydd dyna sut y mae angen i ni ddarparu gwasanaethau iechyd yn y dyfodol.

13:36

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My constituents are expecting to see services removed from Nevill Hall Hospital to the SCCC in 2019. What we do not want to see are services lost from Abergavenny in the meantime. Let me enlighten you, Minister: Aneurin Bevan health board is actively looking at its ability to continue to provide emergency surgery, paediatrics and consultant-led obstetrics at Nevill Hall in the run-up to 2019. What I am looking for and what my constituents are looking for is a guarantee that no services will be lost until everybody is ready to move to that new facility. Of course, if the Welsh Government had stuck to its original plans, that hospital would nearly be open by now and we would not be facing this loss of services.

Mae fy etholwyr yn disgwyl gweld gwasanaethau'n cael eu symud o Ysbyty Nevill Hall i'r Ganolfan yn 2019. Yr hyn nad ydym am ei weld yw gwasanaethau'n cael eu colli o'r Fenni yn y cyfamser. Gadewch i mi eich goleuo, Weinidog: mae bwrdd iechyd Aneurin Bevan yn edrych yn weithredol ar ei allu i barhau i ddarparu llawdriniaeth frys, paediatreg ac obstetreg dan arweiniad ymgynghorwyr yn Nevill Hall yn y cyfnod hyd at 2019. Yr hyn rwy'n ei geisio a'r hyn y mae fy etholwyr yn ei geisio yw sicrydd na chaiff unrhyw wasanaethau eu colli hyd nes y bydd pawb yn barod i symud i'r cyfleuster newydd. Wrth gwrs, pe bai Llywodraeth Cymru wedi cadw at ei chynlluniau gwreiddiol, byddai'r ysbyty hwnnw bron yn barod i agor bellach ac ni fyddem yn wynebu colli'r gwasanaethau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would fully expect Aneurin Bevan to be keeping services under review on all its sites. None of us here would want to see a health board go on providing a service that is not safe for patients to use. I think that what the Member is trying to do is to put together two distinct sets of arrangements and make them into one argument that does not hold together. I expect the health board to make sure that the services it provides are the right ones for its population.

Byddwn yn llawn ddisgwyl i Aneurin Bevan gadw gwasanaethau o dan adolygiad ar ei holl safleoedd. Ni fyddai'r un ohonom yma'n awyddus i weld bwrdd iechyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth nad yw'n ddiogel i gleifion ei ddefnyddio. Rwy'n credu mai'r hyn y mae'r Aelod yn ceisio ei wneud yw rhoi dwy set wahanol o drefniadau at ei gilydd a'u troi'n un ddatl nad yw'n dal dŵr. Rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr mai'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yw'r rhai cywir ar gyfer ei boblogaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Question 2, OAQ(4)0425(HSS), is withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ (4) 0425 (HSS), yn ôl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rhaglen De Cymru

South Wales Programme

13:37

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu cynghreiriau gofal fel rhan o Raglen De Cymru? OAQ(4)0438(HSS)

3. Will the Minister provide an update on the development of care alliances as part of the South Wales Programme? OAQ(4)0438(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i Keith Davies am y cwestiwn. Erbyn hyn mae holl fyrddau iechyd de Cymru wedi ymrwymo i greu tri chynghrair gofal aciwt, sef de-ddwyrain Cymru, canol de Cymru a de-orllewin Cymru. Y byrddau iechyd perthnasol fydd yn sefydlu'r cynghreiriau. Mae'r trefniadau manwl ar gyfer cyfansoddiad a threfn lywodraethu'r cyrff hyn wrthi'n cael eu trafod.

I thank Keith Davies for the question. All local health boards across south Wales are now committed to the creation of three acute care alliances, namely south-east Wales, south Wales central, and south-west Wales. The alliances will be established by the constituent health boards. Their detailed composition and governance arrangements are currently being developed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn ystod y mis diwethaf mae dau glinig—un yn Ysbyty'r Tywysog Philip ac un yn Ysbyty Dyffryn Aman—wedi cael eu rhedeg gan arbenigwyr o Loegr. Gobeithio yn awr y bydd y cynghrair newydd yr ydych yn sôn amdano rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cynnig cyfleoedd i'r ddau awdurdod iechyd weithio gyda'i gilydd. Wrth gofio bod coleg meddygol newydd yn Abertawe, rydym ni yn Hywel Dda yn edrych ymlaen at weld y cydweithio.

Over the past month, two clinics—one in Prince Philip Hospital and one in the Amman Valley Hospital—have been run by specialists from England. I now hope that the new alliance that you mentioned between Hywel Dda Local Health Board and Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board will offer opportunities for both health boards to collaborate. Bearing in mind that there is to be a new medical college in Swansea, we in Hywel Dda look forward to seeing that collaboration.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:38 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wrth gwrs, rwy'n falch o glywed bod y cleifion yn Llanelli a Rhydaman yn cael y driniaeth y mae'n rhaid iddynt ei chael. Fodd bynnag, yn y dyfodol, pwynt y rhwydwaith newydd yw sicrhau nad yw ysbytai'n parhau i weithio ar sail unigol ond eu bod yn cydweithio'n nes at ei gilydd ar draws ffiniau byrddau iechyd, fel rhan o rwydwaith sy'n gofalu am gleifion ac yn rhoi i'r trigolion yn y de, gan gynnwys trigolion Llanelli, gwasanaethau sydd yn well ac yn rhai sy'n adeiladu ar y berthynas waith agos sydd eisoes yn bodoli rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.
- Of course, I am very pleased to hear that patients in Llanelli and Ammanford are receiving the treatment that they require. However, in the future, the point of having the new network is to ensure that hospitals do not continue to work on an individual basis but that they collaborate across health board boundaries, as part of the network that cares for patients and that gives to residents in south Wales, including those in Llanelli, better services that build on the close working relationship that already exists between Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and Hywel Dda Local Health Board.
- 13:39 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, taking a priori that these care alliances are extremely important now and in the future and that, by your own admission, the new specialist critical care centre will not be built for five years, can you give an assurance that it will at least be adequately planned for within that critical care centre, so that all the services can be delivered as well as is possible and joined together?
- Weinidog, gan gymryd yn ganiataol fod y cynghreiriau gofal hyn yn hynod o bwysig yn awr ac yn y dyfodol ac na fydd y ganolfan gofal arbenigol a chritigol newydd, yn ôl eich cyfaddefiad eich hun, yn cael ei hadeiladu am bum mlynedd, a allwch roi sicrwydd o leiaf y bydd cynlluniau digonol wedi'u gwneud o fewn y ganolfan gofal critigol honno fel y gellir darparu'r holl wasanaethau mewn modd crystal ac mor gydgysylltiedig â phosibl?
- 13:40 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank William Graham for his recognition that the three new alliances will be fundamental new building blocks to provide services for patients across the whole of south Wales. The critical care centre for the south-east Wales alliance is fundamental to making sure that the services that are needed for people when they require very specialist services will be there, available close to home and on the ground, and the planning for that is fundamental.
- Diolchaf i William Graham am gydnabod y bydd y tri chynghrair newydd yn gerrig sylfaen newydd ar gyfer darparu gwasanaethau i gleifion ar draws de Cymru. Mae'r ganolfan gofal critigol ar gyfer cynghrair de-ddwyrain Cymru yn hanfodol i wneud yn siŵr y bydd y gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer pobl pan fyddant angen gwasanaethau arbenigol iawn yno ar eu cyfer yn agos at adref ac ar lawr gwlad, ac mae cynllunio ar gyfer hynny yn hanfodol.
- 13:40 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, yng Nghastell-nedd Port Talbot, roedd trafodaeth gydag Ysbyty Gellinudd lle dywedodd un aelod cabinet o'r cyngor nad oedd cydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r cyngor yng nghyd-destun creu cynghrair i sicrhau cydweithrediad pan fyddai Gellinudd yn cael ei gau. Mae hyn yn symbol ar lefel leol o sut mae pobl eisiau i gynghreirio ddigwydd, ond nid yw hynny'n digwydd ar lawr gwlad. Sut allwn ni sicrhau, gyda chynllun de Cymru, bod hyn yn mynd i fod yn realiti yn y dyfodol?
- Minister, in Neath Port Talbot, there was a discussion with Gellinudd Hospital where one cabinet member of the council had stated that there was no collaboration between Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and the council in the context of creating an alliance in order to ensure co-operation when Gellinudd was closed. This demonstrates at a local level how people want to see alliances form, but that is not happening at grass-roots level. How can we ensure, with the south Wales programme, that this is going to be a reality in the future?
- 13:41 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do not think that there could be any doubt, Llywydd, that the level of discussion about the south Wales programme, and the resulting plan to create the three alliances, has not been a process in which there has been huge engagement, both from clinicians who do up the plan, and subsequently, among members of the public who have taken part in the consultation on it—the largest number of people ever to respond to a consultation exercise on health matters in the history of the national health service in Wales. So, of course, the point that Bethan Jenkins makes is important, namely about making sure that people who have a contribution to make to the creation of alliances are able to make it, but I do not think that anybody could argue that the south Wales programme is not already a very good example of what needs to be achieved.
- Ni chredaf y gallai fod unrhyw amheuaeth, Lywydd, nad yw lefel y drafodaeth am raglen de Cymru a'r cynllun dilynol i greu'r tri chynghrair wedi bod yn broses lle y cafwyd ymgysylltiad enfawr ymhlith clinigwyr sy'n ffurfio'r cynllun ac yn sgîl hynny, ymhlith aelodau o'r cyhoedd sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y cynllun—y nifer fwyaf o bobl erioed i ymateb i ymarfer ymgynghori ar faterion iechyd yn hanes y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Felly mae'r pwynt y mae Bethan Jenkins yn ei wneud yn bwysig wrth gwrs, ynglŷn â gwneud yn siŵr fod pobl sydd â chyfraniad i'w wneud at greu cynghreiriau yn gallu gwneud hynny, ond nid wyf yn credu y gallai unrhyw un ddadlau nad yw rhaglen de Cymru eisoes yn enghraifft dda iawn o'r hyn sydd angen ei gyflawni.

13:42 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

A cornerstone of the programme is, of course, the ambulance service and I am sure that you would join me in congratulating Cwm Taf Local Health Board with regard to its eight minutes and 43 seconds-handover time, which is well below the 15-minute target. That deserves recognition. However, we are still to see the same level of progress in respect of ambulance emergency calls performance. Could you outline the steps that are being taken to improve those, particularly within the Rhondda Cynon Taf area?

Un o gonglfeini'r rhaglen yw'r gwasanaeth ambiwlans wrth gwrs, ac rwy'n siŵr y byddech yn ymuno â mi i longyfarch Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ar ei amser trosglwyddo o wyth munud a 43 eiliad sy'n llawer is na'r targed 15 munud. Mae hynny'n haeddu cydnabyddiaeth. Fodd bynnag, rydym yn dal i aros i weld yr un lefel o gynnydd mewn perthynas â pherfformiad galwadau brys am wasanaeth ambiwlans. A allwch amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i wella hynny, yn enwedig yn ardal Rhondda Cynon Taf?

13:42 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much share Mick Antoniw's congratulations to Cwm Taf health board for what it has achieved over this winter in reducing ambulance handover times. It is an example to the rest of Wales of the way that this can be done. What the central alliance does is to bring Cardiff and Cwm Taf together, and there is no doubt that some of the difficulties that have been experienced with ambulance services in the Cwm Taf area have been created over this winter by the temporary arrangements at accident and emergency services at the Heath hospital in Cardiff, which is moving to its new accommodation. Ambulances held up there have had a knock-on effect in Cwm Taf, and the alliance will help to put that right.

Rwy'n ategu llongyfarchiadau Mick Antoniw i fwrdd iechyd Cwm Taf am yr hyn y mae wedi'i gyflawni dros y gaeaf o ran lleihau amseroedd trosglwyddo o ambiwlans. Mae'n esiampl i weddill Cymru o'r ffordd y gellir gwneud hyn. Yr hyn y mae'r cynghrair canolog yn ei wneud yw dod â Chaerdydd a Chwm Taf at ei gilydd ac nid oes amheuaeth fod rhai o'r anawsterau a brofwyd gyda gwasanaethau ambiwlans yn ardal Cwm Taf wedi'u creu dros y gaeaf gan y trefniadau dros dro yng ngwasanaethau adrannau damweiniau ac achosion brys ysyby'r Waun yng Nghaerdydd sy'n symud i'w hadeiladau newydd. Cafodd ambiwlansys a wynebodd oedi yno effaith ganlyniadol yng Nghwm Taf a bydd y cynghrair yn helpu i unioni hynny.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 4, OAQ(4)0426(HSS), is withdrawn. Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ (4) 0426 (HSS), yn ôl.

Perfformiad y GIG

NHS Performance

13:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad y GIG yng Nghymru? OAQ(4)0424(HSS) *5. Will the Minister make a statement on NHS performance in Wales? OAQ(4)0424(HSS)*

13:43 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We monitor closely 43 areas of NHS performance. Over the last year, 29 of these have shown either sustained or improved performance.

Rydym yn gwneud gwaith monitro manwl ar 43 o feysydd perfformiad y GIG. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 29 o'r rhain wedi cynnal eu perfformiad neu wedi'i wella.

13:43 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

One of those areas that have not shown significant improvement is ambulance response times, where recent figures show yet another month of missed ambulance performance targets. That is despite the fact that Wales has a lower target than other parts of the UK. Obviously, it is important that ambulances are able to respond in emergencies. Given that there were reports yesterday in the media of individual households in north Wales calling ambulances on almost a daily basis, with very few of those calls resulting in conveyance to hospital, what action will you take through the opportunity presented in the public health (Wales) Bill to make patients take more responsibility for the way in which they use the NHS?

Un o'r meysydd nad ydynt wedi dangos gwelliant sylweddol yw amseroedd ymateb ambiwlansys, lle mae ffigurau diweddar yn dangos mis arall eto o fetu â chyrraedd targedau perfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod targed Cymru yn is na rhannau eraill o'r DU. Yn amlwg, mae'n bwysig bod ambiwlansys yn gallu ymateb mewn argyfwng. O gofio bod adroddiadau yn y cyfryngau ddoe am aelwydydd unigol yng ngogledd Cymru yn galw am ambiwlansys bron yn ddyddiol, gydag ond ychydig iawn o'r galwadau hynny'n arwain at gludo i'r ysybyty, pa gamau a roddwch ar waith yn sgîl y cyfle sy'n deillio o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) i wneud i gleifion gymryd mwy o gyfrifoldeb am y ffordd y maent yn defnyddio'r GIG?

13:44

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for the points that he made yesterday in relation to those figures that were published about the use of ambulances in north Wales, where one single household was reported as having called an ambulance on 270 different occasions. There is work going on within the Welsh Ambulance Service NHS Trust and in accident and emergency departments to track and identify a small number of people who make very high-volume use of those services. In the past, that has simply been allowed to be responded to on a time-by-time basis. What they are now doing is going to see those households, trying to find what underlies that pattern of use, and putting right the problem that causes it. As a result, they have had some very big success in reducing those calls. However, undoubtedly, the Member is right to say that all of us have a duty to make responsible use of these services, and some of the figures that were published yesterday show that that is not universally respected.

Diolch i Darren Millar am y pwyntiau a wnaeth ddoe mewn perthynas â'r ffigurau a gyhoeddwyd am y defnydd o ambiwlansys yng ngogledd Cymru, lle y soniwyd bod un aelwyd wedi galw am ambiwlans ar 270 o wahanol achlysuron. Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i olrhain a chanfod nifer fach o bobl sy'n gwneud defnydd trwm iawn o'r gwasanaethau hynny. Yn y gorffennol, gadawyd iddynt ymateb i hyn ar sail digwyddiadau unigol. Yr hyn y maent yn ei wneud yn awr yw mynd i weld y cartrefi hynny, ceisio dod o hyd i beth sydd wrth wraidd y patrwm defnydd ac unioni'r broblem sy'n ei achosi. O ganlyniad, maent wedi cael llwyddiant mawr yn lleihau'r galwadau hynny. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn sicr yn iawn i ddweud bod dyletswydd ar bob un ohonom i wneud defnydd cyfrifol o'r gwasanaethau hyn ac mae rhai o'r ffigurau a gyhoeddwyd ddoe yn dangos nad yw pawb yn parhau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What progress has been made in reducing delayed transfers of care in Wales?

Pa gynnydd a wnaed o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwyn Price for that question and the two points are in many ways connected, because the ability of ambulances to do their job and to hand over patients in a timely fashion is connected to the back-door ability of the hospital to discharge people in a timely fashion. What we have seen is a 30% fall over the last five years in delayed transfers of care in Wales—a 7% fall in the last year alone. Numbers are now at an all-time low and the figures published last week showed that the median number of days delayed by any one person has fallen below 20 for the first time since records have been collected.

Diolch i Gwyn Price am y cwestiwn ac mae'r ddau bwynt yn gysylltiedig mewn nifer o ffyrdd gan fod gallu ambiwlansys i wneud eu gwaith ac i drosglwyddo cleifion yn amserol yn gysylltiedig â gallu drws cefn yr ysbyty i ryddhau pobl yn amserol. Yr hyn rydym wedi'i weld yw 30% o ostyngiad dros y pum mlynedd diwethaf yn lefel yr oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru—gostyngiad o 7% yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig. Mae'r niferoedd yn awr yn is nag y buont erioed ac mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn dangos bod nifer canolrifol y dyddiau o oedi ar gyfer unrhyw unigolyn wedi disgyn islaw 20 am y tro cyntaf ers i gofnodion gael eu cadw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych yn ymwybodol bod perfformiad NHS Cymru gymaint gwaeth na pherfformiad yr NHS yn yr Alban a Lloegr yng nghyd-destun amseroedd aros am brofion diagnostig. Er enghraifft, mae 97% o bobl yn cael colonosgopi o fewn chwe wythnos yn Lloegr a 93% yn yr Alban, ond dim ond 52% sy'n cael y prawf o fewn chwe wythnos yng Nghymru. Dim ond 82%, gyda llaw, sydd yn ei gael o fewn 18 wythnos yng Nghymru. A allwch chi esbonio i ni y prynhawn yma pam mae'r perfformiad a'r amseroedd aros hyn gymaint hirach yng Nghymru nag ydynt yn yr Alban ac yn Lloegr?

Minister, you will be aware that the performance of the NHS in Wales is so much worse than that in Scotland and in England in the context of waiting times for diagnostic testing. If we take colonoscopy as an example, 97% of people are given a colonoscopy within six weeks in England, while the figure stands at 93% in Scotland. However, the figure for those receiving a colonoscopy within six weeks in Wales is only 52%, and only 82% receive the test within 18 weeks in Wales. Can you explain to us this afternoon why these waiting times are so much longer in Wales than they are in Scotland or in England?

13:47

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dweud fwy nag unwaith yn y Siambr nad ydwyf yn hapus gyda'n ffigurau ar brofion diagnostig. Rydym wedi gweld y sefyllfa yn gwella yn y misoedd sy'n ffinio â'r flwyddyn ariannol diwethaf. Rwyf wedi rhoi £4 miliwn newydd i'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru a £1 filiwn mewn cyfalaf i'w helpu i wella'r ffigurau. Rwyf yn hyderus y byddwn yn gweld y sefyllfa'n gwella'n gyflym dros y misoedd nesaf.

I have said on more than one occasion in the Chamber that I am not happy with our figures as regards diagnostics. We have seen the situation improving in those months bordering the last financial year. I have put an additional £4 million into the services in Wales, and £1 million in capital funding to assist the service to improve these figures. I am confident that, over the ensuing months, we will see the situation improving, and improving swiftly.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf yn ymwybodol o'r ymyriad a'r arian yr ydych chi wedi'i glustnodi, a chroesawaf hynny. Efallai y gallwch chi esbonio i ni'r prynhawn yma ai un ymyrraeth ac arian ar gyfer un flwyddyn yn unig yw hyn neu a ydyw'n arian blynyddol a fydd yn cynyddu capasiti diagnostig yng Nghymru dros gyfnod hirach. Efallai y gallwch chi roi rhyw amcan i ni o bryd yr ydych yn credu y gallwn ni ddisgwyl gweld dros 90% o gleifion Cymru yn cael rhai o'r profion diagnostig hyn o fewn chwe wythnos.
- I am aware of the intervention and the funding that you have allocated, and I welcome that. Perhaps you could explain to us this afternoon whether this is one intervention and funding for one year, or whether it is annual funding that will increase the diagnostic capacity in Wales over a longer period. Perhaps you could also give us some suggestion as to when you believe we should expect to see more than 90% of Welsh patients being given some of these diagnostic tests within six weeks.
- 13:48 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Let me be clear: the money is intended to, in the first place, clear the backlog of people who have been waiting too long. The capital money in particular is to allow redesign of some key services and to improve the premises from which some key services are provided so that we reach a point when all of those people who we expect to be seen within eight weeks—as that is the target time that we have here in Wales—are seen in that timely fashion. We will discuss with health boards once that work has been completed whether further ongoing investment is needed to keep the figures at the level at which they need to be. However, the money that I have announced so far is to make sure that we get to that steady state.
- Gadewch i mi fod yn glir: yn y lle cyntaf, bwriad yr arian yw clirio'r ôl-groniad o bobl sydd wedi bod yn aros yn rhy hir. Mae'r arian cyfalaf yn arbennig yn caniatáu inni ailgynllunio rhai gwasanaethau allweddol a gwella safleoedd lle darperir rhai gwasanaethau allweddol er mwyn i ni gyrraedd pwynt pan fydd yr holl bobl hynny rydym yn disgwyl eu gweld o fewn wyth wythnos—gan mai dyna'r targed amser yma yng Nghymru—yn cael eu gweld yn yr un modd amserol. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, byddwn yn trafod gyda byrddau iechyd i weld a oes angen buddsoddiad parhaus pellach i gadw'r ffigurau ar y lefel angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'r arian a gyhoeddais hyd yn hyn ar gyfer gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau sefydlogrwydd o'r fath.
- 13:49 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will know that despite the positive experiences of many people in Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board hospitals, a number of patients and their families remain dissatisfied by the treatment that they have had in those hospitals. They are seeking a further investigation into what happened to them and others who are associated with that treatment. You will know that there is an inquiry going on. Could you give an indication of when that inquiry will be reporting and whether it will take into account the historical complaints that have arisen from ABMU and the action group that has been set up?
- Weinidog, er bod llawer o bobl yn ysbytai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cael profiadau cadarnhaol, gwyddoch fod nifer o gleifion a'u teuluoedd yn dal yn anfodlon â'r driniaeth a gawsant yn yr ysbytai hynny. Maent yn gofyn am ymchwiliad pellach i'r hyn a ddigwyddodd iddynt ac i eraill sy'n gysylltiedig â'r driniaeth honno. Gwyddoch fod ymchwiliad ar y gweill. A allwch roi syniad inni pryd y cyflwynir adroddiad ar yr ymchwiliad ac a fydd yn ystyried y cwynion hanesyddol sydd wedi codi ym mwrdd iechyd Prifysgol Abertawe a Bro Morgannwg a'r grŵp gweithredu a sefydlwyd?
- 13:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The terms of reference for the June Andrews review are very clear, in that she was able to look back in time as well as look at the position in the two hospitals as it is today. The First Minister was clear in answering questions yesterday that we expect to publish that report very shortly.
- Mae cylch gorchwyl adolygiad June Andrews yn eglur iawn yn yr ystyr ei bod wedi gallu edrych yn ôl mewn amser yn ogystal ag edrych ar y sefyllfa yn y ddau ysbyty fel y mae heddiw. Roedd y Prif Weinidog yn glir wrth ateb cwestiynau ddoe ein bod yn disgwyl cyhoeddi'r adroddiad hwnnw'n fuan iawn.

Amseroedd Targed Triniaeth Cancer

Cancer Treatment Target Times

- 13:50 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
6. *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd targed triniaeth gofal cancer yng Nghymru?* OAQ(4)0432(HSS)
6. *Will the Minister make a statement on cancer care treatment target times in Wales?* OAQ(4)0432(HSS)

- 13:50 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Sandy Mewies for that question. Cancer waiting times in Wales remain among the best in the United Kingdom. The period since October 2013 has seen the best sustained performance in the Welsh NHS since January 2011. Today, with the assistance of leading cancer clinicians, I have published plans for further improvements to waiting time targets in this area.
- Diolch i Sandy Mewies am y cwestiwn. Mae amseroedd aros cancer yng Nghymru yn parhau i fod ymhlith y gorau yn y Deyrnas Unedig. Yn y cyfnod ers mis Hydref 2013 y bu'r perfformiad cyson gorau yn y GIG yng Nghymru ers mis Ionawr 2011. Heddiw, gyda chymorth clinigwyr cancer blaenllaw, rwyf wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer gwella targedau amseroedd aros yn y maes hwn ymhellach.
- 13:50 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that, Minister. The statistics show that not only do more cancer patients receive their treatment within the target time in Wales than in England, but that cancer survival rates are improving, with a 14% rise in the one-year survival rate and a 15% rise in the five-year survival rate. In Wales, 89% of patients rated their care as 'excellent' or 'very good', with just 1% saying that it was poor. Minister, it is clear that Wales is leading the way on improving access to cancer treatment. However, what support is being given to aid research into finding a cure for this multifaceted disease?
- Diolch i chi, Weinidog. Mae'r ystadegau'n dangos nid yn unig fod mwy o gleifion cancer yn cael triniaeth o fewn y targed amser yng Nghymru nag yn Lloegr, ond bod y cyfraddau goroesi cancer yn gwella, gyda chynnydd o 14% yn y cyfraddau goroesi blwyddyn a chynnydd o 15% yn y cyfraddau goroesi pum mlynedd. Yng Nghymru, roedd 89% o gleifion o'r farn fod eu gofal yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn', gyda dim ond 1% yn dweud ei fod yn wael. Weinidog, mae'n amlwg fod Cymru yn arwain y ffordd o ran gwella mynediad at driniaeth cancer. Fodd bynnag, pa gefnogaeth sy'n cael ei roi i gynorthwyo ymchwil i ddod o hyd i wellhad ar gyfer y clefyd amlweddog hwn?
- 13:51 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Sandy Mewies for the points that she has made. They will be heard loud and clear among those members of staff who work so hard to secure the improved service that we see in Wales, and it will be appreciated by them. She is absolutely right to point to the need for us to focus on research into new ways of treating cancer. That is why it is such good news that the number of people taking part in cancer trials in Wales has risen by 5% in the last year, exceeding the target that was set for that. In the last 12 months, we saw a 3.4% increase in tissue donations to the cancer bank, a cancer bank that is not just a national resource in Wales or even a national resource in the United Kingdom, but an international, leading resource. People's willingness in Wales to contribute to that and to put themselves forward for trials is a very clear indication of their willingness to be part of research efforts at present and in the future.
- Diolch i Sandy Mewies am y pwyntiau a wnaeth. Byddant yn cael eu clywed yn eglur a'u gwerthfawrogi gan yr aelodau o staff sy'n gweithio mor galed i sicrhau'r gwasanaeth gwell a welwn yng Nghymru. Mae hi'n gwbl gywir i dynnu sylw at yr angen i ni ganolbwyntio ar ymchwil i ffyrdd newydd o drin cancer. Dyna pam y mae'n newydd cystal fod nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn treialon cancer yng Nghymru wedi codi 5% yn y flwyddyn ddiwethaf gan ragori ar y targed a osodwyd ar gyfer hynny. Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelsom gynnydd o 3.4% yng nghyfradd cyfraniadau meinwe i'r banc cancer, banc cancer sydd nid yn unig yn adnodd cenedlaethol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, ond hefyd yn adnodd rhyngwladol blaenllaw. Mae parodrwydd pobl yng Nghymru i gyfrannu iddo ac i gynig eu hunain ar gyfer treialon yn arwydd clir iawn o'u parodrwydd i fod yn rhan o ymdrechion ymchwil ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- 13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, Darren Millar. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Darren Millar.
- 13:52 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, in spite of the self-congratulatory tone of the response that you have just given to Sandy Mewies's question, there are particular problems with people waiting for urgent cancer treatment via the urgent suspected cancer route. That target has not been met since 2008, in spite of promises by the First Minister on two occasions that the target would be met by March 2013—a promise that was broken—and then by October 2013. You have today announced the potential abolition in the future of that particular target, and a single treatment pathway with a different target instead. Can you put a bit more meat on the bones of that and flesh out precisely what your intentions are?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, er gwaethaf y tueddiad i longyfarch eich hunain yn yr ymateb rydych newydd ei roi i gwestiwn Sandy Mewies, mae problemau penodol yn codi gyda phobl sy'n aros am driniaeth cancer frys drwy'r llwybr ar gyfer achosion brys yr amheuir bod cancer arnynt. Nid yw'r targed wedi'i gyrraedd ers 2008 er gwaethaf addewidion gan y Prif Weinidog ar ddau achlysur y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd erbyn mis Mawrth 2013—addewid a dorwyd—yna erbyn mis Hydref 2013. Rydych wedi cyhoeddi heddiw y gallai'r targed penodol hwnnw gael ei ddiddymu yn y dyfodol a sefydlu llwybr triniaeth sengl gyda tharged gwahanol yn lle hynny. A allwch roi ychydig mwy o gig ar yr esgyrn a disgrifio'n union beth yw eich bwriadau?

13:53 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for that question. There is nothing wrong at all with congratulating services in the Welsh NHS when they do such a fine job. Sometimes, Members on the Conservative party benches would do well to remember that, because their views are also heard by people who work in the NHS. However, I am grateful for the opportunity— [Interruption.]

Diolch i Darren Millar am y cwestiwn. Nid oes dim o gwbl o'i le ar longyfarch gwasanaethau'r GIG yng Nghymru am wneud gwaith mor wych. Weithiau, byddai'n werth i Aelodau meinciau'r Blaid Geidwadol gofio hynny am fod eu safbwyntiau'n cael eu clywed hefyd gan bobl sy'n gweithio yn y GIG. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar am y cyfle—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:53 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity that Darren Millar's question has given me to put on record what has been announced today. It should have come as no surprise to Members, because I have said on more than one occasion in the past that we intended to bring forward these proposals. It might be useful to spend a moment reminding Members of the history of this.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle a roddodd cwestiwn Darren Millar i mi i gofnodi'r hyn a gyhoeddwyd heddiw. Ni ddylai fod yn syndod i'r Aelodau oherwydd fy mod wedi dweud ar fwy nag un achlysur yn y gorffennol ein bod yn bwriadu cyflwyno'r cynigion hyn. Gallai fod yn werth treulio munud yn atgoffa'r Aelodau o'r hanes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Last year, I received a letter from leading cancer clinicians in many parts of Wales saying that they believed that there was a better way of measuring the way that we provide services for patients that would improve the outcomes for those patients. They asked me whether I was prepared, as Minister for health, to work with them on designing a new way of doing things that would lead to that improvement. I cannot imagine that anyone in this Chamber would think that it would have been a good idea to have turned down that offer from our leading cancer clinicians. As a result of the work that they have been leading—and it has been led by clinicians themselves—what I have announced today, to answer Darren Millar's question, is a pilot project. It is not even a pilot project on something that has been finally agreed; it is a pilot project to test some of the ideas for improvement that those clinicians have devised. We will run it not instead of, but alongside the system that we have at the moment. So, everything that we report now will continue to be reported while this pilot project and testing period is being carried out. It will last for six months. At the end, if clinicians are clear with me that they are sure that there will be things that they will want to look at again and to make further suggestions to us upon, they will report on that to me and I will report on that to the Assembly Chamber.

Y llynedd, cefais lythyr gan glinigwyr canser blaenllaw mewn sawl rhan o Gymru yn dweud eu bod yn credu bod ffyrdd gwell o fesur y ffordd y rydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion a fyddai'n gwella'r canlyniadau ar gyfer y cleifion hynny. Gofynnwyd i mi a oeddwn yn barod, fel y Gweinidog iechyd, i weithio gyda hwy ar lunio ffordd newydd o wneud pethau a fyddai'n arwain at y gwelliant hwnnw. Ni allaf ddychmygu y byddai unrhyw un yn y Siambr hon yn meddwl y byddai wedi bod yn syniad da i mi wrthod cynnig o'r fath gan ein clinigwyr canser mwyaf blaenllaw. O ganlyniad i'r gwaith y maent wedi bod yn ei arwain—a'r clinigwyr eu hunain sydd wedi bod yn ei arwain—i ateb cwestiwn Darren Millar, prosiect peilot yw'r hyn rwyf wedi'i gyhoeddi heddiw. Nid yw hyd yn oed yn brosiect peilot ar ryw beth sydd wedi'i gytuno'n derfynol; prosiect peilot ydyw i brofi rhai o'r syniadau ar gyfer gwella a ddyfeisiwyd gan y clinigwyr hynny. Byddwn yn ei gynnal ochr yn ochr â'r system sydd gennym ar hyn o bryd yn hytrach nag yn ei lle. Felly bydd popeth rydym yn adrodd yn ei gylch yn awr yn parhau i gael ei adrodd tra bydd y prosiect peilot a'r cyfnod profi ar waith. Bydd yn para am chwe mis. Ar y diwedd, os yw clinigwyr yn dweud wrthyf yn eglur eu bod yn sicr yn awyddus i edrych ar rai pethau eto ac i wneud awgrymiadau pellach, byddant yn rhoi gwybod i mi a byddaf innau'n rhoi gwybod i Siambr y Cynulliad.

13:55

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, no matter what way you try to dress it up, it is an admission of failure because you have failed to achieve or hit the targets for so many years. It is hardly surprising that 15,000 people per annum are now fleeing Wales to seek treatment over the border in England. The figure has quadrupled over the past decade. Will you accept that one of the biggest challenges faced by patients is access to cancer treatments in terms of the drugs that they have available? What is your response to the high-quality research by Bristol university, which was published last week—in fact, published earlier this month—and which made it quite clear that Welsh patients are now seven times less likely to be able to access a cohort of cancer drugs that are available through the cancer drugs fund in England. Will you now concede that there is a need for a similar fund to be established in Wales in order to maximise the benefits that people are able to experience from access to modern cancer treatments?

Weinidog, pa bynnag golur a rowch arno, cyfaddefiad o fethiant yw hyn am eich bod wedi methu â chyrraedd y targedau ers cymaint o flynyddoedd. Prin ei bod yn syndod fod 15,000 o bobl y flwyddyn bellach yn ffoi o Gymru i geisio triniaeth dros y ffin yn Lloegr. Mae'r ffigur wedi cynyddu bedair gwaith yn ystod y degawd diwethaf. A ydych yn derbyn mai un o'r heriau mwyaf y mae cleifion yn ei hwynebu yw mynediad at driniaethau cancer o ran y cyffuriau sydd ar gael iddynt? Beth yw eich ymateb i'r ymchwil safonol gan brifysgol Bryste a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf-a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn mewn gwirionedd noda'i'n gwbl eglur fod cleifion Cymru bellach saith gwaith yn llai tebygol o allu cael mynediad at lu o gyffuriau cancer sydd ar gael drwy'r gronfa gyffuriau cancer yn Lloegr. A wnewch chi gyfaddef yn awr fod angen sefydlu cronfa debyg yng Nghymru er mwyn gwneud y gorau o'r manteision y gall mynediad at driniaethau cancer modern eu cynnig i bobl?

13:56

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do think that it is a terrible shame when a Member here asks a sensible question, receives a sensible answer to it, then takes absolutely no notice of what he has been told and, instead, departs into those realms of fantasy politics in which his party is such a devotee. Let me deal with his last point first. As it happens, I have here a copy of the article to which he referred. I noticed that he did not tell the Chamber that it describes the cancer drugs fund in England as ethically dubious, clinically highly contentious, and unsupported by the public. [Assembly Members: 'Oh'.] I noticed that he did not tell us that, but it is all here in the copy that I have and which I have actually read. That is what the researchers conclude about the fund that he is so keen for us to set up in Wales.

Credaf ei bod yn drueni enbyd pan fo Aelod yn gofyn cwestiwn synhwyrol, yn derbyn ateb synhwyrol iddo ac yna'n cymryd dim sylw o gwbl o'r hyn a ddywedwyd wrtho gan ymroi, yn lle hynny, i'r wleidyddiaeth ffantasiol y mae ei blaid yn ei ffafrio cymaint. Gadewch i mi ymdrin â'r pwynt olaf yn gyntaf. Fel y mae'n digwydd, mae gennyf gopi o'r erthygl y cyfeiriodd ati. Sylwais na ddywedodd wrth y Siambr ei bod yn disgrifio'r gronfa gyffuriau cancer yn Lloegr fel un sy'n amheus yn foesebol, yn ddadleuol iawn yn glinigol ac un nad oes cefnogaeth iddi ymhlith y cyhoedd. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Sylwais na ddywedodd hynny wrthym ond mae'r cyfan yma yn y copi sydd gennyf ac rwyf i wedi'i ddarllen. Dyna gasgliadau'r ymchwilyr ynglŷn â'r gronfa y mae mor awyddus i ni ei sefydlu yng Nghymru.

Let me tell you what else it says. It compares the cancer drugs fund in England with the way that we deal with cancer drugs in Wales. It tells you that, in England, you are more likely to get access to drugs that have not been approved and are not thought to be effective by NICE. In Wales, you get faster access than you do in England to drugs that have been approved and are thought to be effective by NICE. What would you rather have as a patient? Faster access to drugs that do not have a record and are not effective, or drugs that do have a successful record and are effective? I can tell you what I would prefer if I was a patient. [Interruption.]

Gadewch i mi ddweud wrthych beth arall y mae'n ei ddweud. Mae'n cymharu'r gronfa gyffuriau cancer yn Lloegr â'r ffordd rydym yn ymdrin â chyffuriau cancer yng Nghymru. Mae'n dweud wrthych eich bod yn fwy tebygol yn Lloegr o gael mynediad at gyffuriau heb eu cymeradwyo, cyffuriau nad yw NICE yn eu hystyried yn effeithiol. Yng Nghymru, rydych yn cael mynediad cyflymach nag a gewch yn Lloegr at gyffuriau sydd wedi cael eu cymeradwyo, cyffuriau y mae NICE yn eu hystyried yn effeithiol. Beth fyddai'n well gennych ei gael fel claf? Mynediad cyflymach at gyffuriau aneffeithiol heb hanes o lwyddiant neu gyffuriau effeithiol sydd â hanes o lwyddiant? Gallaf ddweud wrthych beth fyddai orau gennyf fi pe bawn i'n glaf. [Torri ar draws.]

13:58

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order. I think that the Minister is answering questions fairly. I think that the background noise does not help and, so, you cannot always hear what is being said. I now call Elin Jones.

Trefn. Credaf fod y Gweinidog yn ateb cwestiynau'n deg. Nid wyf yn meddwl fod y sŵn cefndir yn helpu ac ni allwch glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud bob amser. Galwaf yn awr ar Elin Jones.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych chi wedi cadarnhau y prynhawn yma y byddwch chi'n rhedeg cynllun peilot ar newid y gyfundrefn ar dargedau canser. Diolch ichi am gadarnhau hynny i ni yma. Yr oedd eich swyddogion wedi briffio'r wasg, ac fe ryddhach chi ddatganiad i'r wasg am hanner dydd heddiw. Yn wir, mae'r cynllun hwn yn weithredol, mae'n debyg yn ôl y datganiad i'r wasg, ers 1 Mai, ers wythnos diwethaf. Rwy'n rhyfeddu braidd na wnaethoch chi, eto fyth, roi datganiad ffurfiol i ni cyn cwestiynau'r prynhawn yma fel y gallem fod wedi cynnal 'scrutiny' o ddifrif arnoch chi ar hyn.

Minister, you have confirmed this afternoon that you are going to run a pilot on changing the cancer target system. Thank you for confirming that to us here. Your officials have briefed the press and you released a press statement at midday today. In fact, it seems that, according to that press release, this scheme has been implemented since 1 May, which was last week. I am rather stunned that, once again, you did not give us a formal statement before today's questions so that we could have scrutinised you seriously on this.

Yn sgîl yr hyn yr ydych chi newydd ei ddweud wrth Darren Millar, sef eich bod yn bwriadu parhau i redeg y cynllun peilot hwn ochr yn ochr â'r gyfundrefn bresennol am y chwe mis nesa, tan ichi gymryd penderfyniad terfynol, a wnewch chi gadarnhau y prynhawn yma taw eich bwriad chi, hyd yn oed yn y tymor hir, waeth beth fydd eich penderfyniad ymhenn chwe mis, i barhau i ryddhau a chadw data am y gyfundrefn 31 diwrnod a 62 diwrnod, fel y gall cymharu bosibl fodoli gyda systemau NHS eraill yng ngwledydd Prydain yn unol ag argymhelliad pwysig adroddiad Nuffield yn ddiweddar, sef adroddiad a groesawyd gennyh?

Following on from what you have just said to Darren Millar, namely that you intend to continue to run this pilot scheme alongside the current system over the ensuing six months, until you take a final decision, will you confirm this afternoon that your intention in the long run, whatever your decision may be in six months' time, is to continue to release data and collect data about the 31-day and 62-day regimes so that we can make comparisons with other NHS systems in the United Kingdom, in accordance with the important recommendation made in the recent Nuffield report, which you welcomed?

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What I can say to the Member is that while we are in this developmental phase—and it is something that we will do carefully, and we will take all the time necessary to develop something better than we have now—we will continue to report what we report at the moment. Where she is mistaken, I believe, is in thinking that what we have now is comparable to places in other parts of the United Kingdom, because it is not. We are not comparing like with like, even on the 62 and 31-day targets. If clinicians were, in the end, in all seriousness, to say to us in this Chamber that there is a better way of measuring things that provides more effective services to patients, would that not be a more persuasive argument than simply wanting to stick to things that clinicians tell us do not deliver better services to patients? However, for the foreseeable future, while we are doing this in a developmental way, we will continue to report as we have in the past, as well as providing Members with all the new information that will come from the work that clinicians are now leading.

Tra ein bod yn y cyfnod datblygiadol hwn—ac mae'n rhywbeth y byddwn yn ei wneud yn ofalus gan gymryd yr holl amser sydd ei angen i ddatblygu rhywbeth gwell na'r hyn sydd gennym yn awr—yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod yw y byddwn yn parhau i adrodd ar yr hyn rydym yn adrodd yn ei gylch ar hyn o bryd. Credaf ei bod yn camgymryd wrth feddwl bod yr hyn sydd gennym yn awr yn debyg i leoedd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig oherwydd nid yw hynny'n wir. Nid ydym yn cymharu tebyg at ei debyg, hyd yn oed ar y targedau 62 a 31 diwrnod. Yn y pen draw, pe bai clinigwyr yn dweud wrthym mewn difrif yn y Siambr hon fod yna ffordd well o fesur pethau a fyddai'n darparu gwasanaethau mwy effeithiol i gleifion, oni fyddai honno'n ddadl fwy argyhoeddiadol na bod eisiau cadw at bethau y mae clinigwyr yn dweud wrthym nad ydynt yn darparu gwasanaethau gwell i gleifion? Ar gyfer y dyfodol agos fodd bynnag, er ein bod yn gwneud hyn mewn modd datblygiadol, byddwn yn parhau i adrodd fel y gwnaethom yn y gorffennol, yn ogystal â chyflwyno'r holl wybodaeth newydd a ddaw o'r gwaith y mae clinigwyr yn ei arwain ar hyn o bryd i'r Aelodau.

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the Welsh Government's current cancer waiting time targets focus on the wait between diagnosis and treatment beginning, but, of course, from the patient's perspective, that journey begins way back, at the GP's surgery, when they are told that a cancer is suspected and that they have being referred for diagnostic testing. If the new measurement regime is to be an improvement on what has gone before, and if you want it to lead to better information for policy makers and better outcomes for those patients, will you agree to include targets and monitoring for that waiting time between referral and diagnostic testing beginning, specifically where a cancer is suspected?

Weinidog, mae targedau amseroedd aros canser cyfredol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr amser aros rhwng diagnosis a dechrau triniaeth ond wrth gwrs, o safbwynt y claf, mae'r daith yn dechrau ymhell cyn hynny ym meddygfa'r meddyg teulu, pan fyddant yn cael gwybod bod amheuaeth o ganser a'u bod wedi'u cyfeirio i gael profion diagnostig. Os yw'r drefn newydd o fesur yn mynd i fod yn welliant ar yr hyn a fu o'r blaen ac os ydych am iddi arwain at well gwybodaeth ar gyfer llunwyr polisi a gwell canlyniadau ar gyfer y cleifion hynny, a wnewch chi gytuno i gynnwys targedau a monitro ar gyfer y cyfnod aros rhwng cyfeirio a dechrau profion diagnostig, yn benodol lle y ceir amheuaeth o ganser?

14:01

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is an important point that the Member makes about the performance of primary care in relation to cancer services. We have already begun to do some of the work that she has pointed to this afternoon. In the new GP contract that we have agreed with GPs in Wales, which began on 1 April, we have a new agreement that all GPs will participate in a national care pathway to review the care of all patients newly diagnosed, between 1 January this year and 31 December this year, with lung or digestive system cancer. We decided to focus on those two because they are some of the places where the cancer experience survey told us that people had some of the less satisfactory experiences. We will use the work that we will do there to try to capture some of the data that Eluned Parrott has referred to this afternoon, because it is absolutely clear that if you want to get the best outcomes for patients, you have to make sure that primary care is quick to act, quick to spot cancer when that may be the risk, and then to put the rest of the system into action.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig am berfformiad gofal sylfaenol mewn perthynas â gwasanaethau cancer. Rydym eisoes wedi dechrau gwneud rhywfaint o'r gwaith y mae hi wedi tynnu sylw ato y prynhawn yma. Yn y contract newydd i feddygon teulu rydym wedi'i gytuno â meddygon teulu yng Nghymru a ddechreuodd ar 1 Ebrill, mae gennym gytundeb newydd y bydd pob meddyg teulu yn cymryd rhan mewn llwybr gofal cenedlaethol rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr eleni i adolygu gofal yr holl gleifion sydd newydd gael diagnosis o ganser yr ysgyfaint neu ganser y system dreulio. Penderfynwyd canolbwyntio ar y ddau fath hwn gan mai dyma rai o'r lleoedd lle y caiff pobl rai o'r profiadau llai boddhaol yn ôl yr arolwg o brofiad cleifion cancer. Byddwn yn defnyddio'r gwaith a wnawn i geisio casglu peth o'r data y cyfeiriodd Eluned Parrott ato y prynhawn yma gan ei bod yn gwbl glir, os ydych am sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion, fod yn rhaid sicrhau bod gofal sylfaenol yn gweithredu'n gyflym, yn datgelu cancer yn gyflym pan y gallai fod yn risg, yna rhoi gweddill y system ar waith.

14:03

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am sure that no-one in this Chamber can deny the Government's commitment to cancer care following the announcement yesterday of the £200 million to develop Velindre Cancer Centre. However, moving on to the waiting lists, does the Minister agree that it is very important that the developments that he has announced today have actually been led by clinicians, such as Tom Crosby from Velindre hospital, and that he is responding to a medically led request?

Rwy'n siŵr na all unrhyw un yn y Siambr hon wadu ymrwymiad y Llywodraeth i ofal cancer yn dilyn y cyhoeddiad ddoe am y £200 miliwn i ddatblygu Canolfan Ganser Felindre. Fodd bynnag, gan symud ymlaen at y rhestrau aros, a yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bwysig iawn mai clinigwyr sy'n arwain y datblygiadau a gyhoeddodd heddiw, clinigwyr fel Tom Crosby o ysbyty Felindre, a'i fod yn ymateb i gais dan arweiniad meddygon?

14:03

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank Julie Morgan for that. She is absolutely right to point to the importance of Velindre—a specialist cancer centre that is leading the way on a European level in terms of the quality of the services that it provides. Dr Tom Crosby has been one of the leading clinicians in developing the new ideas that we have put into the public domain today. I was very keen to make sure that he was available to explain to those whose job it is to explain this onwards to members of the public what it is that clinicians are proposing, because this is very much, as Julie Morgan said, a clinically initiated and clinically led initiative.

Diolch i Julie Morgan. Mae hi'n gwbl gywir i dynnu sylw at bwysigrwydd Felindre—canolfan ganser arbenigol sy'n arwain y blaen ar lefel Ewropeaidd o ran ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Dr Tom Crosby yw un o'r clinigwyr arweiniol a fu'n datblygu'r syniadau newydd a gyhoeddwyd gennym heddiw. Roeddwn yn awyddus iawn i wneud yn siŵr ei fod ar gael i egluro i'r rhai sydd â'r gwaith o esbonio hyn i'r cyhoedd beth y mae clinigwyr yn ei gynnig, gan mai menter glinigol yw hon yn wreiddiol a menter dan arweiniad clinigol pendant fel y dywedodd Julie Morgan.

14:04

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nid wyf yn disgwyl sylw ar yr achos unigol, ond mae etholwr i mi wedi bod yn disgwyl am fisoedd i gael archwiliad colonosgopi. Nid oedd y canlyniadau'n eglur, ac mi fydd angen archwiliad pellach, gwahanol. Mae ef bellach wedi mynd yn ôl i waelod y ciw nesaf. Pe bai'n fodlon talu, mi fyddai'r arbenigwr sydd yn ei drin yn fodlon trefnu archwiliad o fewn wythnosau yn yr un ysbyty. Pam y mae'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn goruchwyllo trefn sy'n rhoi gwell gofal iechyd i'r rhai sy'n gallu talu amdano?

I do not expect you to comment on the individual case, but a constituent of mine has been waiting for months for a colonoscopy. The results were not conclusive and there will need to be further investigations. He has now gone to the back of the next queue. If he were willing to pay, the same specialist who is treating him would be willing to arrange a procedure within weeks at the same hospital. Why is the Labour Government overseeing a system that provides better healthcare to those who can pay for it?

14:04

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Clywais yr hyn yr oedd yr Aelod wedi ei ddweud, ond heb weld manylion a chefnidir yr achos y mae'n ei godi, mae'n amhosibl i fi ateb y cwestiwn. Os yw'n dymuno ysgrifennu ataf, achos mae'n codi pethau pwysig—

I heard what the Member said, but without having sight of the details and the background to the case that he is raising, it is impossible for me to answer the question. If he wishes to write to me, because he is raising important issues—

14:05	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae pawb yn gwybod.</p>	<p>Everyone knows.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Wel, nid wyf wedi gweld y manylion o gwbl, ond rwy'n fodlon—os yw'r Aelod yn fodlon ysgrifennu ataf—i edrych i mewn i'r hyn y mae ef wedi ei ddweud ac i'w ateb yn llawn, achos mae'r pwyntiau y mae wedi eu codi yn bwysig.</p>	<p>Well, I have not seen the details at all, but I am happy, if the Member were to write to me, to look into his question and answer him in full, because the points that he has raised are important.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Adnoddau Ambiwllans		Ambulance Resources	
14:05	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adnoddau ambiwlans yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0428(HSS)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on ambulance resources in north Wales? OAQ(4)0428(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch am y cwestiwn. Bydd gogledd Cymru, fel rhannau eraill o'r wlad, yn elwa o benderfyniad cynnar y byrddau iechyd i ddarparu swm ychwanegol o £7.5 miliwn ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol hon.</p>	<p>Thank you for the question. North Wales, like other parts of the country, will benefit from the early decision of the health boards to provide an additional sum of £7.5 million for ambulance services in Wales in this financial year.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch yn fawr iawn am yr ateb. Gallwn roi nifer o enghreifftiau o'r straen sy'n cael ei weld ar y gwasanaeth yn y gogledd—yr etholwraig, er enghraifft, sydd wedi gorfod aros ddwywaith yn ddiweddar yn annerbyniol o hir am ambiwlans ar gyfer ei gŵr—ond yr hyn a wnaef yn hytrach yw sôn am yr hyn y mae staff y gwasanaeth ambiwlans ar Ynys Môn yn ei ddweud wrthyf, sef eu bod yn gorfod treulio mwy a mwy o amser oddi ar yr ynys yn gwasanaethu ardaloedd eraill ar draws gogledd Cymru oherwydd diffyg adnoddau. A yw'r Gweinidog yn cytuno efo fi fod angen adeiladu rhagor o gapasiti i mewn i'r gwasanaeth ambiwlans, yn hytrach na bod y gwasanaeth yn gorfod gweithredu wastad hyd eithaf ei adnoddau, a thu hwnt i'w adnoddau yn gyson?</p>	<p>Thank you very much for that response. I could give you a number of examples of the stress put on the service in north Wales—the constituent of mine, for example, who has had to wait an unacceptably long time for an ambulance for her husband twice recently—but what I will do instead is talk about what the ambulance service staff on Anglesey are telling me, that is, that they have to spend more and more time off the island serving other areas across north Wales because of a shortage of resources. Does the Minister agree with me that we need to build greater capacity into the ambulance service, rather than the service always having to work to the limit of its resources, and beyond its resources regularly?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae'n bwysig i adeiladu ar y pethau sydd wedi digwydd o'r blaen, ac i roi mwy o adnoddau i'r gwasanaeth ambiwlans lle rydym yn gallu gwneud hynny.</p> <p>Across the period of devolution, the number of staff directly employed by the NHS in Wales has risen by 30%. The number of staff employed by the Welsh ambulance service has risen by exactly twice that amount. For every one person who is employed extra in the Welsh NHS, two extra people have been employed by the ambulance service. The extra money that was made available to the Welsh Ambulance Services NHS Trust in the last financial year led to an extra 92 staff being employed over the winter. The £7.5 million that has been agreed early this year as extra resource for the ambulance service will support the recruitment of an additional 119 front-line staff for ambulance services in Wales. North Wales will have its fair share of that extra resource.</p>	<p>It is important to build on past performance and to give more resources to the ambulance service where we can do that.</p> <p>Ar hyd y cyfnod datganoli, mae nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru wedi codi 30%. Mae nifer y staff a gyflogir gan wasanaeth ambiwlans Cymru wedi codi'n union ddwywaith hynny. Am bob person a gyflogir yn ychwanegol yn y GIG yng Nghymru, cyflogwyd dau o bobl ychwanegol gan y gwasanaeth ambiwlans. Arweiniodd yr arian ychwanegol a ryddhawyd i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf at gyflogi 92 o staff ychwanegol dros y gaeaf. Bydd y £7.5 miliwn a gytunwyd yn gynnar eleni fel adnodd ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yn mynd at recriwtio 119 o staff rheng flaen ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru. Bydd gogledd Cymru yn cael ei gyfran deg o'r adnoddau ychwanegol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:07

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, whilst clearly it is good news that numbers are rising in the Welsh ambulance service, there are clearly other bottlenecks that are affecting the ability of ambulances to achieve their waiting time targets. A radiographer at Glan Clwyd recently described 12 ambulances waiting outside the hospital to discharge their patients into A&E. What proportion of the £7.5 million will be looking at the bottlenecks in the system to make sure that there is a smooth transfer? That may well be an explanation as to why ambulances are having to move from Ynys Môn and other parts of north Wales to cover the ground, as it were.

Weinidog, er ei fod yn newydd da fod niferoedd yn codi yn y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru, mae'n amlwg fod tagfeydd eraill yn effeithio ar allu ambiwlansys i gyrraedd eu targedau amser aros. Soniodd radiograffydd yng Nglan Clwyd am un achos yn ddiweddar pan oedd 12 ambiwlans yn aros y tu allan i'r ysbty i gael rhyddhau eu cleifion i'r adran ddamweiniau ac achosion brys. Pa gyfran o'r £7.5 miliwn a neilltuir ar gyfer y tagfeydd yn y system i wneud yn siŵr bod trosglwyddo llyfn yn digwydd? Gallai hynny egluro pam y mae ambiwlansys yn gorfod symud o Ynys Môn a rhannau eraill o ogledd Cymru i wasanaethu'r ardal gyfan.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:08

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Antoinette Sandbach echoes a point that I made earlier this afternoon when I referred to the impact on ambulance services of delays at Cardiff's accident and emergency department. She is absolutely right to say that the ability of the ambulance service to discharge its responsibilities depends on other parts of the service discharging theirs in a timely fashion too. The £7.5 million is all for the ambulance service itself, but we are making other investments in other parts of the system that ought to make sure that some of the delays that are caused in other parts of the system are also borne down on. She is absolutely right to point to Ysbyty Glan Clwyd as a hotspot in all of this. She will be aware of the fact that, right through the winter, the new emergency quarter at that hospital has been under construction. It will come on stream over the next few weeks, and I am told, having visited it and spoken to the senior staff there, that the new building they will have will have a direct bearing on the ability of that hospital to take patients from ambulances in a timely fashion and to get those ambulances back on the road to do the job that we need them to do.

Mae Antoinette Sandbach wedi adleisio pwynt a wneuthum yn gynharach y prynhawn yma pan gyfeiriais at effaith oedi ar wasanaethau ambiwlans yn adran damweiniau ac achosion brys Caerdydd. Mae hi'n dweud yn hollol gywir fod gallu'r gwasanaeth ambiwlans i gyflawni ei gyfrifoldebau yn dibynnu ar allu rhannau eraill o'r gwasanaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau hwy mewn modd amserol hefyd. Mae'r £7.5 miliwn i gyd ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans ei hun ond rydym yn buddsoddi mewn rhannau eraill o'r system a ddylai wneud yn siŵr fod rhai o'r achosion eraill o oedi mewn rhannau eraill o'r system hefyd yn cael eu datrys. Mae hi'n gwbl gywir i dynnu sylw at Ysbyty Glan Clwyd fel un o'r manau gwaethaf yn hyn i gyd. Bydd yn ymwybodol fod gwaith ar adeiladu adran frys newydd yr ysbty hwnnw wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y gaeaf. Bydd yn dod yn weithredol yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, ac wrth i mi ymweld â'r ysbty a siarad â'r staff uwch yno, dywedwyd wrthyf y bydd yr adeilad newydd yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r ysbty i gludo cleifion o ambiwlansys mewn modd amserol ac i gael yr ambiwlansys hynny yn ôl ar y ffordd i wneud y gwaith y mae angen iddynt ei wneud.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09

Aled Roberts [Bywgraffiad Biography](#)

Weinidog, nid jest mater o ddynion neu ferched ambiwlans o Ynys Môn yn gorfod mynd draw i Wynedd yw ef. Ces i achos dair wythnos yn ôl pan wnaeth criw o Fwcle orfod teithio i Gonwy er mwyn mynd â chlaf i Ysbyty Gwynedd achos bod problemau ym Maelor a Glan Clwyd. Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn cyfaddef bod diffyg o ryw 27 o aelodau staff jest i ddelio â phroblemau cyffredin, heb sôn am y problemau dwys hyn. A fydd yr arian ychwanegol yn galluogi'r gwasanaeth ambiwlans i recriwtio? Roedd yn dweud rhyw dri mis yn ôl nad oedd yn fodlon cymryd y penderfyniad hwnnw tra bo unrhyw anhawster ynglŷn â chyllid.

Minister, it is not just a matter of ambulance men or women having to go from Anglesey to Gwynedd. I had a case about three weeks ago when a crew from Buckley had to travel to Conwy in order to take a patient to Ysbyty Gwynedd, because of problems at Maelor hospital and Glan Clwyd Hospital. The ambulance service admits that there was a shortfall of about 27 staff members just to deal with normal problems, rather than these intense problems. Will this additional funding enable the ambulance service to recruit? It said, about three months ago, that it was not willing to take that decision while there was any difficulty regarding funding.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:10

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)

Dyna pam mae wedi bod mor bwysig i ddod i benderfyniad gyda'r byrddau iechyd lleol i roi arian i'r gwasanaeth ambiwlans yn gynnar yn y flwyddyn ariannol. Dyma le yr ydym yn gallu gweld y ffordd newydd o redeg y gwasanaeth ambiwlans, sy'n dod mas o adroddiad yr Athro McClelland, yn gweithio ar y llawr. 'Nawr, mae'r arian gyda'r gwasanaeth ambiwlans a gall fwrw ymlaen gyda'r gwaith o recriwtio pobl sy'n mynd i wneud y gwaith ar y 'front line'. Bydd hynny'n cael effaith ledled Cymru.

That is why it has been so important to reach agreement with the local health boards to provide the funding to the ambulance service early in the financial year. This is where we can see a new way of running the ambulance service, which has emerged from Professor McClelland's report, working on the ground. The funding is available to the ambulance service and it can continue with the work of recruiting people who will be working on the front line. That will have an impact throughout Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Beichiogrwydd yn yr Ardddegau

Teenage Pregnancy

- 14:11 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyfradd beichiogrwydd yn yr ardddegau yng Nghymru? OAQ(4)0431(HSS)
- 14:11 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Recent data show that teenage conception rates in Wales for girls aged under 18 have fallen to 30.8 per 1,000 girls aged between 15 and 17 years of age. That was in 2012 and had fallen from 34.2 in 2011 and 36.9 in 2010.
- 14:11 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is really good news that teenage pregnancies in Wales appear to be at an all-time low, but I am concerned at the significant regional variation across Wales. Rhondda Cynon Taf, for example, has one of the highest rates in Wales. More work needs to be done to educate both girls and boys. How does the Minister think we can do this and ensure that we are speaking to those groups who have previously been the most difficult to reach?
- 14:12 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Christine Chapman makes an important point that these figures do vary from one part of Wales to another. It is also important to say that there have been falls, and a similar rate of fall, in all parts of Wales, although some parts of Wales started with a higher rate in the first place. These are good-news figures. Of course, we need to do more in educating young men as well as young women. Ferndale Community School in the Cwm Taf area is a good example; it is working with local agencies such as Communities First to support young people and parents. It has a condom card scheme and it runs a health and wellbeing clinic at the youth centre next to the school. It tries to provide the services at a place and in a way that makes it genuinely accessible to those young people we are so keen to reach.
- 14:13 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It is good news, the reduction—you know, young ladies' pregnancy rates coming down to 36%. Since teenage pregnancy can be associated with poor educational achievement, poor health, social isolation and—the biggest and worst—poverty, what plan does the Minister have to reduce this rate further in Wales?
- 14:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We are very keen to go on making further progress in this area because a pattern has emerged over many years of a year-by-year decline. I cannot help but be struck by the irony of a Conservative Party Member telling me that poverty is a cause of teenage pregnancy, because we are walking against the hill of the problem that they are creating in trying to go on making the progress that we have made.
8. Will the Minister make a statement on the rate of teenage pregnancy in Wales? OAQ(4)0431(HSS)
- Dengys data diweddar fod cyfraddau beichiogrwydd ymysg merched o dan 18 oed yng Nghymru wedi gostwng i 30.8 fesul 1,000 o ferched rhwng 15 a 17 mlwydd oed. Roedd hynny yn 2012 ac roedd wedi gostwng o 34.2 yn 2011 a 36.9 yn 2010.
- Mae'n newydd da iawn fod cyfraddau beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yng Nghymru i'w gweld ar eu hisaf erioed ond rwy'n bryderus ynglŷn â'r amrywio sylweddol rhwng un rhanbarth a'r llall ledled Cymru. Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, sydd ag un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru. Mae angen gwneud rhagor i addysgu merched a bechgyn. Sut y mae'r Gweinidog yn credu y gallwn wneud hyn a sicrhau ein bod yn siarad â'r grwpiau sydd wedi bod fwyaf anodd eu cyrraedd?
- Mae Christine Chapman yn gwneud pwynt pwysig fod y ffigurau hyn yn amrywio o un rhan o Gymru i'r llall. Mae hefyd yn bwysig dweud y bu gostyngiadau, a chyfraddau tebyg o ostyngiadau, ym mhob rhan o Gymru er bod rhai rhannau o Gymru wedi dechrau ar gyfradd uwch yn y lle cyntaf. Mae'r ffigurau hyn yn newyddion da. Wrth gwrs, mae angen i ni wneud mwy i addysgu dynion ifanc yn ogystal â menywod ifanc. Mae Ysgol Gymunedol Ferndale yn ardal Cwm Taf yn enghraifft dda; mae'n gweithio gydag asiantaethau lleol fel Cymunedau yn Gyntaf i gefnogi pobl ifanc a rhieni. Mae ganddi gynllun cerdyn condom ac mae'n cynnal clinig iechyd a lles yn y ganolfan ieuentid wrth ymyl yr ysgol. Mae'n ceisio darparu'r gwasanaethau mewn man ac mewn ffordd sy'n eu gwneud yn wirioneddol hygyrch i'r bobl ifanc rydym mor awyddus i'w cyrraedd.
- Mae'n newydd da, y gostyngiad—wyddoch chi, fod cyfraddau beichiogrwydd ymysg merched ifanc yn gostwng i 36%. Gan fod modd cysylltu beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau â chyflawniad addysgol gwael, ag iechyd gwael ac arwahanrwydd cymdeithasol ac—yn bennaf ac yn waethaf—â thlodi, pa gynllun sydd gan y Gweinidog i leihau'r gyfradd hon ymhellach yng Nghymru?
- Rydym yn awyddus iawn i barhau i wneud cynnydd pellach yn y maes am fod patrwm o ddirywiad o un flwyddyn i'r llall wedi dod yn amlwg dros flynyddoedd lawer. Ni allaf help ond cael fy nharo gan yr eironi fod Aelod o'r Blaid Geidwadol yn dweud wrthyf mai tlodi yw un o'r achosion dros feichiogrwydd yn yr ardddegau, gan mai gwrthio yn erbyn llanw'r broblem y maent yn hwy yn ei chreu a wnawn wrth geisio parhau i wneud y cynnydd a wnaethom.

14:14

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, while the rate of teenage pregnancy is falling, the latest figures from the Welsh Government show that there has been a general increase in the number of diagnoses of sexually transmitted infections among young people in Wales. What lies behind those figures? Is it the result of increased testing or do we need to look again at the way in which we educate young people about the risks of STIs and how to avoid them?

Weinidog, er bod cyfradd beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau yn gostwng, mae'r ffigurau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Beth sydd wrth wraidd y ffigurau hynny? A yw'n deillio o fwy o brofi neu a oes angen i ni edrych eto ar y ffordd rydym yn addysgu pobl ifanc am beryglon heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a sut i'w hosgoi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:14

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for that question. She points to a complex area that can be difficult to analyse. It is of course a matter of concern that since 2010 there has been a general increase in the number of diagnoses of sexually transmitted infections in Wales. However, when you look into the detail of the figure, what you find, as I think that the question suggested, is that, very often, the rise in the identified number of diagnoses is closely mirrored by the number of investigations that are being carried out.

Diolch i Rebecca Evans am ei chwestiwn. Mae'n cyfeirio at faes cymhleth a all fod yn anodd i'w ddadansoddi. Wrth gwrs, mae'r cynnydd cyffredinol a fu ers 2010 yn nifer yr achosion o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yng Nghymru yn destun pryder. Fodd bynnag, pan edrychwch ar y ffigur yn fanwl, yr hyn a welwch, fel y mae'r cwestiwn yn ei awgrymu rwy'n credu, yw bod y cynnydd yn nifer y diagnosisu yn aml iawn yn adlewyrchiad o nifer yr archwiliadau sy'n digwydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

If I could offer just one set of figures, the number of young women who have been tested as positive for chlamydia increased by 21% between 2010 and 2012. However, in the same period, there was a 26% increase in the number of young women coming forward to be tested. So, it is not always easy to distinguish between whether this is just better testing, and, therefore, we are just finding out more, and whether there is genuinely more of this in the community. What is certain is that, either way, there continues to be a major public health job to be done here in making sure that young people understand the risks that are there and take the actions that can be taken to avoid them.

Os caf gynnig un set o ffigurau'n unig, mae nifer y merched ifanc sydd wedi cael prawf positif ar gyfer clamidia wedi cynyddu 21% rhwng 2010 a 2012. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, bu cynnydd o 26% yn nifer y merched ifanc sy'n mynd i gael prawf. Felly nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng lefelau profi gwell yn arwain at ganfod mwy o achosion a pha un a oes mwy o hyn yn y gymuned mewn gwirionedd. Yr hyn sy'n sicr y naill ffordd neu'r llall yw bod gwaith iechyd cyhoeddus mawr i'w wneud er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn deall y risgiau ac yn cymryd y camau y gellir eu cymryd i'w hosgoi.

Gwella Gwasanaethau i Gleifion Cancer

Improving Services for Cancer Patients

14:16

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Pa gamau y gwnaiff y Gweinidog eu cymryd i wella gwasanaethau i gleifion cancer yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0423(HSS)

9. What action will the Minister take to improve services for cancer patients in Wales in 2014? OAQ(4)0423(HSS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:16

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Renewed action to improve early diagnosis of cancer in primary care and greater consistency in the provision of named key workers to those undergoing treatment are among the key priorities for 2014.

Mae camau gweithredu newydd i wella diagnosis cynnar o ganser mewn gofal sylfaenol a mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth o weithwyr allweddol penodol i'r rhai sy'n cael triniaeth ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2014.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:16 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much, Minister. Earlier, you said to one of our colleagues that you believe in research work. Research by Bristol University has revealed that cancer patients in England are up to seven times more likely to get costly life-extending drugs, thanks to the cancer drugs fund in England. Will the Minister now listen to groups such as the Rarer Cancers Foundation and the charity Breakthrough Breast Cancer and introduce a cancer drugs fund in Wales to stop Welsh patients missing out on these much-needed treatments?
- Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Yn gynharach, dywedasoeh wrth un o'n cydweithwyr eich bod yn credu mewn gwaith ymchwil. Mae ymchwil gan Brifysgol Bryste wedi dangos bod cleifion cancer yn Lloegr hyd at saith gwaith yn fwy tebygol o gael cyffuriau costus sy'n ymestyn bywyd, diolch i gronfa gyffuriau cancer yn Lloegr. A wnaiff y Gweinidog yn awr wrando ar grwpiau fel y Sefydliad Cancer Mwy Prin a'r elusen Breakthrough Breast Cancer a chyflwyno cronfa gyffuriau cancer yng Nghymru i gleifion Cymru allu cael triniaethau o'r fath sy'n fawr eu hangen?
- 14:17 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that I have answered the question already this afternoon. I have no intention of moving from a position where Welsh patients get faster access to proven and effective treatments and replacing that with faster access to treatments that are neither proven nor effective.
- Credaf fy mod wedi ateb y cwestiwn eisoes y prynhawn yma. Nid oes gennyf unrhyw fwiad i symud o sefyllfa lle y mae cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflymach at driniaethau profedig ac effeithiol i sefyllfa sy'n cynnig mynediad cyflymach at driniaethau nad ydynt yn brofedig nac yn effeithiol.
- 14:17 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, 80% of breast cancer cases occur in women who are postmenopausal, and the risk of developing breast cancer continues to increase with age. So, can you outline what the Government is doing to ensure that more older women in Wales attend breast screening?
- Weinidog, mae 80% o'r achosion o ganser y fron yn digwydd mewn merched ar ôl y menopôs ac mae'r risg o ddatblygu cancer y fron yn parhau i gynyddu gydag oedran. A allwch amlinellu felly beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod mwy o fenywod hŷn yng Nghymru yn mynychu clinigau sgrinio'r fron?
- 14:17 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that very important point. Members here will know that, in 2012, there was a £10 million investment from the Welsh Government in Breast Test Wales, so that we now have the only fully digitised breast screening service in the United Kingdom. In the last years for which figures are available, we know that 93,000 women aged 49 or over were screened. That was in 2012-13, and that was 10,000 more than were screened in the year before. So, I think that we have always had a service that we can be proud of in Breast Test Wales, and it continues to demonstrate its worth.
- Diolch i'r Aelod am godi pwynt pwysig iawn. Bydd yr Aelodau'n gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £10 miliwn yn Bron Brawf Cymru yn 2012 sy'n golygu mai ni bellach sydd â'r unig wasanaeth sgrinio'r fron wedi'i ddigido'n llawn yn y Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer, gwyddom fod 93,000 o ferched 49 oed neu hŷn wedi cael eu sgrinio. Roedd hynny yn 2012-13 ac roedd 10,000 yn fwy nag a sgriniwyd yn y flwyddyn flaenorol. Felly rwy'n meddwl ein bod bob amser wedi cael gwasanaeth y gallwn fod yn falch ohono yn Bron Brawf Cymru ac mae'n parhau i ddangos ei werth.
- 14:18 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, however you decide to measure cancer waiting times, rural cancer patients in my constituency have to travel considerable distances to access cancer services—travelling to Cardiff, Hereford and Cheltenham. Could you give us an update, please, on the ability to offer some chemotherapy services out of the community hospital in Llandrindod Wells, which would make a massive difference to the experience of cancer patients during their treatment?
- Weinidog, sut bynnag y penderfynwch fesur amseroedd aros cancer, rhaid i gleifion cancer gwledig yn fy etholaeth deithio cryn bellter i gael mynediad at wasanaethau cancer —i Gaerdydd, Henffordd a Cheltenham. A allwch roi'r newyddion diweddaraf inni, os gwelwch yn dda, ar y gallu i gynnig rhai gwasanaethau cemotherapi yn yr ysbyty cymunedol yn Llandrindod a fyddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiad cleifion cancer yn ystod eu triniaeth?

14:18

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for that question. I am concerned at some aspects of the service that we are able to offer Powys residents. Where Powys residents receive their cancer treatment in Wales, 100% of them are treated within the 31-day and 62-day targets. However, when patients are receiving a service in England, and quite a significant proportion of patients in Powys do that, then only 66% of them are being seen within 62 days. That is a matter of considerable concern to me, and I am in discussions with Powys Teaching Local Health Board about ways in which we might be able to address that position.

I have also had discussions directly with the chair of Powys health board about Llandrindod and the possibility of outreach services there. I cannot give the Member the final details today, but I can say to her that that conversation left me optimistic that there are realistic plans coming to fruition shortly that will be able to do exactly some of the things that she has outlined this afternoon.

Adroddiad Nuffield

14:20

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o argymhellion Adroddiad Nuffield ar gasglu data yng Nghymru? OAQ(4)0436(HSS)

14:20

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid oes argymhellion yn adroddiad Nuffield sy'n cyfeirio at gasglu data yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod gwario arian ar gasglu data yn golygu, yn amlwg, nad yw'r arian ar gael ar gyfer gofal i gleifion a bod y costau hyn yn cael effaith dyfnach mewn cyfnod o gyngariannol.

14:20

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae adroddiad Nuffield yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod modd cymharu data a bod y data yn cael eu casglu yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Byddwn yn gobeithio y byddai hynny yn ein galluogi i gael trafodaeth lawer iawn mwy deallus ynglŷn ag iechyd yng Nghymru, yn hytrach na rhai o'r honiadau mwy eithafol sydd wedi cael eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf.

O ran data, pan edrychwn ar feddygon teulu, mae Nuffield yn dweud wrthym fod y lefel yng Nghymru, sef 0.65 i bob 1,000, yn is na lefel unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Mae Nuffield wedi ei seilio ar ddata o 2011, ac mae'r wybodaeth wrth Lywodraeth Cymru yn dweud bod y lefel wedi cwympo erbyn hyn i 0.6 ym mhob 1,000. Beth a ydych yn bwriadu ei wneud ynglŷn â hyn, a sut y byddwch yn ateb y gofyn ynglŷn â sicrhau bod mwy o feddygon teulu ar gael yng Nghymru?

Diolch i Kirsty Williams am ei chwestiwn. Rwy'n bryderus ynglŷn â rhai agweddau o'r gwasanaeth y gallwn ei gynnig i drigolion Powys. Lle y bydd trigolion Powys yn derbyn eu triniaeth ganser yng Nghymru, caiff 100% ohonynt eu trin o fewn y targedau 31 a 62 diwrnod. Fodd bynnag, lle y bydd cleifion yn cael gwasanaeth yn Lloegr fel y mae cyfran sylweddol o gleifion ym Mhowys yn ei wneud, dim ond 66% ohonynt sy'n cael eu gweld o fewn 62 diwrnod. Mae hynny'n fater sy'n peri cryn bryder i mi ac rwy'n cynnal trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ynghylch ffyrdd o fynd i'r afael y sefyllfa honno.

Rwyf hefyd wedi bod yn trafod yn uniongyrchol â chadeirydd bwrdd iechyd Powys ynghylch Llandrindod a'r posibilrwydd o gynnig gwasanaethau allgymorth yno. Ni allaf roi'r manylion terfynol i'r Aelod heddiw ond gallaf ddweud wrthi fod y sgwrs wedi fy ngwneud i'n obeithiol y bydd cynlluniau realistig yn dwyn ffrwyth cyn bo hir er mwyn gallu gwneud yr union bethau y soniodd amdanynt y prynhawn yma.

Nuffield Report

10. What assessment has the Minister made of the recommendations of the Nuffield Report on data collection in Wales? OAQ(4)0436(HSS)

There are no recommendations in the Nuffield study that refer to data collection in Wales. The report states clearly that spending money on data collection means, obviously, that the money is not available for patient care and that those costs will have a greater impact in a time of financial stringency.

The Nuffield report emphasises the need to ensure that data can be compared and that data are gathered consistently, year on year. I would hope that that would allow us to have a far more intelligent debate on health in Wales, rather than some of the more extreme accusations that have been made over the past few years.

In terms of data, when we look at GPs, Nuffield tells us that the level in Wales, that is, 0.65 to every 1,000, is lower than that of any other part of the United Kingdom. Nuffield is based on data from 2011, and the information from the Welsh Government states that that figure has now fallen to 0.6 in every 1,000. What do you intend to do about this, and how will you respond to demand in terms of ensuring that there are more GPs available in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is right that the final part of the Nuffield report does propose a series of data collection issues—which are not for Wales, but for all four of the home nations—that would allow better comparison to be made in some instances. I had a very interesting conversation with the Scottish Minister for health on this point. He told me that he had no interest at all in that part of what was being proposed, and you can see why, in some ways. Even with comparative data, depending on how you interpret the data, you can come to very different conclusions. The report says what Rhodri Glyn Thomas said it says about GP recruitment, but it does not say—which it could have said, because that interpretation was there too—that the increase in the level of GP availability per 100,000 of the population has risen faster in Wales than in any other part of the United Kingdom. We have had an 11% increase in the GP workforce over the period since devolution, and we have had a further increase in the last year. That, in itself, disguises some hotspot areas where recruitment is difficult and there is more that we can do.

I come back to the point that I have made many times in the Chamber: information is one thing, but explanation is another, and, actually, what we need is a bit more effort, sometimes, to explain and understand the data we have, rather than always worrying about different ways in which those data might be collected.

Mae'r Aelod yn gywir fod rhan olaf adroddiad Nuffield yn cynnig cyfres o bwyntiau ynghylch casglu data—nid ar gyfer Cymru, ond ar gyfer y pedair gwlad—a fyddai'n ein galluogi i gymharu'n well mewn rhai agweddau. Cefais sgwrs ddiddorol iawn gyda Gweinidog Iechyd yr Alban ar y mater. Dywedodd wrthyf nad oedd ganddo ddiddordeb o gwbl yn y rhan honno o'r hyn a oedd yn cael ei gynnig, a gallwch weld pam mewn rhai ffyrdd. Hyd yn oed gyda data cymharol, yn dibynnu ar sut y dehonglwyd y data, gallwch ddod i gasgliadau gwahanol iawn. Mae'r adroddiad yn dweud yr hyn y dywedodd Rhodri Glyn Thomas y mae'n ei ddweud ynglŷn â recriwtio meddygon teulu, ond nid yw'n dweud—er y gallai fod wedi gwneud hynny gan fod y dehongliad hwnnw yno hefyd—fod y cynnydd yn niferoedd meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi codi'n gyflymach yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Rydym wedi cael cynnydd o 11% yn y gweithlu meddygon teulu dros y cyfnod ers datganoli ac rydym wedi gweld cynnydd pellach yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hynny ynddo'i hun yn cuddio rhai ardaloedd problemus lle y mae recriwtio'n anodd ac mae rhagor y gallwn ei wneud.

Rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wneuthum droeon yn y Siambr: mae gwybodaeth yn un peth ond mae esboniad yn fater arall ac mewn gwirionedd, yr hyn rydym ei angen weithiau yw ychydig mwy o ymdrech i egluro a deall y data sydd gennym yn hytrach na phoeni bob amser am wahanol ffyrdd o gasglu'r data.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

I heard what you said, Minister, about your interesting conversation with the Scottish Minister, but the Nuffield report does clearly call for comparable data so that there can be comparisons made by the people who use the health services across the United Kingdom, and, from our perspective, importantly, by the people here in Wales. The Welsh Government, for whatever reason, is looking to change its benchmarking and its own targets, and a cynic might say that that is because you cannot hit the current ones. However, are you committed, as a Minister, to making the data as transparent as possible and, above all, to trying to meet some of the sentiment in the Nuffield report for those comparisons to be made so that the people who use our health service and, importantly, the people who work in our health service, can improve or celebrate the successes that need to be celebrated where they exist?

Clywais yr hyn a ddywedasoch, Weinidog, am eich sgwrs ddiddorol gyda Gweinidog yr Alban ond mae adroddiad Nuffield yn galw'n eglur am ddata cymharol er mwyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd ar draws y Deyrnas Unedig allu cymharu ac yn bwysicach o'n safbwynt ni, er mwyn i bobl Cymru allu gwneud hynny. Am ba reswm bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i newid ei dulliau meincnodi a'i thargedau ei hun a gallai sinig ddweud mai am nad ydych yn gallu cyrraedd y targedau presennol y gwnewch hynny. Fodd bynnag, a ydych wedi ymrwymo fel Gweinidog i sicrhau bod y data mor dryloyw â phosibl ac yn anad dim, i geisio ymateb i beth o'r teimlad a fynegwyd yn adroddiad Nuffield ynghylch gwneud y cymariaethau hynny er mwyn i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth iechyd ac yn bwysig, y bobl sy'n gweithio yn ein gwasanaeth iechyd, allu gwella neu ddathlu'r llwyddiannau sydd angen eu dathlu lle y maent yn bodoli?

14:24

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that final point. Let me divide what Andrew R.T. Davies has said into two parts. I am completely committed to transparency. I am very committed to making as many data, with proper explanation, available as we can in Wales, and we have made big strides in that regard over the last 12 months. What I am interested in is the performance of the Welsh health service, for which I am responsible. Where other people make changes to data, I cannot be responsible for that. The pursuit of comparability is, in some ways, the pursuit of a chimera, really. Where we can produce comparable data and where genuine comparisons can be made and where that is helpful, I am all in favour of it. However, no one Minister for health can guarantee that, because, just as there may be changes that we would have in Wales, you can be sure that there are changes being proposed and discussed in every other health service in the United Kingdom, and that in itself creates tensions between wanting accurate data on what you are doing in your own part of the world and being able to compare that in a realistic way with what happens elsewhere.

Gwasanaethau Dialysis

14:25

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau dialysis yng Nghymru? OAQ(4)0433(HSS)

14:25

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Significant investment continues to be made across Wales to modernise dialysis services, improving environments for patients so that they receive care fit for the twenty-first century. An example is the recently opened renal dialysis unit in Merthyr Tydfil at a cost of more than £2 million.

14:25

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I was pleased to join you on your recent tour of health services in west Wales. The region does have a good story to tell about dialysis services at the moment. We have the new unit at Withybush and the introduction of a life-saving treatment technique at Glangwili. Minister, are you able to tell us today when the Withybush unit will open to patients? Hywel Dda LHB has said that it will be in the summer, but have you been given an actual date?

14:26

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for that. We are very close to the end of the tendering process that has been going on in west Wales and which will lead to improvements at Withybush and also in Carmarthen and, indeed, in Aberystwyth at Bronglais as well. As soon as the tender is finally signed by the local health board, there will be a short number of weeks before the unit at Withybush becomes operational. I am confident that that will happen during the month of July.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch ichi am y pwynt olaf. Gadewch i mi rannu'r hyn y dywedodd Andrew R.T. Davies yn ddwy ran. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i dryloywder. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod cymaint o ddata ag y bo modd gydag esboniad priodol ar gael yng Nghymru ac rydym wedi gwneud camau mawr ymlaen yn hynny o beth yn ystod y 12 mis diwethaf. Yr hyn rwyf â diddordeb ynddo yw perfformiad y gwasanaeth iechyd yng Nghymru rwy'n gyfrifol amdano. Os yw pobl eraill yn newid data, ni allaf fod yn gyfrifol am hynny. Mewn rhai ffyrdd, mae chwilio am gymaroldeb fel chwilio am rywbeth nad yw'n bodoli mewn gwirionedd. Rwyf o blaid cynhyrchu data cymharol lle y gallwn a lle y gellir gwneud cymariaethau dilys os yw hynny'n ddefnyddiol. Fodd bynnag, ni all un Gweinidog iechyd ar ei ben ei hun warantu hynny, oherwydd yn yr un modd ag y gallem fod eisiau newidiadau yng Nghymru, gallwch fod yn sicr fod newidiadau'n cael eu cynnig a'u trafod ym mhob gwasanaeth iechyd arall yn y Deyrnas Unedig, a bod hynny ynddo'i hun yn creu tensiynau rhwng bod eisiau data cywir am yr hyn rydych yn ei wneud yn eich rhan chi o'r byd a gallu cymharu hynny mewn ffordd realistig â'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill.

Dialysis Services

11. Will the Minister make a statement on dialysis services in Wales? OAQ(4)0433(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae buddsoddi sylweddol yn parhau i ddigwydd ledled Cymru er mwyn moderneiddio gwasanaethau dialysis a gwella amgylchedd cleifion er mwyn iddynt gael gofal addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Un enghraifft yw'r uned dialysis arenol a agorwyd yn ddiweddar ym Merthyr Tudful ar gost o dros £2 filiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Weiniidog. Pleser oedd cael ymuno â chi ar eich taith ddiweddar o gwmpas gwasanaethau iechyd gorllewin Cymru. Mae gan y rhanbarth hanesion da i'w hadrodd am wasanaethau dialysis ar hyn o bryd. Mae gennym uned newydd yn y Llwynhelig a chyflwynwyd techneg triniaeth achub bywyd yn Ysbyty Glangwili. Weiniidog, a allwch ddweud wrthym heddiw pryd y bydd uned Llwynhelig yn agored i gleifion? Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda mai yn yr haf y bydd yn agor, ond a ydych chi wedi cael union ddyddiad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i Joyce Watson. Rydym yn agos iawn at ddiwedd y broses dendro sydd wedi bod ar y gweill yng ngorllewin Cymru ac a fydd yn arwain at welliannau yn Llwynhelig, yng Nghaerfyrddin ac ym Mronglais, Aberystwyth hefyd yn wir. Cyn gynted ag y bydd y bwrdd iechyd lleol yn llofnodi'r tendr yn derfynol, nifer fach o wythnosau a gymer i'r uned yn Llwynhelig ddod yn weithredol. Rwy'n hyderus y bydd hynny'n digwydd yn ystod mis Gorffennaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:26 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I too am pleased that this new renal unit at Withybush hospital will be opening some time in the summer. It will, of course, make a huge difference to renal patients in Pembrokeshire. However, can you tell us why there will be a delay in actually opening the unit given that the building has now been completed? Why could it take up to three months before it is fully operational?
- Weinidog, rwyf innau hefyd yn falch y bydd yr uned arenol newydd yn ysbyty Llwynhelyg yn agor rywbryd yn yr haf. Bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr i gleifion arenol yn Sir Benfro wrth gwrs. Fodd bynnag, a allwch ddweud wrthym pam yr oedi cyn agor yr uned o ystyried bod yr adeilad bellach wedi ei gwblhau? Pam y gallai gymryd hyd at dri mis cyn y daw'n gwbl weithredol?
- 14:27 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I have shared some of the Member's frustrations at the delay there has been at the unit. The reason lies in the development of a contract that would not just bring about improvements at Withybush but allow for the investment in new equipment at Carmarthen and ensure that the new Padarn unit in Aberystwyth is also brought on-stream in as timely a fashion as possible. Making all of those three things happen together has introduced some additional complexities in the contracting. However, in the longer term, they will deliver more benefits and outweigh the delay. I was pleased to be joined by the Member when I was in Pembrokeshire on the day that I went to see the building as it was developing in Withybush. It is a further sign of this Government's determination that that hospital as well as others in west Wales will go on providing services for patients into the future.
- Wel, rwyf wedi rhannu peth o rwystredigaeth yr Aelod ynglŷn â'r oedi a fu yn yr uned. Mae'r rheswm yn ymwneud â datblygu contract na fyddai ond yn sicrhau gwelliannau yn Llwynhelyg yn unig ond a fyddai hefyd yn galluogi buddsoddi mewn offer newydd yng Nghaerfyrddin ac yn sicrhau bod uned newydd Padarn yn Aberystwyth yn dod yn weithredol mewn modd mor amserol â phosibl. Mae gwneud i bob un o'r tri pheth ddigwydd gyda'i gilydd wedi creu rhai cymhlethdodau ychwanegol yn y gwaith contractio. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, byddant yn sicrhau mwy o fanteision ac yn gwneud iawn am yr oedi. Roeddwn yn falch fod yr Aelod wedi ymuno â mi pan oeddwn yn Sir Benfro ar y diwrnod yr euthum i weld yr adeilad wrth iddo ddatblygu yn Llwynhelyg. Mae'n arwydd pellach o benderfyniad y Llywodraeth hon y bydd yr ysbyty yn ogystal ag eraill yng ngorllewin Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau i gleifion i'r dyfodol.
- 14:28 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf ddiolch i'r Gweinidog am y buddsoddiad yn y gogledd-orllewin yn yr unedau dialysis yn Ysbyty Gwynedd ac, yn arbenning, wrth gwrs, y buddsoddiad parhaol bellach yn Ysbyty Alltwn, fydd yn golygu na fydd pobl sydd angen triniaeth yn gorfod teithio am ddwy awr yn ôl ac ymlaen? Fodd bynnag, onid oes cyfle yma i'r Gweinidog esbonio'n gliriach i bobl bwysigrwydd ysbyty cymunedol, sydd yn foth yn yr olwyn i bob math o wasanaethau a bod pobl yn deall wedyn mai dyma yw ystyr ail-drefnu'r gwasanaeth iechyd?
- May I thank the Minister for the investment in north-west Wales in the dialysis units in Ysbyty Gwynedd and particularly the continuing investment in Alltwn Hospital, which will mean that people who need treatment will not have to travel for two hours back and forth? However, is there not an opportunity here for the Minister to explain more clearly to people the importance of community hospitals, which are a spoke in the wheel for all sorts of different services so that people then understand that this is the meaning of the reconfiguration of health services?
- 14:28 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I am grateful for a chance to do that. I am very pleased that we have been able to make that investment at Alltwn, and I have received correspondence since from individuals who have described the difference that that has made to their lives in terms of travelling time and so on. Community hospitals are often ideally placed to provide these sorts of services. I was very lucky earlier in the summer to be able to open the new facility in Powys as well. It was the result of investment that was originally identified by Edwina Hart when she was the Minister for health. These things can take quite a while to come to fruition but, when they do, they make an enormous difference to the local population.
- Wel, rwy'n ddiolchgar am y cyfle i wneud hynny. Rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu buddsoddi yn Alltwn a daeth gohebiaeth i law ers hynny gan unigolion yn disgrifio'r gwahaniaeth y mae hynny wedi'i wneud i'w bywydau o ran amser teithio ac yn y blaen. Yn aml, mae ysbytai cymunedol mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu'r mathau hyn o wasanaethau. Roeddwn yn ffodus iawn yn gynharach yn yr haf i allu agor y cyfleuster newydd ym Mhowys hefyd. Canlyniad buddsoddiad a nodwyd yn wreiddiol gan Edwina Hart pan oedd hi'n Weinidog iechyd oedd hwn. Gall y pethau hyn gymryd cryn amser i ddwyn ffrwyth ond ar ôl gwneud hynny, maent yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r boblogaeth leol.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Diolch i chi, Weinidog.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Tlodi yn Islwyn

Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Poverty in Islwyn

- 14:29 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
1. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r effaith y mae Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi ei chael ar drechu tlodi yn Islwyn? OAQ(4)0173(CTP)
1. What assessment has the Minister made of the impact European Structural Funds have had on tackling poverty in Islwyn? OAQ(4)0173(CTP)
- 14:29 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty
I thank the Member for the question. We believe that European structural funds have had a positive impact on tackling poverty in Islwyn. For example, projects across the Caerphilly county borough area, which includes Islwyn, have assisted nearly 43,000 individuals, many of whom have gained qualifications or have gone into employment. For example, the Caerphilly passport programme is part-funded by the European social fund, and future ESF funding will have a commitment to allocate 20% of its funding to tackling poverty.
Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym yn credu bod cronfeydd strwythurol Ewropeaidd wedi cael effaith gadarnhaol ar y gwaith o drechu tlodi yn Islwyn. Er enghraifft, mae prosiectau ar draws ardal bwrdeistref sirol Caerffili, sy'n cynnwys Islwyn, wedi cynorthwyo bron i 43,000 o unigolion ac mae llawer ohonynt wedi ennill cymwysterau neu gael eu cyflogi. Er enghraifft, mae rhaglen basbort Caerffili yn cael ei hariannu'n rhannol o gronfa gymdeithasol Ewrop a bydd 20% o'r arian ESF yn y dyfodol yn cael ei ddyrannu ar gyfer trechu tlodi.
- 14:30 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer. The Deputy Minister will be aware that the recent audit report from the Wales Audit Office on European funds shows that schemes are generally doing well. Does he agree with me that this demonstrates the added value to communities in Wales of continued membership with the European Union, and that the best thing for people to do on 22 May is to go out to vote—Labour? [Assembly Members: Hear, hear.]
Diolch i chi am eich ateb. Bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol fod yr adroddiad archwilio diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y cronfeydd Ewropeaidd yn dangos bod y cynlluniau yn gwneud yn dda ar y cyfan. A yw'n cytuno â mi bod hyn yn dangos gwerth ychwanegol parhau'n aelod o'r Undeb Ewropeaidd i gymunedau yng Nghymru ac mai'r peth gorau i bobl ei wneud ar 22 Mai yw mynd allan i bleidleisio—Llafur? [Aelodau'r Cynulliad: Clywch, clywch.]
- 14:30 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
The Member makes an important and eloquent point. It is right to point out the significant benefit that Europe does provide. We recognise that the biggest defence against falling into poverty is having well-paid employment. The Member will clearly have constituents who work at GE Aviation—a large employer, which has had significant benefit from our being members of Europe. It has had access to Skills Growth Wales and to the modern apprenticeships schemes, helped, in part, by funding from Europe. I would absolutely encourage people, of all political persuasions, to go out on 22 May to vote.
Mae'r Aelod yn gwneud pwynt pwysig a huawdl. Mae'n iawn tynnu sylw at y budd sylweddol y mae Ewrop yn ei gynnig. Rydym yn cydnabod mai'r amddiffyniad mwyaf rhag tlodi yw cael swyddi sy'n talu'n dda. Bydd gan yr Aelod etholwyr sy'n gweithio yn GE Aviation—cyflogwr mawr sydd wedi cael budd sylweddol o'n haelodaeth yn Ewrop. Mae'r cwmni wedi gwneud defnydd o Sgiliau Twf Cymru a'r cynlluniau prentisiaethau modern a gynorthwywyd yn rhannol gan arian o Ewrop. Ar bob cyfrif, byddwn yn annog pobl o bob lliw gwleidyddol i fynd allan ar Fai 22 i bleidleisio.
- 14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
I am glad that you just stopped at 'vote'. Thank you very much. I call on Mohammad Asghar.
Rwy'n falch eich bod wedi gorffen gyda'r gair 'pleidleisio'. Diolch yn fawr iawn i chi. Galwaf ar Mohammad Asghar.
- 14:31 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Deputy Minister, at present, EU structural funding has predominantly gone to third sector and public sector projects. Does the Minister agree that tackling poverty in Islwyn would be much more effective by greater engagement with the private sector, utilising its expertise and experience, when developing funding schemes here?
Ddirprwy Weinidog, ar hyn o bryd, mae cyllid strwythurol yr UE wedi mynd yn bennaf at brosiectau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus. A yw'r Gweinidog yn cytuno y byddai'r gwaith o drechu tlodi yn Islwyn yn llawer mwy effeithiol drwy fwy o ymgysylltiad â'r sector preifat, gan ddefnyddio ei arbenigedd a'i brofiad wrth ddatblygu cynlluniau ariannu yma?

14:31 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member will have heard me confirm that 20% of the next round of structural funds will be allocated to funding to tackle poverty. The majority of the funding actually goes into private sector businesses. In particular, the focus on skills and employability will continue to play a significant part in how our European funds are used. However, I am pleased to recognise that the latest audit office report did say that these funds are now being well managed and well spent.

Bydd yr Aelod wedi fy nghlywed yn cadarnhau y bydd 20% o'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol yn cael ei ddyrannu i gronfeydd ar gyfer trechu tlodi. Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o'r arian yn mynd i mewn i fusnesau yn y sector preifat. Yn benodol, bydd y ffocws ar sgiliau a chyflogadwyedd yn parhau i chwarae rhan sylweddol yn y ffordd y mae ein cronfeydd Ewropeaidd yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, rwy'n falch o gydnabod bod adroddiad diweddaraf y swyddfa archwilio wedi dweud bod y cronfeydd hyn bellach yn cael eu rheoli a'u gwario'n dda.

14:32 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As someone who will be voting as well, Minister, I note that some Westminster politicians have argued that EU structural funding should be taken from Brussels and controlled by Westminster. As Westminster policy makers do not exactly have a reputation for policies that focus on redistribution and tackling income and economic inequality, this could seriously impact on our poorest communities, in particular in places like Islwyn. How will you be ensuring that this does not happen?

Fel rhywun a fydd hefyd yn pleidleisio, Weinidog, sylwaf fod rhai gwleidyddion yn San Steffan wedi dadlau y dylid cymryd cyllid strwythurol yr UE o Frwsel i'w reoli gan San Steffan. Gan nad oes gan lunwyr polisiâu San Steffan enw arbennig o dda am lunio polisiâu sy'n canolbwyntio ar aiddosbarthu a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran incwm a'r economi, gallai hyn gael effaith ddifrifol ar ein cymunedau tlotaf yn enwedig mewn lleoedd fel Islwyn. Sut y byddwch yn sicrhau nad yw hyn yn digwydd?

14:32 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We are looking at managing the next round of structural funds here, in the Welsh Government, with our own responsibilities. You will have heard the response from the First Minister yesterday, setting out a positive case for staying in Europe, and stating the benefits for places like Islwyn of Wales of being part of a member state within Europe. We do not envisage any change to the nature of structural funds in the way that they are managed from Europe to regions and nations.

Rydym yn edrych ar reoli'r rownd nesaf o gronfeydd strwythurol yma yn Llywodraeth Cymru gyda'n cyfrifoldebau eu hunain. Byddwch wedi clywed ymateb y Prif Weinidog ddoe yn amlinellu achos cadarnhaol dros aros yn Ewrop ac yn nodi'r manteision i lefydd fel Islwyn o fod Cymru yn rhan o aelod-wladwriaeth yn Ewrop. Nid ydym yn rhagweld newid i natur y cronfeydd strwythurol o ran y ffordd y cânt eu rheoli o Ewrop i'r rhanbarthau a'r gwledydd.

Ffigurau Tlodi Gwledig

Rural Poverty Figures

14:33 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. *A wnaiff y Dirprwy Weinidog ddatganiad am ffigurau tlodi gwledig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0170(CTP)*

2. *Will the Deputy Minister make a statement on rural poverty figures in Mid and West Wales? OAQ(4)0170(CTP)*

14:33 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member will be aware that updated indicator data for the Welsh index of multiple deprivation was published on 1 May. We remain committed to tackling poverty in all parts of Wales. I was delighted to join the Minister for Natural Resources and Food at a rural development plant consultation event last month, where we reiterated our commitment to tackling poverty in rural Wales.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol fod data dangosol wedi'i ddiweddarau ar gyfer mynegai amddifadedd lluosog Cymru wedi'i gyhoeddi ar 1 Mai. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i drechu tlodi ym mhob rhan o Gymru. Roeddwn yn falch iawn o ymuno â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd mewn digwyddiad ymgynghori ar y cynllun datblygu gwledig y mis diwethaf, lle yr ail-ategasom ein hymrwymiad i drechu tlodi yng nghefn gwlad Cymru

14:33

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the Deputy Minister for that response. I am sure that he may well have been made aware that National Energy Action recently published a UK report on monitoring fuel poverty for 2013-14. If he has, he will undoubtedly share my concern about some of its contents, particularly relating to the fact that the number of households in Wales in fuel poverty has steadily been rising since 2004.

A particular issue of concern in rural areas, such as Mid and West Wales, is exacerbated by the fact that we have the three Welsh national parks, which sometimes impose additional gold-plated requirements, which make it difficult to retrofit properties with energy-saving measures. In that context, will the Deputy Minister undertake to work with his colleagues in Cabinet—those with responsibility for the national parks, as well as those with responsibility for planning—to ensure that these matters can be addressed, so that retrofitting is not made additionally difficult for those residents?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb. Rwy'n siŵr ei fod yn ymwybodol fod National Energy Action wedi cyhoeddi adroddiad ar gyfer y DU yn ddiweddar ar fonitro tlodi tanwydd ar gyfer 2013-14. Os ydyw, bydd yn sicr yn rhannu fy mhryder ynghylch peth o'i gynnwys yn enwedig mewn perthynas â'r ffaith fod nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n wynebu tlodi tanwydd wedi bod yn codi'n raddol ers 2004.

Mae un mater penodol, sy'n peri pryder mewn ardaloedd gwledig fel Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn cael ei gwaethygu gan y ffaith fod gennym dri pharc cenedlaethol yng Nghymru sydd weithiau'n gosod gofynion arbennig ychwanegol gan ei gwneud yn anodd ôl-ffitio mesurau arbed ynni mewn adeiladau. Yn y cyd-destun hwn, a wnaiff y Dirprwy Weinidog ymrwymo i weithio gyda'i gydweithwyr yn y Cabinet—y rhai sydd â chyfrifoldeb am y parciau cenedlaethol yn ogystal â'r rhai sydd â chyfrifoldeb am gynllunio—i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw fel nad yw ôl-ffitio yn cael ei wneud yn anos byth i'r trigolion hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the majority of that question is really a matter for the Minister with responsibility for planning. However, I am happy to confirm that I continue to work with colleagues across Government on tackling poverty. You will have heard reference in statements made yesterday, and in the reference that I made earlier today, to work with the Minister for Natural Resources and Food, who also has the responsibility for our programmes to help tackle fuel poverty. Again, those schemes are part funded by European money. So, again, that repeats the point from the first question, namely that there is value in Wales being part of a member state that is very definitely in Europe.

Credaf mai mater i'r Gweinidog â chyfrifoldeb am gynllunio yw'r rhan fwyaf o'r cwestiwn mewn gwirionedd. Fodd bynnag, rwy'n hapus i gadarnhau fy mod yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth ar drechu tlodi. Byddwch wedi clywed cyfeiriadau mewn datganiadau a wnaed ddoe a'r cyfeiriad a wneuthum yn gynharach heddiw at weithio gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd sydd hefyd yn gyfrifol am ein rhaglenni i helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Unwaith eto, caiff y cynlluniau hyn eu cyllido'n rhannol gan arian Ewropeaidd sydd eto'n ategu pwynt y cwestiwn cyntaf sef y gwerth i Gymru o fod yn rhan o aelod-wladwriaeth sy'n rhan bendant iawn o Ewrop.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fuel poverty continues to be a challenge in rural areas and councils face specific issues in effectively delivering services in rural areas compared with mainly urban regions, I would suggest. Given that there was no single rural-proofing document for the tackling poverty action plan, how is the Government ensuring that it is flexible enough to deal with the challenges of each area of Wales and what steps are being taken to deal with fuel poverty in rural Wales?

Byddwn yn awgrymu bod tlodi tanwydd yn parhau i fod yn her mewn ardaloedd gwledig a bod cynghorau'n wynebu problemau penodol wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol mewn ardaloedd gwledig o gymharu â rhanbarthau trefol yn bennaf. O ystyried nad oedd dogfen sengl ar gael ar gyfer diogelu ardaloedd gwledig yn rhan o'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi, sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod y cynllun yn ddigon hyblyg i ymdrin â heriau pob ardal yng Nghymru a pha gamau sydd ar waith i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn ardaloedd gwledig Gymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fuel poverty is an issue in rural and urban Wales. Sticking to rural Wales, we have a clear policy programme that is there to benefit communities in rural Wales. We have ongoing research to help us understand more about the work of rural Wales. The external tackling poverty advisory group is doing a piece of work to help inform what we are already doing and future Welsh Government action. This is very much an issue on our agenda and our commitment to tackling poverty in rural Wales remains clear, definite and consistent.

Mae tlodi tanwydd yn broblem yn ardaloedd gwledig a threfol Cymru. O ran cefn gwlad Cymru, mae gennym raglen bolisi eglur er lles cymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Mae ymchwil parhaus ar y gweill gennym i'n helpu i ddeall mwy am waith ar gefn gwlad Cymru. Mae'r grŵp cyngori allanol ar drechu tlodi yn gwneud gwaith i helpu i lywio'r hyn rydym eisoes yn ei wneud a champau gweithredu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae hyn yn sicr yn fater sydd ar ein hagenda ac mae ein hymrwymiad i drechu tlodi yng nghefn gwlad Cymru yn parhau i fod yn glir, yn bendant ac yn gyson.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:36

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dirprwy Weinidog, er nad yw'r dwyster tlodi cynddrwg mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu â rhai o'r ardaloedd ôl-ddiwydiannol, mae'n glir bod unigolion, teuluoedd a phlant tlawd mewn etholaeth fel fy un i yng Ngheredigion. Gan fod eich polisi cyllido yn dueddol o dargedu ardaloedd gyda dwyster tlodi, mae'n rhedeg y risg o amddifadu a pheidio cwrdd ag anghenion pobl tlawd yng nghefn gwlad. Er enghraifft, mae'r Cyngor ar Bopeth yn Aberystwyth wedi gorfod cau ei swyddfa yn ddiweddar ac nid oes presenoldeb gan undeb credyd yn Aberystwyth. Dyna ddau wasanaeth pwysig a ddylai fod ar gael mewn tref mor strategol o bwys ag Aberystwyth. A wnewch chi felly weithio gyda'r mudiadau hyn fel Llywodraeth i sicrhau eu bod nhw yn gallu, dros amser, datblygu eu gwasanaethau mewn ardal fel Aberystwyth?

Deputy Minister, although the intensity of poverty is not as acute in rural areas compared with the post-industrial areas, it is clear that there are individuals, families and children who are poor in constituencies such as mine in Ceredigion. Given that your funding policy tends to target areas with intense poverty, it runs the risk of depriving and not meeting the needs of poor people in rural areas. For example, Citizens Advice in Aberystwyth has had to close its office recently and there is no credit union presence in Aberystwyth. Those are two important services that should be available in a town as strategically important as Aberystwyth. Will you therefore work with these organisations as a Government in order to ensure that they can, over time, develop their services in an area such as Aberystwyth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, we want to see services available to the poorest families and communities right across Wales. Some of the particular points raised are, of course, areas on which I work with the Minister. However, it is fair to point out that, of the key anti-poverty programmes, there is a clear footprint in rural Wales. For example, there is Families First, which is active in every single local authority. I have visited Aberystwyth and seen what Families First is already doing. I have seen the work that Flying Start is doing in Aberystwyth as well. It is not correct to say that this Government does not take issue with rural poverty and does not have a particular programme of action to try to address the causes of rural poverty right across Wales.

Gwnawn, rydym am sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar gyfer y teuluoedd a'r cymunedau tlotaf ledled Cymru. Wrth gwrs, mae rhai o'r pwyntiau penodol a godwyd yn feysydd rwy'n gweithio arnynt gyda'r Gweinidog. Fodd bynnag, mae'n deg nodi bod ôl troed amlwg y prif raglenni gwrthdodi yng nghefn gwlad Cymru. Er enghraifft, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn weithredol ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Rwyf wedi ymweld ag Aberystwyth a gweld yr hyn y mae Teuluoedd yn Gyntaf eisoes yn ei wneud. Rwyf wedi gweld y gwaith y mae Dechrau'n Deg yn ei wneud yn Aberystwyth hefyd. Nid yw'n gywir dweud nad yw'r Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â thlodi gwledig ac nad oes ganddi raglen waith benodol ar gyfer ceisio mynd i'r afael ag achosion tlodi gwledig ar draws Cymru gyfan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Swyddfeydd Post

Post Offices

14:37

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch diogelu Swyddfeydd Post yng Nghymru? OAQ(4)0166(CTP)

3. What discussions has the Minister held with the UK Government in relation to safeguarding Post Offices in Wales? OAQ(4)0166(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I thank the Member for the question. I have held no discussions with the UK Government as this is not a devolved matter. Nonetheless, we have supported post offices through the post office diversification fund, providing £6.3 million of funding to date. I am currently considering applications made under the 2013 funding round.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ni chefais unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU gan nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Serch hynny, rydym wedi cefnogi swyddfeydd post drwy'r gronfa arallgyfeirio swyddfeydd post, gan ddarparu £6.3 miliwn o gyllid hyd yma. Rwy'n ystyried ceisiadau a gyflwynwyd o dan gylch ariannu 2013 ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am yr ateb. Rwy'n derbyn nad yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli ond mae Llywodraeth yr Alban wedi ymestyn ei chynllun er mwyn delio â busnesau fel yr un yn Nyffryn Ceiriog nad ydynt yn cwrdd â chanllawiau'r Llywodraeth a'r Swyddfa Bost. A fydddech yn barod, felly, i adolygu'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd i weld a oes unrhyw wersi ychwanegol i'w dysgu o'r Alban?

Thank you for that. I accept that this is not a devolved matter but the Scottish Government has extended its scheme in order to deal with businesses such as the one in the Ceiriog valley that do not meet the guidelines of the Government and the Post Office. Would you be willing, therefore, to review the way in which the scheme is operating in Wales at present in order to see whether there are any additional lessons to be learnt from Scotland?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:39 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am always content to review schemes if evidence is produced that we could do something in a better way. However, I can say that I have had discussions with Post Office Limited and the National Federation of SubPostmasters. They have not come forward with any such suggestion.
- Rwyf bob amser yn fodlon adolygu cynlluniau os ceir tystiolaeth y gallew ni wneud rhywbeth mewn ffordd well. Fodd bynnag, gallaf ddweud fy mod wedi cael trafodaethau gyda Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri. Nid ydynt wedi cyflwyno unrhyw awgrym o'r fath.
- 14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperon, Mark Isherwood.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.
- 14:39 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As you indicated, this is primarily a UK Government responsibility, although, clearly, you have had the post office development fund support over the last two Assemblies. The UK Government has committed some £2 billion to ensuring that the network stays open and that we support the 11,500 plus post offices and access to services in communities. However, concerns are regularly raised that when a sub-postmaster or independent operator retires or closes their business other operators or people do not come forward regularly to apply. What discussions have you, therefore, had with the Post Office to identify what those barriers might be and to see how the Welsh Government could possibly help them overcome them?
- Fel y dywedaso, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hyn yn bennaf er ei bod yn amlwg eich bod wedi cael cymorth y gronfa ddatblygu swyddfeydd post dros y ddau Gynulliad diwethaf. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo tua £2 biliwn i sicrhau bod y rhwydwaith yn aros ar agor ac i gefnogi'r 11,500 a mwy o swyddfeydd post a mynediad at wasanaethau mewn cymunedau. Fodd bynnag, mae pryderon yn codi'n rheolaidd pan fydd is-bostfeistr neu weithredwr annibynnol yn ymddeol neu'n cau a phrinder ceisiadau gan weithredwyr neu bobl eraill i gymryd eu lle'n rheolaidd. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Swyddfa'r Post felly i ganfod beth yw'r rhwystrau ac i weld sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i'w goresgyn o bosibl?
- 14:40 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that question. It is a matter that we take very seriously, and, as I have indicated, I have had discussions with Post Office Limited and the National Federation of SubPostmasters on this and a range of matters. We know, for example, that in terms of the Crown post offices, the network in the UK is currently losing £37 million per annum. Much of this is because of the way in which people now access services through the internet et cetera rather than over the counter in post offices as they would have traditionally done over the years. So, there are major changes. In terms of Wales now, however, there will be three ways that sub-postmasters can apply to be in charge of their post office—main post offices, which we are familiar with, local post offices in retail outlets, and now community post offices where there is no retail output within half a mile and where special facilities can be developed. Indeed, there will be a resource of £10,000 per annum to those who take charge of community post offices.
- Diolch yn fawr iawn am eich cwestiwn. Mae'n fater rydym yn ei gymryd o ddifrif ac fel y dywedais, rwyf wedi cael trafodaethau gyda Swyddfa'r Post Cyfyngedig a Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri ar hyn ac ystod o faterion eraill. O ran swyddfeydd post y Goron, gwyddom er enghraifft fod rhwydwaith y DU ar hyn o bryd yn colli £37 miliwn y flwyddyn. Deillia hyn i raddau helaeth o'r ffordd y mae pobl bellach yn defnyddio gwasanaethau'r rhyngwrwd ac ati yn hytrach na gwasanaethau dros y cownter mewn swyddfeydd post fel y byddent wedi'i wneud yn draddodiadol dros y blynyddoedd. Felly mae yna newidiadau mawr. O ran Cymru yn awr, fodd bynnag, bydd tair ffordd y gall is-bostfeistri wneud cais i fod yn gyfrifol am eu swyddfeydd post—rydym yn gyfarwydd â phrif swyddfeydd post, swyddfeydd post lleol mewn siopau ac yn awr, swyddfeydd post cymunedol lle nad oes man gwerthu o fewn hanner milltir a lle y gellir datblygu cyfleusterau arbennig. Yn wir, caiff £10,000 y flwyddyn ei ddarparu ar gyfer pobl sy'n cymryd cyfrifoldeb am swyddfeydd post cymunedol.

14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This was raised for instance—[Inaudible.]—with a successful outcome in Brymbo, in north-east Wales, for example. However, only 20 of the post offices in Wales are Crown post offices, and the wider concern, therefore, is about delivering sustainability. As part of that, for the last 11 years, since I have been in the Assembly, we have heard the Welsh Government and the post office talking about working with credit unions and delivering services in post offices. The Welsh Government and the UK Government are supporting funding for sustainability in credit unions, and also, as you have just indicated, there is the push to deliver sustainability in post offices. When are we going to see action to turn that rhetoric that we all support into real services in our communities?

Codwyd hyn er enghraifft—[Anghlywadwy.]—gyda chanlyniad llwyddiannus ym Mrymbo, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, er enghraifft. Fodd bynnag, dim ond 20 o swyddfeydd post Cymru sy'n swyddfeydd post y Goron a'r pryder mwy cyffredinol felly yw pa mor gynaliadwy yw hyn. Yn rhan o hynny, dros yr 11 mlynedd diwethaf, ers i mi fod yn y Cynulliad, rydym wedi clywed Llywodraeth Cymru a'r swyddfa bost yn siarad am weithio gydag undebau credyd a darparu gwasanaethau mewn swyddfeydd post. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cefnogi cyllid ar gyfer cynaliadwyedd undebau credyd a hefyd, fel rydych newydd ei nodi, mae yna ymdrechion i sicrhau cynaliadwyedd swyddfeydd post. Pryd y cawn ni weld camau i droi'r rhethreg rydym i gyd yn ei gefnogi yn wasanaethau go iawn yn ein cymunedau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question and he raises a very good point indeed. This is something that I am actively engaged in, both in terms of discussions with the sub-postmasters, and, indeed, with the credit union movement, to see how we can get the best delivery of key public services on a one-stop-shop basis where that is possible. So, that is a matter that I will be returning to and I will keep the Member informed.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn ac mae'n codi pwynt da iawn yn wir. Dyma rywbeth rwy'n cymryd rhan weithredol ynddo o ran cynnal trafodaethau gyda'r is-bostfeistri ac yn wir, gyda'r mudiad undebau credyd, i weld sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn cael eu darparu yn y ffordd orau ar sail siop un stop lle y bo hynny'n bosibl. Felly dyma fater y byddaf yn dychwelyd ato a byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch iawn i glywed, Weinidog, eich bod yn mynd i wneud yr asesiad hwnnw o'r modd y gall gwasanaethau gael eu cyflwyno mewn siop un stop, oherwydd yr hyn sy'n digwydd mewn llawer iawn o'n cymunedau ni yn awr yw bod gwasanaethau yn diflannu. Er enghraifft, yn nhref marchnad Llandeilo yn ddiweddar, caeodd un o fanciau'r stryd fawr, gan gyfeirio ei gwsmeriaid at y swyddfa bost. A wnewch chi ymdrechu, Weinidog, i sicrhau bod y gwasanaethau sylfaenol hynny yn aros, nid un unig yn ein trefi marchnad ni, ond yn ein pentrefi gwledig ni hefyd?

Minister, I am very pleased to hear that you are going to carry out that assessment of the way in which services can be delivered in a one-stop shop, because what happens in very many of our communities now is that services are disappearing. For example, in the market town of Llandeilo recently, one of the high street banks closed and referred its customers to the post office. Will you make an effort, Minister, to ensure that those basic services remain, not only in our market towns, but also in our rural villages?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be happy to do my very best in that regard. What I cannot control, in terms of the services of post offices as opposed to the buildings, is how people access them and tend to use them; I cannot control that because there are so many other ways now for people to access services, for example over the internet. I am also concerned with the issue of the spread and availability of credit unions and I will want to look at ways in which those issues can be shared.

Byddaf yn hapus i wneud fy ngorau glas yn hynny o beth. Yr hyn na allaf ei reoli, o ran gwasanaethau swyddfeydd post yn hytrach na'r adeiladau, yw sut y mae pobl yn cael mynediad atynt ac yn tueddu i'w defnyddio; ni allaf reoli hynny oherwydd bod cymaint o ffyrdd eraill bellach i bobl ddefnyddio gwasanaethau, er enghraifft dros y rhyngwrdd. Rwy'n ymwneud hefyd â mater lledaeniad ac argaeledd undebau credyd a byddaf eisiau edrych ar ffyrdd o rannu'r materion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n derbyn, Weinidog, nad yw'r gwasanaeth fel y cyfryw wedi'i ddatganoli, ac rwy'n derbyn hefyd yr hyn rydych yn ei ddweud am y ffaith na allwch reoli arferion pobl, o ran y ffordd y maent yn cael mynediad i wasanaethau. Fodd bynnag, mewn sefyllfaoedd pan mai'r gwasanaeth hwnnw yw'r unig wasanaeth sydd ar gael—ac yn aml iawn erbyn hyn yn ein pentrefi rydym yn gweld gwirfoddolwyr yn mynd ati i gynnal y gwasanaeth hwnnw—a wnewch chi ymdrechu i edrych ar y modd y gall Llywodraeth Cymru, ar draws y portffolios, gynorthwyo pobl i sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn parhau?

I accept, Minister, that the service as such is not devolved, and I also accept that you say that you cannot control people's habits, in terms of the way that they access services. However, in situations where that service is the only service that is available—and very often by now in our villages we see volunteers running that service—will you make an effort to look at the way in which the Welsh Government, across the portfolios, assists people to ensure that that service continues?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Member for that question and assure him that I will do my very best in this regard and work with other Ministers to see what we can do. However, I did refer in an earlier answer to the development of the new community post offices, and we hope that that is an initiative that can be developed further, together with other ways of working.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn a gallaf ei sicrhau y byddaf yn gwneud fy ngorau glas yn hyn o beth ac yn gweithio gyda Gweinidogion eraill i weld beth y gallwn ei wneud. Fodd bynnag, cyfeiriais mewn ateb cynharach at ddatblygiad y swyddfeydd post cymunedol newydd ac rydym yn gobeithio bod honno'n fenter y gellir ei datblygu ymhellach, ynghyd â ffyrdd eraill o weithio.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rhaglen Cynhwysiant Digidol

Digital Inclusion Programme

14:44 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd rhaglen Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru?
OAQ(4)0165(CTP)

4. Will the Minister make a statement on the progress of the Welsh Government's Digital Inclusion Programme?
OAQ(4)0165(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:44 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that question. Good progress is being made towards tackling digital exclusion. The percentage of Welsh adults not regularly using the internet has fallen from 34% in 2010 to 24% in 2013. Communities 2.0 continues to support the most digitally excluded groups and has helped over 39,000 individuals benefit from the internet.

Diolch i chi am y cwestiwn. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar fynd i'r afael ag allgau digidol. Mae canran yr oedolion yng Nghymru nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrwyd yn rheolaidd wedi gostwng o 34% yn 2010 i 24% yn 2013. Mae Cymunedau 2.0 yn parhau i gefnogi'r grwpiau sydd wedi'u hallgáu fwyaf yn ddigidol ac mae wedi helpu dros 39,000 o unigolion i elwa o'r rhyngwrwyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:45 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you, Minister, for that answer. In recent meetings that I have had with groups that represent people with disabilities, they have highlighted the importance of libraries in terms of providing access points for internet services and computers in particular. We are all aware that libraries are under severe pressure from local government settlements. They told me that the Welsh Government has done no work to establish the overall use of libraries by people with disabilities, in particular in the field of digital inclusion. Are you minded to undertake such a piece of work so that there is a greater understanding of the important role that libraries, and in particular having access to the internet, offer groups who suffer from disabilities in our communities?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae cyfarfodydd a gefais yn ddiweddar gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl ag anableddau wedi tynnu sylw at bwysigrwydd llyfrgelloedd o ran darparu pwyntiau mynediad at wasanaethau rhyngwrwyd a chyfrifiaduron yn arbennig. Rydym i gyd yn ymwybodol fod llyfrgelloedd o dan bwysau difrifol yn sgîl setliadau llywodraeth leol. Dywedasant wrthyf nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith i bennu'r defnydd cyffredinol a wneir o lyfrgelloedd gan bobl ag anableddau yn enwedig ym maes cynhwysiant digidol. A fydddech yn ystyried ymgymryd â gwaith o'r fath er mwyn gwella dealltwriaeth o rôl bwysig llyfrgelloedd i grwpiau ag anableddau yn ein cymunedau, yn enwedig o ran mynediad at y rhyngwrwyd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:46 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
You make an important point about the role of public libraries, and I acknowledge that. A month or so ago, I was pleased to attend the official opening of the new Caerphilly library and which my colleague, the Minister for Culture and Sport, attended to undertake the official opening. I can say that while the matter you raise in terms of libraries is one for my colleague, the Minister, it is something that I have already raised with him and on which I will have continuing discussions.

Rydych yn gwneud pwynt pwysig am rôl llyfrgelloedd cyhoeddus, rwy'n cydnabod hynny. Tua mis yn ôl, pleser oedd mynychu agoriad swyddogol llyfrgell newydd Caerffili a agorwyd yn swyddogol gan fy nghydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon. Er mai mater i fy nghydweithiwr yw'r hyn rydych yn ei grybwyll mewn perthynas â llyfrgelloedd, gallaf ddweud ei fod yn rhywbeth rwyf eisoes wedi'i drafod gydag ef a byddaf yn parhau i gael trafodaethau ynglŷn â'r mater.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:46 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is some frustration no doubt at the pace of the Superfast Cymru roll-out in parts of rural Wales but, of course, we are being told that we are still on track. However, there is some concern that digital inclusion measures, as well as measures to make sure that businesses and so on take advantage of the opportunities provided by being online, are not keeping pace with infrastructure developments. What assurances can the Minister give us that this is being addressed?
- Nid oes amheuaeth fod rhywfaint o rwystredigaeth ynglŷn â chyflymder y gwaith o gyflwyno Cyflymu Cymru mewn rhannau o gefn gwlad Cymru ond wrth gwrs, rydym yn cael gwybod ein bod yn dal ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder nad yw mesurau cynhwysiant digidol, yn ogystal â mesurau i wneud yn siŵr fod busnesau ac yn y blaen yn manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig o fod ar-lein, yn datblygu yr un mor gyflym â'r datblygiadau seilwaith. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i ni fod hyn yn cael sylw?
- 14:47 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that question. Again, that is a very important point. Of course, my colleague, the Deputy Minister for Skills and Technology, is responsible for the roll-out of Superfast Cymru. I am discussing these matters with him because, clearly, as Superfast Cymru rolls out, it presents some excellent opportunities for us to expand the information to include Communities 2.0 and the other appropriate benefits of access to the internet.
- Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Unwaith eto, mae hwn yn bwynt pwysig iawn. Fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, sy'n gyfrifol am y broses o gyflwyno Cyflymu Cymru wrth gwrs. Rwy'n trafod y materion hyn gydag ef am ei bod yn amlwg fod cyflwyno Cyflymu Cymru yn cynnig cyfleoedd gwych i ni ehangu'r wybodaeth i gynnwys Cymunedau 2.0 a'r manteision priodol eraill a ddaw yn sgîl mynediad i'r rhyngwyd.
- 14:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The digital inclusion delivery plan was published back in March 2011 and was designed to be a working document to guide all interventions in this area, including a section that is supposed to be updated to provide a progress report. However, that plan, despite setting a number of targets for reduction in digital exclusion that were supposed to be met back in May 2012, has not been reported against. In fact, that plan and the web page that it is on, have not been updated since March 2011. Is that delivery plan now dead or is it resting? If it is not dead, why have you not reported on progress against the targets that are listed within it?
- Cyhoeddwyd y cynllun cyflawni cynhwysiant digidol yn ôl ym mis Mawrth 2011 ac fe'i lluniwyd i fod yn ddogfen waith ar gyfer arwain yr holl ymyriadau yn y maes gan gynnwys adran sydd i fod i gael ei diweddarau er mwyn darparu adroddiad ar gynnydd. Fodd bynnag, er bod y cynllun yn pennu nifer o dargedau ar gyfer lleihau allgau digidol a oedd i'w cyrraedd erbyn mis Mai 2012, ni chafwyd adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y cynllun. Yn wir, nid yw'r cynllun na'r dudalen we ar ei gyfer wedi'u diweddarau ers mis Mawrth 2011. A yw'r cynllun cyflawni'n farw bellach neu ai gorffwys yn unig y mae? Os nad yw'n farw, pam nad ydych wedi adrodd ar gynnydd yn erbyn y targedau sy'n cael eu rhestru ynddo?
- 14:48 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that point. I will ask officials to look into the information that is posted on its web page straight away. I can, however, assure you that it is not dead and neither is it resting; it is in the process of being refreshed. However, as you acknowledge, a number of targets have already been achieved. The revised and refreshed digital inclusion delivery plan, including revised targets, will be published this summer.
- Diolch yn fawr iawn am y pwynt hwnnw. Byddaf yn gofyn i swyddogion edrych ar yr holl wybodaeth ar dudalen we'r cynllun ar unwaith. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau nad yw'n farw ac nid yw'n gorffwys ychwaith; mae yn y broses o gael ei ddiweddarau. Er hynny, fel rydych yn cydnabod, mae nifer o dargedau eisoes wedi cael eu cyflawni. Bydd y cynllun gweithredu cynhwysiant digidol wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau, gan gynnwys targedau diwygiedig, yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf.
- Datblygu Cynaliadwy** **Sustainable Development**
- 14:48 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy? OAQ(4)0164(CTP)
5. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's progress in relation to sustainable development? OAQ(4)0164(CTP)

14:49	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Member for that question. Sustainability and ensuring the right long-term development path for Wales is at the heart of our programme for government. I look forward to welcoming Members' views on the latest sustainable development annual report when we debate it in July and look forward to introducing the future generations Bill shortly thereafter.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae cynaliadwyedd a sicrhau'r llwybr datblygu hirdymor cywir ar gyfer Cymru yn ganolog i'n rhaglen lywodraethu. Rwy'n edrych ymlaen at groesawu barn yr Aelodau ar yr adroddiad blynyddol diweddaraf ar ddatblygu cynaliadwy pan fyddwn yn ei drafod ym mis Gorffennaf ac edrychaf ymlaen at gyflwyno Bil cenedlaethau'r dyfodol yn fuan wedi hynny.</p>
14:49	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae'r term 'datblygu cynaliadwy' wedi ei gynnwys yn nwy Ddeddf Cymru. Beth yw diffiniad Llywodraeth Cymru o'r term 'datblygu cynaliadwy' erbyn hyn?</p>	<p>The term 'sustainable development' is included in two Welsh Acts. What is the Welsh Government's definition of the term 'sustainable development' now?</p>
14:49	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>You are quite right—we do have the 'One Wales: One Planet' definition. It is likely that, in terms of the face of the future generations Bill, it will be the Brundtland definition that will appear.</p>	<p>Rydych yn llygad eich lle—mae gennym ddiffiniad 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. O ran wyneb y Bil cenedlaethau'r dyfodol, mae'n debygol mai diffiniad Brundtland fydd yn ymddangos.</p>
14:49	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Sustainability is supposed to be at the heart of the Assembly's constitution and everything that we do here, yet, a recent Eurostat report has shown that parts of west Wales and the Valleys are now poorer than parts of Poland and eastern Europe. Do you agree with me that your Welsh Government needs to refresh—to use that term—its approach to the use of EU structural funds to make sure that the next round of structural funding that the Deputy Minister said earlier was so important is used to much better effect, so that the Welsh economy is far more sustainable over the next 15 years than it has proved over the last 15 years?</p>	<p>Mae cynaliadwyedd i fod yn rhan ganolog o gyfansoddiad y Cynulliad a phopeth a wnawn yma, eto i gyd, dangosodd adroddiad Eurostat diweddar fod rhannau o orllewin Cymru a'r Cymoedd bellach yn dlotach na rhannau o Wlad Pwyl a dwyrain Ewrop. A ydych yn cytuno â mi fod angen i Lywodraeth Cymru ddiweddarar—i ddefnyddio'r term—ei hymagwedd at ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE i wneud yn siŵr fod y rownd nesaf o gyllid strwythurol, y dywedodd y Dirprwy Weinidog yn gynharach ei fod mor bwysig, yn cael ei ddefnyddio'n llawer mwy effeithiol er mwyn sicrhau bod economi Cymru yn llawer mwy cynaliadwy dros y 15 mlynedd nesaf nag y bu dros y 15 mlynedd diwethaf?</p>
14:50	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I thank the Member for his comments. I have a feeling that I am going to regret using the word 'refresh', but I will refresh my view on that at the end of the questions. However, you raise an important point. I can tell you that 20% of the new ESF round of funding must be used on schemes that clearly target the poverty agenda. I am in regular discussions with my colleague the Minister for Finance on this matter.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Mae gen i deimlad fy mod yn mynd i ddifaru defnyddio'r gair 'diweddarar' ond byddaf yn diweddarar fy marn ar hynny ar ddiwedd y cwestiynau. Fodd bynnag, rydych yn codi pwynt pwysig. Gallaf ddweud wrthyf fod yn rhaid defnyddio 20% o'r rownd ESF newydd o gyllid ar gynlluniau sy'n targedu'r agenda tlodi yn eglur. Rwyf mewn trafodaethau rheolaidd gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cyllid, ar y mater hwn.</p>
	<p>However, sustainable development will be at the heart of our future programmes and, indeed, this will be reinforced by the future generations Bill that I will introduce on 7 July.</p>	<p>Fodd bynnag, bydd datblygu cynaliadwy yn rhan ganolog o'n rhaglenni yn y dyfodol ac yn wir, bydd hyn yn cael ei atgyferthu gan y Bil cenedlaethau'r dyfodol y byddaf yn ei gyflwyno ar 7 Gorffennaf.</p>
	Cysylltiadau Cymunedol	Community Relations
14:51	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella cysylltiadau cymunedol yng Nghymru yn ystod y 12 mis nesaf? OAQ(4)0160(CTP)</p>	<p>6. Will the Minister outline his priorities for improving community relations in Wales in the next twelve months? OAQ(4)0160(CTP)</p>

- 14:51 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for that question. I will be launching a national community cohesion delivery plan on 5 June 2014. It will aim to tackle community tensions and increase engagement with people with protected characteristics. I have announced funding for eight regional community cohesion co-ordinators to support delivery.
- Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Byddaf yn lansio cynllun cyflawni cydlyniant cymunedol cenedlaethol ar 5 Mehefin 2014. Bydd yn anelu i fynd i'r afael â thensiynau cymunedol a chynyddu ymgysylltiad â phobl â nodweddion gwarchoddedig. Rwyf wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer wyth o gydgyssylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun.
- 14:51 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. Figures reveal that, in the last 10 years, Wales's foreign-born population has risen by 82%. Merthyr Tydfil saw its migrant population increase by 227%—the second biggest percentage increase of anywhere in the United Kingdom. What studies has the Welsh Government undertaken into the effect of migration on communities such as Merthyr Tydfil to see whether extra resources need to be allocated in the interests of good community relations here?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae'r ffigurau'n dangos bod poblogaeth Cymru a anwyd dramor wedi codi 82% yn y 10 mlynedd diwethaf. Gwelodd Merthyr Tudful ei phoblogaeth fudol yn codi 227%—y cynnydd canrannol mwyaf ond un yn y Deyrnas Unedig. Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i effaith mudo ar gymunedau fel Merthyr Tudful i weld a oes angen dyrannu adnoddau ychwanegol er budd cysylltiadau cymunedol da?
- 14:52 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The very purpose of our community cohesion strategy is to make sure that public services are delivered as effectively as possible with regard to the need of the make-up of that community.
- Union ddiben ein strategaeth cydlyniant cymunedol yw gwneud yn siŵr fod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mor effeithiol ag y bo modd mewn perthynas ag anghenion cyfansoddiad y gymuned honno.
- There are a number of issues in terms of the figures that you raise. There are tensions, sometimes, which are whipped up by others and, certainly, through initiatives such as the hate crime framework, we will be doing our best to make sure that public services work together to tackle discrimination and victimisation.
- Mae nifer o faterion y codi o ran y ffigurau rydych yn cyfeirio atynt. Weithiau, caiff tensiynau eu cymell gan eraill, ac yn sicr, drwy fentrau megis y fframwaith troseddau casineb, byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac erledigaeth.
- 14:53 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, when we talk about community relations in Wales, in this thirtieth anniversary of the miners' strike, would you agree that many of our communities still suffer from the terrible legacy of a strike that was engineered by the Tory party? Of course, many of those cheerleaders from that particular time are now in UKIP and have done so much damage to our working-class communities. It is about time that Wales was given an apology for the engineered strike, as we now know it from the disclosed Cabinet office papers.
- Weinidog, wrth sôn am gysylltiadau cymunedol yng Nghymru, a hithau'n ddeng mlynedd ar hugain ers streic y glowyr, a fydddech yn cytuno bod llawer o'n cymunedau yn dal i ddioddef yn sgîl y streic ofnadwy a gynllwyniwyd gan y blaid Doriaidd? Wrth gwrs, mae llawer o'r bobl fwyaf uchel eu cloch o'r adeg honno yn awr yn aelodau o UKIP ac wedi gwneud cymaint o ddifrod i'n cymunedau dosbarth gweithiol. Mae'n hen bryd i Gymru gael ymddiheuriad am y streic honno y gwyddom bellach iddi gael ei chynllwynio, yn ôl yr hyn y mae papurau swyddfa'r Cabinet yn ei ddatgelu.
- 14:53 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much for that question. Indeed, I am old enough to remember the strike, as a much younger adult when the miners' strike was on. I was living in the community of Ystrad Mynach in the Rhymney Valley at the time, and the local Penallta colliery was very heavily, shall we say, protected by a national police force, and that tore the local community apart because of the way in which the mining industries and their associated industries were attacked and closed. We are definitely living with the impact of those effects to this day, and that is another example of how industrial policy and political policy can damage community cohesion.
- Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Yn wir, rwy'n ddigon hen i gofio streic y glowyr pan oeddwn yn oedolyn llawer iau. Roeddwn yn byw yng nghymuned Ystrad Mynach yng Nghwm Rhymni ar y pryd ac roedd glofa leol Penallta yn cael ei gwarchod yn drylwyr iawn, ddywedwn ni, gan heddlu cenedlaethol. Rhwygodd hynny'r gymuned yn ei hanner oherwydd y ffordd yr ymosodwyd ar y diwydiannau mwyngloddio a'u diwydiannau cysylltiedig, cyn eu cau. Rydym yn bendant yn byw gydag effaith hynny hyd heddiw ac mae'n enghraifft arall o sut y gall polisi diwydiannol a pholisi gwleidyddol niweidio cydlyniant cymunedol.

14:54	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Deputy Minister, in the last few weeks, far-right fascist organisations have made applications to both Swansea and Cardiff councils to hold demonstrations in the city centres. In Swansea, they were offered two separate locations but refused them, and turned up at the city centre anyway. Luckily, there was a counter demonstration there to combat some of the misconceptions that these organisations have. However, I wonder whether you have had any discussions with the police, because we really need to understand if they want to come into our areas, what happens. I support the council leader in Swansea, who made the decisions that he made. However, what can be done when those decisions are undermined by such groups?	Ddirprwy Weinidog, dros yr ychydig wythnosau diwethaf, mae sefydliadau ffasgaidd asgell dde wedi cyflwyno ceisiadau i gynghorau Abertawe a Chaerdydd yn gofyn am gael cynnal gwrthdystiadau ynghanol y dinas oedd. Yn Abertawe, cawsant gynnig dau leoliad ar wahân ond cawsant eu gwrthod ac aeth y gwrthdystwyr i ganol y ddinas beth bynnag. Yn ffodus, roedd gwrthdystiad yn cael ei gynnal yn eu herbyn yno i wrthsefyll rhai o'r camsyniadau sydd gan y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, tybed a ydych wedi cael trafodaethau gyda'r heddlu gan fod gwir angen i ni ddeall beth sy'n digwydd os ydynt am ddod i mewn i'n hardaloedd. Rwy'n cefnogi arweinydd y cyngor yn Abertawe am wneud y penderfyniadau a wnaeth. Fodd bynnag, beth y gellir ei wneud pan fydd y penderfyniadau hynny'n cael eu tanseilio gan grwpiau o'r fath?	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography Thank you for that. Although I am refreshed, I am not actually a Deputy Minister at this point.	Diolch i chi. Er fy mod wedi diweddarau, nid wyf yn Ddirprwy Weinidog ar hyn o bryd.	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Oh, I am sorry.	O, mae'n ddrwg gennyf.	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography That is okay. As far as I know. [Laughter.] However, you do raise a very serious point—[Interruption.]	Mae'n iawn. Cyn belled ag y gwn. [Chwerthin.] Fodd bynnag, rydych yn codi pwynt difrifol iawn—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography I need to refresh my memory.	Mae angen i mi ddiweddarau fy nghof.	Senedd.tv Fideo Video
14:55	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography Yes, okay. You do raise a very serious point, and there is no doubt about the negative and damaging actions that follow as a result of far-right hate crime, and, indeed, that is one aspect of the revised hate crime framework that I will be launching next week. I already have a meeting arranged with the deputy chief constable of South Wales Police, who leads on this matter. That will be held very soon to see how the police can better engage in these issues.	Ie, iawn. Rydych yn codi pwynt difrifol iawn ac nid oes amheuaeth ynglŷn â gweithredoedd negyddol a niweidiol sy'n dilyn o ganlyniad i droseddau casineb asgell dde, ac yn wir, mae hynny'n un agwedd ar y fframwaith troseddau casineb diwygiedig y byddaf yn ei lansio yr wythnos nesaf. Rwyf eisoes wedi trefnu cyfarfod gyda dirprwy brif gwnstabl Heddlu De Cymru sy'n arwain ar y mater hwn. Cynhelir y cyfarfod yn fuan iawn er mwyn gweld sut y gall yr heddlu ymdrin â'r materion hyn yn well.	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
14:56	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. Minister, can you tell me what work the Welsh Government is doing in respect of hate crime and of improving race relations?	Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, a allwch ddweud wrthyf pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â throseddau casineb a gwella cysylltiadau hiliol?	Senedd.tv Fideo Video

14:56	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>As I have mentioned, I will be launching the hate crime framework next week. That should be a very well-attended event at the Millennium Stadium. We are working with the Wales race forum and the faith forum and the Gypsy and Traveller groups, so we are not leaving any stone unturned in terms of our work with various minority groups.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Fel y crybwyllais, byddaf yn lansio'r fframwaith troseddau casineb yr wythnos nesaf. Dylai fod yn ddigwyddiad sy'n denu llawer iawn o bobl yn Stadiwm y Mileniwm. Rydym yn gweithio gyda fforwm hil Cymru, y fforwm ffydd a grwpiau Sipsiwn a Theithwyr, felly nid ydym yn esgeuluso dim o ran ein gwaith gyda gwahanol grwpiau lleiafrifol.</p>
14:57	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, Minister. Are you aware of the disquiet among the racial equality councils in Wales at the fact that they did not win the award on tackling hate crime, which was, instead, awarded to Victim Support, which has no record of working in the fields of race, disability or sexual orientation, so much so, that I understand that they have withdrawn from the Wales race forum meeting, because they consider that your Government's record on race relations is very poor?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A ydych yn ymwybodol o'r anesmwythyd ymhlith y cynghorau cydraddoldeb hiliol yng Nghymru ynglŷn â'r ffaith nad hwy a enillodd y wobr am drechu troseddau casineb a ddyfarnwyd yn lle hynny i Cymorth i Ddiodefyr, sefydliad nad oes ganddo unrhyw hanes o weithio ym maes hil, anabledd na chyfeiriadedd rhywiol, yn gymaint felly fel fy mod yn deall eu bod wedi tynnu'n ôl o gyfarfod fforwm hil Cymru am eu bod yn ystyried bod record eich Llywodraeth ar gysylltiadau hiliol yn wael iawn?</p>
14:57	<p>Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography</p> <p>I am not aware that they have withdrawn from the forum. This is a matter that I will pursue with them, but I have not had any complaints from any organisations about the way in which the consultation on the hate crime framework has been carried out.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Nid wyf yn ymwybodol eu bod wedi tynnu'n ôl o'r fforwm. Dyma fater y byddaf yn ei drafod â hwy ond nid wyf wedi cael cwynion gan unrhyw sefydliad am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y fframwaith troseddau casineb.</p>
<p>Darpariaeth Gofal Plant</p>		<p>Childcare Provision</p>
14:57	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal plant mewn cymunedau gwledig? OAQ(4)0163(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>7. Will the Minister make a statement on childcare provision in rural communities? OAQ(4)0163(CTP)</i></p>
14:57	<p>Vaughan Gething Bywgraffiad Biography</p> <p>Improving the quality of, and access to, childcare is at the heart of our early years and childcare plan. Under the plan, we made commitments, working with economy, science and transport, to pilot initiatives to support and develop the childcare market. In taking these forward, we will ensure that rural childcare is specifically included.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Mae gwella ansawdd a hygyrchedd gofal plant yn ganolog i'n cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant. O dan y cynllun, gan weithio gydag adran yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth, gwnaethom ymrwymadau i gynnal mentrau pilot i gefnogi a datblygu'r farchnad gofal plant. Wrth fwrw ymlaen â'r rhain, byddwn yn sicrhau bod gofal plant mewn ardaloedd gwledig yn cael ei gynnwys yn benodol.</p>
14:58	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Deputy Minister, the Wales Rural Observatory report into rural services identified that communities with populations of under 1,000 residents have no local nursery provision, and that has a damaging social and economic impact. In addition, a recent Family and Childcare Trust report indicated that not a single council in Wales said that there was adequate provision of rural childcare services. You do have legal means available to you in order to ensure that local councils make that provision available. Given the importance of childcare, particularly for women who need good childcare in order to access work, will you give a commitment to use those legal powers at your disposal to ensure that those services are provided?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Ddirprwy Weinidog, nododd adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru ar wasanaethau gwledig nad oes darpariaeth feithrin leol gan gymunedau â phoblogaeth o lai na 1,000 o drigolion ac mae hynny'n cael effaith niweidiol yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn ogystal, nododd adroddiad diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant na ddywedodd unrhyw gyngor yng Nghymru fod darpariaeth ddigonol o wasanaethau gofal plant yn eu hardaloedd gwledig. Mae gennych fodd cyfreithiol o sicrhau bod cynghorau lleol yn cynnig y ddarpariaeth hon. O ystyried pwysigrwydd gofal plant, yn enwedig ar gyfer menywod sydd angen gofal plant safonol er mwyn cael gwaith, a allwch ymrwymo i ddefnyddio'r pwerau cyfreithiol sydd gennych i sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu?</p>

14:59 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have set out a clear direction of travel in our early years and childcare plan. We want to see a greater amount of childcare available. We want to see greater flexibility in that childcare and, crucially, we need to raise the quality of childcare as well. That is work that is ongoing between me and the Minister for Education and Skills. As we develop and carry that forward, I am very much aware of the need to improve the amount and availability of childcare in rural communities as well as in urban communities. It is very much part of our thinking and part of what we will be doing as a Government. As I have further details to give to you, rather than making up an answer for you now, I will certainly bring those back to the Chamber. I am happy to be examined on them as we develop our policy response.

Rydym wedi gosod cyfeiriad teithio clir yn ein cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant. Rydym am weld mwy o ofal plant yn cael ei ddarparu. Rydym am weld mwy o hyblygrwydd mewn gofal plant ac yn hollbwysig, mae angen codi ansawdd gofal plant. Mae hynny'n waith sy'n mynd rhagddo rhyngof fi a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Wrth i ni ddatblygu a symud hynny yn ei flaen, rwy'n ymwybodol iawn o'r angen i wella argaeledd gofal plant mewn cymunedau gwledig yn ogystal ag mewn cymunedau trefol. Mae'n sicr yn rhan o'n ffordd o feddwl ac yn rhan o'r hyn y byddwn yn ei wneud fel Llywodraeth. Gan fod gennyf fanylion pellach i'w rhoi i chi, yn hytrach na llunio ateb ar eich cyfer yn awr, byddaf yn sicr yn dod â'r manylion hynny i'r Siambr. Rwy'n hapus i gael fy holi yn eu cylch wrth i ni ddatblygu ein hymateb polisi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:59 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Minister, for that answer, but may I ask when parents in Brecon and Radnorshire will actually see any change on the ground as a result of those discussions that you are having at the moment? The lack of affordable childcare, or, indeed, any childcare at all is a huge issue, specifically for women in rural areas. While I am sure they would be reassured that you are talking about it, what they would very much welcome is actual childcare places that they can afford in their communities.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Ddirprwy Weiniog, ond a gaf fi ofyn pryd y bydd rhieni ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn gweld unrhyw newid mewn gwirionedd ar lawr gwlad o ganlyniad i'r trafodaethau rydych yn eu cael ar hyn o bryd? Mae diffyg gofal plant fforddiadwy, neu unrhyw ofal plant o gwbl yn wir, yn fater enfawr, yn enwedig i fenywod mewn ardaloedd gwledig. Er fy mod yn siŵr y byddent yn cael cysur o wybod eich bod yn trafod y mater, yr hyn y byddent yn ei groesawu'n fawr iawn fyddai lleoedd gofal plant go iawn y gallant eu fforddio yn eu cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, we recognise that there is a need to stimulate the childcare market in a range of parts around Wales. We will do that, and we will specifically ensure that we do that in the pilots that we run in parts of rural Wales, as well as in parts of our urban communities. The point around affordability is an area where we will clearly have a parting of ways, because part of what makes childcare affordable is the help that is provided to parents in the tax and benefits system. Changes that have been made since 2011 make childcare more expensive for working parents across the country. We will do what we can and what we should to try to stimulate the childcare market to have better childcare available in more parts of Wales. That is our commitment, and we will stick to it.

Fel y dywedais, rydym yn cydnabod bod angen ysgogi'r farchnad gofal plant mewn amryw o rannau o Gymru. Byddwn yn gwneud hynny a byddwn yn sicrhau'n benodol ein bod yn gwneud hynny yn y cynlluniau peilot a gynhaliwn mewn rhannau o gefn gwlad Cymru yn ogystal ag mewn rhannau o'n cymunedau trefol. Mae'r pwynt ynghylch fforddiadwyedd yn faes y byddwn yn amlwg yn dadlau yn ei gylch gan mai rhan o'r hyn sy'n gwneud gofal plant yn fforddiadwy yw'r cymorth a ddarperir i rieni o fewn y system dreth a budd-daliadau. Mae newidiadau a wnaed ers 2011 yn gwneud gofal plant yn ddrutach i rieni sy'n gweithio ledled y wlad. Byddwn yn gwneud yr hyn y gallwn ac y dylem ei wneud i geisio ysgogi'r farchnad gofal plant er mwyn sicrhau bod gofal plant o ansawdd gwell ar gael mewn mwy o rannau o Gymru. Dyna ein hymrwymiad a byddwn yn cadw ato.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Tlodi yng Ngorllewin Clwyd

15:01 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yng Ngorllewin Clwyd? OAQ(4)0161(CTP)

Poverty in Clwyd West

8. What action is the Minister taking to tackle poverty in Clwyd West? OAQ(4)0161(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There are a range of measures to help tackle poverty in Clwyd West undertaken by the Welsh Government and our partners. For example, there is a significant Flying Start footprint across the north Wales coast of the constituency of Clwyd West. The Member will be aware of the good work that Communities First has done over a number of years in his constituency. I had the privilege of visiting Kinmel Bay to see at first hand some of the work in transforming that particular community.

Mae gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid amryw o fesurau ar waith i helpu i drechu tlodi yng Ngorllewin Clwyd. Er enghraifft, mae ôl troed sylweddol Dechrau'n Deg i'w weld ar draws arfordir etholaeth Gorllewin Clwyd yng nngogledd Cymru. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r gwaith da y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd yn ei etholaeth. Cefais y ffrind o ymweld â Bae Cinmel i weld rhan o'r gwaith o drawsnewid y gymuned arbennig honno dros of fy hun.

15:01 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Deputy Minister for that answer, and I would concur with him about the excellent work that has been undertaken by Communities First in Kinmel Bay and elsewhere in my constituency. However, will you congratulate faith-based organisations, such as churches, which offer money and debt advice services across my constituency, particularly the Antioch money advice centre, which is based in Capel Salem in Colwyn Bay? It has been operating for a number of years now, and it has provided free unconditional advice and support to people in need. What are you doing as a Welsh Government to expand opportunities for churches and faith groups to offer and extend more of those services in the future?

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ateb a byddwn yn cytuno gydag ef ynglŷn â'r gwaith rhagorol a wnaed gan Cymunedau yn Gyntaf ym Mae Cinmel ac mewn mannau eraill yn fy etholaeth. Fodd bynnag, a wnewch chi longyfarch mudiadau ffydd, fel eglwysi, sy'n cynnig gwasanaethau cyngor ariannol a chyngor ar ddyledion ar draws fy etholaeth yn enwedig canolfan gyngor ariannol Antioch yng Nghapel Salem ym Mae Colwyn? Mae wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd bellach ac mae wedi darparu cyngor a chymorth diamod am ddim i bobl mewn angen. Beth a wnewch fel Llywodraeth i ehangu'r cyfleoedd i eglwysi a grwpiau ffydd allu cynnig ac ymestyn mwy o'r gwasanaethau hynny yn y dyfodol?

15:02 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have a regular engagement with church and other faith groups within our portfolio. For example, the Minister has met with the Archbishop of Wales about the role of churches in helping with financial inclusion projects. I am happy to recognise the role that church groups, other faith-based groups and the wider voluntary sector play in helping to deliver on this agenda of tackling poverty. The point is that a number of people go to these groups for help in need. Our job is to help them, and at the same time to tackle the causes of that need and understand why people are in such desperate times.

Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag eglwys a grwpiau ffydd eraill fel rhan o'n portffolio. Er enghraifft, mae'r Gweinidog wedi cyfarfod ag Archesgob Cymru i drafod rôl yr eglwysi yn helpu gyda phrosiectau cynhwysiant ariannol. Rwy'n hapus i gydnabod rôl y grwpiau eglwysig, grwpiau ffydd eraill a'r sector gwirfoddol ehangach yn helpu i gyflawni'r agenda hon ar gyfer trechu tlodi. Y pwynt yw bod nifer o bobl yn mynd at y grwpiau hyn am gymorth mewn angen. Ein gwaith ni yw eu helpu a mynd i'r afael ag achosion yr angen hwnnw ar yr un pryd, a deall pam y mae pobl yn wynebu trafferthion enbyd o'r fath.

Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi

Tackling Poverty Action Plan

15:02 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran gweithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0169(CTP)

9. What progress has been made in implementing the Welsh Government's Tackling Poverty Action Plan? OAQ(4)0169(CTP)

15:02 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the question. All departments within the Welsh Government are contributing towards the objectives in the action plan. There has been positive progress in a number of areas, including, for example, the Lift programme that was recently launched, and the fact that the affordable homes target has been increased from 7,500 to 10,000 homes. I will be publishing more details of progress in July as part of the first annual report. This Government remains committed to taking action to tackle poverty.

Diolch i chi am y cwestiwn. Mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu tuag at yr amcanion yn y cynllun gweithredu. Bu cynnydd cadarnhaol mewn nifer o feysydd gan gynnwys, er enghraifft, y rhaglen Esgyn a lansiwyd yn ddiweddar, a'r ffaith fod y targed ar gyfer tai fforddiadwy wedi codi o 7,500 i 10,000 o gartrefi. Byddaf yn cyhoeddi mwy o fanylion am gynnydd ym mis Gorffennaf fel rhan o'r adroddiad blynyddol cyntaf. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau'n ymrwymedig i roi camau ar waith i drechu tlodi.

- 15:03 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Our Government remains committed, as you say, to tackling poverty, and a number of initiatives have taken and are taking place to aid disadvantaged communities. Improving the educational attainment of children from low-income families is one of the aims, and I welcomed the announcement that the Flying Start programme was being extended. Deputy Minister, these initiatives, though, have been introduced at a time of squeezed budgets and welfare reform. What assessment has been made of the impact that the Westminster Government's benefit cuts are having on our most vulnerable citizens?
- Mae ein Llywodraeth yn parhau i fod yn ymroddedig, fel y dywedwch, i drechu tlodi ac mae nifer o fentrau eisoes wedi'u rhoi ar waith ac ar y gweill i helpu cymunedau dan anfantais. Mae gwella cyrhaeddiad addysgol plant o deuluoedd incwm isel yn un o'r nodau ac rwy'n croesawu'r cyhoeddiad fod rhaglen Dechrau'n Deg wedi'i hymestyn. Ddirprwy Weinidog, mae'r mentrau hyn, fodd bynnag, wedi'u cyflwyno ar adeg o gyllidebau tyn a diwygio lles. Pa asesiad a wnaed o effaith toriadau budd-dal Llywodraeth San Steffan ar ein dinasyddion mwyaf agored i niwed?
- 15:03 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is a point well made. The Welsh Government has published its own research on the cumulative impact of tax and benefit change. You do not need to just take our word for it; the Institute of Fiscal Studies' research has also highlighted that the bottom 20% of the income group will face the biggest reduction as a direct result of tax and benefit changes introduced by the UK Government. The three groups hardest hit are families with children, the disabled and those on the very lowest branch of the income tree. We recognise that that is the reality of the position. That is why, even in these toughest of times, we are committed to the anti-poverty agenda. We are committed to having more money going into Flying Start to roll that out, and it is a commitment that goes right across this Government, in direct contrast to the direction of the UK Government.
- Mae'n bwynt da. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymchwil ei hun ar effaith gronnis newidiadau treth a budd-daliadau. Nid oes angen i chi gymryd ein gair ni; mae ymchwil y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd wedi dynodi mai 20% isaf y grŵp incwm sy'n mynd i wynebu'r gostyngiad mwyaf o ganlyniad uniongyrchol i newidiadau treth a budd-daliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Y tri grŵp sy'n cael eu taro galetaf yw teuluoedd â phlant, yr anabl a phobl ar y gangen isaf un o'r goeden incwm. Rydym yn cydnabod mai dyna realiti'r sefyllfa. Dyna pam rydym wedi ymrwymo i'r agenda gwrthdlodi hyd yn oed ar yr adegau anoddaf hyn. Rydym wedi ymrwymo i neilltuo mwy o arian ar gyfer Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau hynny ac mae'n ymrwymiad ar draws pob rhan o'r Llywodraeth hon, sy'n cyferbynnu'n llwyr â chyfeiriad Llywodraeth y DU.
- 15:04 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In the 'Building Resilient Communities' document published last year, your colleague the Minister committed to undertaking a study to improve our understanding of the issues around housing and fuel poverty in rural areas, and what might be done to reduce fuel poverty in these areas. How has the Government progressed with that specific commitment?
- Yn y ddogfen 'Creu Cymunedau Cryf' a gyhoeddwyd y llynedd, ymrwymodd eich cydweithiwr y Gweinidog i gynnal astudiaeth er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r materion sy'n ymwneud â thodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig a beth y gellid ei wneud i leihau tlodi tanwydd yn yr ardaloedd hyn. Sut y mae'r Llywodraeth wedi symud ymlaen ar yr ymrwymiad penodol hwnnw?
- 15:04 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That will be happening this year.
- Bydd hynny'n digwydd eleni.
- 15:05 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The action plan promotes credit unions as a way of people on low incomes being able to get affordable loans as well as to encourage saving. One Cardiff resident has approached me about what happened to him when he was turned down for a Wonga loan. He was refused with a text message, which said, 'We can't help you, but we have friends who can'. This then followed with his details being spread about to every other pay-day lender that it could get its hands on. Within a week, he had had 350 calls, 750 e-mails, and 1,200 texts. I am extremely concerned, first about the sharing of his details without his permission, but also about the way in which these pay-day lenders are collaborating together to target vulnerable people who may be tempted to take on loans that they simply cannot afford. I wonder what can be done by this Government to ensure that this is not happening.
- Mae'r cynllun gweithredu yn hyrwyddo undebau credyd fel ffordd i bobl ar incwm isel allu cael benthyciadau fforddiadwy yn ogystal â ffordd o annog cynilo. Daeth un o drigolion Caerdydd ataf i sôn am yr hyn ddigwyddodd iddo pan wrthodwyd benthyciad Wonga iddo. Cafodd ei wrthod drwy neges destun yn dweud, 'We can't help you, but we have friends who can'. I ddilyn hyn, rhannwyd ei fanylion â phob benthyciwr diwrnod cyflog y gallai'r cwmni ddod o hyd iddo. O fewn wythnos, roedd wedi cael 350 o alwadau, 750 e-bost, a 1,200 o negeseuon testun. Rwy'n bryderus iawn, yn gyntaf ynglŷn â'r ffaith fod ei fanylion wedi'u rhannu heb ei ganiatâd ond hefyd am y modd y mae'r benthycwyr diwrnod cyflog hyn yn gweithio gyda'i gilydd i dargedu pobl sy'n agored i niwed a allai gael eu temtio i gymryd benthyciadau na allant eu fforddio. Tybed beth y gall y Llywodraeth hon ei wneud sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

15:06 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a matter that we have taken up directly with representatives from the pay-day loan industry. The Minister made it very clear that he disapproved of not only their practices, but the way in which they approach the most vulnerable people with this type of repeated, persistent attempt to drive people further into debt. It is a matter of real concern. We have already called on the UK Government to do something about it in the new arrangements for the industry. We would like to see a cap on credit come sooner rather than later, but it is also the practice of people who are trying to entice people into loan debt. If you provide us with the details, the Minister and I will happily take it up once again with the UK Government.

Mae hwn yn fater y buom yn ei drafod yn uniongyrchol gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant benthyciadau diwrnod cyflog. Gwnaeth y Gweinidog yn glir iawn ei fod yn anghymeradwyo nid yn unig eu harferion, ond y ffordd y maent yn mynd at y bobl fwyaf agored i niwed gydag ymdrechion ailadroddus a chyson o'r fath i wthio pobl i fwy o ddyled. Mae'n destun pryder gwirioneddol. Rydym eisoes wedi galw ar Lywodraeth y DU i wneud rhywbeth am y peth yn y trefniadau newydd ar gyfer y diwydiant. Byddem yn hoffi gweld cap ar gredyd yn dod yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach ond mae'n ymwneud hefyd ag arferion pobl sy'n ceisio denu pobl i ddyled drwy fenthycio. Os cawn y manylion gennych, mae'r Gweinidog a minnau'n hapus i godi'r mater eto gyda Llywodraeth y DU.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Effaith y Dreth Ystafell Wely

The Impact of the Bedroom Tax

15:06 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith y dreth ystafell wely ar yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru? OAQ(4)0171(CTP)

10. What assessment has the Minister made of the impact of the bedroom tax on vulnerable families and individuals in Wales? OAQ(4)0171(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:06 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. We published our latest assessment on the impact of the UK Government's welfare reforms in Wales in April. This is at both a Wales and local authority level and includes the impact of the bedroom tax. We have also considered the impact of the reforms on vulnerable groups, such as disabled people.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Cyhoeddwyd ein hasesiad diweddaraf o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru ym mis Ebrill. Mae'n astudiaeth ar lefel Cymru a'r awdurdodau lleol ac mae'n cynnwys effaith y dreth ystafell wely. Rydym hefyd wedi ystyried effaith y diwygiadau ar grwpiau sy'n agored i niwed, megis pobl anabl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:07 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weiniidog, am yr ateb hwnnw. Onid yw'n wir fod menywod yn arbennig yn wynebu effaith y dreth a'r gosb anffodus hyn gan eu bod yn effeithio ar deuluoedd un rhiant yn benodol, a gan fod menywod yn dueddol o fod y mwyafrif o blith tenantiaid tai cymdeithasol hefyd? Beth bynnag yr ydych yn galw'r dreth hon, mae'n gosb am fod yn dlawd; mae'n gosb am fod yn mo'yn cynnal teulu a phlant mewn ysgol; ac mae'n gosb am fod yn fregus heb y gallu i gystadlu yn y farchnad. Gan ei bod yn flwyddyn gron 'nawr ers cyflwyno'r dreth hon, beth yn rhagor all y Llywodraeth hon ei wneud i amddiffyn y bobl sy'n dioddef o'i herwydd?

Thank you for that response, Minister. Is it not true that women, in particular, are facing the impact of this unfortunate tax and penalty because it does affect one-parent families, in particular, and as women tend to be the majority of social housing tenants? Whatever you call this tax, it is a penalty for poverty; it is a penalty for wanting to bring up a family and put children through school; and it is a penalty for being vulnerable without being able to compete in the market. Since it is a full 12 months since the introduction of this tax, what more could this Government do to protect those people who are suffering as a result of it?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:07 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that question. You are quite right that women, particularly single parents, are affected disproportionately, but also, particularly, disabled adults and children. The Department for Work and Pensions, in fact, estimates that around two thirds of those affected by this reform are expected to be disabled. So, the impact on some of the most vulnerable people is very clear.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. Rydych yn llygad eich lle yn honni bod menywod, yn enwedig rhieni sengl, yn cael eu heffeithio'n anghymesur ond caiff oedolion a phlant anabl yn benodol eu heffeithio hefyd. Mewn gwirionedd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif fod tua dwy ran o dair o'r rhai a effeithir gan y diwygiadau hyn yn anabl. Felly mae'r effaith ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn glir iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the second part of your question about what we can do, first of all let us make this very clear: the only meaningful way to deal with the bedroom tax is to abolish it. I am very pleased that my party throughout the UK has pledged to do that if elected at the next general election. However, in terms of more immediate action for the Welsh Government, we did indeed make available, up to last March, an additional £1.3 million for discretionary housing payment purposes in Wales, which is not normally a devolved matter, of course; £20 million additional funding in 2013 to support the building of one and two-bedroomed affordable homes by registered social landlords; and a further investment of £20 million over the next two financial years. Indeed, £0.75 million has been provided in 2013 and 2014 to support the work of local authorities and their partners to mitigate some of the worst effects and, of course, the investment that they were making in advice services and credit unions.

O ran ail ran eich cwestiwn ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud, yn gyntaf oll gadewch inni wneud hyn yn eglur iawn: yr unig ffordd ystyrlon o ymdrin â'r dreth ystafell wely yw ei dileu. Rwy'n falch iawn fod fy mhlaid ledled y DU wedi addo gwneud hynny os caiff ei hethol yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Fodd bynnag, o ran camau mwy uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, hyd at fis Mawrth diwethaf, rhyddhawyd £1.3 miliwn ychwanegol gennym at ddibenion taliadau tai yn ôl disgrisiwn yng Nghymru nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli fel rheol wrth gwrs; £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2013 i gefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi fforddiadwy un a dwy ystafell wely gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; a buddsoddiad pellach o £20 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn wir, darparwyd £0.75 miliwn yn 2013 a 2014 i gefnogi gwaith awdurdodau lleol a'u partneriaid ar liniaru rhai o'r effeithiau gwaethaf ac wrth gwrs, eu buddsoddiad mewn gwasanaethau cynghori ac undebau credyd.

15:09 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given the statement in last week's Westminster Hall debate on housing benefit changes in Wales by the Minister for Pensions, Steve Webb, only three local authorities—Cardiff, Conwy and Caerphilly—out of the 22 had bid for the additional £20 million top-up fund announced by the UK Government to support tenants, particularly the most vulnerable tenants, affected by the changes. Will you establish, or endeavour to work with colleagues to establish, why the other 19 local authorities had not endeavoured to draw down that additional money?

O ystyried datganiad Steve Webb, y Gweinidog dros Bensiynau, yn y ddadl yn San Steffan yr wythnos diwethaf ar newidiadau i'r budd-dal tai yng Nghymru, dim ond tri awdurdod lleol—Caerdydd, Conwy a Chaerffili—o'r 22 awdurdod a gyflwynodd gais am y cyllid ychwanegol o £20 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU i gynorthwyo tenantiaid, yn enwedig y tenantiaid mwyaf agored i niwed a effeithiwyd gan y newidiadau. A allwch ganfod, neu weithio gyda chydweithwyr i ganfod, pam nad yw'r 19 awdurdod lleol arall wedi ceisio am yr arian ychwanegol hwn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will discuss that willingly with my colleague the Minister for local government, but the financial pressures on local authorities and the way in which they have to prioritise are very strong indeed. However, none of that detracts from the really unfortunate and divisive nature of the bedroom tax.

Rwy'n barod i drafod hynny gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog llywodraeth leol, ond mae'r pwysau ariannol ar awdurdodau lleol a'r modd y mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu yn drwm iawn yn wir. Fodd bynnag, nid oes dim o hynny'n lleihau natur wirioneddol anffodus ac ymrannol y dreth ystafell wely.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cydlyniant Cymunedol

Community Cohesion

15:10 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

11. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer cryfhau cydlyniant cymunedol yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)0167(CTP)

11. Will the Minister outline his policies for strengthening community cohesion in South Wales West? OAQ(4)0167(CTP)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. I will be renewing our commitment with the publication of our delivery plan for community cohesion next month. To deliver the plan, I have already announced funding for regional community cohesion co-ordinators, including in the western bay and mid-west regions.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Byddaf yn adnewyddu ein hymrwymiad drwy gyhoeddi ein cynllun cyflawni ar gyfer cydlyniant cymunedol y mis nesaf. Ar gyfer cyflawni'r cynllun, rwyf eisoes wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer cydgysylltwyr cydlyniant cymunedol rhanbarthol, gan gynnwys yn rhanbarthau'r bae gorllewinol a'r canolbarth a'r gorllewin.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:10	Byron Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much for that answer, Minister. Your delivery plan has seven key outcomes for community cohesion that came into effect last month, I think. I agree with the outcomes; it would be very hard not to. I was particularly interested where you say:</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Mae eich cynllun cyflawni yn cynnwys saith canlyniad allweddol ar gyfer cydlyniant cymunedol a ddaeth yn weithredol y mis diwethaf, rwy'n credu. Rwy'n cytuno â'r canlyniadau; byddai'n anodd iawn peidio â chytuno. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig yn yr hyn a ddywedwch:</p>
	<p>'Increased awareness and data collection to established trends in immigration and plan appropriate training for staff.'</p>	<p>'Increased awareness and data collection to established trends in immigration and plan appropriate training for staff.'</p>
	<p>Could you outline what specific data the Government is collecting and when they will be available for public consumption?</p>	<p>A allwch amlinellu pa ddata penodol y mae'r Llywodraeth yn ei gasglu a pha bryd y bydd ar gael i'r cyhoedd ei weld?</p>
15:11	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I will need to write to the Member with the precise details on that. In general terms, however, what I can say is that we collect data on, for example, refugees and asylum seekers who get allocated to Wales, so that public services can allocate their services appropriately. However, I will write you with further details.</p>	<p>Bydd angen i mi ysgrifennu at yr Aelod gyda'r union fanylion ynglŷn â hynny. Yn gyffredinol, fodd bynnag, yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod yn casglu data ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cael eu dyrannu i Gymru, er enghraifft, fel y gall gwasanaethau cyhoeddus ddyrannu eu gwasanaethau'n briodol. Fodd bynnag, ysgrifennaf atoch gyda rhagor o fanylion.</p>
15:11	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, given the interest that you have shown in restricting the pay-day lender sector, I wonder what discussions you have had with the local councils in my area with regard to extending the no-cold-calling zones. Obviously, many older people are vulnerable to this activity, and we want to make sure that these zones are extended within the capacity of the powers that we have in Wales.</p>	<p>Weinidog, o ystyried y diddordeb rydych wedi'i ddangos mewn cyfyngu ar y sector benthycwyr diwrnod cyflog, tybed pa drafodaethau a gawsoch gyda chynghorau lleol yn fy ardal o ran ymestyn y parthau dim galw diwahoddiad. Yn amlwg, mae llawer o bobl hŷn yn agored i'r gweithgaredd hwn ac rydym am wneud yn siŵr fod y parthau hyn yn cael eu hymestyn o fewn y pwerau sydd gennym yng Nghymru.</p>
15:12	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much, and I applaud the work of Swansea council in this regard, in terms of the action that it is taking with the high-cost lenders. These are matters that I will discuss further with my colleague the Minister for local government, to see what further action we can take and how we can cascade good practice.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn, ac rwy'n cymeradwyo gwaith cyngor Abertawe yn hyn o beth o ran y camau y mae'n eu cymryd gyda'r benthycwyr cost uchel. Mae'r rhain yn faterion y byddaf yn eu trafod ymhellach gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth leol, i weld pa gamau pellach y gallwn eu cymryd a sut y gallwn raeadru arfer da.</p>
	Banciau Bwyd	Food Banks
15:12	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>12. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau Llywodraeth Cymru i gefnogi banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)0174(CTP)</p>	<p>12. Will the Minister provide an update on Welsh Government action to support food banks in Wales? OAQ(4)0174(CTP)</p>
15:12	Vaughan Gething Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We recognise that it is important to do what we can to help to tackle the underlying causes that force people in desperation to seek help from food banks. The Welsh Government will continue to encourage food banks to engage with other services, for example, Communities First, the wider third sector, and statutory services.</p>	<p>Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig gwneud yr hyn a allwn i helpu i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol sy'n gorfodi pobl mewn anobaith i geisio cymorth gan fanciau bwyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog banciau bwyd i ymgysylltu â gwasanaethau eraill, er enghraifft Cymunedau yn Gyntaf, y trydydd sector ehangach a gwasanaethau statudol.</p>

15:13

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae tri banc bwyd yn Llanelli, ac rwy'n gwybod eich bod wedi mynd i weld un ohonynt, ond rwyf wedi clywed bod cynlluniau gan WRAP ac asiantaethau eraill i archfarchnadoedd gynnog y bwyd a fyddai'n cael ei wastraffu fel arall i'r banciau bwyd i gwrdd â'r twf yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd. Pa ystyriaeth a ydych chi wedi ei roi i'r maes hwn?

There are three food banks in Llanelli, and I know that you have visited one of them, but I have heard that there are plans by WRAP and other agencies for supermarkets to provide the food that would otherwise be wasted to the food banks in order to meet the growth in the demand for the services of food banks. What consideration have you given to this?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:13

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the supplementary question. I can confirm that the Welsh Government is working with the Waste and Resource Action Programme—WRAP—to try to ensure that we do more to tackle food waste and surplus food. The industry working group was set up and it actually published guiding principles for surplus food distribution in March of this year—there were case studies on the WRAP website. We fund that particular group to help to draw that together, and we will also provide £1 million in the coming year for FareShare Cymru, which acts as a main distributor of that surplus food from supermarkets, with much of it going to organisations such as the Trussell Trust, which is the main co-ordinator of food banks in Wales. So, we are very clear: we do not want to see food wasted; we want to see it used. We want to see food banks make good use of that and help to support people who really are, in desperate times, facing food poverty in modern-day Wales.

Diolch am y cwestiwn atodol. Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau—WRAP—i geisio sicrhau ein bod yn gwneud mwy i fynd i'r afael â gwastraff bwyd a bwyd dros ben. Sefydlwyd gweithgor y diwydiant ac ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd egwyddorion arweiniol ar gyfer dosbarthu bwyd dros ben—roedd astudiaethau achos i'w gweld ar wefan WRAP. Rydym yn ariannu'r grŵp penodol hwn i helpu i gydgyssylltu'r gwaith a byddwn hefyd yn darparu £1 miliwn yn ystod y flwyddyn i ddod ar gyfer FareShare Cymru sy'n gweithredu fel prif ddsbarthwr bwyd dros ben o archfarchnadoedd gyda llawer ohono'n mynd i sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Trussell, sef prif gydgyssylltydd banciau bwyd Cymru. Felly rydym yn eglur iawn: nid ydym am weld bwyd yn cael ei wastraffu; rydym am ei weld yn cael ei defnyddio. Rydym am weld banciau bwyd yn gwneud defnydd da o hynny a helpu i gefnogi pobl ar adeg wirioneddol anobeithiol yn eu bywydau sy'n wynebu tlodi bwyd yn y Gymru gyfoes.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:14

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I had the pleasure of meeting the admirable Trussell Trust last week—the trust told me that food banks are an expression of something that has been going on in the churches for ever, namely feeding the hungry, that food poverty has been with us for ever, and it asked that we all work together, putting aside whatever party political differences we may have, to focus on those in need. They told me that they will be putting this message to all parties and all agents. I pledged my support, and I urge you to do the same.

Cefais y pleser o gyfarfod ag ymddiriedolaeth ragorol Trussell yr wythnos diwethaf—dywedodd yr ymddiriedolaeth wrthyf fod banciau bwyd yn fynegiant o rywbeth y bu'r eglwysi'n ei wneud erioed, sef bwydo'r newynog, a bod tlodi bwyd wedi bod gyda ni erioed. Gofynnodd i ni gyd weithio gyda'n gilydd gan roi unrhyw wahaniaethau gwleidyddiaeth plaid o'r neilltu er mwyn canolbwyntio ar y rhai sydd mewn angen. Dywedasant wrthyf y byddant yn lledaenu'r neges hon i bob plaid a phob asiantaeth. Addewais roi fy nghefnogaeth ac rwy'n eich annog chi i wneud yr un fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:15

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope to meet the Trussell Trust formally over the coming months to discuss the work it does and to understand the scale of the problem that we face here in Wales and across the rest of the UK. It is undeniable that more and more people are going to food banks for help in desperation. The unfortunate criticism that some elected representatives made of people who go to food banks is not something this Welsh Government will get involved in. We will not blame people facing food poverty for their plight, but we do have to have an honest engagement and understanding as to why people are in food poverty, and do something about it. That is where we must part ways. There is a very clear difference in view about the action taken, especially the tax and benefit reforms introduced by the UK Government. I said earlier in response to questions today that the lowest 20% of income groups in this country will be the hardest hit by those reforms. It is no surprise that that is linked directly to more people seeking help from food banks.

Rwy'n gobeithio cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Trussell yn ffurfiol yn ystod y misoedd nesaf i drafod y gwaith y mae'n ei wneud ac i ddeall maint y broblem sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Ni ellir gwadu bod mwy a mwy o bobl yn troi at fanciau bwyd am gymorth mewn anobaith. Nid yw beirniadaeth anffodus rhai cynrychiolwyr etholedig o bobl sy'n troi at fanciau bwyd yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â hi. Ni fyddwn yn gweld bai ar bobl sy'n wynebu tlodi bwyd am eu sefyllfa ond mae'n rhaid i ni ffurfio ymgysylltiad gonest a meithrin dealltwriaeth ynglŷn â pham y mae pobl yn byw mewn tlodi bwyd a gwneud rhywbeth am y peth. Dyna lle y mae'n rhaid i'n llwybrau wahanu. Mae gwahaniaeth barn eglur iawn ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd yn enwedig o ran y diwygiadau treth a budd-daliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Dywedais yn gynharach mewn ymateb i gwestiynau heddiw mai 20% isaf y grwpiau incwm yn y wlad hon a fydd yn dioddef fwyaf gan y diwygiadau hynny. Nid yw'n syndod fod hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â chynnydd yn nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth gan fanciau bwyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cydraddoldeb Rhywiol

Gender Equality

15:15

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

13. Pa gamau y gwnaiff y Gweinidog eu cymryd i wella cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru yn 2014? OAQ(4)0159(CTP)

13. What action will the Minister take to improve gender equality in Wales in 2014? OAQ(4)0159(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:16

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. We are delivering on the commitments in our programme for government and the objectives in our strategic equality plan, including actions to support women into employment and to increase the number of women in public life.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rydym yn cyflawni'r ymrwymadau yn ein rhaglen lywodraethu a'r amcanion yn ein cynllun cydraddoldeb strategol gan gynnwys camau i gynorthwyo menywod i gael gwaith ac i gynyddu nifer y menywod mewn bywyd cyhoeddus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:16

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that reply, Minister. The Equality and Human Rights Commission recently claimed that almost no progress has been made in getting women into positions of power and influence in Wales over the last 10 years. What a shame. It points out that there are fewer women on top here since 2004. What action—[Interruption.] In 2004, there were more women at the top. What action does the Minister intend to take to ensure that women are better represented in Welsh corridors of power?

Diolch i chi am eich ateb, Weiniidog. Yn ddiweddar, honnodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na wnaed nemor ddim cynnydd o ran sicrhau bod menywod yn cael swyddi â grym a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n drueni. Mae'n nodi bod llai o ferched ar y brig yma nag a oedd yn 2004. Pa gamau— [Torri ar draws.] Yn 2004, roedd mwy o fenywod ar y brig. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod merched yn cael eu cynrychioli'n well yng nghoridorau grym Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:16

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, you raise a number of points there. Let me make one thing clear. We have taken firm action in terms of communicating with the chairs of public bodies to impress upon them the importance of making sure that women from all walks of life, especially some of the most disadvantaged women, are able to come forward to take up public appointment posts. We will be reviewing the progress at the end of next month, and I will be holding a meeting for chairs of public bodies in November where we can look at what action has been taken, what has worked, and what has not. However, may I say this? This Assembly has an excellent record in terms of gender representation, and, in terms of the Welsh Government, I have made the point before, in reply to another questioner, that, for example, every member of my private office staff is female, as are most of my senior officials.

Undebau Credyd

15:17

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

14. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo aelodaeth o undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)0168(CTP)

15:18

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that question. Earlier this year I awarded funding for a national credit union marketing and advertising campaign, which is being led by North Wales Credit Union. This campaign was launched on 14 April and is working both on a national and local basis to further attract new members.

15:18

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. The New Economics Foundation recently published a paper highlighting the international success of credit unions and the case for an expanded sector in the UK. Co-operative ownership, superior customer service and greater financial stability were cited to support the case. Minister, you recently announced additional funding for Welsh credit unions to enable more vulnerable people to get help, and intimated that credit unions will eventually need to be sustainable as independent financial institutions. How will you monitor how the moneys given are used to achieve your aims and assure continuing growth in membership and a strategic approach for the future development of credit unions here in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, rydych yn codi nifer o bwyntiau. Gadewch i mi wneud un peth yn glir. Rydym wedi rhoi camau cadarn ar waith o ran cyfathrebu â chadeiryddion cyrff cyhoeddus i'w hargyhoeddi o bwysigrwydd sicrhau bod menywod o bob cefndir, yn enwedig rhai o'r merched mwyaf difreintiedig, yn gallu camu i swyddi cyhoeddus. Byddwn yn adolygu'r cynnydd ar ddiwedd y mis nesaf a byddaf yn cynnal cyfarfod i gadeiryddion cyrff cyhoeddus ym mis Tachwedd lle y gallwn edrych ar ba gamau a gymerwyd, beth sydd wedi gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio. Fodd bynnag, a gaf fi ddweud hyn? Mae gan y Cynulliad hanes rhagorol o sicrhau cynrychiolaeth o'r ddau ryw ac o ran Llywodraeth Cymru, gwneuthum y pwynt o'r blaen mewn ymateb i holwr arall fod pob aelod o staff fy swyddfa breifat, er enghraifft, yn ferched fel y mae'r rhan fwyaf o fy uwch swyddogion.

Credit Unions

14. What is the Welsh Government doing to promote membership of credit unions in Wales? OAQ(4)0168(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Yn gynharach eleni, neilltuais arian ar gyfer marchnata undeb credyd cenedlaethol ac ymgyrch hysbysebu sy'n cael ei harwain gan Undeb Credyd Gogledd Cymru. Lanswyd yr ymgyrch ar 14 Ebrill ac mae'n gweithio ar sail genedlaethol a lleol i ddenu rhagor o aelodau newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am hynny. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Sefydliad Economeg Newydd bapur yn tynnu sylw at lwyddiant rhyngwladol undebau credyd a'r achos dros ehangu'r sector yn y DU. Cyfeiriwyd at berchnogaeth cwmnïau cydweithredol, gwasanaeth gwell i gwsmeriaid a mwy o sefydlogrwydd ariannol i gefnogi'r achos. Weinidog, yn ddiweddar rhyddhawyd cyllid ychwanegol gennych i undebau credyd Cymru er mwyn i bobl mwy agored i niwed gael help, ac awgrymai y bydd angen i undebau credyd fod yn gynaliadwy yn y pen draw fel sefydliadau ariannol annibynnol. Sut y byddwch yn monitro'r modd y caiff yr arian a roddwyd ei ddefnyddio i gyflawni eich nodau a sicrhau twf parhaus yn yr aelodaeth, a dull strategol o ddatblygu undebau credyd yma yng Nghymru yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:19 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member very much for that question. Yes, I agree that, overall, our aim is to support credit unions to achieve 6% market penetration by 2020, with a target of 143,000 members of credit unions in Wales by that date. There has clearly been a pattern of increased membership and we are very pleased with that. In terms of monitoring the effectiveness of our spend, my officials will be meeting with those credit unions receiving that money on a regular basis to check that it is indeed having the desired effect. There will also be, as part of the north Wales programme, a dedicated phone line and webpage, and we will be able to monitor the number of hits on that.

Diolch yn fawr i'r Aelod am y cwestiwn. Ydw, rwy'n cytuno mai ein nod cyffredinol yw cynorthwyo undebau credyd i sicrhau 6% o'r farchnad erbyn 2020 gyda tharged i ddenu 143,000 o aelodau o undebau credyd yng Nghymru erbyn y dyddiad hwnnw. Cafwyd patrwm eglur o gynnydd yn yr aelodaeth ac rydym yn falch iawn ynglŷn â hynny. O ran monitro effeithiolrwydd ein gwariant, bydd fy swyddogion yn cyfarfod â'r undebau credyd sy'n derbyn arian yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn bendant yn cael yr effaith a ddymunir. Yn rhan o raglen gogledd Cymru, bydd llinell ffôn bwrsapol a thudalen we ar gael a byddwn yn gallu monitro nifer y bobl sy'n ymweld â hi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:19 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you would agree with me on the scope of the work that North Wales Credit Union is doing. As a result of the funding, it has launched tv and radio advertising and bus and large-format posters with the aim of being able to attract more members. Additionally, on top of this, what other initiatives are you coming forward with to increase awareness of just how good credit unions are? It is not just for vulnerable people, but for people across all backgrounds.

Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi ar gwmpas y gwaith y mae Undeb Credyd Gogledd Cymru yn ei wneud. O ganlyniad i'r arian, mae wedi lansio hysbyseb teledu a radio a phosteri bws a fformat mawr gyda'r nod o ddenu mwy o aelodau. Yn ogystal â hyn, pa fentrau eraill rydych yn eu cyflwyno i gynyddu ymwybyddiaeth o rinweddau undebau credyd? Nid ar gyfer pobl sy'n agored i niwed yn unig y maent, ond ar gyfer pobl o bob cefndir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:20 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member very much for those points. I have, and I trust that everybody has, seen the advert for credit union membership that is being initiated by North Wales Credit Union. It is a very good advert. I congratulate it on it. In terms of additional work, I have been in touch with all Ministers, for example, to encourage all the staff they are responsible for, including local authority and NHS staff, to work towards payroll deductions so that they become members of credit unions and therefore increase the financial resource base. Betsi Cadwaladr health board, for example, has already led the way on this, and I am very pleased with that. I have done my bit by being a member of two credit unions. I would encourage every Assembly Member to make sure that they and their staff are members also and set a good example.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod am y pwyntiau hyn. Rwyf i, a phawb arall rwy'n siŵr, wedi gweld hysbyseb Undeb Credyd Gogledd Cymru ar gyfer denu aelodau. Mae'n hysbyseb da iawn. Rwy'n llongyfarch yr Undeb. O ran gwaith ychwanegol, bûm mewn cysylltiad â'r holl Weinidogion, er enghraifft, i annog yr holl staff y maent yn gyfrifol amdanynt gan gynnwys staff awdurdodau lleol a'r GIG, i weithio tuag at ddiwynnu o'r gyflogres fel eu bod yn dod yn aelodau o undebau credyd ac felly'n cynyddu'r sylfaen adnoddau ariannol. Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, er enghraifft, wedi arwain y blaen ar hyn eisoes ac rwy'n falch iawn o hynny. Rwyf wedi gwneud fy rhan drwy fod yn aelod o ddau undeb credyd. Byddwn yn annog pob Aelod Cynulliad i wneud yn siŵr eu bod hwy a'u staff yn aelodau hefyd a gosod esiampl dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:21 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it may be your misfortune to have your marketing campaign for credit unions overshadowed and outclassed by the UKIP campaign. However, in terms of that marketing campaign, may I ask what targets you have set for it in terms of increased membership of credit unions? How are you monitoring whether that target is being met and how is it being associated with the spend on the marketing campaign?

Weinidog, efallai y byddwch yn ddigon anffodus i gael eich ymgyrch i farchnata undebau credyd wedi'i bwrw i'r cysgod gan ymgyrch UKIP. Fodd bynnag, o ran yr ymgyrch farchnata honno, a gaf fi ofyn pa dargedau a osodwyd gennych ar ei chyfer o ran cynyddu aelodaeth undebau credyd? Sut rydych yn monitro a yw'r targed yn cael ei gyrraedd a sut y caiff ei gysylltu â'r gwariant ar yr ymgyrch farchnata?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:21 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I am not responsible, refreshed or otherwise, for the UKIP campaign, I am pleased to say. In these very tough times, we value the work of credit unions and the role they can play in terms of supporting financially excluded people. That also means attracting new members who are relatively more affluent, shall we say, and perhaps offering them loans so that they can replay those amounts and therefore increase the credit unions' income.

Diolch yn fawr iawn i chi. Nid wyf yn gyfrifol, ar ffurf wedi'i diweddarau neu fel arall, am ymgyrch UKIP rwy'n falch o ddweud. Yn y cyfnod anodd hwn, rydym yn gwerthfawrogi gwaith yr undebau credyd a'u rôl yn cefnogi pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol. Mae hynny hefyd yn golygu denu aelodau newydd sy'n fwy cefnog mewn cymhariaeth, ddywedwn ni, a chynnig benthyciadau iddynt o bosibl er mwyn iddynt allu ad-dalu'r symiau hynny a chynyddu incwm yr undebau credyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the details of how we are monitoring the spend, I think I have already answered that in relation to questions from Sandy Mewies, and there is nothing further that I can add.

O ran manylion y modd yr awn ati i fonitro'r gwariant, rwy'n credu fy mod eisoes wedi ateb yng nghyd-destun cwestiynau gan Sandy Mewies ac nid oes dim arall y gallaf ei ychwanegu.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Jenny Rathbone to ask question 15. She is not present.

Galwaf ar Jenny Rathbone i ofyn cwestiwn 15. Nid yw hi'n bresennol.

Ni ofynnwyd cwestiwn 15, OAQ(4)0172(CTP).

Question 15, OAQ(4)0172(CTP), not asked.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cefnogi Busnesau

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliant 3 yn enw Aled Roberts.

Welsh Conservatives Debate: Supporting Businesses

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendment 3 in the name of Aled Roberts.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on William Graham to move the motion.

Galwaf ar William Graham i gynig y cynnig.

Cynnig NDM5497 Paul Davies

Motion NDM5497 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod nifer y busnesau bach a chanddynt werth ardrethol o hyd at £12,000 yng Nghymru bellach yn 73% o bob busnes;

1. Notes that the number of small businesses with a rateable value of up to £12,000 in Wales now stands at 73% of all businesses;

2. Yn cydnabod y bydd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb llawn am ardrethi busnes pan fydd Bil Cymru wedi cael Cydsyniad Brenhinol;

2. Recognises that the Welsh Government will have full responsibility for business rates once the Wales Bill has been given Royal Assent;

3. Yn cydnabod bod cydbwysedd rhwng manwerthwyr y trydydd sector a manwerthwyr annibynnol yn hanfodol i gynnal y stryd fawr;

3. Acknowledges that a balance between third sector and independent retailers is essential to sustain our high streets;

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

4. Calls on the Welsh Government to:

a) Ystyried manteision rhannu lluosydd Cymru yn fusnesau bach a mawr i sicrhau bod Cymru yn unol â'r Alban a Lloegr;

a) Consider the benefits of splitting the Welsh multiplier into small and large businesses to bring Wales into line with Scotland and England;

b) Adfywio rhyddhad caledi, sy'n hanfodol i fusnesau bach.

b) Reinvigorate hardship relief, a vital lifeline for small businesses.

15:22 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

The United Kingdom Government announced last year that the Welsh Government is going to be given full power over non-domestic business rates. The Welsh Conservatives welcomed this positive announcement and have urged the Welsh Government to address the burden of business rates and allow the economy to expand. The devolution of business rates is therefore supported by both the Welsh Government and the Welsh Conservatives.

This power being devolved to the Welsh Government will ensure that it is held to account for the economy. The devolution of business rates is a challenge to the Welsh Government to start using its newly upgraded toolbox to promote economic growth and create jobs. Undoubtedly, we know that the private sector in Wales is far too small, as the First Minister has remarked. Offering comprehensive small business rate relief is an ideal way to stimulate enterprise births, rejuvenate local economies and give existing small businesses an opportunity to grow and prosper.

The last revaluation of business rates in Wales was in 2010 and on its website the Welsh Government has highlighted how this process does not raise extra revenue. The Welsh Conservatives have, however, highlighted how a number of businesses up and down the country have suffered as a direct consequence of this revaluation, in particular rural businesses and tourist-related businesses. Given that a number of firms in Wales have already suffered due to a costly revaluation, it further shows the need for effective business rate relief. Indeed, in Torfaen, the council has written off more than £700,000 in business rates and in the last three financial years 250 businesses in the constituency have had their debts written off by the council. Effective business rate relief provision must, therefore, be the way forward.

The Chancellor of the Exchequer announced in his autumn statement of 2013 that there would be a 2% cap on the rise in business rates for the next financial year for businesses in England. Assembly Members voted the next week to follow the Chancellor's lead in capping business rate rises at 2% following the Non-Domestic Rating (Multiplier) (Wales) Order 2014. Business rates are set to rise in line with the rate of inflation at more than 3%.

The Federation of Small Businesses in Wales has called on the Welsh Government to reform the rating system as soon as possible to help businesses on Welsh high streets. The Conservative-led coalition in Westminster took a bold lead in capping rate rises at 2% and it is right that the Welsh Government should not put Welsh businesses at a competitive disadvantage.

We need to remember the importance of small and medium-sized enterprises to the Welsh economy. Small and medium-sized enterprises account for 99% of the Welsh business stock, and they provide employment for well over half of the private sector workforce. SMEs are the lifeblood of the Welsh economy, and require adequate support from the Welsh Government.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y llynedd fod Llywodraeth Cymru yn mynd i gael pŵer llawn dros ardrethi busnes annomestig. Croesawodd y Ceidwadwyr Cymreig y cyhoeddiad cadarnhaol hwn ac maent wedi annog Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â baich ardrethi busnes a chaniatáu i'r economi ehangu. Mae datganoli ardrethi busnes felly yn fater y mae Llywodraeth Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei gefnogi.

Bydd y pŵer hwn sy'n cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn cael ei gwneud yn atebol am yr economi. Mae datganoli ardrethi busnes yn her i Lywodraeth Cymru ddechrau defnyddio ei hadnoddau newydd wedi'u huwchraddio ar gyfer hybu twf economaidd a chreu swyddi. Yn ddi-os, gwyddom fod y sector preifat yng Nghymru yn llawer rhy fach, fel y mae'r Prif Weinidog wedi nodi. Mae cynnig rhyddhad ardrethi cynhwysfawr i fusnesau bach yn ffordd ddelfrydol o ysgogi mentrau i gychwyn, o adfywio economïau lleol ac o roi cyfle i fusnesau bach sydd eisoes yn bodoli i dyfu a ffynnu.

Cafwyd yr ailbrisiad diwethaf o ardrethi busnes yng Nghymru yn 2010 ac ar ei gwefan, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r broses hon yn codi referniw ychwanegol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi nodi, fodd bynnag, sut y mae nifer o fusnesau ar hyd a lled y wlad wedi dioddef o ganlyniad uniongyrchol i'r ymarfer ailbrisiu hwn yn enwedig busnesau gwledig a busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. O gofio bod llawer o gwmnïau yng Nghymru eisoes wedi dioddef o ganlyniad i ailbrisiu costus, mae'n dangos ymhellach yr angen am ryddhad ardrethi busnes effeithiol. Yn wir, yn Nhorfaen, mae'r cyngor wedi dileu dyledion o dros £700,000 mewn ardrethi busnes ac yn y tair blynedd ariannol ddiwethaf, mae dyledion 250 o fusnesau yn yr etholaeth wedi cael eu dileu gan y cyngor. Felly, mae'n rhaid mai darparu rhyddhad ardrethi busnes effeithiol yw'r ffordd ymlaen.

Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys yn ei ddatganiad yn hydref 2013 y byddai cap o 2% ar y cynnydd mewn ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i fusnesau yn Lloegr. Pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad yr wythnos wedyn i ddilyn arweiniad y Canghellor drwy gapio cynnydd mewn ardrethi busnes ar 2% yn dilyn Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2014. Mae ardrethi busnes wedi'u gosod i godi'n unol â chyfradd chwyddiant ar fwy na 3%.

Mae Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r system ardrethi cyn gynted ag y bo modd i helpu busnesau ar y stryd fawr yng Nghymru. Mae'r glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi dangos arweiniad beiddgar drwy gapio'r cynnydd mewn ardrethi ar 2% ac mae'n iawn na ddylai Llywodraeth Cymru roi busnesau Cymru o dan anfantais gystadleuol.

Mae angen i ni gofio pwysigrwydd busnesau bach a chanolig eu maint i economi Cymru. Mentrau bach a chanolig eu maint yw 99% o stoc busnesau Cymru ac maent yn darparu cyflogaeth i dros hanner y gweithlu yn y sector preifat. Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru ac mae angen i Lywodraeth Cymru roi digon o gefnogaeth iddynt.

Given that there is a desperate need in Wales to grow the private sector, Welsh Conservatives believe that the current levels of rate relief available are not adequate enough. Business rate relief is one of the strongest tools at the Welsh Labour Government's disposal to get the economy in Wales moving. With Wales's overreliance on the public sector, Labour Ministers should be doing more to utilise this tool to encourage wealth creation, reduce unemployment and increase social mobility.

The Welsh Government has extended the small business rate relief scheme in Wales until March 2015, and it claims that it has successfully pressed the UK Government to extend the small business rate relief scheme in Wales. However, we say that it is merely following the UK Government's lead. The Welsh Conservatives have maintained a long-standing belief that the current levels of small business rate relief are not adequate, and have pledged to abolish business rates for all businesses with a rateable value of under £12,000 and provide tapered relief for small businesses with a rateable value of up to £15,000.

This policy would allow much-needed capital for small businesses to hire new staff, perhaps expand their premises, or explore new markets. We estimate that our policy would result in a reduction in the amount of business rates. It is important to remember that the benefits would outweigh the costs, particularly when one considers the reduction in unemployment. If the Welsh Government listened to our proposals, the private sector would grow, unemployment would be diminished and Wales would become generally more prosperous.

Despite billions being spent on economic development in Wales and the nation having received two rounds of European funding, and noting my question last week regarding the third round of funding, the private sector in Wales is still far too small. For 2010, there were 39 enterprise births in Wales per 10,000 of the population. This is the lowest of any of the United Kingdom nations, with a figure as high as 61 for every 10,000 of the population in England.

Small business owners in Wales face increasing overheads and heat and lighting costs, and also the threat of personal prosecution if they fail to pay their business rates; it is hardly an incentive for anyone to endeavour to start their own enterprise. Indeed, a failure to promote the enterprise zones created means that they have not attracted enough new businesses and investment, and a Welsh Government survey of businesses in enterprise zones published last month describes 66% as having been located in their enterprise zones for over 10 years and 50% as having been trading for over 20 years; 30% were not aware that they were in an enterprise zone, 50% were unaware of business rates support and 80% did not know about the support available for Superfast Cymru.

O gofio bod angen dybryd yng Nghymru i dyfu'r sector preifat, mae Ceidwadwyr Cymreig o'r farn nad yw'r lefelau cyfredol o ryddhad ardrethi yn ddigonol. Rhyddhad ardrethi busnes yw un o'r arfau cryfaf sydd ar gael i Lywodraeth Lafur Cymru i wneud i economi Cymru symud. Gyda gorddibyniaeth Cymru ar y sector cyhoeddus, dylai Gweinidogion Llafur wneud mwy i ddefnyddio'r arf hwn i ysgogi cyfoeth, lleihau diweithdra a chynyddu symudedd cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru tan fis Mawrth 2015 ac mae'n honni ei bod wedi llwyddo i bwyso ar Lywodraeth y DU i ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn dweud mai dim ond dilyn arweiniad Llywodraeth y DU y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi credu ers amser nad yw lefelau cyfredol y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn ddigonol ac rydym wedi addo dileu ardrethi busnes ar gyfer pob busnes â gwerth ardrethol o dan £12,000 a darparu rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i fusnesau bach â gwerth ardrethol o hyd at £ 15,000.

Byddai'r polisi hwn yn sicrhau cyfalaf mawr ei angen i fusnesau bach allu cyflogi staff newydd, ehangu eu safle efallai, neu archwilio marchnadoedd newydd. Rydym yn amcangyfrif y byddai ein polisi yn arwain at ostwng y swm o ardrethi busnes. Mae'n bwysig cofio y byddai'r manteision yn gorbwyso'r costau yn enwedig o gofio'r gostyngiad mewn diweithdra. Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwrandao ar ein cynigion, byddai'r sector preifat yn tyfu, byddai diweithdra'n lleihau a byddai Cymru yn dod yn fwy llewyrchus yn gyffredinol.

Er bod biliynau'n cael eu gwario ar ddatblygu economaidd yng Nghymru a bod y genedl wedi cael dwy rownd o arian Ewropeaidd, gan nodi fy nghwestiwn yr wythnos diwethaf ynghylch y drydedd rownd o gyllid, mae'r sector preifat yng Nghymru yn dal yn llawer rhy fach. Ar gyfer 2010, crëwyd 39 o fentrau yng Nghymru am bob 10,000 o'r boblogaeth. Dyma'r ffigur isaf o blith holl wledydd y Deyrnas Unedig, ac mae'r ffigur mor uchel â 61 ar gyfer pob 10,000 o'r boblogaeth yn Lloegr.

Mae perchnogion busnesau bach yng Nghymru yn wynebu gorbenion a chostau gwres a goleuo cynyddol, yn ogystal â'r bygythiad o gael eu herlyn yn bersonol os ydynt yn methu â thalu eu hardrethi busnes; prin y ceir cymhelliad i unrhyw un ymdrechu i ddechrau eu menter eu hunain. Yn wir, mae methiant i hyrwyddo'r ardaloedd menter a grëwyd yn golygu nad ydynt wedi denu digon o fusnesau a buddsoddiad newydd ac mae arolwg Llywodraeth Cymru o fusnesau mewn ardaloedd menter a gyhoeddwyd y mis diwethaf yn dweud bod 66% ohonynt wedi'u lleoli yn eu hardaloedd menter ers dros 10 mlynedd a 50% ohonynt wedi bod yn masnachu ers dros 20 mlynedd; nid oedd 30% ohonynt yn ymwybodol eu bod mewn ardal fenter, nid oedd 50% ohonynt yn ymwybodol fod cymorth ardrethi busnes ar gael ac nid oedd 80% ohonynt yn gwybod am y cymorth sydd ar gael ar gyfer Cyflymu Cymru.

Failures include Finance Wales offering higher rates of interest on borrowing than it needs to under European Union state aid guidelines. Its latest annual review is too focused on generating profits rather than assisting businesses and developing the Welsh economy, creating a false vision of regeneration.

Figures published by Eurostat show that Wales has the lowest gross domestic product per capita of all UK nations, and, after a decade of Labour Governments in the Assembly, Wales remains the poorest part of the United Kingdom and Welsh GDP per capita is consistently well below the EU average. A recent task and finish group recommended

'a system that restores the link between economic growth and the revenue received from business rates'.

It stated that, although local authorities carry out a lot of work with their businesses in encouraging economic growth, a system such as this would be an added incentive.

Previously, the Welsh Government has said that this would depend on whether or not business rates are devolved to Wales. Now that we know that the Wales Bill will devolve business rates to the Welsh Government, it is crucial that the Minister for economy states whether the Welsh Government will be seeking to introduce this measure.

Helping small businesses survive and expand, and making the option to become an entrepreneur a more realistic and achievable goal for people, is critical to Wales's economic recovery; this needs action now. The Welsh Conservatives' proposal of more generous rate relief would help increase the rate of business start-ups in Wales, while helping existing businesses to thrive. Both I and the Federation of Small Businesses have continued to say that, if every SME in Wales could employ one additional member of staff, then every person in Wales who wanted a job would have one.

Abraham Lincoln remarked:

'You cannot escape the responsibility of tomorrow by evading it today.'

Mae'r methiannau'n cynnwys Cyllid Cymru yn cynnig cyfraddau llog uwch ar fenthyciadau nag y mae angen iddo ei wneud o dan ganllawiau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd. Mae ei adolygiad blynyddol diweddaraf yn canolbwyntio gormod ar greu elw yn hytrach na chynorthwyo busnesau a datblygu economi Cymru, gan greu darlun ffug o adfywiad.

Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan Eurostat yn dangos mai Cymru sydd â'r cynnyrch mewnwladol crynswth isaf y pen o holl wledydd y DU. Ar ôl degawd o Lywodraethau Llafur yn y Cynulliad, Cymru yw rhan dlotaf y Deyrnas Unedig o hyd ac mae CMC y pen Cymru lawer is na chyfartaledd yr UE yn gyson. Argymhelliad grŵp gorchwyl a gorffen yn ddiweddar oedd cael

'system sy'n adfer y cysylltiad rhwng twf economaidd a'r refeniw a gesglir o ardrethi busnes'.

Er bod awdurdodau lleol yn gwneud llawer o waith gyda'u busnesau i annog twf economaidd, mae'n dweud y byddai system fel hon yn gymhelliad ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud o'r blaen y byddai hyn yn dibynnu ar a yw ardrethi busnes yn cael eu datganoli i Gymru ai peidio. Gan ein bod bellach yn gwybod y bydd Bil Cymru yn datganoli ardrethi busnes i Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol fod Gweinidog yr economi yn nodi a fydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno'r mesur hwn.

Mae helpu busnesau bach i oroesi ac ehangu a gwneud yr opsiwn i ddod yn entrepreneur yn nod mwy realistig a chyflawnadwy i bobl yn allweddol i adferiad economaidd Cymru; mae angen gweithredu yn awr. Byddai cynnig y Ceidwadwyr Cymreig o ryddhad ardrethi mwy hael yn helpu i gynyddu cyfraddau busnesau newydd yng Nghymru gan helpu busnesau presennol i ffynnu. Rwyf fi a'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi parhau i ddweud, pe gallai pob busnes bach a chanolig yng Nghymru gyflogi un aelod ychwanegol o staff, yna byddai swydd ar gael i bob person yng Nghymru sydd eisiau un.

Dyweddodd Abraham Lincoln:

'You cannot escape the responsibility of tomorrow by evading it today.'

15:29

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the three amendments to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Ym mhwynt 4a) dileu popeth ar ôl 'busnesau bach a mawr'.

Gwelliant 2—Elin Jones

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Amendment 1—Elin Jones

In point 4a) delete all after 'large businesses'.

Amendment 2—Elin Jones

Add as new sub-point at end of point 4:

Ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach i gwmpasu pob busnes â gwerth ardrethol o £15,000 neu lai.

Extend the small business rate relief scheme to cover all businesses with a rateable value of £15,000 or less.

15:29

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiad welliannau 1 a 2.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd, a diolch yn fawr iawn i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig hwn; rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb a chynnig y gwelliannau yn enw Elin Jones.

O'r holl bynciau y mae perchnogion busnesau yn fy etholaeth yn eu codi efo fi, rwy'n meddwl yn siŵr mai ardrethi busnes sy'n cael eu codi fwyaf. Mae hynny, wrth gwrs, am reswm da iawn, oherwydd mae'r lefel o ardrethi y mae busnes yn ei thalu wir yn gallu gwneud gwahaniaeth i hyfywedd y busnes hwnnw, a'i allu i dyfu ac i gyflogi rhagor o weithwyr. Dyna pam yr ydym ni, ers blynyddoedd, wedi annog camau, ac wedi cymryd camau, i geisio newid y system yng Nghymru, fel ei bod yn system sy'n gweithio er lles ein busnesau ni. Roedd creu cynllun yn rhan o faniffesto Plaid Cymru yn ôl yn etholiad 2007, ac roeddem yn benderfynol y dylai fod yn rhan o gyntundeb Llywodraeth Cymru'n Un, a'r Llywodraeth honno a gyflwynodd y cynllun rhyddhad rhag ardrethi i fusnesau bach.

Mae'n amlwg erbyn hyn bod angen mwy o help ar fusnesau, ac, o'r diwedd, ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu gan Blaid Cymru, mae Llywodraeth Prydain wedi penderfynu datganoli ardrethi busnes yn llawn i Gymru, fel sy'n wir yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon yn barod. Bydd gennym, felly, gyfle i wneud newidiadau mwy sylfaenol i'r system, sydd wirioneddol angen ei diwygio.

Yn gyffredinol, mae Plaid Cymru yn sicr yn cytuno â chynnig y Ceidwadwyr, ac yn falch eu bod hwythau, bellach, wedi mabwysiadu polisiau Plaid Cymru. Mae'n gwelliannau ni yn gwneud newidiadau bach ond pwysig, rwy'n meddwl, i'r cynnig. Mae'r gwelliant cyntaf yn adlewyrchu cymhlethdod y sefyllfa wahanol mewn gwahanol rannau o Brydain. Yn yr Alban, mae tri lluosydd, wrth gwrs—nid dau fel sydd yna yn Lloegr, ac fel mae Plaid Cymru eisiau ei weld yng Nghymru. Mae'r trydydd lluosydd yn yr Alban ar gyfer busnesau sydd â gwerth trethiannol o dros £300,000, a'r rheini sy'n gwerthu tybaco ac alcohol. Yn Lloegr, oes, mae dau luosydd, fel yr ydym ni ei eisiau, ond mae eu diffiniadau nhw o beth sy'n cyfrif fel busnes bach a busnes mawr yn wahanol i'r hyn y mae Plaid Cymru eisiau ei weld. Pe baem yn mabwysiadu'r system fel y mae yn Lloegr, byddai busnesau sydd â gwerth trethiannol o dros £18,000 yn cwmpo i mewn i'r ail luosydd, ac felly ar anfantais o gymharu â busnesau yn yr Alban. Felly, yn amlwg, ni fyddai hynny o fudd i fusnesau yng Nghymru.

Felly, mae Plaid Cymru eisiau gweld dau luosydd—un ar gyfer busnesau â gwerth trethiannol o hyd at £35,000, a'r ail ar gyfer busnesau dros hynny. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru hefyd yn gosod gwerth y lluosydd uwch ar lefel is na'r lluosydd yn yr Alban, er mwyn cadw ein gafael ar y fantais sydd gan fusnesau mawr yng Nghymru, oherwydd mae'r rheini, wrth gwrs, yn rhan bwysig o'n heconomi hefyd.

I move amendments 1 and 2.

Thank you very much, Presiding Officer, and I thank the Conservatives very much for tabling this motion; I am pleased to have an opportunity to respond and to move the amendments in the name of Elin Jones.

Of all the issues that business owners in my constituency raise with me, I certainly think that business rates are raised the most. That is, of course, for very good reason, because the level of rates that a business pays can truly make a difference to the viability of the business, and its ability to grow and to employ more workers. That is why we, for years, have encouraged action, and have taken steps to try to change the system in Wales, so that it is a system that works for the benefit of our businesses. Creating such a scheme was part of the Plaid Cymru manifesto back in the 2007 election, and we were determined that it should be part of the One Wales Government agreement, and it was that Government that introduced the rates relief scheme for small businesses.

It is now clear that more help is needed by businesses, and, at last, after years of campaigning by Plaid Cymru, the UK Government has decided to devolve business rates fully to Wales, as is the case in Scotland and Northern Ireland already. We will, therefore, have an opportunity to make more fundamental changes to the system, which truly needs to be reformed.

In General, Plaid Cymru would certainly agree with the Conservatives' motion, and we are pleased that they have now adopted Plaid Cymru policies. Our amendments make minor but important changes, I think, to the motion. The first amendment reflects the complexity of the different situation in different parts of the UK. In Scotland, there are three multipliers, of course—not two as there is in England, and as Plaid Cymru wants to see in Wales. The third multiplier in Scotland is for businesses with a rateable value of more than £300,000, and for those that sell tobacco and alcohol. In England, yes, there are two multipliers, as we want to see here, but their definitions of what counts as a small business and a large business differs from what Plaid Cymru wants to see. If we adopted the system as it is in England, businesses with a rateable value of more than £18,000 would fall into the second multiplier, and would therefore be at a disadvantage compared with businesses in Scotland. So, obviously, that would not benefit businesses in Wales.

Therefore, Plaid Cymru wants to see two multiplier—one for businesses with a rateable value of up to £35,000, and the second for businesses over that threshold. A Plaid Cymru Government would also impose the higher multiplier value at a lower level than the multiplier in Scotland, in order to keep control of the edge that large businesses have in Wales, because those businesses, of course, formulate an important part of our economy too.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hyd yn oed yn y sefyllfa honno, byddai cyflwyno'r ail luosydd yn codi mwy na digon o arian i allu talu am ostyngiad sylweddol yn y lluosydd is er mwyn helpu busnesau bach yn benodol. Byddai Llywodraeth Plaid Cymru hefyd yn ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi, a gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru'n Un, a hynny fel mae gwelliant 2 yn ei gynnig. Byddai ymestyn y cynllun i bob busnes sydd â gwerth trethiannol o £15,000 neu lai yn helpu dros 83,000 o fusnesau yng Nghymru, rydym yn ei amcangyfrif. Ein polisi ni yw cynnig rhyddhad o 100% i bob busnes sydd â gwerth trethiannol o £10,000 neu lai, a fyddai'n golygu na fyddai dros 70,000 o fusnesau yng Nghymru yn gorfod talu ardrethi busnes o gwbl.

Even in that situation, introducing the second multiplier would raise more than enough money to pay for a significant reduction in the lower multiplier to assist small businesses in particular. A Plaid Cymru Government would also extend the business rates relief scheme, which was introduced by the One Wales Government, as amendment 2 proposes. Extending the scheme to all businesses with a rateable value of up to £15,000 or less would assist more than 83,000 businesses in Wales, we estimate. Our policy is to offer 100% relief to all businesses with a rateable value of £10,000 or less, which would mean that more than 70,000 businesses in Wales would pay no business rates at all.

- 15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention from Andrew R.T. Davies? A wnewch chi dderbyn ymyriad gan Andrew R.T. Davies?
- 15:33 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Yes. Gwnaf.
- 15:33 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am grateful to the Member for taking the intervention. I am very pleased to hear that Plaid Cymru has changed its position, because, when in Government, it steadfastly refused to listen to any requests from this side of the Chamber to bring in the proposals that we are debating here today. So, it is good to see that the new spokesman has changed that policy. However, do you not regret that, when in Government, you did not change the policy to take more businesses out of business rates?
Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Rwy'n falch iawn o glywed bod Plaid Cymru wedi newid ei safbwynt oherwydd pan oedd yn rhan o'r Llywodraeth, gwrthododd yn lân â gwrandao ar geisiadau o'r ochr hon i'r Siambr i gyflwyno'r cynigion rydym yn eu trafod yma heddiw. Felly mae'n dda gweld bod y llefarydd newydd wedi newid y polisi hwnnw. Fodd bynnag, onid ydych yn gresynu nad aethoch ati i newid y polisi i ryddhau mwy o fusnesau rhag ardrethi busnes pan oeddech yn y Llywodraeth?
- 15:34 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You know full well that it was Plaid Cymru, when in Government, that did introduce the rate relief scheme, and it is our intention now, when in Government again, to extend it, to include some 80,000 businesses in Wales or more.
Gwyddoch yn iawn mai Plaid Cymru a gyflwynodd y cynllun rhyddhad ardrethi pan oedd yn y Llywodraeth a'n bwriad yn awr, pan fyddwn yn y Llywodraeth unwaith eto, yw ei ymestyn i gynnwys tua 80,000 neu fwy o fusnesau yng Nghymru.
- Byddai cyflwyno'r ddau newid hyn yr wyf wedi eu crybwyll heddiw, gyda'i gilydd, yn costio tua £30 miliwn, ond byddai hynny'n helpu degau o filoedd o fusnesau, a allai arwain at elw uwch, mwy o swyddi ac, o bosibl, gyflogau uwch i weithwyr hefyd. Rydym yn sôn yn gyson, onid ydym, am yr angen am well swyddi yng Nghymru?
The introduction of the two changes that I have mentioned today, taken together, would cost about £30 million, but that would help tens of thousands of businesses, and could lead to enhanced profits, more jobs and possibly higher wages for workers. We are regularly talking, are we not, about the need for better jobs in Wales?
- Gwella'r economi yw blaenoriaeth Plaid Cymru, ac felly mae'r gost yn werth ei thalu. Rwy'n annog pawb i gefnogi Plaid Cymru yn ein hymdrechion ni i helpu'r sector busnes yng Nghymru.
Improving the economy is Plaid Cymru's priority, and therefore the cost is worth paying. I encourage everyone to support Plaid Cymru in our efforts to help the business sector in Wales.
- 15:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call on Eluned Parrott to move amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts.
Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.
- Gwelliant 3—Aled Roberts* *Amendment 3—Aled Roberts*
- Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:* *Add as new sub-point at end of point 4:*

Edrych ar ffyrdd o wneud ardrethi busnes yn fwy ymatebol i newidiadau yn amodau'r farchnad, er mwyn sicrhau bod gwerthoedd ardrethol yn adlewyrchu prisiau cyfredol yn well.

Explore ways to make business rates more responsive to changing market conditions, to ensure that rateable values are more reflective of current valuations.

15:35

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 3.

I would like to thank the Welsh Conservatives on bringing the debate today. I would also like to congratulate Plaid Cymru on single-handedly achieving business rate devolution for Wales. I had thought that it was something to do with the Silk commission but I am grateful for your instructions. The subject of business rates is, of course, among the most pressing of issues for all small businesses. Certainly, it is the one that is raised most often with me in my region. In particular, it is difficult because it is that inflexible fixed cost that is very difficult to manage when other costs are, perhaps, easier to contain in difficult economic times. We also know that business rates hit small firms disproportionately because they often take up a larger proportion of turnover than they do for larger businesses and present particular challenges for certain business sectors, for example, small independent retail businesses and tourism businesses, which often have very high rateable values by comparison with their turnovers.

We have agreed many times in the past in the Chamber on the need for reform, but the difficulty is, of course, finding a balance that has a positive impact on those businesses that are struggling with the current regime without them having an unacceptable impact on other businesses instead. We have discussed radical reforms, such as moving towards a profit or a turnover-based regime. However, clearly, we have to be mindful of the difficulties in collecting that because for big businesses in particular moving money can be very easy; however, for all businesses moving property is not. As more powers over business rates are then devolved, we have the opportunity to discuss these more radical options with a new sense of purpose that, perhaps, we did not have before. However, I would say that even now we have some powers that we can use, and that have been used, to help support Welsh businesses.

Cynigiau welliant 3.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl hon heddiw. Hoffwn hefyd longyfarch Plaid Cymru ar sicrhau ar ei phen ei hun fod ardrethi busnes wedi'u datganoli ar gyfer Cymru. Roeddwn i wedi meddwl mai rhywbeth ar gyfer comisiwn Silk oedd hyn ond rwy'n ddiolchgar am eich cyfarwyddiadau. Wrth gwrs, mae pwnc ardrethi busnes yn un o'r materion mwyaf dybryd sy'n wynebu pob busnes bach. Yn sicr, dyma'r mater sy'n cael ei godi amlaf gyda mi yn fy rhanbarth. Mae'n arbennig o anodd am mai'r gost sefydlog anhyblyg hon sy'n anodd iawn i'w rheoli pan fydd costau eraill, efallai, yn haws i'w cadw dan reolaeth mewn cyfnod economaidd anodd. Rydym hefyd yn gwybod bod ardrethi busnes yn taro cwmnïau bach mewn modd anghymesur oherwydd eu bod yn aml yn llyncu cyfran fwy o'r trosiant nag y maent yn ei wneud mewn busnesau mwy o faint ac yn cyflwyno heriau penodol i sectorau busnes penodol, er enghraifft busnesau manwerthu annibynnol bach a busnesau twristiaeth, sydd â gwerthoedd ardrethol uchel iawn yn aml o gymharu â'u trosiant.

Rydym wedi cytuno yn y Siambr sawl gwaith yn y gorffennol ynglŷn â'r angen am ddiwygio ond yr hyn sy'n anodd, wrth gwrs, yw dod o hyd i gydbwysedd a gaiff effaith gadarnhaol ar fusnesau sy'n gweld y drefn bresennol yn anodd heb iddynt gael effaith annerbyniol ar fusnesau eraill yn lle hynny. Rydym wedi trafod diwygiadau radical, megis symud tuag at drefn yn seiliedig ar elw neu drosiant. Mae'n amlwg, fodd bynnag, y dylem fod yn ymwybodol o'r anawsterau wrth gasglu gan fod symud arian yn gallu bod yn hawdd iawn yn enwedig i fusnesau mawr; ond i bob busnes, nid yw symud eiddo'n hawdd. Wrth i fwy o bwerau dros ardrethi busnes gael eu datganoli, cawn gyfle i drafod yr opsiynau mwy radical hyn gydag ymdeimlad newydd o bwrpas nad oedd gennym o'r blaen o bosibl. Fodd bynnag, byddwn yn dweud bod gennym rai pwerau y gallwn eu defnyddio yn awr hyd yn oed, ac sydd wedi cael eu defnyddio, i helpu i gefnogi busnesau Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In our amendment today I want to recognise that there are what I would call significant issues with the revaluation regime. I want to explore ways to make the system more responsive to changing market conditions. The Enterprise and Business Committee in our inquiry into town centre regeneration some time ago now took evidence from traders in places like Narberth, some of whom had seen their business rates double or treble at the most recent revaluation. These huge, sudden step changes in business rates proved completely impossible to accommodate within a reasonable business plan and caused some really significant difficulties to those who had been involved. What worries me even more is that, in some of those cases, that huge rise in rateable value had been exacerbated because they had invested in their business to make it more competitive. I am concerned that we are financially punishing entrepreneurs for a behaviour that we really need to encourage, namely making an investment into the economy and creating jobs and wealth, but what incentive is there to do that if you are then going to be taxed more as a result?

At the other end of the scale we have the situation in Newport, which has seen a catastrophic market failure in its town centre properties since the last valuation, with large increases in vacancy rates and a massive fall in footfall and, as a result, big drops in property prices, too. This means that in Newport some businesses are now paying more in rates than rents, which is completely unsustainable. However, the next revaluation is still some years away. I fear for high streets like the one in Newport in terms of their ability to survive what are now artificially very high business rates. I think that we need to look at ways in which we can make the business rates regime more responsive, to knock the sharp edges off the rises that successful locations see and offer quicker relief to those locations that are, frankly, in crisis.

I recognise that the revaluation process is extremely complex and expensive to undertake. I do not think that we would want to suggest full revaluations more frequently than they currently take place, however I believe that we must look for ways to make business rates follow the markets more closely in-between revaluations. There are data that local authorities collect that can help us to do that.

Yn ein gwelliant heddiw rwyf am gydnabod bod yr hyn y byddwn yn eu galw'n faterion arwyddocaol yn codi ynglŷn â'r drefn ailbriso. Rwyf eisiau archwilio ffyrdd o wneud y system yn fwy ymatebol i amgylchiadau cyfnewidiol y farchnad. Yn ein hymchwiliad i adfywio canol y dref beth amser yn ôl bellach, clywodd y Pwyllgor Menter a Busnes dystiolaeth gan fasnachwyr mewn lleoedd fel Arberth. Roedd rhai ohonynt wedi gweld eu hardrethi busnes yn dyblu neu'n treblu yn ystod yr ymarfer ailbriso diweddaraf. Roedd yn gwbl amhosibl cynnwys y newidiadau sydyn, enfawr hyn mewn cynllun busnes rhesymol ac achosion rai anawsterau sylweddol iawn i'r rhai a oedd yn eu hwynebu. Yr hyn sy'n fy mhoeni hyd yn oed yn fwy yw bod y cynnydd enfawr yn y gwerth ardrethol wedi cael ei waethygu yn rhai o'r achosion hynny am eu bod wedi buddsoddi yn eu busnes i'w wneud yn fwy cystadleuol. Rwy'n poeni ein bod yn cosbi entrepreneuriaid am ymddygiad y mae gwir angen inni ei annog, sef buddsoddi yn yr economi a chreu swyddi a chyfoeth, ond pa gymhelliad sydd yna i wneud hynny os ydych yn mynd i wynebu trethi uwch o ganlyniad i hynny?

Ar ben arall y raddfa, mae gennym sefyllfa yng Nghasnewydd lle y gwelwyd methiant trychinebus y farchnad mewn perthynas â'i eiddo canol y ddinas ers y prisiad diwethaf gyda chynnydd mawr yng nghyfraddau eiddo gwag a gostyngiad enfawr yn nifer yr ymwelwyr ac o ganlyniad, gostyngiad mawr ym mhrisiau eiddo hefyd. Mae hyn yn golygu bod rhai busnesau yng Nghasnewydd yn awr yn talu mwy o ardrethi na rhenti, sy'n sefyllfa gwbl anghynaliadwy. Fodd bynnag, mae'n dal i fod rhai blynyddoedd i fynd nes yr ymarfer ailbriso nesaf. Rwy'n pryderu am y stryd fawr fel yr un yng Nghasnewydd o ran eu gallu i oroesi'r hyn sydd bellach yn ardrethi busnes artiffisial o uchel. Credaf fod angen inni edrych ar ffyrdd o wneud y drefn ardrethi busnes yn fwy ymatebol, lleddfu'r codiadau gwaethaf sydd i'w gweld mewn lleoliadau llwyddiannus a chynnig rhyddhad ardrethi cyflymach i'r lleoliadau hynny sydd, a siarad yn blaen, yn wynebu argyfwng.

Rwy'n cydnabod bod y broses ailbriso yn hynod o gymhleth ac yn ddrud i'w chynnal. Nid wyf yn credu y byddem am argymhell y dylid cynnal ailbrisiadau llawn yn amlach nag ar hyn o bryd, ond credaf fod yn rhaid i ni edrych am ffyrdd o sicrhau bod ardrethi busnes yn dilyn y marchnadoedd yn agosach rhwng ailbrisiadau. Mae'r awdurdodau lleol yn casglu data a all ein helpu i wneud hynny.

You have persuaded me with amendment 1 in terms of the need for removing that wording although not necessarily in terms of the policy content behind it. I will be supporting Plaid Cymru's amendment 1 today but not amendment 2. With regard to amendment 2, while I applaud the intention to support Wales's small businesses, I think that this particular measure would be a bit of a blunt instrument that does not really reflect the complex nature of the business make-up in Wales. A business property with a rateable value of £15,000 may be a struggling town centre retailer or a thriving internet retailer in a cheap industrial unit with very, very different abilities to pay. I think that there is a more fundamental problem here with the valuation regime that this does not really address. Unless there are any Welsh businesses in premises that are valued at less than £15,000, this would throw a much bigger burden of payment on to those valued at more than £15,000. Many of the independent retailers in my region have a rateable value higher than that. I would suggest that we need to look more closely at local discretion, at differences between different business sectors and think again about this, because it just is not the panacea that people seem to think it is.

Rydych wedi fy mherswadio gyda gwelliant 1 o ran yr angen i gael gwared ar y geiriad er nad o reidrydd o ran y cynnwys polisi sy'n sail iddo. Byddaf yn cefnogi gwelliant 1 Plaid Cymru heddiw, ond nid gwelliant 2. O ran gwelliant 2, er fy mod yn cymeradwyo'r bwriad i gefnogi busnesau bach Cymru, rwy'n credu y byddai'r mesur penodol hwn yn offeryn braidd yn ddi-fin na fyddai'n adlewyrchu natur gymhleth y gwead busnes yng Nghymru mewn gwirionedd. Gallai eiddo busnes â gwerth ardrethol o £15,000 fod yn fanwerthwr canol y dref sy'n ei chael yn anodd dod i ben neu'n fanwerthwr rhyngwyd ffyniannus mewn uned ddiwydiannol rad gyda gallu gwahanol iawn, iawn i dalu. Rwy'n credu bod yma broblem fwy sylfaenol gyda'r drefn brisio nad yw hyn yn mynd i'r afael â hi mewn gwirionedd. Oni bai bod unrhyw fusnesau yng Nghymru mewn adeiladau sy'n werth llai na £15,000, byddai hyn yn creu baich talu llawer mwy ar gyfer busnesau sy'n werth mwy na £15,000. Mae gwerth ardrethol llawer o'r manwerthwyr annibynnol yn fy rhanbarth yn uwch na hynny. Byddwn yn awgrymu bod angen inni edrych yn agosach ar ddisgresiwn lleol, ar y gwahaniaethau rhwng gwahanol sectorau busnes a meddwl eto am hyn gan nad dyma'r ateb i bob problem y mae pawb i'w weld yn ei gredu.

15:40

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute to this debate. Business rates have been a long-term issue for the Welsh Conservatives. As I said in my intervention to the Plaid Cymru spokesperson, I can remember many debates in the Chamber when his party was in Government, almost imploring the then leader to take on board our policy of bringing forward the rate relief scheme that would have offered such opportunities to businesses here in Wales, and the defence that the then leader offered back as to why he would not do it—

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddatl hon. Mae ardrethi busnes wedi bod yn bwnc hirdymor i'r Ceidwadwyr Cymreig. Fel y dywedais yn fy ymyriad i lefarydd Plaid Cymru, gallaf gofio nifer o ddadleuon yn y Siambr pan oedd ei blaid yn y Llywodraeth, yn erfyn bron ar yr arweinydd ar y pryd i fabwysiadu ein polisi o gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi a fyddai wedi cynnig cyfleoedd o'r fath i fusnesau yma yng Nghymru, a'r amddiffyniad a roddai'r arweinydd ar y pryd dros beidio â gwneud hynny oedd—

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:40

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a very short intervention: does the Member accept that his party has not long been calling for the devolution of business rates, which puts us in this position now where we are going to be able to take some positive decisions on business rates in Wales?

Mae hwn yn ymyriad byr iawn: a yw'r Aelod yn derbyn mai dim ond ers ychydig o amser y mae ei blaid wedi bod yn galw am ddatganoli ardrethi busnes sy'n ein rhoi yn y sefyllfa hon yn awr lle y gallwn wneud rhai penderfyniadau cadarnhaol ar ardrethi busnes yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:41

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find it remarkable, but I understand from its point of view, why Plaid Cymru wants to try to claim credit. It was the Conservative-led coalition that set up the Silk review, which has led to the devolution of business rates, and, ultimately, at the end of the day, the Conservatives have been at the front, not at the back of this argument. However, I appreciate that he is new to his position and obviously he is not familiar with the historical precedence that his party once took on this.

Rwy'n ei chael hi'n rhyfeddol, ond rwy'n deall o'u safbwynt hwy, pam y mae Plaid Cymru yn ceisio hawlio'r clod. Y glymblaid o dan arweiniad y Ceidwadwyr a sefydlodd adolygiad Silk a arweiniodd at ddatganoli ardrethi busnes, ac yn y pen draw ar ddiwedd y dydd, mae'r Ceidwadwyr wedi bod ar y blaen yn y ddatl hon nid yn y cefn. Ond rwy'n sylweddoli ei fod yn newydd i'w swydd ac mae'n amlwg nad yw'n gyfarwydd â safbwynt hanesyddol ei blaid ar hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

It is important to reflect, and I would like to spend the time that I have available to me reflecting on the importance of our high streets in particular in this equation. The Welsh Conservatives launched the regeneration policy that was brought forward some 18 months ago on high street regeneration, and at the heart of that was our business rates proposal that would, ultimately, give an instant kick-start to many businesses seeking either to upgrade their premises or seeking to create more employment on our high street. As we have gone around Wales, and in particular in Barry where we launched this policy, that was the one point that many of the businesses on that high street said would give them the breathing space to allow them to compete either with the out-of-town retailers or, indeed, the internet retailers that so proliferate the shopping market at the moment—Amazon et cetera.

What we have to remember is that when we are talking about business rates, and especially small business rates, we could be talking about helping in excess of 70% of the small businesses in Wales if our policy was adopted, and with the tapering relief for those with a value of up to £15,000, that would bring another 5% of the businesses in Wales into that relief, which would make such a big difference on our high streets. We do not believe for one minute that we can nostalgically go back to the 1950s or 1960s concept of the average shopper going day in, day out to do their daily shop on the high street. People have changed their habits, but as our document clearly highlighted, we talked in the round about what we could be doing in terms of bringing high street managers in, having a 24-hour culture on our high streets, reforming the planning system, and, as I have said, above all, having business rates at the heart of what we are talking about in allowing businesses the opportunity and the space to develop their operations.

I was very pleased, in the short time that I was Chair of the Business and Enterprise Committee, to get the review into business rates and high street regeneration in particular up and running, and that review was obviously accepted by the Government. There is still much work to be done around that. I know that the Government took the recommendations on board, but I would be interested, when the Minister replies today, to understand exactly how the Government is progressing with some of those recommendations. It is regrettable in regeneration terms—I see that the Minister is in his place—that the Government has not come forward with the complete strategy on high street regeneration that was promised some 12 months ago by his predecessor. We still await that. Again, I appreciate that it is not in the portfolio of the Minister who will respond to this debate, but she may be in a position to say what discussions she has had with the Minister for Housing and Regeneration about the measures that the Government will be bringing forward.

Mae'n bwysig myfyrio, a hoffwn dreulio'r amser sydd ar gael i mi'n myfyrio ar bwysigrwydd ein stryd fawr yn enwedig yn y cyd-destun hwn. Lansiodd y Ceidwadwyr Cymreig y polisi adfywio a gyflwynwyd tua 18 mis yn ôl ar adfywio'r stryd fawr ac yn sail i'r polisi, roedd ein cynnig ar ardrethi busnes a fyddai, yn y pen draw, yn rhoi hwb sydyn i lawer o fusnesau sy'n ceisio uwchraddio eu safleoedd neu greu mwy o waith ar ein stryd fawr. Wrth i ni fynd o gwmpas Cymru, ac yn enwedig yn y Barri lle y lansiodd y polisi hwn gennym, dyna'r un peth y dywedodd llawer o'r busnesau ar y stryd fawr yno a fyddai'n rhoi lle iddynt anadlu i'w galluogi i gystadlu â manwerthwyr ar gyrion y dref neu'n wir â manwerthwyr y rhyngwyd sy'n treiddio'r farchnad siopa drwyddi draw ar hyn o bryd—Amazon ac ati.

Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei gofio wrth inni sôn am ardrethi busnes, ac ardrethi busnesau bach yn arbennig, yw y gallem fod yn sôn am helpu mwy na 70% o'r busnesau bach yng Nghymru pe bai ein polisi'n cael ei fabwysiadu, ac yn ogystal â'r rhyddhad sy'n lleihau'n raddol i rai gwerth hyd at £15,000 a fyddai'n cynnig rhyddhad i 5% arall o fusnesau Cymru, byddai'n gwneud cymaint o wahaniaeth i'r stryd fawr. Ni chredwn am funud y gallwn fynd yn ôl i gysyniad hiraethus y 1950au neu'r 1960au o'r siopwr cyffredin yn mynd i wneud ei siopa ar y stryd fawr ddydd ar ôl dydd. Mae pobl wedi newid eu harferion ond fel yr amlgodd ein dogfen yn glir, buom yn trafod yn fanwl yr hyn y gallem ei wneud o ran cyflwyno rheolwyr stryd fawr, creu diwylliant 24-awr ar y stryd fawr, diwygio'r system gynllunio ac fel y dywedais, yn anad dim, gosod ardrethi busnes wrth wraidd yr hyn rydym yn sôn amdano er mwyn rhoi cyfle a lle i fusnesau ddatblygu.

Yn yr amser byr y bûm yn Gadeirydd y Pwyllgor Busnes a Menter, roeddwn yn falch iawn o roi'r adolygiad o ardrethi busnes ac adfywio'r stryd fawr yn benodol ar waith ac mae'n amlwg fod y Llywodraeth wedi derbyn yr adolygiad hwnnw. Mae llawer o waith i'w wneud ynghylch hynny. Gwn fod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhellion ond byddai'n ddiddorol deall, pan fydd y Gweinidog yn ymateb heddiw, sut yn union y mae'r Llywodraeth yn symud ymlaen ar rai o'r argymhellion hynny. Mae'n destun gofid o ran adfywio—gwelaf fod y Gweinidog yn ei sedd—nad yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno'r strategaeth gyflawn ar adfywio'r stryd fawr a addawyd gan ei ragflaenydd tua 12 mis yn ôl. Rydym yn dal i ddisgwyl y strategaeth. Unwaith eto, rwy'n gwerthfawrogi nad yw'n rhan o bortffolio'r Gweinidog a fydd yn ymateb i'r ddadl hon ond mae'n bosibl ei bod mewn sefyllfa i ddweud pa drafodaethau a gafodd gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio ynglŷn â'r mesurau y bydd y Llywodraeth yn eu cyflwyno.

As the lead member for the Liberal Democrats touched upon, with the advent of responsibility for business rates arriving here in the Assembly, it is an opportune time to reflect on what type of measures the Government or the opposition parties might wish to put forward in their manifestos for 2016, because time and again, whether it is the Federation of Small Businesses, the chambers of trade or a small business on its own, this is the issue that they say would make the biggest difference to their balance sheet. In fairness, they are not getting something for nothing because those rates do go to pay for services, but they do not feel as if they can tangibly feel what those business rates are buying them. It is such a big and uncontrollable cost, as has been touched on earlier. With revaluation, for example, all of a sudden you could have spent the money upgrading your premises and your offering and then be penalised for doing that as an entrepreneur. It seems perverse and there will be huge discussions on this. So, there is much to focus on here. The Government could make an instant win by adopting our policy. I do not believe that we are going to have that eureka moment today, but I will be grateful to understand the journey that the Minister is undertaking.

Today has offered the Welsh Conservatives the opportunity again to reinforce its long-standing commitment to supporting the business community the length and breadth of Wales. I hope that Members will find support in the motion and vote for the motion on the agenda this afternoon.

15:45

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddatl heddiw. Nid yn aml yr wyf yn cefnogi yr hyn y mae'r Ceidwadwyr am ei wneud, ond rwyf yn cefnogi busnesau bach.

Mae llunio polisiau yn un peth, ond mae eu gweithredu yn beth arall. Wrth gerdded i lawr stryd fawr Llanelli, bydd cymysgedd o siopau a gwahaniaethau gydag ardaloedd eraill. Mae canol trefi yn adlewyrchu blas lleol yr ardal. Fodd bynnag, yn gyffredin â gweddill Cymru, mae dibyniaeth gan y gymuned leol ar fusnesau bach ar draws fy etholaeth. Mae'r negeseuon a ddaw o fusnesau yn debyg iawn ar draws ein gwlad.

Rwyf yn hapus i nodi gwaith Llywodraeth Lafur Cymru. Mae gennym sawl dolen ac rydym yn barod i'w defnyddio. Dim ond ddoe clywsom fod Twf Swyddi Cymru wedi mynd ymhellach na'i darged, ac roeddwn yn falch i glywed hynny. Rwyf yn ymrwymedig i gefnogi pob ymdrech i adfywio tref Llanelli, a phwysleisaf fod angen i ni fod yn greadigol yn ein hawgrymiadau. Rwyf yn gweld cyfleon i hybu twristiaeth yn Llanelli, er enghraifft. Ymwelais ag agoriad Llanelly House yn ddiweddar, sydd wedi'i adfywio drwy ddefnyddio arian Ewropeaidd. Y mae wedi creu'r posibilrwydd o greu cymuned yng nghanol y dref er mwyn sicrhau bod pobl yn byw a siopa'n lleol.

Mae pedwar grant gan Lywodraeth Lafur Cymru yr hoffwn dynnu sylw atynt a fydd yn gallu cefnogi busnesau bach. Yn ddiweddar eleni, derbyniodd canol Llanelli grant gwerth £1 filiwn o dan gynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Dyma grant sy'n cael ei anelu at ddiol a chanolfannau trefol. Fy mlaenoriaeth yw gweithredu a chefnogi prosiectau lleol a all fanteisio o gefnogaeth ariannol.

Fel y crybwyllodd yr aelod arweiniol dros y Democratiaid Rhyddfrydol, gyda dyfodiad y cyfrifoldeb am ardrethi busnes i'r Cynulliad, mae'n adeg dda inni ystyried pa fath o fesurau y gallai'r Llywodraeth neu'r gwrthbleidiau fod eisiau eu cyflwyno yn eu manifestos ar gyfer 2016, oherwydd dro ar ôl tro, dyma'r mater y mae Ffederasiwn y Busnesau Bach, y siambrau masnach neu'r busnesau bach eu hunain yn ei ddweud a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'w mantolenni. A bod yn deg, nid cael rhywbeth am ddim y maent gan fod yr ardrethi hynny'n mynd i dalu am wasanaethau, ond nid ydynt yn gallu teimlo go iawn beth y mae ardrethi busnes yn ei brynu iddynt. Mae'n gost mor fawr ac yn un na ellir ei rheoli, fel y crybwyllwyd yn gynharach. Gydag ailbriso, er enghraifft, yn sydyn gallech fod wedi gwario'r arian yn uwchraddio eich safle a'r hyn rydych yn ei gynnig a chael eich cosbi am wneud hynny fel entrepreneur. Mae'n ymddangos yn groes i'r graen a bydd trafodaethau helaeth ar hyn. Felly mae llawer i ganolbywntio arno yma. Gallai'r Llywodraeth gael budd ar unwaith drwy fabwysiadu ein polisi. Ni chredaf ein bod yn mynd i gael yr eiliad eureka honno heddiw ond byddwn yn falch o gael gwybod i ba gyfeiriad y mae'r Gweinidog yn mynd.

Mae heddiw wedi cynnig cyfle eto i'r Ceidwadwyr Cymreig atgyfnerthu eu hymrwymiad hirsefydlog i gefnogi'r gymuned fusnes ar hyd a lled Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n gweld y gefnogaeth yn y cynnig ac yn pleidleisio o blaid y cynnig ar yr agenda y prynhawn yma.

Thank you for the opportunity to contribute to the debate today. It is not often that I support what the Conservatives want to do, but I do support small businesses.

The formulation of policies is one thing, but their implementation is another. When you walk down Llanelli high street, there will be a mixture of shops and differences compared with other areas. Town centres reflect the local flavour of an area. However, similarly to the rest of Wales, the local community depends on small businesses across my constituency. The messages that come from businesses are very similar across our country.

I am happy to note the work of the Welsh Labour Government. We have many tools and we are ready to use them. Only yesterday we heard that Jobs Growth Wales had exceeded its target, and I was happy to note that. I am committed to supporting every effort to regenerate Llanelli, and I emphasise that we need to be creative in our suggestions. I see opportunities to promote tourism in Llanelli, for example. I went to the opening of Llanelly House recently, which has been regenerated with European funding. It has created the possibility of creating a community in the town centre to ensure that people can live and shop locally.

There are four Welsh Labour Government grants that I wish to highlight that can support small businesses. Recently this year, the centre of Llanelli received a grant worth £1 million under the Vibrant and Viable Places scheme. This is a grant that is targeted at poverty and town centres. My priority is to implement and support local projects that could benefit from this financial support.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn gynharach eleni, derbyniodd Llanelli gyllid i ddatblygu ardal gwella busnes fel bod modd hybu cydweithio rhwng busnesau lleol a'r awdurdod lleol. Mae nawr yn edrych ar ardal eang ar draws Llanelli cyn gwneud 'ballot' er mwyn i fusnesau gael dewis gweithred a gaiff ei lunio i fod yn fuddiol ac yn fanteisiol i fusnesau'r ardal, gan gynnwys busnesau bach. Ynglŷn â'r cynllun Ar Agor am Fusnes ac, wrth gwrs, y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach, maent yn fara menyn ein cymunedau. Yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst fydd y jam—cyfle i ni arddangos ein tref i Gymru oll. Diolch yn fawr.

Earlier this year, Llanelli received money to develop a business improvement district, to support co-operation between the local authority and local businesses. It is now looking at a large area across Llanelli before holding a ballot so that businesses can choose a project that will be created to be beneficial to businesses in the area, including small businesses. On the Open for Business scheme and, of course, the small business rate relief scheme, they are the bread and butter of our communities. The National Eisteddfod in August will be the jam—an opportunity for us to showcase our town to the whole of Wales. Thank you very much.

15:48

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In March last year, the Minister's business rates task and finish group published its anomalies report. That report said that there is little doubt that the retail sector currently has an undue rates burden in comparison with other sectors. It attributed part of that to the failure of actual property values to be reflected in rateable values. Although, I would have thought that that delay to revalue would probably have affected all sectors. So, while I can support the Liberal Democrat amendment as drafted and recognise the case made, I still think that it would be a brave Government that introduced more frequent revaluations of properties on which lending has been secured.

In Swansea, we have seen some pretty rapacious behaviour on the part of a bank lending on commercial properties, revaluing portfolios of property at a time of recession, calling in borrowing regardless of the lifetime of the loan, hatching businesses in the process, and then watching the value of those foreclosure properties grow during the economic recovery. So, such banks do not need the encouragement of an ongoing programme of frequent revaluation in the name of Government to introduce more uncertainty into a lending regime. That would create more vulnerability for business borrowing and, in the case of commercial landlords, their uncertainty will inevitably end up creating uncertainty for tenants. No-one trying to start or build up a business is going to thank a Government for that, retail or otherwise.

So, it is in business rate mitigation that we will find the more agile responses to changing business conditions. Rate relief or exemption and constructive use of a hardship fund may not solve the problem of the high street by itself, but it is here that the Welsh Government can find speedy flexibility to help small retail businesses when times are hard, rather than turn to inertia pending national revaluation.

I appreciate that the Welsh Government's own business rate relief scheme will be running on, but it is hard to see—and this point was made by Rhun ap Iorwerth, too—whether there has been any real appetite to make the most of that speedy flexibility.

Ym mis Mawrth y llynedd, cyhoeddodd grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog ar ardrethi busnes ei adroddiad ar yr anghysonderau. Nododd yr adroddiad nad oes fawr o amheuaeth fod baich ardrethi gormodol ar y sector manwerthu ar hyn o bryd o'i gymharu â sectorau eraill. Priodolai hynny'n rhannol i'r methiant i adlewyrchu gwerthoedd eiddo gwirioneddol mewn gwerthoedd ardrethol. Er hynny, byddwn wedi meddwl y byddai'r oedi cyn ailbriso wedi effeithio ar bob sector yn ôl pob tebyg. Felly, er y gallaf gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol fel y'i drafftwyd ac er fy mod yn cydnabod yr achos a wnaed, rwy'n dal i gredu mai Llywodraeth ddewr a fyddai'n cyflwyno ymarferion ailbriso amlach ar eiddo y mae benthyciadau wedi'u sicrhau ar eu cyfer.

Yn Abertawe, gwelsom ymddygiad pur farus gan fanc yn benthycy ar eiddo masnachol, yn ailbriso portffolios eiddo ar adeg o ddirwasgiad, yn galw benthyciadau i mewn waeth beth oedd hyd y benthyciad gan ddarnio busnesau yn y broses, yna gwylio gwerth eiddo blaen-gau yn tyfu yn ystod yr adferiad economaidd. Felly nid yw banciau o'r fath angen anogaeth rhaglen barhaus o ailbriso aml yn enw'r Llywodraeth er mwyn cyflwyno mwy o ansicrwydd i drefn fenthyca. Byddai hynny'n gwneud benthyciadau busnes yn fwy bregus ac yn achos landlordiaid masnachol, bydd eu hansicrwydd yn anochel yn creu ansicrwydd i denantiaid yn y pen draw. Nid oes neb, manwerthwyr neu fel arall, sy'n ceisio dechrau neu ddatblygu busnes yn mynd i ddiolch i'r Llywodraeth am hynny.

Felly, drwy liniaru ardrethi busnes y down o hyd i ymatebion mwy hyblyg i amgylchiadau busnes cyfnewidiol. Efallai na fydd rhyddhad ardrethi neu eithrio rhag ardrethi a defnydd adeiladol o gronfa galedi yn datrys problem y stryd fawr ar ei ben ei hun ond dyma lle y gall Llywodraeth Cymru ddod o hyd i hyblygrwydd cyflym i helpu busnesau manwerthu bach pan fydd pethau'n anodd, yn hytrach na disgwyl yn swrth am ailbrisiad cenedlaethol.

Rwy'n sylweddoli y bydd cynllun rhyddhad ardrethi busnes Llywodraeth Cymru ei hun yn parhau ond mae'n anodd gweld—a gwnaed y pwynt hwn gan Rhun ap Iorwerth hefyd—a fu unrhyw awydd gwirioneddol i fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd cyflym o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As we have heard, Minister, the Welsh Conservatives' high-street strategy document is now 18 months old. You have had time to consider how, perhaps, to pilot the split multiplier described in it, if you needed a pilot. There seems to be some common ground in the Chamber now, and the Scottish evidence regarding a similar programme is there for you to see. You might also have at least committed to future testing the much longer standing call for the scrapping of the payment of rates for our smallest businesses altogether in, say, a city region, if you felt that our ideas needed testing, but you have not done that, and that will be a disappointment to the 73% of businesses in Wales that could have benefited.

These and other small businesses are among the grass-roots private sector operators that have stepped up to the plate to help to rebalance the economy by finding 1.6 million new jobs for people in the UK. Even in austerity, with cuts, the UK Government has been dextrous and brave enough to help small businesses take on new employees via tax and national insurance breaks and deregulation. The levers of tax mitigation that the Welsh Government could have used to help Welsh businesses through the tough times have not really been pulled with dexterity or bravery.

As we know, the Welsh Government will soon assume complete responsibility for raising and spending business rates. This is a chance, Minister, for you to show how much you love Welsh private enterprise by doing something better, or to at least accept that it is in the Welsh Government's interest to look after the 90% plus of our private sector, namely the small businesses, that define our economy. Think of it as an investment to save, if you like: you can help the smallest businesses or larger businesses in areas of deprivation, where property values are lower, with stability by not charging them rates at all. You can help slightly larger businesses with stability by introducing the variable multiplier and, in times of extremis, you can help those firms via the hardship relief. You might even wish to offer guidance to local government to be proactive in offering agreed rate reductions to high-street businesses affected by disruptive roadworks, for example, rather than allowing them simply to offer an e-mail link and letting businesses get on with trying to get compensation. High-street businesses in Bridgend in this position, for example, have not even bothered to try to recover money as the process was so complicated and their council so unhelpful.

Therefore, no-one is asking you to bail out no-hopers, but viable small businesses are still vulnerable to financial shocks that large companies and the public sector can better withstand. Lose them in local disruption or one great crash, and where will Wales's job growth come from then? Who will create the wealth to help raise all our boats, or, indeed, the money to pay back the borrowing plans you can now make thanks to the same legislation that gives you your new powers on business rates?

Fel y clywsom, Weinidog, mae dogfen strategaeth stryd fawr y Ceidwadwyr Cymreig yn 18 mis oed erbyn hyn. Rydych wedi cael amser i ystyried sut i dreialu'r lluosydd hollt a ddisgrifir ynddo pe baech angen peilot. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o dir cyffredin yn y Siambr yn awr ac mae'r dystiolaeth o'r Alban ynglŷn â rhaglen gyffelyb ar gael i chi eu gweld. Efallai hefyd y gallech fod wedi ymrwymo o leiaf i brofi'r galw llawer mwy hirsefydlog am ddileu ardrethi i'n busnesau lleiaf ar gyfer y dyfodol, mewn dinas-ranbarth, dyweder, pe baech yn teimlo bod angen profi ein syniadau, ond nid ydych wedi gwneud hynny, a bydd hynny'n siom i 73% o fusnesau Cymru a allai fod wedi elwa.

Mae'r rhain a busnesau bach eraill ymhlith gweithredwyr y sector preifat ar lawr gwlad sydd wedi cynnig helpu i ail-gydbwysu'r economi drwy ddod o hyd i 1.6 miliwn o swyddi newydd ar gyfer pobl yn y DU. Hyd yn oed ar adeg o galedi, gyda thoriadau, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ddigon deheuig a dewr i helpu busnesau bach gyflogi gweithwyr newydd drwy doriadau treth ac yswiriant gwladol, a dadreoleiddio. Nid yw'r dulliau lliniaru treth y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'u defnyddio i helpu busnesau Cymru trwy'r cyfnod anodd wedi cael eu defnyddio'n ddeheuig nac yn ddewr mewn gwirionedd.

Fel y gwyddom, cyn bo hir bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb llawn am godi a gwario ardrethi busnes. Weinidog, dyma eich cyfle i ddangos faint rydych yn ei feddwl o fentrau preifat yng Nghymru drwy wneud rhywbeth gwell neu dderbyn o leiaf ei bod o fudd i Lywodraeth Cymru edrych ar ôl y 90% a mwy o'n sector preifat, sef y busnesau bach, sy'n diffinio ein heconomi. Os hoffwch, meddyliwch am y peth fel buddsoddiad i arbed: gallwch helpu'r busnesau lleiaf neu fusnesau mwy o faint mewn ardaloedd o amddifadedd, lle mae gwerth eiddo'n is, a chynnig sefydlogrwydd drwy beidio â chodi ardrethi o gwbl arnynt. Gallwch helpu busnesau ychydig yn fwy a chynnig sefydlogrwydd drwy gyflwyno'r lluosydd amrywiol ac ar adegau anodd dros ben, gallwch helpu'r cwmnïau hynny drwy'r rhyddhad caledi. Efallai y gallech gynnig arweiniad i lywodraeth leol fod yn rhagweithiol wrth gynnig gostyngiadau a gytunwyd ar ardrethi i fusnesau'r stryd fawr yr effeithir arnynt gan waith ffordd aflonyddgar, er enghraifft, yn hytrach na dim ond cynnig cyswllt e-bost i fusnesau a gadael iddynt fwrw ati i wneud cais am iawndal. Nid yw busnesau stryd fawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, sydd yn y sefyllfa hon wedi trafferthu ceisio adennill arian hyd yn oed gan fod y broses yn un mor gymhleth a'u cyngor mor amharod i helpu.

Felly nid oes neb yn gofyn i chi achub busnesau anobeithiol ond mae busnesau bach hyfyw yn dal yn agored i ysgytiadau ariannol y gall cwmnïau mawr a'r sector cyhoeddus eu gwrthsefyll yn well. Os collwch y rhain drwy aflonyddwch lleol neu un gwmp fawr, o ble y daw twf swyddi Cymru wedyn? Pwy fydd yn creu'r cyfoeth i helpu i godi ein holl gychod o'r dŵr neu'n wir yr arian i ad-dalu'r cynlluniau benthyca y gallwch eu cael yn awr diolch i'r un ddeddfwriaeth sy'n rhoi eich pwerau newydd ar ardrethi busnes i chi?

Today's debate focuses on one of the most integral components requiring change in order to get the Welsh economy going and growing. Indeed, never before has there been such a need to look again, examine, and decide which to accept of the many recommendations coming forward from those most affected, to include business owners, business industry support bodies, the Welsh Government and us as Assembly Members in our attempts to support our vital private sector and our business industry in Wales. The Welsh Conservatives' motion and amendments, tabled by Paul Davies AM, intend to do just that, and my contribution today seeks to support those aims.

When meeting many business owners in my constituency, the conversation always and ultimately reverts to concerns being raised as to just how difficult it is to pay the amounts that are due on an annual basis in business rates. It does not matter how large or small the business, how long the business has been trading, or even the line of business they are in. However, very recently, I spoke to one young man who was very pleased that he no longer pays business rates as a result of the business rate relief. He expressed much gratitude for this as it helped him to sustain and grow his business. I would like to acknowledge the work that the Minister has done in this regard in the time I have been here. However, we need to take a much braver step forward and look at other ways to deal with this particular old chestnut.

Experience teaches me that, during a new business set-up, when one takes on a leasehold or freehold retail unit, you know what your estimated outgoings will be in terms of your annual rental or business loan. You are then presented with the business rates chargeable at that time. However, as things stand, you are powerless as a business owner to exert influence over the rises in business rates that can come your way. This can be a huge burden in terms of the overall sustainability of your business. The Welsh Government setting the multiplier each year and the Valuation Office Agency assigning the rateable value can have a huge impact on someone's business, and I welcome the cap introduced by the UK Government and replicated here. However, it is not enough. I welcome the fact that the Welsh Government will have full responsibility for business rates once the Wales Bill has received Royal Assent. However, it is not enough. I welcome the hardship relief that is available although very little known about and applied for, but it is still not enough. The current £1,000 rate rebate that the Minister announced only recently has caused some confusion within those needy businesses in my own area. They do not know whether it is automatically applied or whether they have to apply for it, and I would like some clarification on that today.

Mae'r ddadl heddiw yn canolbwyntio ar un o'r elfennau mwyaf allweddol sydd angen eu newid er mwyn ysgogi economi Cymru i dyfu. Yn wir, ni fu erioed y fath angen i edrych eto, i archwilio ac i benderfynu pa argymhellion i'w derbyn o'r llu sy'n cael eu cyflwyno gan y rhai yr effeithir arnynt fwyaf, gan gynnwys perchnogion busnesau, cyrff cefnogi'r diwydiant busnes, Llywodraeth Cymru a ninnau fel Aelodau Cynulliad yn ein hymdrechion i gefnogi ein sector preifat hanfodol a'n diwydiant busnes yng Nghymru. Dyna'n union y mae cynnig y Ceidwadwyr Cymreig a'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Paul Davies AC yn bwriadu ei wneud ac mae fy nghyfraniad heddiw yn cefnogi'r nodau hynny.

Pan fyddwch yn cyfarfod â llawer o berchnogion busnesau yn fy etholaeth, bydd y sgwrs bob amser yn dychwelyd yn y pen draw at bryderon ynglŷn â pha mor anodd yw talu'r ardrethi busnes blynyddol sy'n ddyledus. Ni waeth pa mor fawr neu fach yw'r busnes, pa mor hir y mae'r busnes wedi bod yn masnachu na hyd yn oed natur y busnes. Ond yn ddiweddar iawn, bŵm yn siarad ag un dyn ifanc a oedd yn falch iawn nad oedd bellach yn talu ardrethi busnes yn sgîl y rhyddhad ardrethi busnes. Mynegodd ei ddiolch mawr am hyn gan ei fod yn ei helpu i gynnal a thyfu ei fusnes. Hoffwn gydnabod y gwaith y mae'r Gweinidog wedi'i wneud yn hyn o beth yn yr amser rwyf wedi bod yma. Fodd bynnag, mae angen i ni gamu'n llawer mwy dewr yn ein blaenau ac edrych ar ffyrdd eraill o ddelio â'r hen faen tramgwydd penodol hwn.

Yn fy mhrofiad i, wrth sefydlu busnes newydd, ac wrth gymryd prydles neu uned fanwerthu rydd-ddaliadol, rydych chi'n gwybod beth fydd eich treuliau amcangyfrifedig o ran eich rhent blynyddol neu fenthyciad busnes. Yna caiff yr ardrethi busnes ar y pryd eu cyflwyno i chi. Ond fel y mae pethau'n sefyll, rydych yn ddi-rym fel perchennog busnes i ddylanwadu ar y cynnydd mewn ardrethi busnes a allai ddod i'ch rhan. Gall hyn fod yn faich enfawr o ran cynaliadwyedd cyffredinol eich busnes. Gall y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn pennu'r lluosydd bob blwyddyn a bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn pennu'r gwerth ardrethol gael effaith enfawr ar fusnes a chroesawaf y cap a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac a gopiwyd yma. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon. Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb llawn am ardrethi busnes wedi i Fil Cymru gael Cydsyniad Brenhinol. Ond nid yw'n ddigon. Rwy'n croesawu'r rhyddhad caledi sydd ar gael, er mai ychydig sy'n gwybod amdano ac sy'n gwneud cais amdano, ond nid yw hynny'n ddigon ychwaith. Yn ddiweddar, achosodd yr ad-daliad ardrethi cyfredol o £1,000 a gyhoeddodd y Gweinidog beth dryswch ymhlith busnesau anghenus yn fy ardal fy hun. Nid ydynt yn gwybod a yw'n cael ei gymhwyso'n awtomatig neu a oes angen iddynt wneud cais amdano a hoffwn gael rhywfaint o eglurhad ar hynny heddiw.

Our small and medium-sized businesses are one of our greatest assets in Wales. There are 8,300 small businesses and 2,015 medium businesses employing thousands of people across Wales. Our high streets in Wales have the highest vacancy rates in the UK, and such is the concern in the industry about this that we now have the cross-party group, which I am really proud to chair, on small shops, looking at ways to revitalise our high streets. Some support on business rates could allow businesses to employ an extra member of staff, helping to eradicate our unemployment levels in Wales. It is said that, if every business took on one, we could do away with our unemployment. Sadly, recent figures from the Centre for Retail Research forecast the disappearance of the Welsh high street within just 20 years if current closure levels remain the same. Minister, we cannot allow this to happen. The First Minister has indicated that the private sector in Wales is too small. Offering small and affordable business rates is just one way to stimulate enterprise births and, despite billions spent on European development in Wales, we have seen little or no benefit to our private sector or, indeed, our SMEs. The Confederation of British Industry says that the most important issue facing Wales is delivery. We have had a lot of talk.

On the Welsh multiplier, splitting and possibly lowering it would benefit 775 of our businesses. Raising awareness of the hardship relief and placing an obligation on local authorities to advertise this more freely, as they do with council tax relief, would benefit our businesses. It would be easy to do through the council propaganda free newspapers so often put out by local authorities. Also, following the devolution of business rates to Wales, I believe that allowing each local authority the option of retaining its collective business rates, as recommended by the task and finish group, would be another way of incentivising collaboration between our local authorities and the very businesses they are collecting this money from. These are just some of the tools in the box, Minister, that you have to turn the wheels of entrepreneurial success and growth in the Welsh economy. For the sake of our businesses in Wales, I urge you to use these and also to consider and support our motion today. Diolch. Thank you.

Mae ein busnesau bach a chanolig eu maint yn un o'n hasedau mwyaf yng Nghymru. Mae 8,300 o fusnesau bach a 2,015 o fusnesau canolig yn cyflogi miloedd o bobl ledled Cymru. Ein stryd fawr yng Nghymru sydd â'r gyfradd uchaf o adeiladau gwag yn y DU. Mae'r pryder o fewn y diwydiant mor fawr ynglŷn â hyn fel bod gennym bellach grŵp trawsbleidiol ar siopau bach i edrych ar ffyrdd o adfywio ein stryd fawr, ac rwy'n falch iawn o gael ei gadeirio. Gallai peth cymorth tuag at ardrethi busnes alluogi busnesau i gyflogi aelod ychwanegol o staff gan helpu i gael gwared ar ein lefelau diweithdra yng Nghymru. Yn ôl y sôn, pe bai pob busnes yn cyflogi un person, gallem ddiddymu diweithdra. Yn anffodus, mae ffigurau diweddar gan y Ganolfan Ymchwil Manwerthu yn rhagweld y bydd y stryd fawr Gymreig yn diflannu o fewn 20 mlynedd os yw'r lefelau cau'n aros fel y maent ar hyn o bryd. Weinidog, ni allwn ganiatáu i hyn ddigwydd. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi bod y sector preifat yng Nghymru yn rhy fach. Dim ond un ffordd o ysgogi mentrau i ddechrau yw cynnig ardrethi busnes bach a fforddiadwy ac er gwaethaf y biliynau a werir ar ddatblygiadau Ewropeaidd yng Nghymru, ychydig o fudd i'n sector preifat a'n busnesau bach a chanolig a welsom, os o gwbl. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn dweud mai'r mater pwysicaf sy'n wynebu Cymru yw cyflawni. Rydym wedi cael llawer o siarad.

O ran lluosydd Cymru, byddai ei holli ac o bosibl ei ostwng o fudd i 775 o'n busnesau. Byddai codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r rhyddhad caledi a gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysebu hyn yn fwy amlwg fel y maent yn ei wneud gyda gostyngiadau'r dreth gyngor yn fanteisiol i'n busnesau. Byddai'n hawdd ei wneud drwy'r papurau newydd rhad ac am ddim sy'n cael eu dosbarthu gan awdurdodau lleol mor aml i ledaenu propaganda'r cyngor. Hefyd, yn sgil datganoli ardrethi busnes i Gymru, rwy'n credu y byddai caniatáu i bob awdurdod lleol ddewis cadw ei ardrethi busnes cyfunol fel yr argymhellwyd gan y grŵp gorchwyl a gorffen yn ffordd arall o gymell cydweithio rhwng ein hawdurdodau lleol a'r union fusnesau y maent yn casglu'r arian oddi wrthynt. Dim ond rhai o'r dulliau posibl yw'r rhain, Weinidog, ar gyfer troi olwynion llwyddiant entrepreneuriaid a thwf economi Cymru. Er mwyn ein busnesau yng Nghymru, rwy'n eich annog i ddefnyddio'r rhain a hefyd i ystyried a chefnogi ein cynnig heddiw. Diolch. Diolch yn fawr.

15:58

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on the Minister for the Economy, Science and Transport, Edwina Hart, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar Edwina Hart, y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i siarad ar ran y Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Presiding Officer. I very much welcome the debate today and I am very pleased to support the motion as it stands because I believe that there is a genuine dialogue across the Chamber in terms of what we want to do in respect of business rates. It is very important—and this is a point that Janet Finch Saunders made—that we use every tool we have in our toolbox to ensure that we have a fair and equitable environment so that we are able to deal with businesses. However, I will say that not all businesses will be successful, irrespective of what I do in terms of business rates relief, and it is important to get that balance to understand where we can help and assist and where we are just bailing people out when, in the long term, there is not going to be any good coming out of it for the person who is trading or in terms of what might be going on in the high street.

May I thank William Graham very much for the points he raised in his contribution? William actually understands business rates, and that was reflected in his contribution today. Business rates are not an easy area to deal with in terms of the technical issues surrounding them and the language that is used in that context. I do not necessarily agree with some of the general comments William made about enterprise zones and various other things, but I will concentrate on the issues that I think have been important in terms of the discussion of business rates today.

In terms of the amendments, we are very happy to support amendment 1 tabled in the name of Elin Jones because we think it is an important amendment that allows us to develop policy further. I will say to Rhun that the issue around the multiplier is an issue that Professor Morgan will be looking at as part of his ongoing work. However, every time we have a debate in the Chamber, Presiding Officer, the work schedule of Professor Morgan gets longer in terms of the areas and anomalies that he has to look at.

In terms of amendment 2, tabled in the name of Elin Jones, I am afraid that we have to oppose this amendment, because, like Eluned Parrott, we have some concerns about this amendment. I have asked Professor Brian Morgan to work with businesses and other stakeholders to identify their priorities for business rates and this work will help to inform how we move forward following devolution. We will be considering a small business rate relief scheme, along with examining all reliefs. Changes are likely to be very costly and we need to balance cost against benefits. I do not think that anybody in the Chamber would disagree with that final sentence in that context.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl heddiw yn fawr iawn ac rwy'n falch iawn o gefnogi'r cynnig fel y mae oherwydd fy mod yn credu bod deialog wirioneddol ar draws y Siambr ynghylch yr hyn rydym am ei wneud o ran ardrethi busnes. Mae'n bwysig iawn—ac mae hwn yn bwynt a wnaeth Janet Finch Saunders—ein bod yn defnyddio pob arf sydd gennym er mwyn sicrhau amgylchedd teg a chyfartal i allu ymdrin â busnesau. Fodd bynnag, byddwn yn dweud na fydd pob busnes yn llwyddiannus beth bynnag a wnaeth o ran rhyddhad ardrethi busnes ac mae'n bwysig cael y cydbwysedd hwnnw er mwyn deall lle y gallwn helpu a chynorthwyo a lle nad ydym yn gwneud dim mwy nag achub croen pobl heb fod unrhyw werth hirdymor yn deillio o hynny i'r person sy'n masnachu neu o ran yr hyn a allai fod yn digwydd yn y stryd fawr.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i William Graham am y pwyntiau a gododd yn ei gyfraniad. Mae William yn deall ardrethi busnes ac roedd hynny i'w weld yn ei gyfraniad heddiw. Nid yw ardrethi busnes yn faes hawdd i ymdrin ag ef o ran y materion technegol sydd ynghlwm wrthynt a'r iaith a ddefnyddir yn y cyd-destun hwnnw. Nid wyf o reidrwydd yn cytuno â rhai o'r sylwadau cyffredinol a wnaeth William am ardaloedd menter ac amryw o bethau eraill ond rwyf am ganolbwyntio ar y materion y credaf eu bod yn bwysig o ran y drafodaeth a gafwyd ar ardrethi busnes heddiw.

O ran y gwelliannau, rydym yn hapus iawn i gefnogi gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones am ein bod yn credu ei fod yn welliant pwysig sy'n ein galluogi i ddatblygu polisi ymhellach. Byddwn yn dweud wrth Rhun fod y mater sy'n ymwneud â'r lluosydd yn fater y bydd yr Athro Morgan yn edrych arno'n rhan o'i waith parhaus. Fodd bynnag, bob tro y byddwn yn cael dadl yn y Siambr, Lywydd, mae amserlen gwaith yr Athro Morgan yn ymestyn o hyd o ran y meysydd a'r anghysonderau sydd ganddo i edrych arnynt.

O ran gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones, mae arnaf ofn fod yn rhaid inni ei wrthwynebu, oherwydd fel Eluned Parrott, mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r gwelliant hwn. Rwyf wedi gofyn i'r Athro Brian Morgan weithio gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ardrethi busnes a bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r modd y byddwn yn symud ymlaen yn sgîl datganoli. Byddwn yn ystyried cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach ac yn archwilio pob math o ryddhad. Mae newidiadau'n debygol o fod yn gostus iawn ac mae angen inni gydbwyso cost yn erbyn budd. Nid wyf yn credu y byddai neb yn y Siambr yn anghytuno â'r frawddeg olaf yn y cyd-destun hwn.

May I say that we are very supportive of amendment 3 in the name of Aled Roberts? It is important that we have a system that is right for Wales and we will use the opportunity presented to us by the devolution of business rates to ensure that that is the case. The valuation officer is responsible for the valuation process and for determining rateable values and it is not an area in which we can intervene. I have asked Professor Brian Morgan to work with business and other stakeholders to identify their priorities for business rates. This work will help to inform how we move forward.

I recognise the impact on business resulting from the postponement of revaluation, but the reasons for delaying revaluation in Wales were compelling, including the additional costs of explaining the higher rates multiplier to business. Although I do regret the UK Government's original decision on this, I was happy that we were able to secure cross-party support to take the same decision as the UK Government and defer the issue in Wales.

We are responding to the challenges faced by business as a result of changing market conditions in other ways. Following advice from the task and finish group, we asked the Valuation Office to update its guidance on material change in circumstances, so that businesses can better understand the options available to them if things change in their areas. This has been done.

We have also addressed a number of important issues with the extension of small business rate relief and the introduction of Wales retail relief, Open for Business and new developments rate relief schemes. I have asked local authorities to target £3.5 million to local needs schemes for the businesses most negatively affected by the postponement of revaluation. However, I take the point made by Janet Finch-Saunders about the lack of understanding out there about the schemes that are available. This is something that I will certainly ask my officials to discuss with local government colleagues: what further work can we do to publicise the scheme and give out easy information? For instance, a local needs scheme is available to local authorities to support businesses that have been negatively affected by revaluation, or that contribute to their local economic development aims. Local authorities are the best place to understand these local circumstances and the challenges there, but it also has to be understood by the business community.

In terms of the new development scheme that was launched in October 2013 and runs until September 2016, this will exempt new developments from business rates between 1 October 2013 and 30 September 2016, for the first 18 months. I think that that is very important in terms of how we deliver the agenda to encourage construction and speculative development. There has been an exceptionally positive response on this from local authorities.

A gaf fi ddweud ein bod yn gefnogol iawn i welliant 3 yn enw Aled Roberts? Mae'n bwysig fod gennym system sy'n addas i Gymru a byddwn yn defnyddio'r cyfle a gyflwynir i ni drwy ddatganoli ardrethi busnes i sicrhau bod hynny'n wir. Y swyddog prisiau sy'n gyfrifol am y broses brisio ac am bennu gwerthoedd ardrethol ac nid yw'n faes lle y gallwn ymyrryd. Rwyf wedi gofyn i'r Athro Brian Morgan weithio gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill i nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ardrethi busnes. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r modd rydym yn symud ymlaen.

Rwy'n cydnabod yr effaith ar fusnesau yn sgîl gohirio ailbrisio ond mae'r rhesymau dros oedi'r ymarfer ailbrisio yng Nghymru yn gryf, gan gynnwys y costau ychwanegol a fyddai'n deillio o esbonio'r lluosydd ardrethi uwch i fusnesau. Er fy mod yn difaru penderfyniad gwreiddiol Llywodraeth y DU ar hyn, rwy'n hapus ein bod wedi gallu sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol i wneud yr un penderfyniad â Llywodraeth y DU a gohirio'r mater yng Nghymru.

Rydym yn ymateb i'r heriau a wynebwr gan fusnesau o ganlyniad i newidiadau yn amgylchiadau'r farchnad mewn ffyrdd eraill. Yn dilyn cyngor gan y grŵp gorchwyl a gorffen, gofynasom i'r Swyddfa Brisio ddiweddarau ei chanllawiau ar newid perthnasol mewn amgylchiadau fel y gall busnesau ddeall yn well pa ddewisiadau sydd ar gael iddynt os yw pethau'n newid yn eu hardaloedd. Mae hyn wedi cael ei wneud.

Rydym hefyd wedi mynd i'r afael â nifer o faterion pwysig yn ymwneud ag ehangu'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a chyflwyno rhyddhad manwerthu Cymru, Ar Agor am Fusnes a'r chynlluniau rhyddhad ardrethi i ddatblygiadau newydd. Rwyf wedi gofyn i awdurdodau lleol dargedu £3.5 miliwn at gynlluniau anghenion lleol ar gyfer y busnesau yr effeithir arnynt yn fwyaf negyddol drwy ohirio ailbrisio. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt a wnaeth Janet Finch-Saunders am y diffyg dealltwriaeth ar lawr gwlad ynglŷn â'r cynlluniau sydd ar gael. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn sicrhau yn gofyn i fy swyddogion ei drafod gyda chydweithwyr llywodraeth leol: pa waith pellach y gallwn ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun darparu gwybodaeth hawdd? Er enghraifft, mae cynllun anghenion lleol ar gael i awdurdodau lleol allu cefnogi busnesau sydd wedi cael eu heffeithio'n negyddol gan ailbrisio neu sy'n cyfrannu at eu nodau datblygu economaidd lleol. Yr awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall yr amgylchiadau lleol hyn a'r heriau yno ond mae'n rhaid i'r gymuned fusnes eu deall hefyd.

O ran y cynllun datblygu newydd a lanswyd ym mis Hydref 2013 ac sy'n yn rhedeg tan fis Medi 2016, bydd hyn yn eithrio datblygiadau newydd rhag talu ardrethi busnes rhwng 1 Hydref 2013 a 30 Medi 2016, am y 18 mis cyntaf. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig iawn o ran sut rydym yn cyflwyno'r agenda i annog adeiladu a datblygu hapfasnachol. Cafwyd ymateb eithriadol o gadarnhaol ar hyn gan yr awdurdodau lleol.

The Open for Business scheme was launched in October 2013 and it provides 50% relief from business rates for up to 12 months for businesses that have taken occupation of certain long-term vacant properties. I think that that helps to address some of the issues in the high street. In terms of the high street, I know that my colleague the Minister will bring forward proposals on town centres in the autumn. We have had extensive dialogue on this, because you think that you can have an easy discussion about the high street, but you cannot, because there are so many circumstances that impact on the high street, whether they are due to issues with out-of town planning, or the nature of business.

I was very much taken by the comments of the leader of the opposition that we cannot go back to the past in terms of the high street. It did cross my mind that I could see you with a Miss Marple style basket going out to do your shopping and to the post office. [Laughter.] It is true that we do have this idea that towns were so different years ago, and it is something that we see in some classic dramas on television, but was it ever thus? I think that we have to ask ourselves that question sometimes. To what do we actually perhaps need to return?

In very real terms, this is very much an ongoing debate for us and an ongoing task for Professor Brian Morgan. It is important to recognise that there is consensus here about what we need to do in the future in terms of how we need to take everything forward when we actually have devolution. I have to be ready for the mechanics of this to go forward, because, at the end of the day, it is important that we have a system that is fit for purpose in Wales.

I have also taken the opportunity to meet local authority leaders recently and have asked them to come up with some of their own priorities with regard to business rates in the future, because there is a discussion of what percentage should be given to local authorities and what percentage should be utilised elsewhere. There is a big issue in that because, obviously, authorities like Cardiff will have the benefit of large increases and will always have a lot of business rates coming in, while small authorities with fewer business rates may be disadvantaged if we change any part of the system. We also need to remember that local authorities have their own powers to issue discretionary business rate relief through hardship, and we need to recognise that they have powers there.

Lansiwyd cynllun Ar Agor am Fusnes ym mis Hydref 2013 ac mae'n darparu rhyddhad o 50% ar ardrethi busnes hyd at 12 mis i fusnesau sydd wedi meddiannu eiddo penodol a fu'n wag yn hirdymor. Credaf fod hynny'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau yn y stryd fawr. O ran y stryd fawr, gwn y bydd fy nghydweithiwr, y Gweinidog, yn cyflwyno cynigion ar ganol trefi yn yr hydref. Rydym wedi cael trafodaeth helaeth ar hyn: byddech yn meddwl bod modd cael trafodaeth hawdd am y stryd fawr ond nid yw hynny'n wir am fod cymaint o amgylchiadau yn effeithio ar y stryd fawr, pa un a ydynt yn deillio o faterion yn ymwneud â chynllunio ar gyrion trefi neu natur busnesau.

Hoffais yn fawr y sylwadau a wnaeth arweinydd yr wrthblaid na allwn fynd yn ôl i'r gorffennol o ran y stryd fawr. Croesodd fy meddwl y gallwn eich gweld yn mynd i siopa ac i'r swyddfa bost a basged debyg i un Miss Marple ar eich braich. [Chwerthin.] Mae'n wir fod gennym syniad fod trefi mor wahanol flynyddoedd yn ôl ac mae'n rhywbeth rydym yn ei weld mewn rhai dramâu clasurol ar y teledu, ond a oedd hi erioed felly? Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ofyn y cwestiwn hwnnw i ni ein hunain weithiau. Dychwelyd at beth mewn gwirionedd sydd angen inni ei wneud?

Mewn termau real iawn, mae hon yn ddadl sy'n mynd i barhau ac yn dasg barhaus ar gyfer yr Athro Brian Morgan. Mae'n bwysig cydnabod bod consensws yma ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud yn y dyfodol o ran sut i symud popeth yn ei flaen wedi'r datganoli. Rhaid i mi fod yn barod ar gyfer y mecanwaith ar gyfer symud hyn yn ei flaen oherwydd yn y pen draw, mae'n bwysig fod gennym system sy'n addas at y diben yng Nghymru.

Yn ddiweddar hefyd, achubais ar y cyfle i gwrdd ag arweinwyr awdurdodau lleol a gofyn iddynt nodi eu blaenoriaethau eu hunain mewn perthynas ag ardrethi busnes yn y dyfodol, am fod trafodaeth ar y gweill ynglŷn â pha ganran y dylid ei roi i awdurdodau lleol a pha ganran y dylid ei defnyddio mewn mannau eraill. Mae yna broblem fawr yn hyn o beth oherwydd mae'n amlwg y bydd gan awdurdodau fel Caerdydd fantais yn sgîl codiadau mawr a bydd ganddi bob amser lawer o ardrethi busnes yn dod i mewn ond gallai awdurdodau bach gyda llai o ardrethi busnes wynebu anfantais os newidiwn unrhyw ran o'r system. Mae angen i ni gofio hefyd fod gan awdurdodau lleol eu pwerau eu hunain i ddarparu rhyddhad ardrethi busnes yn ôl disgrisiwn o ganlyniad i galedi ac mae angen inni gydnabod y pwerau hynny.

Therefore, I think that, in terms of the business rate discussion, the engagement has been good with the business community. The heart of our approach is to ensure that the devolution of business rates will be an important and significant step forward that will give us the necessary policy flexibility, because, at the end of the day, with all of the comments that have been made by speakers—whether they were about the beauty of Llanely House and the wonderful site where we are going to go for the Eisteddfod from Keith to the issues that Suzy Davies raised as well—one of the remarks that I do take to heart was from Eluned Parrott, who said that we do not want to penalise entrepreneurs. That is one of the key points when we look at this. We do not want to penalise anybody through any reforms that we make to business rates. Any reform of business rates has to be for the good of business and to support small businesses, but this is going to be a very difficult balancing act, with the budgets that we currently have, to take forward. However, I hope, Presiding Officer, that I can count on the Chamber to input regularly into the work that we are undertaking.

Felly o ran y drafodaeth ar ardrethi busnes, rwy'n credu ein bod wedi cael ymgysylltiad da â'r gymuned fusnes. Yr hyn sydd wrth wraidd ein dull o weithredu yw sicrhau y bydd datganoli ardrethi busnes yn gam pwysig ac arwyddocaol ymlaen a fydd yn rhoi hyblygrwydd polisi angenrheidiol i ni oherwydd yn y pen draw, o'r holl sylwadau a wnaed gan siaradwyr—naill ai am harddwch Plas Llanely a'r safle gwych lle y byddwn yn mynd i'r Eisteddfod gan Keith, a'r materion a gododd Suzy Davies—un o'r sylwadau rwy'n ei gymryd i galon oedd yr un gan Eluned Parrott a ddywedodd nad oes arnom eisiau cosbi entrepreneuriaid. Dyna un o'r pwyntiau allweddol pan fyddwn yn edrych ar hyn. Nid ydym am gosbi unrhyw un drwy unrhyw ddiwygiadau a wnawn i ardrethi busnes. Rhaid i unrhyw ddiwygio a wneir i ardrethi busnes fod er lles busnes a chefnogi busnesau bach ond mae hyn yn mynd i fod yn anodd iawn ei gydbwyso wrth symud ymlaen gyda'r cyllidebau sydd gennym ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio, Lywydd, y gallaf ddiybnu ar y Siambr i gyfrannu'n rheolaidd at y gwaith rydym yn ei wneud.

16:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:06 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. That is the first time that I have ever heard Andrew R.T. Davies compared to Miss Marple. Janet Finch-Saunders, maybe, and myself, occasionally, but congratulations, Minister, on being the first in the Chamber to do that.

Diolch i chi, Lywydd. Dyna'r tro cyntaf i mi erioed glywed Andrew RT Davies yn cael ei gymharu â Miss Marple. Janet Finch-Saunders, efallai, a minnau o bryd i'w gilydd, ond llongyfarchiadau, Weinidog, ar fod y cyntaf yn y Siambr i wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to round up this debate, which has been consensual in the main, and I am wary of saying too much, in that the Minister said that she accepts the dialogue that we are having and broadly accepts the motion today. I do not want to talk ourselves out of that, so I will touch on some of the Minister's comments later. Therefore, first, I will look at some of the comments that have been made by other speakers during the course of what was a very constructive debate. To start with, we had William Graham's introduction, which, aside from quoting Abraham Lincoln, referred to how the UK coalition Government was quite right to cap the rate rises at 2%. That was the right decision to make to support businesses across the UK, and we were pleased that the Welsh Government also followed suit here. There is no doubt at all that businesses have been pummelled by repeated revaluations and, as I think that Abraham Lincoln said, you cannot evade responsibility today.

Rwy'n falch o gael cloi'r ddadl hon, sydd wedi bod yn unfryd ar y cyfan, ac rwy'n wylidwrs rhag dweud gormod yn yr ystyr bod y Gweinidog wedi dweud ei bod yn derbyn y ddeialog rydym yn ei chael ac yn derbyn y cynnig heddiw yn gyffredinol. Nid wyf am siarad ein hunain allan o hynny felly byddaf yn cyffwrdd ar rai o sylwadau'r Gweinidog wedyn. Yn gyntaf felly, byddaf yn edrych ar rai o'r sylwadau a wnaed gan siaradwyr eraill yn ystod yr hyn a oedd yn ddadl adeiladol iawn. I ddechrau, cawsom gyflwyniad William Graham, a oedd, ar wahân i ddyfynnu Abraham Lincoln, yn cyfeirio at sut roedd Llywodraeth glymblaid y DU yn iawn i gapio'r cynnydd mewn ardrethi ar 2%. Dyna oedd y penderfyniad cywir i'w wneud er mwyn cefnogi busnesau ledled y DU ac roeddem yn falch fod Llywodraeth Cymru hefyd yn eu dilyn ar hyn. Nid oes amheuaeth o gwbl fod busnesau wedi cael eu taro'n galed gan ailbrisiadau dro ar ôl tro ac fel y credaf y dywedodd Abraham Lincoln, ni allwch osgoi cyfrifoldeb heddiw.

Unless you have been living on the moon or just do not listen to the Welsh Conservatives, you will know that we want to abolish business rates—. [Interruption.] You do not have to answer. We want to abolish business rates for businesses of up to £12,000—. [Interruption.] I would expect that from the other side of the Chamber. We want to abolish business rates for businesses with up to a £12,000 rateable value, with tapered relief then to £15,000. Indeed, Plaid Cymru, as Rhun ap Iorwerth told us, has developed a similar policy in the light of the Welsh Conservatives' policy, although Rhun's memory cheats him there. It is a very good policy. Imitation is the best form of flattery, and we are pleased that all parties are buying into the Welsh Conservatives' policy there.

I am a big fan of the local retention of business rates, which some Members have mentioned. I have had discussions with the Minister about this and, indeed, with Professor Brian Morgan himself. I do appreciate that it is complicated. The reform of business rates is not going to be an easy thing to achieve, by any means. I think that if it does happen, there does have to be a compensatory mechanism so that local authorities with poorer economies are not penalised. However, at the same time, it is very important, as Professor Morgan said, that we provide the incentive to local authorities to grow the economy in their areas, and providing that retention of rates, so that they can see the effect that their policies are having on the local area and are encouraged to grow businesses, would be a really good thing.

Eluned Parrott, you made the point that some businesses, such as tourism, have a light rateable value compared with turnover—I have said that less eloquently than you—and you said that we need a better balance. We certainly do. Yes, in the Enterprise and Business Committee's report into town centre regeneration, we touched on the importance of a better balance with business rates, although we did not go too far into that one, because we appreciated that there was a separate review going on.

I do remember the great frustration in that little room in Narberth when we went there to see how they had made Narberth the success story that it was. I think they thought we were the Welsh Government and the UK Government; they were not really clear what our role was. However, we certainly felt the frustration of many local business owners, who I think wanted us to wave a magic wand and get rid of business rates overnight, which clearly was not going to happen, but we said that we would take their arguments back.

Keith Davies spoke about the Llanelli experience, which you clearly thought was a positive one. You mentioned the Open for Business scheme, which reminded me of other local authority schemes; I think that Monmouthshire had a back to business scheme a couple of years ago. There is a good model there that the Welsh Government can look at and perhaps roll out that best practice across Wales.

Oni bai eich bod wedi bod yn byw ar y Lleuad neu ddim yn gwrandao ar y Ceidwadwyr Cymreig, byddwch yn gwybod ein bod yn awyddus i ddileu ardrethi busnes—. [Torri ar draws.] Nid oes rhaid i chi ateb. Rydym yn awyddus i ddileu ardrethi busnes ar gyfer busnesau hyd at £12,000—. [Torri ar draws.] Byddwn yn disgwyl hynny o ochr arall y Siambr. Rydym yn awyddus i ddileu ardrethi busnes ar gyfer busnesau â gwerth ardrethol hyd at £12,000, gyda rhyddhad sy'n lleihau'n raddol wedyn hyd at £15,000. Yn wir, mae Plaid Cymru, fel y dywedodd Rhun ap Iorwerth wrthym, wedi datblygu polisi tebyg yng ngoleuni polisi'r Ceidwadwyr Cymreig er bod cof Rhun yn ei dwyllo. Mae'n bolisi da iawn. Dynwared yw'r ffurf orau o weniath ac rydym yn falch fod pob plaid yn cefnogi polisi'r Ceidwadwyr Cymreig yn hyn o beth.

Rwy'n cefnogi'n fawr yr argymhelliad i gadw ardrethi busnes yn lleol fel y mae rhai o'r Aelodau wedi ei grybwyll. Cefais drafodaethau gyda'r Gweinidog ynglŷn â hyn ac yn wir, gyda'r Athro Brian Morgan ei hun. Rwy'n sylweddoli ei fod yn fater cymhleth. Nid yw diwygio ardrethi busnes yn mynd i fod yn beth hawdd i'w gyflawni mewn unrhyw fodd. Os yw'n digwydd, rwy'n credu y dylid rhoi trefniadau digolledu ar waith fel na chosbir awdurdodau lleol ag economïau tlotach. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n bwysig iawn, fel y dywedodd yr Athro Morgan, ein bod yn darparu cymhelliad i awdurdodau lleol dyfu'r economi yn eu hardaloedd a byddai eu galluogi i gadw ardrethi er mwyn iddynt allu gweld yr effaith y mae eu polisiâu yn ei chael ar yr ardal leol a'u hannog i dyfu busnesau, yn beth da iawn.

Eluned Parrott, gwnaethoch y pwynt fod rhai busnesau, megis twristiaeth, â gwerth ardrethol ysgafn o gymharu â throsiant—rwyf i wedi dweud hynny'n llai huawdl na chi—a dywedasoch fod angen inni gael gwell cydbwysedd. Mae hynny'n sicr. Do, yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi, cyffyrddwyd ar bwysigrwydd cydbwysedd gwell o ran ardrethi busnes er nad aethom yn rhy bell i mewn i hynny am ein bod yn derbyn fod adolygiad ar wahân ar y gweill.

Rwy'n cofio'r rhwystredigaeth fawr yn yr ystafell fach honno yn Arberth pan aethom yno i weld sut y maent wedi gwneud Arberth yn gymaint o lwyddiant. Rwy'n credu eu bod yn meddwl ein bod yno ar ran Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; nid oeddent yn gwbl eglur beth oedd ein rôl. Fodd bynnag, roeddem yn sicr yn teimlo rhwystredigaeth llawer o berchnogion busnes lleol a oedd, rwy'n credu, eisïau i ni chwifio ffon hud a chael gwared ar ardrethi busnes dros nos ac roedd hi'n amlwg nad oedd hynny'n mynd i ddiwydd ond addawsom ddod â'u dadleuon yn ôl gyda ni.

Siaradodd Keith Davies am brofiad Llanelli yr oeddech yn amlwg yn meddwl ei fod yn un cadarnhaol. Soniasoch am gynllun Ar Agor am Fusnes a oedd yn fy atgoffa o gynlluniau eraill ar gyfer awdurdodau lleol; rwy'n meddwl bod gan Sir Fynwy gynllun dychwelyd at fusnes gwpl o flynyddoedd yn ôl. Mae ganddynt fodel da y gall Llywodraeth Cymru edrych arno a lledaenu'r arferion gorau hynny ledled Cymru o bosibl.

Suzy Davies painted a bleaker picture of the Swansea experience. We need a better regime. You said that we need speedy flexibility, and there is no doubt that businesses rely on quick action. Many of the criticisms that we have made over the years relating to Finance Wales and other mechanisms for giving businesses access to funding are that these organisations often are not quick enough for businesses. They are quick in terms of the civil service and they are quick in terms of the way that local authorities operate, but businesses really need a very speedy response, and I liked your term 'speedy flexibility'.

Janet Finch-Saunders spoke to a young man who no longer paid business rates and who thanked Janet for her endeavours in this area. Everyone is claiming a little bit of the cake in this regard. You also referred to the powerlessness of businesses and the significance of the business rate multiplier. The Minister said how complicated this system is, but it is vital that that business rate multiplier is altered. Although we do not accept the Plaid Cymru amendment, I see where Rhun ap Iorwerth was coming from in talking about the Scottish experience and the English experience, and the way in which we can do things with that business rate multiplier to make it a far more successful mechanism.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:12.

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, for your comments and thank you for accepting the motion. It is very important that we have this dialogue. I think that all parties have something to contribute to this debate, and we have put forward our views on this, which we hope is the way that the Welsh Government will go. Professor Brian Morgan probably needs a commendation for the amount of work that he has put into Assembly task and finish groups over the years. When I last had a discussion with Professor Morgan, he was complaining that his groups were all task and very little finish. I think that members of the group were saying the same thing, but we appreciate the amount of work that he has put in.

So, let us continue the dialogue. Let us give businesses the support they need, because without that support and that all-important business rate relief, the economy in Wales cannot be grown. Unless we can grow the Welsh economy effectively over the months, years and decades to come for future generations, we are not going to have the sort of money coming into the coffers that we need in order to spend it on all the other things that we want to do to make Wales a little bit of a better place.

Rhododd Suzy Davies ddarlun llwm o brofiad Abertawe. Mae angen trefn well arnom. Dywedasoch ein bod angen hyblygrwydd cyflym ac nid oes amheuaeth fod busnesau'n dibynnu ar weithredu cyflym. Mae llawer o'r feirniadaeth a wnaed gennym dros y blynyddoedd mewn perthynas â Cyllid Cymru a systemau eraill ar gyfer rhoi busnesau mewn cysylltiad â chyllid yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r sefydliadau hyn yn ddigon cyflym i fusnesau yn aml. Maent yn gyflym o ran gwasanaeth sifil ac maent yn gyflym o ran y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu ond mae busnesau gwir angen ymateb cyflym iawn a hoffais eich term 'hyblygrwydd cyflym'.

Siaradodd Janet Finch-Saunders â dyn ifanc nad oedd yn talu ardrethi busnes mwyach ac a ddiolchodd i Janet am ei hymdrechion yn y maes hwn. Mae pawb yn hawlio darn bach o'r gacen yn hyn o beth. Soniasoch hefyd am ddiffyg grym busnesau ac arwyddocâd y lluosydd ardrethi busnes. Dywedodd y Gweinidog pa mor gymhleth yw'r system hon ond mae'n hanfodol bod y lluosydd ardrethi busnes yn cael ei newid. Er nad ydym yn derbyn gwelliant Plaid Cymru, rwy'n gweld beth oedd Rhun ap Iorwerth yn ceisio'i ddweud wrth sôn am brofiadau'r Alban a Lloegr a'r ffordd y gallwn wneud pethau gyda'r lluosydd ardrethi busnes i'w wneud yn fecanwaith llawer mwy llwyddiannus.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:12.

Diolch i chi, Weinidog, am eich sylwadau a diolch i chi am dderbyn y cynnig. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y drafodaeth hon. Credaf fod gan bob plaid rywbeth i'w gyfrannu yn y ddatl hon ac rydym wedi cyflwyno ein safbwyntiau ar hyn, a gobeithiwn mai dyma'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd. Mae'n sicr fod angen cymeradwyo'r Athro Brian Morgan am yr holl waith a wnaeth ar ran grwpiau gorchwyl a gorffen y Cynulliad dros y blynyddoedd. Y tro diwethaf i mi gael trafodaeth gyda'r Athro Morgan, roedd yn cwyno bod ei grwpiau i gyd yn orchwyl a phur ychydig o orffen. Rwy'n credu bod aelodau'r grŵp yn dweud yr un peth ond rydym yn gwerthfawrogi'r holl waith y mae wedi'i wneud.

Felly, gadewch i ni barhau'r ddeialog. Gadewch inni roi'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau i fusnesau, oherwydd heb y gefnogaeth honno a'r rhyddhad hollbwysig ar ardrethi busnes, ni ellir tyfu economi Cymru. Oni bai y gallwn dyfu economi Cymru yn effeithiol dros y misoedd, y blynyddoedd a'r degawdau i ddod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, nid ydym yn mynd i weld y math o arian sydd ei angen arnom yn dod i mewn i'r coffrau i'w wario ar yr holl bethau eraill rydym am eu gwneud er mwyn gwneud Cymru yn lle ychydig bach yn well.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? The motion— I now see there is objection. You need to be quicker, really. Come on; wake up. I defer all voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Y cynnig— Rwy'n gweld yn awr fod gwrthwynebiad. Mae angen i chi fod yn gyflymach. Dewch ymlaen; deffrwch. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dadl Plaid Cymru: Y Dreth Ystafell Wely

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 2 yn enw Paul Davies. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-dethol.

Plaid Cymru Debate: The Bedroom Tax

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Paul Davies. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

16:13

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig y cynnig.

I call on Jocelyn Davies to move the motion.

Cynnig NDM5498 Elin Jones

Motion NDM5498 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn galw am ddi-ddymu'r dreth ystafell wely.

Calls for the abolition of the bedroom tax.

16:13

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

It has been just over a year since the introduction of the bedroom tax, or the removal of the spare room subsidy if you are a sensitive soul, a year during which we have witnessed the senseless suffering of some of the most vulnerable people in our society, thanks to a policy that seems to take an almost perverse delight in causing distress, upset and hardship. It is a year that has unambiguously demonstrated that the bedroom tax is failing to achieve its stated aims, and that its aims were misguided and poorly judged to begin with.

I have spoken in this Chamber many times about the bedroom tax, and I should not think that there is any doubt here about my views. However, I will keep speaking out until we have done all that we can to help those who have been affected, and I will keep speaking out until the bedroom tax has been abolished for good.

I will be generous. While watching the UK Government implementing this policy, it is tempting to think that it is displaying astonishing cruelty. Instead, I will give it the benefit of the doubt and assume that it has demonstrated a fundamental lack of understanding of housing in this country, and a failure to think through the consequences of its policy.

The bedroom tax was initially brought in to cut the housing benefit bill. The UK Government estimated that it would save £500 million a year. Evidence now suggests that its estimates were wildly over-optimistic. Researchers at the University of York have said that the Government overestimated the savings by at least 40%.

Ychydig dros flwyddyn sydd ers cyflwyno'r dreth ystafell wely neu gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr os ydych yn enaid sensitif, blwyddyn pan welsom ddi-ddefaint disynnwyr ymhlith rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, diolch i bolisi sy'n ymddangos fel pe bai'n ymbleseru mewn achosi trallod, gofid a chaledi mewn modd sydd bron yn wrthnysig. Mae'n flwyddyn sydd wedi dangos yn ddiamwys fod y dreth ystafell wely yn methu â chyflawni ei nodau dynodedig a bod ei hamcanion yn gyfeiliorus ac wedi'u camfarnu o'r dechrau un.

Rwyf wedi siarad yn y Siambr hon droeon am y dreth ystafell wely ac ni fyddwn yn tybio bod unrhyw amheuaeth yma ynglŷn â fy safbwyntiau. Fodd bynnag, daliaf ati i siarad hyd nes y byddwn wedi gwneud popeth a allwn i helpu'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio a byddaf yn dal i siarad nes i'r dreth ystafell wely gael ei diddymu am byth.

Byddaf yn hael. Wrth wyllo Llywodraeth y DU yn gweithredu'r polisi hwn, mae'n demtasiwn i feddwl ei bod yn arddangos creulondeb rhyfeddol. Yn lle hynny, rhoddaf fantais yr amheuaeth iddi a rhagdybied ei bod wedi dangos diffyg dealltwriaeth sylfaenol o faterion sy'n ymwneud â thai yn y wlad hon ynghyd â methiant i ystyried canlyniadau ei pholisi.

Cyflwynwyd y dreth ystafell wely'n wreiddiol i dorri'r bil budd-dal tai. Amcangyfrifai Llywodraeth y DU y byddai'n arbed £500 miliwn y flwyddyn. Mae tystiolaeth bellach yn awgrymu bod ei hamcangyfrifon yn rhy optimistaidd o'r hanner. Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Efrog wedi dweud bod y Llywodraeth yn goramcangyfrif yr arbedion o 40% fan lleiaf.

Any savings have almost been entirely negated by the costs that are transferred on to local authorities, housing associations, the health service and other public services. In Wales, the estimated saving to the Treasury from imposing the bedroom tax was £22.4 million, but I estimate that the Treasury could lose between £400,000 and £500,000 from the extra housing benefit caused if people affected by the bedroom tax moved into the private rented sector. Local authorities and housing associations will also spend many millions on evicting, re-housing, and re-adapting properties to meet the needs of disabled people. The only way that there are savings is if tenants stay put and cough up themselves.

This is, of course, without taking into account other costs—the costs of the stress on the families suddenly finding themselves unable to pay their rent, the stress of receiving threats of eviction through the post, the stress of being asked to move from a family home to somewhere new, and the stress of leaving behind community, family and friends. It is hard to quantify these costs, but we must take them into account. Also, where is the human dignity in proving that you are one of the deserving poor?

There has been a huge rise in demand for the discretionary housing payments to help families facing eviction and homelessness as a result of the bedroom tax. Local councils in Wales have experienced an unprecedented 250% rise in applications. This is entirely unsustainable. Discretionary housing payments were never intended to offer long-term support for those who are unable to pay their rent, and the funds available are a limited resource. To use the simile that has been used by many others, it is like a plaster to treat a gunshot wound. I am pleased that the Lib Dem side of the Government has been able to insist on increased discretionary housing payments, but let us not forget that that was funded by increasing the bedroom tax overall for the tenants who have to pay it. It is not new money.

Almost two thirds of homes affected by the bedroom tax include someone with a disability. In many cases, those extra bedrooms, which the UK Government seems to view as an unacceptable luxury, are used to store medical equipment, to accommodate carers, or are too small for bedroom use in any case. Ten per cent of homes have been adapted to suit the needs of those living in them, at great expense. I know that Lindsay Whittle will be setting out that in greater depth later.

Of course, the Government's position is that those who find themselves unable to pay their rent should move and downsize to accommodation of an appropriate size. This demonstrates a fundamental lack of understanding of the current social housing stock. There simply are not the smaller houses available for people to move into, and in many places the waiting list for one and two-bedroomed homes is impossibly long, as demand soars.

Mae unrhyw arbedion bron â bod wedi'u negyddu'n llwyr gan y costau sy'n cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Yng Nghymru, amcangyfrifwyd y byddai'r arbediad i'r Trysorlys o osod y dreth ystafell wely yn £22.4 miliwn ond rwy'n amcangyfrif y gallai'r Trysorlys golli rhwng £400,000 a £500,000 o'r budd-dal tai ychwanegol a achosir os yw pobl y mae'r dreth ystafell wely'n effeithio arnynt yn symud i mewn i'r sector rhentu preifat. Bydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hefyd yn gwario llawer o filiynau ar droi pobl allan, ar ailgartrefu ac ar addasu eiddo i ddiwallu anghenion pobl anabl. Yr unig ffordd y ceir arbedion yw drwy i denantiaid aros lle y maent a thalu eu hunain.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn cynnwys costau eraill—costau straen ar deuluoedd sy'n sydyn yn methu â thalu eu rhent, y straen o gael llythyrau drwy'r post yn bygwth eu troi allan, y straen o gael eu gorchymyn i symud o gartref y teulu i rywle newydd a'r straen o adael cymuned, teulu a ffrindiau. Mae'n anodd mesur y costau hyn ond mae'n rhaid i ni eu hystyried. Hefyd, faint o urddas dynol sydd yna mewn profi eich bod yn un o'r tlawd haeddiannol?

Bu cynnydd enfawr yn y galw am daliadau tai yn ôl disgrisiwn i helpu teuluoedd sy'n wynebu cael eu troi allan a digartrefedd o ganlyniad i'r dreth ystafell wely. Mae cynghorau lleol yng Nghymru wedi profi cynnydd o 250% na welwyd ei debyg yn nifer y ceisiadau. Mae hyn yn gwbl anghynaliadwy. Ni fwriadwyd i'r taliadau tai yn ôl disgrisiwn gynnig cymorth hirdymor i rai nad ydynt yn gallu talu eu rhent ac mae'r cyllid sydd ar gael yn gyfyngedig. I ddefnyddio'r gymhariaeth a ddefnyddiwyd gan lawer o bobl eraill, mae'n debyg i osod plastr ar glwyf a achoswyd gan fwled o wn. Rwy'n falch fod ochr y Democratiaid Rhyddfrydol o'r Llywodraeth wedi gallu mynnu rhagor o daliadau tai yn ôl disgrisiwn ond gadewch inni beidio ag anghofio bod y cynnydd yn cael ei gyllido drwy gynyddu'r dreth ystafell wely gyffredinol ar gyfer y tenantiaid sy'n gorfod ei thalu. Nid yw'n arian newydd.

Mae bron i ddwy ran o dair o'r cartrefi yr effeithir arnynt gan y dreth ystafell wely yn cynnwys rhywun ag anabledd. Mewn llawer o achosion, defnyddir yr ystafelloedd gwely ychwanegol hynny yr ymddengys bod Llywodraeth y DU yn eu gweld fel moethusrwydd annerbyniol ar gyfer storio offer meddygol, fel ystafelloedd i ofalwyr, neu maent yn rhy fach i'w defnyddio fel ystafelloedd gwely beth bynnag. Mae deg y cant o gartrefi wedi cael eu haddasu i weddu i anghenion y rhai sy'n byw ynddynt, ar gost fawr. Gwn y bydd Lindsay Whittle yn egluro hyn yn fwy manwl yn nes ymlaen.

Wrth gwrs, safbwynt y Llywodraeth yw y dylai'r rhai sy'n methu â thalu eu rhent symud i lety o faint priodol. Dengys hyn ddiffyg dealltwriaeth sylfaenol ynglŷn â'r stoc dai cymdeithasol ar hyn o bryd. Nid oes tai llai o faint ar gael i bobl symud iddynt ac mewn llawer o leoedd, mae'r rhestr aros ar gyfer cartrefi un a dwy ystafell wely yn amhosibl o faith wrth i'r galw godi i'r entrychion.

So, there is nowhere to go. Families are forced to accept the bedroom tax, finding themselves struggling to make ends meet on their already meagre budgets, which are being chipped away. People are going without what we would consider to be essentials, and are selling their possessions just to get by. It is no wonder that 78% of landlords have seen an increase in rent arrears fuelled by the bedroom tax. By October last year, 15% of households hit by the bedroom tax had received an eviction risk letter and were in danger of losing their homes. Possession claims in the last two quarters of last year were around 28% higher than in the previous year.

Community Housing Cymru has reported a surge in empty homes, as housing associations struggle to let the larger homes. To solve the problem of under-occupancy we now have houses sitting empty. After six months, there were around 727 extra void properties in Wales. That figure clearly shows the utter failure to think through the consequences. So, we have a crisis in this country. We live in a wealthy, modern country, yet a rising number of people are having to use food banks to avoid starvation. There has been a tenfold increase in food bank use since 2010. Now, the bedroom tax treats those that are the most vulnerable with, I think, contempt. It is a failed policy.

The obvious response, of course, is, 'It's not our problem; it's out of our hands and beyond our control', but while people in Wales are suffering under this policy, it is our problem. While the costs of dealing with the consequences of the tax are passed on to local authorities, housing associations and the health service, it is our problem. So, today, I call on the Welsh Government to do what it can to mitigate the effects of the bedroom tax. I think that the Welsh Government could, particularly, be prepared to help disabled people and their families—the financial benefits there are obvious, as it would save money that would otherwise have to be spent re-adapting homes to make them suitable if people are forced to move. The Government also needs to ensure that people have access to the best independent advice services to help them to navigate the complex benefits system. As benefits come into effect, it is more important than ever that everyone is able to access the support they are entitled to, ensuring that the 'Your Benefits are Changing' campaign reaches all affected tenants.

The Government should put together the financial case for abolition based on the Welsh experience. It should put together a strategy to assist tenants through to successful appeals in order to get the entire housing sector supporting those efforts. It should also present the moral argument against this policy, which now seems to be a badge of honour for specific Ministers. The Government here should be leading our housing sector in coping with the bedroom tax.

Felly nid oes unman i fynd. Caiff teuluoedd eu gorfodi i dderbyn y dreth ystafell wely, gan ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd ar gyllidebau sydd eisoes yn bitw ac sy'n prysur ddiflannu. Mae pobl yn mynd heb yr hyn y byddem yn ystyried yn hanfodion ac yn gwerthu eu heiddo er mwyn cadw pen uwchben y dŵr. Nid yw'n syndod bod 78% o landlordiaid wedi gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent wedi'i ysgogi gan y dreth ystafell wely. Erbyn mis Hydref y llynedd, roedd 15% o gartrefi a gafodd eu taro gan y dreth ystafell wely wedi derbyn llythyr risg o droi allan ac mewn perygl o golli eu cartrefi. Roedd hawliadau meddiant yn y ddau chwarter olaf y llynedd tua 28% yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae Tai Cymunedol Cymru wedi sôn am ymchwydd yn nifer y cartrefi gwag wrth i gymdeithasau tai ei chael hi'n anodd gosod cartrefi mwy o faint. Er mwyn datrys problem tanfeddiannaeth, rydym yn awr yn gweld tai'n cael eu gadael yn wag. Ar ôl chwe mis, roedd tua 727 eiddo gwag ychwanegol yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn dangos yn glir y methiant llwyr i feddwl am ganlyniadau. Felly, mae gennym argyfwng yn y wlad hon. Rydym yn byw mewn gwlad gyfoethog, fodern ac eto mae nifer cynyddol o bobl yn gorfod defnyddio banciau bwyd rhag newynu. Mae deg gwaith yn fwy o bobl yn defnyddio banc bwyd nag a wna'i hynny yn 2010. Bellach, credaf fod y dreth ystafell wely yn trin y rhai sydd fwyaf agored i niwed â dirmyg. Mae'n bolisi sydd wedi methu.

Yr ymateb amlwg wrth gwrs yw dweud nad ein problem ni yw hi; mae hi allan o'n dwylo a thu hwnt i'n rheolaeth, ond tra bod pobl yng Nghymru yn dioddef o dan y polisi hwn, mae hi'n broblem i ni. Er bod y costau o ymdrin â chanlyniadau'r dreth yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r gwasanaeth iechyd, ein problem ni yw hi. Felly heddiw, rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr hyn a all i liniaru effeithiau'r dreth ystafell wely. Yn benodol, credaf y gall Llywodraeth Cymru fod yn barod i helpu pobl anabl a'u teuluoedd—mae'r manteision ariannol yn amlwg gan y byddai'n arbed arian a fyddai fel arall yn gorfod cael ei wario ar ail-addasu cartrefi i'w gwneud yn addas os gorfodir pobl i symud. Hefyd, mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod pobl yn gallu dod o hyd i'r gwasanaethau cyngor annibynnol gorau i'w helpu drwy'r system fudd-daliadau gymhleth. Wrth i fudd-daliadau ddod yn weithredol, mae'n bwysicach nag erioed i bawb allu cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo gan sicrhau bod yr ymgyrch 'Mae Budd-daliadau yn Newid' yn cyrraedd pob tenant yr effeithir arnynt.

Dylai'r Llywodraeth roi'r achos ariannol dros ddiddymu at ei gilydd yn seiliedig ar brofiadau Cymru. Dylai lunio strategaeth i gynorthwyo tenantiaid ar hyd y daith, hyd at apêl lwyddiannus er mwyn cael y sector tai cyfan i gefnogi'r ymdrechion hynny. Dylai hefyd gyflwyno'r ddadl foesol yn erbyn y polisi hwn, sydd bellach yn ymddangos fel pe bai'n arwydd o anrhydedd i rai Gweinidogion. Dylai'r Llywodraeth yma fod yn arwain ein sector tai yn y broses o ymdopi â'r dreth ystafell wely.

These days, it is getting harder than ever to find anyone willing to speak out in favour of the bedroom tax, but we might hear one or two this afternoon. Any initial support for reducing the housing benefit bill has melted away in the face of widespread evidence that this tax is not only causing harm, but also failing to save money. Opposition to the bedroom tax is widespread, and is not limited to political radicals: Church of England bishops and Conservative councillors have added their voices to those of many campaigners up and down the country fighting for the abolition of this policy. We must add our voices to the mix and make a stand for the abolition of the bedroom tax.

Y dyddiau hyn, mae'n mynd yn anos nag erioed i ddod o hyd i unrhyw un sy'n barod i siarad o blaid y dreth ystafell wely ond efallai y byddwn yn clywed un neu ddau y prynhawn yma. Mae unrhyw gymorth cychwynnol ar gyfer lleihau'r bil budd-dal tai wedi toddi'n ddim yn wyneb tystiolaeth gyffredinol fod y dreth hon nid yn unig yn achosi niwed, ond hefyd yn methu ag arbed arian. Mae gwrthwynebiad i'r dreth ystafell wely yn eang ac nid yw'n gyfyngedig i radicaliaid gwleidyddol: mae esgobion Eglwys Loegr a chynghorwyr Ceidwadol wedi ychwanegu eu lleisiau at leisiau llawer o ymgyrchwyr ar hyd a lled y wlad sy'n brwydro i ddiddymu'r polisi hwn. Mae'n rhaid i ni ychwanegu ein lleisiau ninnau atynt a gwneud safiad dros ddileu'r dreth ystafell wely.

16:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Peter Black i gynig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Delete all and replace with:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod problem tanfeddiannaeth mewn tai cymdeithasol.

1. Recognises the problem of under-occupancy in social housing.

2. Yn cydnabod gwaith y Democratiaid Rhyddfrydol yn Llywodraeth y DU o ran sicrhau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn i awdurdodau lleol er mwyn helpu i liniaru effaith diwygiadau mewn achosion teilwng unigol.

2. Recognises the work of Liberal Democrats in the UK Government in securing Discretionary Housing Payments for local authorities to help mitigate the impact of reforms in individual deserving cases.

3. Yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar y bydd y cap ar y swm y gall cynghorau ei wario ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei godi i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol.

3. Welcomes the recent announcement that the cap on the amount councils can spend on Discretionary Housing Payments will be lifted to give local authorities more flexibility.

4. Yn mynegi pryder ynghylch y rhwystrau a roddwyd yn eu lle gan gynghorau lleol i'r rhai sy'n ceisio gwneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a'u methiant i ddyrannu'r holl adnoddau a roddwyd iddynt at y diben hwn mewn da bryd.

4. Expresses concern at the barriers put in place by local councils to those seeking to apply for Discretionary Housing Payments and their failure to allocate all the resources given to them for this purpose in good time.

5. Yn croesawu'r cynnig a baswyd yng nghynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Medi 2013 yn galw am werthusiad ar unwaith o effaith y cymhorthdal ystafell sbâr, ac yn aros am ganlyniad yr adolygiad annibynnol o'r polisi a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd ar y gweill.

5. Welcomes the motion passed at the Liberal Democrat conference in September 2013 calling for an immediate evaluation of the impact of the spare room subsidy, and awaits the outcome of the independent review of the policy commissioned by the Department for Work and Pensions which is now underway.

6. Yn credu y dylai tynnu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn ôl gael ei liniaru drwy eithrio oedolion anabl a phlant anabl y mae angen gofalwr arnynt a'i gymhwyso i denantiaethau newydd y sector cyhoeddus yn unig.

6. Believes that the withdrawal of the spare room subsidy should be mitigated by exempting disabled adults and disabled children who require a carer and only applying it to new public sector tenancies.

16:22

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliant 1 yn enw Aled Roberts.

I thank Plaid Cymru for bringing this debate forward. I think that there is some common ground in the need to reform the welfare system and get to grips with the benefits system. However, making changes is not easy, and it is important that we continue to debate these issues to ensure that the savings are made as fairly as possible. We have tried to set out in our amendment how we think this should be taken forward.

Housing benefit is a huge part of the money that we spend on benefits and has grown rapidly, doubling from £11 billion to £22 billion in Labour's last 10 years of Government. It reached £24 billion per year by 2012-13, and, if unreformed, the housing benefit bill would have cost £26 billion per year by 2014-15. At more than £220 billion, the whole welfare budget represents a third of all Government spending and exceeds spending on health, education and defence combined. Changes to the welfare system have therefore been necessary to try to tackle this unsustainable welfare bill and help to reduce overcrowding and long waiting lists for housing. A quarter of a million households are living in overcrowded social housing. We subsidise 1 million spare bedrooms in the social rented sector through housing benefit. It has also been important to bring parity into the system for those who live in private rented and social housing, after Labour removed the spare room subsidy from housing benefit recipients in the private sector in 2008. I do recognise that there were differences in the way that was done, and I think that, if what is in our amendment were adopted, that would then reflect what happened in the private rented sector.

The Liberal Democrats have consistently worked hard to make sure that changes are made as fairly as possible. In 2012, we negotiated to ensure that, from 2013-14, an extra £30 million per year would be added to the discretionary housing payments fund, specifically to help with the removal of the spare room subsidy. This means that, in total, we have massively increased discretionary housing payments from £20 million in 2010-11 to £180 million in 2013-14. Additional funding was also provided for rural areas, which provided extra support for tenants in Powys, Gwynedd and Ceredigion. This allows local authorities to give extra discretionary help to those facing difficulties in meeting their housing costs.

Diolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddatl hon. Credaf fod rhywfaint o dir cyffredin yn yr angen i ddiwygio'r system les a mynd i'r afael â'r system fudd-daliadau. Fodd bynnag, nid yw gwneud newidiadau yn hawdd ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i drafod y materion hyn er mwyn sicrhau bod yr arbedion yn cael eu gwneud mor deg ag y bo modd. Rydym wedi ceisio nodi yn ein gwelliant sut y credwn y dylid symud ymlaen ar hyn.

Mae budd-dal tai yn rhan enfawr o'r arian rydym yn ei wario ar fudd-daliadau ac mae wedi tyfu'n gyflym gan ddyblu o £11 biliwn i £22 biliwn yn ystod 10 mlynedd olaf y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Cyrhaeddodd £ 24 biliwn y flwyddyn erbyn 2012-13 a phe na bai'r drefn wedi'i diwygio, byddai'r bil budd-dal tai wedi costio £26 biliwn y flwyddyn erbyn 2014-15. Ar fwy na £220 biliwn, mae'r gyllideb les yn ei chyfanrwydd yn un rhan o dair o holl wariant y Llywodraeth ac yn fwy na gwariant ar iechyd, addysg ac amddiffyn gyda'i gilydd. Felly bu'n rhaid newid y system les er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bil lles anghynaliadwy a helpu i leihau gorlenwi tai a rhestrau aros hir am dai. Mae chwarter miliwn o deuluoedd yn byw mewn tai cymdeithasol gorlawn. Rydym yn rhoi cymhorthdal i 1 filiwn o ystafelloedd gwely sbâr yn y sector rhentu cymdeithasol drwy fudd-dal tai. Mae hefyd wedi bod yn bwysig cyflwyno cydraddoldeb i'r system ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai rhentu preifat a thai cymdeithasol wedi i'r Blaid Lafur gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr i rai sy'n derbyn budd-dal tai yn y sector preifat yn 2008. Rwyf yn cydnabod bod gwahaniaethau yn y ffordd y gwnaed hynny ac rwyf o'r farn pe bai'r hyn sydd yn ein gwelliant yn cael ei fabwysiadu, byddai'n adlewyrchu'r hyn a ddiwyddodd yn y sector rhentu preifat.

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gweithio'n galed yn gyson i wneud yn siŵr fod newidiadau yn cael eu gwneud mor deg ag y bo modd. Yn 2012, aethom ati i negodi er mwyn sicrhau y byddai £ 30 miliwn ychwanegol y flwyddyn yn cael ei ychwanegu at y gronfa taliadau tai yn ôl disgrisiwn o 2013-14, yn benodol er mwyn helpu i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu ein bod wedi cynyddu taliadau tai yn ôl disgrisiwn yn aruthrol o £20 miliwn yn 2010-11 i £180 miliwn yn 2013-14. Darparwyd cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer ardaloedd gwledig a roddodd gymorth ychwanegol i denantiaid ym Mhowys, Gwynedd a Cheredigion. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i roi cymorth ychwanegol yn ôl disgrisiwn i'r rhai sy'n wynebu anawsterau gyda'u costau tai.

16:24 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Peter, will you take an intervention?

Peter, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:24 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am going to try to get through this. I think that there will be two voices only from this side, so I want to get through the whole thing if I can.

Rydw i'n mynd i geisio gorffen. Credaf mai dim ond dau lais fydd o'r ochr hon felly rwyf am fynd drwy'r holl beth os gallaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We have negotiated hard with our coalition partners to make a number of important changes to the spare room subsidy. Thanks to Liberal Democrats, the policy now protects people in the armed forces, foster carers and disabled children who need their own home. Yet while Liberal Democrats have been fighting for these concessions, here in the Assembly, Labour Members have simply bemoaned the impact of the spare room subsidy on tenants in their regions.

It is therefore surprising to hear the Minister of State at the Department for Work and Pensions, Steve Webb, state last week that only three of the 22 local authorities in Wales applied for extra UK Government funding to help mitigate the impact of the cuts. He said that only Cardiff, Conwy and Caerphilly had bid for a share of an additional £20 million top-up fund set aside by the Government. This should have come as no surprise to the Minister, however, because the Welsh Government's own monitoring report showed that, halfway through the financial year, only three out of 22 local authorities have spent more than half of their annual discretionary housing payments budget. I know from my own casework that tenants are not aware of their right to apply for discretionary housing payments because they are not being properly advertised, or tenants simply do not understand the system, or are being forced to jump through hoops unnecessarily. Not only this, but the report also raises concerns that many local councils treat disability living allowance and child benefit as a form of income, an issue that I raised in a short debate a few weeks ago. The Minister did say in response to that debate that he would be contacting me to discuss that particular issue. He has not yet done so.

Out of the 22 local authorities, only Caerphilly disregarded disability living allowance when considering discretionary housing payments. The Department for Work and Pensions disregards both DLA and child benefit from means-tested benefits, and my understanding is that councils should do the same. So, I think the issue here is: why has the Welsh Government not given guidance to local authorities to prevent this restrictive use of funds that have been put in place to mitigate the impact on tenants? If the Department for Work and Pensions does not take into account DLA and child benefit, why is it that local councils are, effectively, assessing disabled tenants twice before they are able to give them that additional support?

While we welcome the opportunity to debate these issues today, we will not be supporting the motion. As outlined in my introduction, there is a clear need for welfare reform. In fact, a poll by Ipsos MORI last year revealed that 78% of respondents supported action to reduce under-occupation and overcrowding in social housing. I think that we have put forward in our amendment a clear way forward on this, and I hope that you are able to support that as a means of reforming this benefit.

Rydym wedi trafod yn fanwl gyda'n partneriaid yn y glymblaid er mwyn gwneud nifer o newidiadau pwysig i'r cymhorthdal ystafell sbâr. Diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae'r polisi bellach yn amddiffyn pobl yn y lluoedd arfog, gofawyr maeth a phlant anabl sydd angen eu cartref eu hunain. Eto i gyd, er bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn ymladd dros y consesiynau hyn, yma yn y Cynulliad, dim ond cwyno am effaith y cymhorthdal ystafell sbâr ar denantiaid yn eu rhanbarthau y mae'r Aelodau Llafur wedi bod yn ei wneud.

Felly, mae'n syndod clywed Steve Webb, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn datgan yr wythnos diwethaf mai dim ond tri o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi gwneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i helpu i liniaru effaith y toriadau. Dywedodd mai dim ond Caerdydd, Conwy a Chaerffili sydd wedi gwneud cais am gyfran o gronfa arian ychwanegol o £20 miliwn a neilltuwyd gan y Llywodraeth. Ni ddylai hyn fod wedi peri syndod i'r Gweinidog, fodd bynnag, am fod adroddiad monitro Llywodraeth Cymru ei hun yn dangos mai dim ond tri o'r 22 awdurdod lleol oedd wedi gwario mwy na hanner eu cyllideb flynyddol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol. Rwy'n gwybod o fy ngwaith achos fy hun nad yw tenantiaid yn ymwybodol o'u hawl i wneud cais am daliadau tai yn ôl disgrisiwn oherwydd nad ydynt yn cael eu hysbysebu yn iawn neu denantiaid nad ydynt yn deall y system, neu sy'n cael eu gorfodi i weithredu'n ddiangen. Nid yn unig hyn, ond mae'r adroddiad hefyd yn codi pryderon fod llawer o gynghorau lleol yn trin lwfans byw i'r anabl a budd-dal plant fel ffurf ar incwm, mater a godais mewn dadl fer rai wythnosau yn ôl. Dywedodd y Gweinidog mewn ymateb i'r ddadl honno y byddai'n cysylltu â mi i drafod y mater penodol hwnnw. Nid yw wedi gwneud hynny eto.

O'r 22 o awdurdodau lleol, dim ond Caerffili a ddiystyrodd y lwfans byw i'r anabl wrth ystyried taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn diystyru'r Lwfans Byw i'r Anabl a budd-dal plant o fudd-daliadau prawf modd ac yn ôl yr hyn a ddeallaf, dylai cynghorau wneud yr un fath. Felly rwy'n meddwl mai'r mater dan sylw yw hyn: pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad i awdurdodau lleol er mwyn atal y defnydd cyfyngol hwn o arian a neilltuwyd ar gyfer lliniaru'r effaith ar denantiaid? Os nad yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystyried Lwfans Byw i'r Anabl a budd-dal plant, pam y mae cynghorau lleol i bob pwrpas yn asesu tenantiaid anabl ddwywaith cyn rhoi'r cymorth ychwanegol iddynt?

Er ein bod yn croesawu'r cyfle i drafod y materion hyn heddiw, ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig. Fel yr amlinellais yn fy nghyflwyniad, mae'n amlwg fod angen diwygio lles. Yn wir, datgelodd arolwg gan Ipsos MORI y llynedd fod 78% o'r ymatebwyr yn cefnogi camau i leihau tanfeddiannaeth a gorlenwi mewn tai cymdeithasol. Rwy'n credu ein bod wedi cyflwyno ffordd glir ymlaen ar hyn yn ein gwelliant ac rwy'n gobeithio y gallwch ei gefnogi fel ffordd o ddiwygio'r budd-dal hwn.

16:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnis gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Mark Isherwood to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Delete all and replace with:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi:

Notes:

a) bod prinder tai cymdeithasol ledled y DU, ac yng Nghymru'n arbennig, a bod cael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr yn ymateb dilynol i'r cynnydd mewn rhestrau aros, gorlenwi a digartrefedd cudd sy'n mynd ochr yn ochr â phroblem tanfeddiannu mewn tai cymdeithasol;

a) that there is a shortage of social housing across the UK, and in particular Wales, and that the removal of the spare room subsidy is a response to the consequent increases in waiting lists, overcrowding and hidden homelessness that sit alongside the issue of under occupancy in social housing;

b) mai Llywodraeth Lafur y DU, ym mis Ebrill 2008, aeth ati i gael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr am y tro cyntaf ar gyfer y rheini a oedd yn derbyn budd-dal tai yn y sector rhentu preifat;

b) that the removal of the spare room subsidy was first introduced for housing benefit recipients in the private rented sector in April 2008 by the UK Labour Government;

c) bod arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU wedi cael ei ddarparu ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn o 2013/14 ymlaen gan ganiatáu i awdurdodau lleol dargedu'r rheini sydd ei angen fwyaf;

c) that additional UK Government funding that was made available for Discretionary Housing Payments from 2013/14 allowing local authorities to target those who need it the most;

d) y cyhoeddiad diweddar y bydd y cap ar faint y caiff cyngorau ei wario ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei godi er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol;

d) the recent announcement that the cap on the amount councils can spend on Discretionary Housing Payments will be lifted to give local authorities more flexibility;

e) methiant awdurdodau lleol i ddyrannu'r holl adnoddau a roddwyd iddynt ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn da bryd;

e) the failure of local authorities to allocate all the resources given to them for Discretionary Housing Payments in good time;

f) yr arweiniad a roddwyd ymlaen llaw i awdurdodau lleol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n dweud y dylai pobl anabl sy'n byw mewn llety sydd wedi'i addasu'n sylweddol a'r rheini sy'n ddibynnol iawn ar rwydwaith cefnogi lleol gael eu blaenoriaethu ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn.

f) the advance guidance issued to local authorities by the DWP, which states that disabled people living in significantly adapted accommodation and those heavily reliant on a local support network should be prioritised for discretionary housing payments.

16:27

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2.

The removal of the spare room subsidy is a response to the scandalously small number of social homes built by Labour and the consequent increases in waiting lists, overcrowding and hidden homelessness. Under the last UK Labour Government, local authority waiting lists in England nearly doubled as the number of social homes for rent was cut by 421,000. In Wales, the number of social homes for rent at devolved level was cut by 29,000 during the first three terms of Labour-led Welsh Government as the supply of new social homes was slashed by 71%. When the Labour UK Government introduced what it now calls the bedroom tax in April 2008 for housing benefit recipients in the private rented sector, it said that the

Cynigiad welliant 2.

Mae cael gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr yn ymateb i'r nifer warthus o fach o gartrefi cymdeithasol a adeiladwyd gan Lafur a'r cynnydd dilynol yn nifer y bobl ar restrau aros, gorlenwi a digartrefedd cudd. O dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU, roedd rhestri aros awdurdodau lleol yn Lloegr bron â dyblu wrth i nifer y cartrefi cymdeithasol ar gyfer eu rhentu ostwng 421,000. Yng Nghymru, mae nifer y cartrefi cymdeithasol ar gyfer eu rhentu ar lefel ddatganoledig wedi gostwng 29,000 yn ystod tri thymor cyntaf Llywodraeth Lafur Cymru wrth i'r cyflenwad o gartrefi cymdeithasol newydd ostwng 71%. Pan gyflwynodd Llywodraeth Lafur y DU yr hyn y mae'n awr yn ei galw'n dreth ystafell wely ym mis Ebrill 2008 ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau tai yn y sector rhentu preifat, dywedodd fod y

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'new system comprises a flat-rate benefit according to household size and location'.

'new system comprises a flat-rate benefit according to household size and location'.

Labour's local housing allowance rules imposed a size criterion restricting claimants to one bedroom per specified occupier, and the DWP specifies now that the criteria introduced for housing benefit in the social rented sector are measured against the same size criteria already used in local housing allowance.

Gosododd rheolau lwfans tai lleol Llafur faen prawf maint yn cyfyngu hawlwr i un ystafell wely i bob deiliad dynodedig ac mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi yn awr fod y meini prawf a gyflwynwyd ar gyfer budd-dal tai yn y sector rhentu cymdeithasol yn cael eu mesur yn erbyn yr un meini prawf maint a ddefnyddir eisoes yn y lwfans tai lleol.

16:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, indeed.

Gwnaf, yn wir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you accept the distinction between the 2007 Act and the 2012 Act? The 2007 Act was aimed at a lot of short-term lettings within the private sector only, and abuse by landlords as being the prime factor for that. It bears no comparison whatsoever with the extension of that principle, to raise money, into the social housing sector.

A ydych yn derbyn y gwahaniaeth rhwng Deddf 2007 a Deddf 2012? Cafodd Deddf 2007 ei hanelu at lawer o drefniadau gosod tymor byr o fewn y sector preifat yn unig a chamdriniaeth landlordiaid oedd y prif ffactor yn hynny. Ni ellir gwneud cymhariaeth o gwbl ag ymestyn yr egwyddor honno, er mwyn codi arian, i mewn i'r sector tai cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:29 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I say that the impact on the housing benefit recipient is identical, whichever sector they happen to be living in. I will not listen to the Labour Party, which ignored a decade of warnings of a pending housing supply crisis in Wales, perniciously and shamefully.

Rwy'n dweud bod yr effaith ar y sawl sy'n derbyn budd-dal tai yn union yr un fath, pa bynnag sector y maent yn digwydd bod yn byw ynddo. Ni wrandawaf ar y Blaid Lafur, a aeth ati mewn modd dinistriol a chywilyddus i anwybyddu degawd o rybuddion ynglŷn â'r argyfwng a oedd yn yr arfaeth o ran y cyflenwad tai yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Exceptions to this include older people, foster carers, overnight carers for the disabled, severely disabled children, armed forces personnel, and bereaved families. The DWP increased the discretionary housing payments, or DHP, budget, ring-fenced and paid directly to local authorities, allowing local authorities to target those needing help most. On top of the £119 million set aside to help local authorities implement the reforms, which already included an extra £130 million for discretionary housing payments, the UK Government announced an additional £35 million for the DHP budget from 2013-14, including a new £20 million DHP fund. However, we have heard that only three Welsh local authorities applied for a share of this. The Minister of State for Pensions, Steve Webb, said last week that

Mae'r eithriadau i hyn yn cynnwys pobl hŷn, gofawyr maeth, gofawyr dros nos ar gyfer yr anabl, plant ag anabledl difrifol, personél y lluoedd arfog, a theuluoedd mewn profedigaeth. Cynyddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y gyllideb ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn a gâi ei neilltuo a'i thalu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol, gan alluogi awdurdodau lleol i dargedu'r rhai sydd fwyaf o angen cymorth. Ar ben yr £119 miliwn a neilltuwyd i helpu awdurdodau lleol weithredu'r diwygiadau, a oedd eisoes yn cynnwys £130 miliwn ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn darparu £35 miliwn ychwanegol ar gyfer y gyllideb taliadau tai yn ôl disgrisiwn o 2013-14, gan gynnwys cronfa newydd gwerth £20 miliwn ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, clywsom mai dim ond tri awdurdod lleol yng Nghymru a wnaeth gais am gyfran o'r arian. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Steve Webb, y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau,

'We cannot simultaneously say that there is unmet need... when those authorities did not ask us for the money to top up their DHP budget'.

'We cannot simultaneously say that there is unmet need... when those authorities did not ask us for the money to top up their DHP budget'.

The UK Government has announced that the DHP has increased by £40 million in 2014-15 and 2015-16. A new good practice guide for local authorities on administering DHPs was issued in March 2011 and was also detailed in the housing benefit and council tax benefit circular issued to every council by the DWP in July 2012. It is stated that

'There are many reasons...why it may not be appropriate for someone with a disability to either move house or make up any shortfall in rent themselves. A good example of this may be an individual or family who rely heavily on a local support network. In circumstances such as these it may be appropriate to use the DHP fund to make up the shortfall in their rent.'

It is also stated that

'There will be claimants affected by this measure who live in significantly adapted accommodation due to someone in the household having a disability. It will not always be practical or cost effective for these people to move to different accommodation or they may have no other option for making up the shortfall in rent.'

However, Welsh Government figures show that only nine out of 22 local authorities had spent even half of their discretionary housing payment allocations seven months into the 2013-14 financial year, despite unspent money having to go back to the Treasury at the end of the year. Three councils, including Flintshire, had not provided figures, whereas Torfaen had committed 97% and Monmouthshire 84% of their allocations. Merthyr Tydfil had only allocated 39%. Interestingly, in the previous year, Monmouthshire committed the maximum cap of 250% but Merthyr only 28%.

The Welsh Government also delayed action by only announcing investment for a small number of one and two-bedroomed properties and looking to the private rented sector to tackle homelessness months after the changes took effect. More than three years have passed since the 2011 Communities and Culture Committee report on the private rented sector, which recommended that the Welsh Government should actively seek to promote a positive public image of the private rented sector as tenure of choice in Wales. Landlords' representatives told me that they had already built in housing benefit changes and that change needed to be managed in local authorities. However, those same landlords' representatives are now telling me that the Welsh Government is increasing regulation rather than starting the engagement and continued partnership working needed to deliver more quality housing at affordable rents that meets social need.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi bod y taliadau tai yn ôl disgrisiwn wedi codi £40 miliwn yn 2014-15 a 2015-16. Cyhoeddwyd canllaw arfer da newydd ar gyfer awdurdodau lleol ar weinyddu'r taliadau tai yn ôl disgrisiwn ym mis Mawrth 2011 a rhoddwyd manylion yn ei gylch hefyd yn y cylchlythyr budd-dal tai a budd-dal y dreth cyngor a ddsbarthwyd i bob cyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Gorffennaf 2012. Mae'n datgan

'There are many reasons...why it may not be appropriate for someone with a disability to either move house or make up any shortfall in rent themselves. A good example of this may be an individual or family who rely heavily on a local support network. In circumstances such as these it may be appropriate to use the DHP fund to make up the shortfall in their rent.'

Mae'n dweud hefyd

'There will be claimants affected by this measure who live in significantly adapted accommodation due to someone in the household having a disability. It will not always be practical or cost effective for these people to move to different accommodation or they may have no other option for making up the shortfall in rent.'

Fodd bynnag, dengys ffigurau Llywodraeth Cymru mai dim ond naw o'r 22 awdurdod lleol a oedd wedi gwario hyd yn oed hanner eu dyraniadau ar gyfer taliadau tai yn ôl disgrisiwn saith mis i mewn i flwyddyn ariannol 2013-14, er bod yn rhaid dychwelyd arian heb ei wario i'r Trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oedd tri chyngror, gan gynnwys Sir y Fflint, wedi darparu ffigurau, tra bod Torfaen wedi ymrwymo 97% a Sir Fynwy wedi ymrwymo 84% o'u dyraniadau. 39% yn unig roedd Merthyr Tudful wedi'i ddyrannu. Yn ddi-ddorol, yn y flwyddyn flaenorol, ymrwymodd Sir Fynwy yr uchafswm wedi'i gapio o 250% ond dim ond 28% roedd Merthyr wedi'i ddyrannu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi oedi rhag gweithredu hefyd drwy gyhoeddi ei bod yn buddsoddi mewn nifer fach o gartrefi un a dwy ystafell wely yn unig a throi at y sector rhentu preifat i fynd i'r afael â digartrefedd fisoedd wedi i'r newidiadau ddod i rym. Mae mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers adroddiad 2011 y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar y sector rhentu preifat a oedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i geisio hyrwyddo delwedd gyhoeddus gadarnhaol y sector rhentu preifat fel dewis o ran deiliadaeth yng Nghymru. Dywedodd cynrychiolwyr landlordiaid wrthyf eu bod eisoes wedi cynnwys newidiadau budd-dal tai yn eu hystyriaethau a bod angen rheoli newidiadau o fewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae cynrychiolwyr yr un landlordiaid yn dweud wrthyf yn awr fod Llywodraeth Cymru yn cynyddu rheoleiddio yn hytrach na dechrau'r ymgysylltiad a'r gwaith partneriaeth parhaus sydd eu hangen er mwyn darparu mwy o dai o ansawdd am renti fforddiadwy i ddiwallu angen cymdeithasol.

The story of the bedroom tax is not one of balancing the Government's budget, righting the economy, or any of those other spurious pretensions to assured financial competence that David Cameron and his Cabinet might claim; it is a human story. It is a myriad of often heartbreaking tales of difficult lives made worse by this unfair and unjustified attack on the poorest and most vulnerable people in our society. It is questioning people's very right to a home.

I hear in the estates and communities in my region stories of how this tax has affected people and their daily lives. One woman was forced to measure her box room so that Neath Port Talbot Homes would not classify it as an unlive-in bedroom when you could not even get a cot in there. One man has seen his benefits reduced because the room where his two disabled sons could stay at the weekend was not reason enough to exclude it from being classified as being spare. Disgustingly, one lady has faced abuse because she was brave enough to tell her story to the local paper. That abuse is directly the fault of UK Ministers repeatedly inferring that her disability is a drain on society. Even worse, another woman in my constituency had an eviction notice sent to her when she was in a coma. Let us remember that Governments are there to deliver services, not demonise service users so that they can cut what they are giving to them and pass the savings on to their rich backers in London.

We now have the irony of a Government supporting people to buy second homes worth up to £600,000 under Help to Buy in England, while introducing financial arguments as to why it cannot subsidise rooms used by disabled people to store medical equipment or allow carers to stay or to remain with partners who cannot share a bed because of their own disability. That is how out of touch this UK Government and some Members of this Chamber are as to the realities that face people in our areas every day as a result of this bedroom tax. We are now hearing that the bedroom tax will not, in fact, save the taxpayer a penny. In fact, it will cost more, because the consequences of this action have not been thought through.

Those of us who have opposed a bedroom tax from the beginning have argued that this is further compounding the suffering of those who did nothing to create this particular economic problem that we are facing in the UK and Wales. It even creates a barrier for those who the UK Government pretends to support, because it is possible for a son or daughter who has done well in school to move to university and see their parents evicted as a result.

What lies at the heart of this policy is a blatant attempt to shift money from the poorest and most vulnerable and give it to those most likely to vote Tory at the next election. The Convention of Scottish Local Authorities estimates that it costs Scottish councils £58 million to save the Department for Work and Pensions £50 million; where is the mathematical sense in all of this?

Nid yw hanes y dreth ystafell wely yn un sy'n ymwneud â chydbwyso cyllideb y Llywodraeth, unioni'r yr economi nac unrhyw un o'r honiadau ffug eraill ynghylch cymhwysedd ariannol sicr y mae David Cameron a'i Gabinet yn eu datgan; mae'n ymwneud â phobl. Mae'n gyfuniad o straeon torcalonnus yn aml am fywydau anodd a wnaed yn waeth gan yr ymosodiad annheg ac anghyfiawn hwn ar y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae'n cwestiynu hawl pobl i gartref.

Ar ystadau ac yng nghymunedau fy rhanbarth, rwy'n clywed straeon ynglŷn â sut y mae'r dreth hon wedi effeithio ar bobl a'u bywydau bob dydd. Gorfodwyd un fenyw i fesur ei hystafell gistiau fel na fyddai Cartrefi Castell-nedd Port Talbot yn ei dosbarthu fel ystafell nad oedd neb yn byw ynnddi er na allech gael cot babi i mewn yno hyd yn oed. Mae budd-daliadau un dyn wedi'u gostwng am nad oedd yr ystafell lle y gallai ei ddau fab anabl aros ar benwythnosau yn ddigon o reswm i'w heithrio rhag cael ei dosbarthu fel ystafell sbâr. Mae'n gywilyddus fod un wraig wedi wynebu camdriniaeth am ei bod yn ddigon dewr i ddweud ei stori wrth y papur lleol. Bai Gweinidogion y DU yn uniongyrchol yw'r gamdriniaeth honno am awgrymu dro ar ôl tro fod ei hanabledd yn dreth ar gymdeithas. Hyd yn oed yn waeth, anfonwyd rhybudd troi allan at ddynes arall yn fy etholaeth pan oedd hi mewn coma. Gadewch inni gofio bod Llywodraethau yn i ddarparu gwasanaethau nid i bardduo defnyddwyr gwasanaeth fel y gallant dorri'r hyn y maent yn ei roi iddynt a throsglwyddo'r arbedion i'w cefnogwyr cyfoethog yn Llundain.

Yn awr, mae gennym yr eironi o Lywodraeth sy'n cefnogi pobl i brynu ail gartrefi gwerth hyd at £600,000 o dan Cymorth i Brynu yn Lloegr, tra'u bod yn cyflwyno dadleuon ariannol pam na all roi cymhorthdal tuag at ystafelloedd sy'n cael eu defnyddio gan bobl anabl i storio offer meddygol neu i alluogi gofalwyr i aros neu er mwyn aros gyda phartneriaid nad ydynt yn gallu rhannu gwely â hwy oherwydd eu hanabledd. Dyna gymaint o ddiffyg cysylltiad sydd rhwng Llywodraeth y DU a rhai Aelodau o'r Siambr hon a'r realiti sy'n wynebu pobl yn ein hardaloedd bob dydd o ganlyniad i'r dreth ystafell wely. Clywn yn awr na fydd y dreth ystafell wely yn arbed ceiniog i'r trethdalwr mewn gwirionedd. Yn wir, bydd yn costio mwy, gan nad yw ei chanlyniadau wedi'u hystyried yn drwyadl.

Mae'r rhai ohonom sydd wedi gwrthwynebu treth ystafell wely o'r dechrau wedi dadlau ei bod yn yn gwaethygu dioddefaint pobl na wnaethant ddim oll i greu'r broblem economaidd benodol rydym yn ei hwynebu yn y DU ac yng Nghymru. Mae hi hyd yn oed yn creu rhwystr i bobl y mae Llywodraeth y DU yn esgus ei bod yn eu cefnogi, gan y gallai mab neu ferch a wnaeth yn dda yn yr ysgol ac sy'n symud i'r brifysgol weld eu rhieni'n cael eu troi allan o ganlyniad i'r dreth.

Yr hyn sydd wrth wraidd y polisi yw ymgais amlwg i symud arian oddi wrth y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed a'i roi i'r rhai sydd fwyaf tebygol o bleidleisio i'r Toriaid yn yr etholiad nesaf. Mae Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban yn amcangyfrif ei bod yn costio £58 miliwn i gynghorau yn yr Alban arbed £50 miliwn i'r Adran Gwaith a Phensiynau; ble mae'r synnwyr mathemategol yn hyn i gyd?

With tenants and social landlords now increasingly banding together, there is the possibility of a poll-tax-sized revolt in the wind. However, Ministers can still end this; we appreciate that Ministers on a Welsh level cannot end it, but Ministers on a Welsh level can send a very strong signal to the UK Government that this particular policy will not be tolerated.

Today's Plaid Cymru motion is not an attempt to create that rift that some people want to try to create between parties here that oppose the bedroom tax, but to urge you, on behalf of the tenants, to come up with some tangible alternatives and results that we can put in place so that we do not constantly say, 'Well, sorry, we cannot do anything because we do not have the powers'. People want to be able to see that this is a political priority for the Welsh Government, so that we can tell the UK Government that this will not be tolerated.

I appreciate the statements that people like Carl Sargeant have made, but we would like to see, for example, a strong appeals strategy. To be fair to Peter Black, he has outlined some of those areas where there are discrepancies and people are not utilising discretionary housing payments. If we had a strong strategy, then that confusion potentially may not exist. I urge you to come out here today not to make a party political statement because of the EU elections, but for you, as Minister, to tell us what you will be doing to help mitigate this most dreadful tax.

Gyda thenantiaid a landlordiaid cymdeithasol bellach yn uno â'i gilydd, ceir posibilrwydd o wrthryfel tebyg i'r un yn erbyn treth y pen. Fodd bynnag, gall Gweinidogion ddal i roi diwedd ar hyn; sylweddolwn na all Gweinidogion ar lefel Cymru roi diwedd ar y polisi arbennig hwn ond gall Gweinidogion ar lefel Cymru anfon neges gref iawn i Lywodraeth y DU na fydd yn cael ei oddef.

Nid yw cynnig Plaid Cymru heddiw yn ymgais i greu'r rhwyg y mae rhai pobl ei eisiau rhwng pleidiau yma sy'n gwrthwynebu'r dreth ystafell wely ond mae'n eich annog, ar ran y tenantiaid, i feddwl am ddewisiadau eraill pendant a chanlyniadau y gallwn eu rhoi ar waith fel nad ydym yn dweud o hyd, 'Wel, mae'n ddrwg gennym, ni allwn wneud dim oherwydd nad oes gennym bwerau'. Mae pobl eisiau gweld bod hon yn flaenoriaeth wleidyddol i Lywodraeth Cymru fel y gallwn ddweud wrth Lywodraeth y DU na fydd hyn yn cael ei oddef.

Rwy'n gwerthfawrogi'r datganiadau a wnaed gan bobl fel Carl Sargeant ond hoffem weld strategaeth apelio gref er enghraifft. I fod yn deg i Peter Black, mae wedi amlinellu rhai o'r meysydd lle ceir anghysondebau ac nid yw pobl yn defnyddio taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Pe bai gennym strategaeth gref, efallai na fyddai dryswch o'r fath yn bodoli. Rwy'n eich annog i yma heddiw i beidio â gwneud datganiad gwleidyddol ar ran eich plaid oherwydd etholiadau'r UE, ond i chi, fel Gweinidog, ddweud wrthym beth fyddwch yn ei wneud i helpu i liniaru effaith y dreth ofnadwy hon.

16:38

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome Plaid Cymru's motion today. We must keep up maximum political pressure on the bedroom tax here in Wales, as we know that it is hitting a disproportionate number of tenants in the communities that we represent.

However, the debate on the bedroom tax that really mattered took place in the House of Commons in November last year, when my party tabled a motion calling for its abolition. That was the opportunity finally to draw a line under a policy that has ultimately proved as ineffective in practice as it was completely pernicious in intention.

Indeed, there is such a wealth of evidence out there that it is difficult to know where to start—evidence like the National Housing Federation report that described predicted cost savings as highly questionable and called it an 'ill-conceived policy'. The National Audit Office's report exposed the Government's figures for not including information on the costs facing councils dealing with the change. The Welsh Affairs Committee's report underlined the most basic flaw of all when it comes to the bedroom tax—that there simply are not the one-bedroomed homes for people to move to, even if they wanted to.

Failing completely to tackle under-occupation in social housing, costing huge amounts of public money and causing tremendous pain and hardship for those it cruelly targets—that is the reality of the bedroom tax.

Croesawaf gynnig Plaid Cymru heddiw. Mae'n rhaid i ni gadw'r pwysau gwleidyddol mwyaf ar y dreth ystafell wely yma yng Nghymru gan y gwyddom ei bod yn taro nifer anghymesur o denantiaid yn y cymunedau a gynrychiolwn.

Fodd bynnag, digwyddodd y ddadl ar y dreth ystafell wely a oedd yn bwysig mewn gwirionedd yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd y llynedd pan gyflwynodd fy mhlaid gynnig yn galw am ei diddymu. Dyna oedd y cyfle i roi diwedd yn derfynol ar bolisi sydd wedi bod law'n mor aneffeithiol yn ymarferol ag yr oedd yn gwbl ddiinstriol o ran ei ei fwriad.

Yn wir, mae cymaint o dystiolaeth ar gael fel ei bod yn anodd gwybod ble i ddechrau—tystiolaeth fel adroddiad Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a ddisgrifiai'r arbedion cost a ragwelid fel rhai amheus iawn ac a'i galwodd yn 'bolisi annoeth'. Tynnodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sylw at ffigurau'r Llywodraeth am beidio â chynnwys gwybodaeth am y costau sy'n wynebu cynghorau sy'n ymdopi â'r newid. Amlygodd adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig y nam mwyaf sylfaenol oll mewn perthynas â'r dreth ystafell wely—sef yn syml nad oes cartrefi un ystafell wely ar gael i bobl symud iddynt, hyd yn oed pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Methu'n llwyr â mynd i'r afael â thanfeddiannaeth mewn tai cymdeithasol, costio symiau enfawr o arian cyhoeddus ac achosi poen a chaledi aruthrol i'r rhai y mae'n eu targedu mor greulon—dyna realiti'r dreth ystafell wely.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am not surprised that the Tories continue to stand by this wicked policy. After all, they are as ideologically wedded to the bedroom tax as Thatcher was to the poll tax. However, I have to say that I am very disappointed by the tone and content of the amendment tabled by the Welsh Liberal Democrats today. Surely, it is just political doublespeak of the worst kind to trumpet an internal conference motion calling for a review of the bedroom tax when it is consistent support from Lib Dem Members of Parliament that has helped to deliver and then sustain this policy. When a Liberal Democrat Minister stood up in Parliament to robustly defend the bedroom tax during that crucial debate back in November. I was dismayed, frankly, to see a motion tabled by Assembly colleagues who I respect and have worked with for many years using phrases like 'deserving cases', as if some tenants deserve to be hit by this cruel penalty and others do not. I hope that it is just an unfortunate case of clumsy language, but no-one asks to be in this situation. If we are returning to Victorian principles of the deserving and undeserving poor, then we have taken a huge step backwards on the path to social justice that Lib Dems in the Chamber once claimed to champion.

Even point 6, which in principle I do not necessarily disagree with, surely acknowledges the inherent unfairness of penalising people who are existing and, often, long-standing tenants—people like my constituent in Pontypool, who I heard about just yesterday, who is a woman who has lived in her home for 20 years and does not want to move, as she lives next door to her daughter who comes in every day to offer support with cooking and cleaning. Since the bedroom tax was introduced, her arrears have risen only slightly, but when she contacted her housing association seeking support, they found out that she had had to take out high-interest loans and was cutting back on fuel and food to get by.

It is a sad reality that is a million miles away from the Tory amendments today, for all their talk of wanting to tackle waiting lists, overcrowding and homelessness—leaving aside the fact that they created many of these problems themselves when they introduced the right to buy and stopped councils building new homes to replace those lost to the private sector. I am really glad that Plaid Cymru is with Labour when it comes to the bedroom tax. I am pleased that, like us, they recognise the cruelty and unfairness that is at the heart of this deeply flawed and ham-fisted attempt at social engineering. However, 365 days away from a general election, voters in Wales face a stark choice: a Labour Party that wants to scrap the bedroom tax; the Tories, who would go even further down the road of dismantling the welfare state; and the Lib Dems, who will happily support them if it means clinging on to power by their fingertips. I hope that they recognise that very clear political divide and help to deliver a Labour Government in 2015 that will scrap the bedroom tax and put fairness back at the very heart of our approach to housing.

Ni synnaf fod y Torïaid yn parhau i sefyll dros y polisi dieflig hwn. Wedi'r cyfan, maent yr un mor gaeth yn ideolegol i'r dreth ystafell wely ag yr oedd Thatcher i dreth y pen. Ond mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig iawn ynglŷn â naws a chynnwys y gwelliant a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru heddiw. Onid siarad dwbl gwleidyddol o'r math gwaethaf yw datgan cynnig cynhadledd fewnol yn galw am adolygu'r dreth ystafell wely ag ystyried mai cefnogaeth gyson Aelodau Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi helpu i gyflawni a chynnal y polisi hwn. Pan gododd Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Senedd i amddiffyn y dreth ystafell wely yn gadarn yn ystod y ddaidl hollbwysig yn ôl ym mis Tachwedd. A bod yn onest, roeddwn yn siomedig i weld cynnig a gyflwynwyd gan gydweithwyr yn y Cynulliad rwyf yn eu parchu ac wedi gweithio gyda hwy ers blynnyddoedd lawer yn defnyddio ymadroddion fel 'achosion teilwng' fel pe rhai tenantiaid yn haeddu cael eu taro gan y gosb greulon hon ac eraill nad ydynt yn haeddu hynny. Rwy'n gobeithio mai dim ond defnydd anffodus o iaith drwsogl oedd hyn ond nid oes neb yn gofyn am gael bod yn y sefyllfa hon. Os ydym yn dychwelyd i egwyddorion Oes Victoria o'r tlawd haeddiannol ac anhaeddiannol, yna rydym wedi cymryd cam mawr yn ôl ar y llwybr i gyfiawnder cymdeithasol yr oedd Democratiaid Rhyddfrydol yn y Siambr yn honni ei hyrwyddo ar un adeg.

Onid yw hyd yn oed pwynt 6, nad ydwyf o anghenraid yn anghytuno ag ef mewn egwyddor, yn cydnabod annhegwch cynhenid cosbi pobl sy'n denantiaid presennol, a hirsefydlog yn aml,—pobl fel un o fy etholwyr ym Mhont-y-pŵl, y clywais amdani ddoe ddiwethaf. Menyw yw hi sydd wedi byw yn ei chartref ers 20 mlynedd ac nid yw am symud gan ei bod yn byw drws nesaf at ei merch sy'n dod i mewn bob dydd i gynnig cymorth gyda choginio a glanhau. Ers cyflwyno'r dreth ystafell wely, nid yw ei hól-ddyledion wedi codi ond ychydig iawn, ond pan gysylltodd â'i chymdeithas tai yn gofyn am gymorth, daethant i wybod ei bod wedi gorfod benthyg ar log uchel a'i bod yn torri'n ôl ar danwydd a bwyd er mwyn dod trwyddi.

Dyma realiti trist sydd filiwn o filltiroedd i ffwrdd o welliannau'r Torïaid heddiw waeth faint o siarad a wnânt am fod eisiau mynd i'r afael â rhestrau aros, gorlenwi a digartrefedd—gan anwybyddu'r ffaith mai hwy a greodd lawer o'r problemau hyn eu hunain drwy gyflwyno'r hawl i brynu ac atal cynghorau rhag adeiladu cartrefi newydd yn lle'r rhai a gollwyd i'r sector preifat. Rwy'n falch iawn bod Plaid Cymru gyda Llafur pan ddaw i'r dreth ystafell wely. Rwy'n falch eu bod, fel ninnau, yn cydnabod y creulondeb a'r annhegwch sydd wrth wraidd yr ymgais ddiffygiol a thrwsogl hon i deilwra cymdeithas. Fodd bynnag, 365 diwrnod tan yr etholiad cyffredinol, mae pleidleiswyr yng Nghymru yn wynebu dewis anodd: Plaid Lafur sydd am gael gwared ar y dreth ystafell wely; y Torïaid, a fyddai'n mynd hyd yn oed ymhellach ar hyd y ffordd i ddatgymalu'r wladwriaeth les; a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a fydd yn hapus i'w cefnogi os'n golygu glynu at rym gerfydd blaenau eu bysedd. Rwy'n gobeithio y byddant yn gweld y rhaniad gwleidyddol clir hwn ac yn helpu i ddychwelyd Llywodraeth Lafur yn 2015 a fydd yn cael gwared ar y dreth ystafell wely ac yn rhoi tegwch yn ôl wrth wraidd ein dull o weithredu ym maes tai.

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn Ynys Môn, mae un o bob tri eiddo cymdeithasol yn cael eu taro gan y dreth ystafell wely. Yn ôl y ffigurau diweddaraf rwyf wedi eu cael, mae hynny'n effeithio ar 559 o denantiaid. O'r rheini, dim ond 99 sydd heb ôl-ddyledion rhent. Dyna ichi syniad o faint y broblem yng Nghymru. Fodd bynnag, beth yw'r dewis arall i'r rheini? Nid yw'r mwyafrif o'r rheini, yn naturiol, am symud o'u cartrefi—nid eu tai, ac rwy'n dewis fy ngeiriau yn ofalus, ond eu cartrefi, achos dyna yn union ydynt—lle maent efallai wedi byw ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, hyd yn oed i'r rhai sy'n barod i symud, nid oes unman iddynt i fynd. Mae prinder mawr o dai llai na thair llofft yn Ynys Môn, fel ardaloedd eraill, ac o ganlyniad, dim ond pump o deuluoedd sydd wedi gallu cael eu symud i eiddo llai ym Môn hyd yma. Nid yw symud i'r sector preifat yn opsiwn realistig ym Môn ychwaith. Byddai hynny'n costio mwy i'r trethdalwr, gyda'r lwfans tai lleol ym Môn am eiddo un ystafell wely yn y sector preifat yn £70.70 o'i gymharu gyda'r cyfartaledd rhent o £66 am eiddo cyngor gyda thair ystafell wely.

Hoffwn ddweud hefyd nad yw'r rhwyd diogelwch y taliadau tai yn ôl disgrisiwn yn ddim byd ond rhyw blaster bach ar friw go boenus. Mae ceisiadau am DHP wedi cynyddu 420% ers cyflwyno'r newidiadau lles, gyda dros 60% o'r ceisiadau o ganlyniad uniongyrchol i'r dreth ystafell wely. Mae'r broblem wedi rhoi pwysau ar y cyngor sir yn ogystal ag ar denantiaid, gyda Chyngor Sir Ynys Môn wedi gorfod cyflogi aelod newydd o staff llawn amser i ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol hwn. Fodd bynnag, pobl—unigolion a theuluoedd—sy'n dioddef annhegwch y dreth.

Mae cymaint o enghreifftiau unigol yn fy etholaeth i y gallwn eu crybwyll—y bobl sy'n ofni colli eu cartrefi am eu bod ar ei hôl hi gyda'u rhent; yr etholwr o Fryngwrn a oedd yn gorfod rhoi'r gorau i'w docyn bws £17 yr wythnos i chwilio am waith oherwydd bod y swm hwnnw rŵan yn cael ei gymryd drwy'r dreth ystafell wely.

Beth am fanc bwyd Pantri Pobl yng Nghaerdybi sy'n dweud bod pobl yn methu â choginio eu pecynnau bwyd oherwydd bod y dreth ystafell wely yn golygu na allant dalu am nwy na thrydan? Siawns nad yw hynny'n ddigon o reswm i Lywodraeth Llundain ailfeddwl ac i sylweddoli effaith wirioneddol y dreth ar unigolion ac, wrth gwrs, nifer o asiantaethau sy'n gweithio gyda nhw. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi teyrnged i'r asiantaethau hynny, i'r mudiadau gwirfoddol a thrydydd sector yn fy etholaeth sydd yn gweithio'n galed i helpu'r rhai sy'n dioddef oherwydd y dreth—Cyngor ar Bopeth, banciau bwyd a Chymunedau yn Gyntaf, i enwi ddim ond rhai.

On Anglesey, one in three social housing properties has been hit by the bedroom tax. According to the most recent figures that I have received, it affects 559 tenants there. Of those, only 99 do not have rent arrears. That gives you some concept of the scale of the problem in Wales. However, what is the alternative for those people? Most of them naturally do not want to move from their homes—I am not using the word 'houses', but 'homes', and am choosing my words carefully, because that is exactly what they are—where they might have lived for many years. However, even for those who are willing to move, there is nowhere for them to go. There is a great shortage of homes with fewer than three bedrooms on Anglesey, as is the case elsewhere and, as a result, only five families have been relocated to smaller properties on Anglesey to date. Moving to the private sector is not a realistic option on Anglesey either. It would cost more to the taxpayer, as the local housing allowance on Anglesey for a one-bedroomed property in the private sector is £70.70, compared with an average rent of £66 for council properties with three bedrooms.

I would also like to say that the safety net of discretionary housing payments is nothing but a small plaster on a painful wound. Applications for DHP have increased by 420% since the introduction of the welfare changes, with over 60% of the applications being a direct result of the bedroom tax. The problem has put pressure on the county council as well as tenants, with the Isle of Anglesey Council having to employ a new full-time member of staff to deal with the additional workload. However, it is people—individuals and families—who are suffering the unfairness of this tax.

There are so many individual examples from my constituency that I could mention—those people who are afraid that they will lose their homes because they are behind with their rent; the constituent from Bryngwrn who had to give up his £17 weekly bus pass used to seek work because that amount of funding was removed through the bedroom tax.

What about the Pantri Pobl food bank in Holyhead that states that people cannot actually cook their food packages because the bedroom tax means that they can no longer afford to pay for electricity or gas? Surely that is enough of a reason for the Government in London to rethink its policy and to realise the impact that this tax is having on individuals and, of course, a number of agencies working with them. I want to take this opportunity to pay tribute to those agencies, voluntary organisations and third sector organisations in my constituency that are working so hard to assist these people who are suffering as a result of the bedroom tax—Citizens Advice, food banks and Communities First, to name but a few.

I have mentioned plenty of reasons for the UK Government to sit up and realise the real impact of the bedroom tax—people in rent arrears fearful of evictions, people who can no longer afford to go to look for work, people who cannot afford to cook their emergency food bank parcels. This is the effect of the bedroom tax. May I respond here to Mark Isherwood's comments on DHP and other mitigation payments available? Does the fact that so much money is needed to mitigate the cruel effects of a Government policy not give you a clue that there is something radically wrong with that policy? So, it is up to the UK Government to act, but Plaid Cymru also believes that there are actions that the Welsh Government could be taking in the short term to mitigate the impact of the bedroom tax. We want to see a no-evictions policy where every effort is made to avoid a costly and damaging eviction. There should be added investment in advice services, for which funding uncertainty is already a constant worry but which have come under added strain due to welfare changes. The Welsh Government also has the power to meet the welfare shortfall by increasing the DHP pot—the First Minister estimated this to be between £8 million and £10 million—but if not the entire shortfall, as Jocelyn Davies suggested, why not prioritise and meet the shortfall for disabled people or families with children perhaps? These are positive proposals by Plaid Cymru to mitigate the devastating effects of this policy in Wales, but I hope that we will be able to send a very strong signal here today to the UK Government that it is time that the bedroom tax was scrapped.

Rwyf wedi crybwyll digon o resymau pam y dylai Llywodraeth y DU sylweddoli gwir effaith y dreth ystafell wely—pobl ag ôl-ddyledion rhent yn ofni cael eu troi allan, pobl nad ydynt yn gallu fforddio mynd i chwilio am waith mwyach, pobl na allant fforddio coginio eu parseli argyfwng o'r banc bwyd. Dyma effaith y dreth ystafell wely. A gaf fi ymateb yma i sylwadau Mark Isherwood am y taliadau tai yn ôl disgrisiwn a thaliadau lliniaru eraill sydd ar gael? Onid yw'r faiff fod angen cymaint o arian i liniaru effeithiau creulon polisi Llywodraeth yn rhoi diw i chi fod rhywbeth mawr o'i le gyda'r polisi hwnnw? Mater i Lywodraeth y DU yw gweithredu felly, ond mae Plaid Cymru hefyd yn credu bod camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd yn y tymor byr i liniaru effaith y dreth ystafell wely. Rydym am weld polisi dim troi allan lle y gwneir pob ymdrech i osgoi camau costus a niweidiol i droi pobl allan. Dylid buddsoddi arian ychwanegol mewn gwasanaethau cynghori, maes lle mae ansicrwydd ariannol eisoes yn peri pryder cyson ond sydd wedi dod o dan straen ychwanegol o ganlyniad i newidiadau lles. Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer hefyd i ateb y diffyg ym maes lles drwy gynyddu'r pot taliadau tai yn ôl disgrisiwn—amcangyfrifodd y Prif Weinidog fod hwn rhwng £8 miliwn a £10 miliwn—ond os nad y diffyg yn ei gyfanrwydd, pam na all flaenoriaethu, fel yr awgrymodd Jocelyn Davies, ac ateb y diffyg ar gyfer pobl anabl, neu deuluoedd â phlant efallai? Mae'r rhain yn gynigion cadarnhaol gan Plaid Cymru i liniaru effeithiau andwyol y polisi hwn yng Nghymru ond rwy'n gobeithio y gallwn anfon neges gref iawn heddiw at Lywodraeth y DU ei bod yn bryd i'r dreth ystafell wely gael ei dileu.

16:47

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that this is one of the meanest spirited taxes that could ever have been thought up by any Government. What has happened to the concept of a home for life? What has happened to the idea that social housing is there for people for people to live in dignity and to be treated with respect? It has been said over and over today in the points that have been made that two thirds of the people affected by this tax are disabled. I think that it is very sad that the Liberal Democrats have had to fight hard for disabled children to be exempted—and for foster carers and army personnel. It just seems inconceivable that anybody could have made a policy thinking that people who were foster carers should not have an empty room to put the foster child in. It just seems absolutely inconceivable that such a policy should have been thought of. Also, of course, there is the issue of army personnel. Earlier on today in the Assembly, Christopher Caruana from Cardiff said,

'I took a bullet in the chest while serving in Northern Ireland. Both my ankles have crumbled and so my house has a stair lift and walk-in shower. I have lived in my home with my wife for 27 years. My kids live just round the corner. Where is the justice in trying to force me out?'

Credaf fod hon yn un o'r trethi mwyaf crintachlyd y gallai unrhyw Lywodraeth fod wedi'i dyfeisio. Beth ddigwyddodd i'r cysyniad o gartref am oes? Beth ddigwyddodd i'r syniad o dai cymdeithasol i bobl allu byw ynddynt gydag urddas ac i gael eu trin â pharch? Dywedwyd drosodd a throsodd yn y pwyntiau a wnaed heddiw fod dwy ran o dair o'r bobl y mae'r dreth hon yn effeithio arnynt yn anabl. Rwy'n meddwl ei bod yn drist iawn fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gorfod ymladd yn galed dros eithrio plant anabl—a thros eithrio gofaluwr maeth a phersonél y fyddin. Mae'n ymddangos yn annirnadwy y gallai unrhyw un fod wedi llunio polisi gan feddwl na ddylai pobl sy'n ofaluwr maeth gael ystafell wag i roi'r plentyn maeth ynddi. Mae'n ymddangos yn gwbl annirnadwy fod unrhyw un wedi meddwl am bolisi o'r fath. Hefyd, wrth gwrs, ceir mater personél y fyddin. Yn gynharach heddiw yn y Cynulliad, dywedodd Christopher Caruana o Gaerdydd,

'I took a bullet in the chest while serving in Northern Ireland. Both my ankles have crumbled and so my house has a stair lift and walk-in shower. I have lived in my home with my wife for 27 years. My kids live just round the corner. Where is the justice in trying to force me out?'

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A policy that ends up in that sort of situation I do not think can be defended. Many people have made an emotional investment in a house, in a street, in an area. We all have that sort of emotional investment, and to have the uncertainty that is being created by this tax is, I think, outrageous. It is a corrosive tax that undermines people's sense of security and wellbeing. My view is that, as politicians, we should try to open up life to people and, with this sort of policy, we are shutting it down. We are causing this intense anxiety and we are undermining people's ability to live fulfilled lives.

I just want to highlight a couple of points. First of all, it is obvious that the majority of people have not moved who are hit by the bedroom tax. I believe that it is estimated that only 6% of people have moved as a result of the benefit changes. Secondly, as others have said, there is not enough accommodation even if they wanted to move. The policy was made without any assessment at all of the housing stock. Thirdly, the tax hits women disproportionately. I am sure that other people have had the briefing from Chwarae Teg that says that more women are social housing tenants than men and many will be single parents. This, coupled with the wider welfare reforms, which impacts more negatively on women than men, is of huge concern. We also know that Wales is estimated to be disproportionately affected. According to the DWP's own impact assessment, it is the hardest hit by the bedroom tax.

All of this destroys people's potential to live a fulfilling life. It curtails people's ability to do simple, enriching things, such as having their grandchildren to stay over, because their children have left home and perhaps grandchildren have been born. One of the great pleasures and fulfilling things in life is to be able to have somewhere where you can have your grandchildren to stay, and this is no being denied to some people. I think that it is inconceivable that the Government could have thought about this.

Also, of course, disabled people have been disproportionately hit by the tax. It means that they are living under the threat of less money or the huge disruption that a move would bring. Of course, in these instances, we have what I can only call the 'lunacy' of the state having provided funding for adaptation to cater for disability and then a different arm of the state seeking to coerce the disabled person into moving. There is a complete disregard for the important of the networks of support and of family and friends who are local to disabled people and the amount that this saves the state via social services budgets. This is happening at the same time as local social services authorities are being pressed into making cuts in service. I think that it is further evidence of the cynicism of the UK Government that it is discarding disabled people and leaving them to fend for themselves. There will be a huge issue of what happens when these rent arrears, which have already started, accumulate. What are the social housing landlords to do? What happens? Do they evict those disabled people? It is a situation that is absolutely horrendous.

Ni chredaf y gellir amddiffyn polisi sy'n creu sefyllfa o'r fath. Mae llawer o bobl wedi buddsoddi'n emosiynol mewn tŷ, mewn stryd, mewn ardal. Rydym oll yn gwybod am y math hwn o fuddsoddiad emosiynol ac mae'r ansicrwydd sy'n cael ei greu gan y dreth hon yn warthus yn fy marn i. Mae'n dreth gyrydol sy'n tanseilio ymdeimlad pobl o ddiogelwch a lles. Yn fy marn i, agor bywyd i bobl y dylem ei wneud fel gwleidyddion, ond gyda'r math hwn o bolisi, cyfyngu arno a wnawn. Rydym yn achosi'r pryder dwys hwn ac rydym yn tanseilio gallu pobl i fyw bywydau llawn.

Rwyf am dynnu sylw at un neu ddau o bwyntiau'n unig. Yn gyntaf oll, mae'n amlwg nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu taro gan y dreth ystafell wely wedi symud. Rwy'n credu mai dim ond 6% o bobl yr amcangyfrifwyd eu bod wedi symud o ganlyniad i newidiadau yn y budd-daliadau. Yn ail, fel y mae eraill wedi'i ddweud, nid oes llety digonol ar gael hyd yn oed pe baent am symud. Cafodd y polisi ei wneud heb unrhyw asesiad o gwbl o'r stoc dai. Yn drydydd, mae'r dreth yn taro menywod yn anghymesur. Rwy'n siŵr bod pobl eraill wedi cael y briff gan Chwarae Teg sy'n dweud bod mwy o fenywod nag o ddyinion yn denantiaid tai cymdeithasol a bydd llawer yn rhieni sengl. Gyda'r diwygiadau lles ehangach sy'n effeithio'n fwy negyddol ar fenywod na dynion, mae hyn yn destun pryder mawr. Gwyddom hefyd yr amcangyfrifir bod Cymru yn cael ei heffeithio'n anghymesur. Yn ôl asesiad effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hun, Cymru sy'n dioddef waethaf yn sgil y dreth ystafell wely.

Mae hyn oll yn dinistrio potensial pobl i fyw bywydau llawn. Mae'n cyfyngu ar allu pobl i wneud pethau syml sy'n cyfoethogi bywyd fel cael eu hwyron i aros dros nos, am fod eu plant wedi gadael cartref ac efallai bod wyron wedi cael eu geni. Un o'r pleserau mawr a mwyaf boddhaol mewn bywyd yw gallu cael rhywle i allu cael eich wyron i aros ac nid yw hyn yn cael ei wrthod i rai pobl. Mae'n anodd dirnad y gallai'r Llywodraeth fod wedi meddwl am hyn.

Hefyd, wrth gwrs, mae pobl anabl wedi cael eu taro'n anghymesur gan y dreth. Mae'n golygu eu bod yn byw dan fygythiad o lai o arian neu'r aflonyddwch enfawr y byddai symud yn ei olygu. Wrth gwrs, yn yr achosion hyn, mae gennym yr hyn na allaf ond ei alw'n 'ynfydrwydd' y wladwriaeth yn rhoi arian tuag at addasu adeiladau ar gyfer anabledd a braich arall y wladwriaeth yn ceisio gorfodi'r unigolyn anabl i symud. Caiff pwysigrwydd rhwydweithiau cymorth a theulu a ffrindiau lleol pobl anabl ei ddiystyru'n llwyr, yn ogystal â'r swm o arian y mae'r rhain yn ei arbed i'r wladwriaeth drwy gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn digwydd yr un pryd ag y mae awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol yn cael eu gwasgu i wneud toriadau yn y gwasanaethau. Rwy'n credu mai tystiolaeth bellach o sinigiaeth Llywodraeth y DU yw'r modd y mae'n diystyru pobl anabl ac yn eu gadael i ofalu amdanynt eu hunain. Bydd yr hyn sy'n digwydd pan fydd yr ôl-ddyledion rhent yn cronni yn broblem enfawr ac mae hyn eisoes wedi dechrau. Beth y mae'r landlordiaid tai cymdeithasol yn mynd i wneud? Beth fydd yn digwydd? A ydynt yn mynd i droi pobl anabl allan? Mae'n sefyllfa gwbl erchyll.

In conclusion, as I said earlier, I see our role as politicians as widening people's opportunities, such as bringing in childcare to enable families to have far more opportunities, when they have someone to look after their children, but this tax restricts people's opportunities. It literally tries to make their lives smaller and reduces the number of choices that they have. It is nothing more than a tax on people's potential and possibilities and I think that the Government should be ashamed of it.

I gloi, fel y dywedais yn gynharach, rwy'n ystyried mai ein rôl fel gwleidyddion yw ehangu cyfleoedd pobl, megis cyflwyno gofal plant i alluogi teuluoedd i gael llawer mwy o gyfleoedd, pan fydd ganddynt rywun i ofalu am eu plant, ond mae'r dreth hon yn cyfyngu ar gyfleoedd pobl. Mae'n llythrennol yn ceisio gwneud eu bywydau'n llai ac mae'n lleihau nifer y dewisiadau sydd ganddynt. Nid yw'n ddim mwy na threth ar botensial a phosibiliadau pobl ac rwy'n credu y dylai'r Llywodraeth fod â chywilydd ohoni.

16:52

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, happy birthday indeed to the bedroom tax. There will be no birthday cards from this side or from many people in Wales. I want to focus on the impact of the so-called bedroom tax on disabled people in Wales—our most vulnerable people.

At this point, I want to thank Wales and West Housing and Community Housing Cymru for providing some important information about the finances involved, but not expressing opinions. It is easy enough for Cameron and his millionaire cronies to say that people who have what they call an extra bedroom should move in order to downsize. You try telling that to disabled people who live in adapted properties in social housing. I am from social housing myself, by the way. Over £0.5 million has been spent on adapting homes for residents in just one housing association that I know. If these residents are forced to move because they are classed as under-occupying, much of that investment will be wasted and more money will be needed to adapt other homes for those people to live in.

It is estimated that the likely cost of readapting homes for the whole of Wales will be £40 million. That is £25 million having already been spent on adaptations to existing properties and £15 million that would be needed to be spent on adaptations to the smaller homes that they are moving to, assuming, of course, that there are enough smaller homes available, which, as we all know, is highly unlikely. That is a criminal waste of money, and what is the Tory-Lib Dem answer to all of this? Well, discretionary housing payments. We have heard it mentioned here. However, even the UK Minister responsible for all of this admits that these payments are

'not intended to cover every shortfall created by Housing Benefit reforms',

and then goes on to say that local authorities are told in advance how many DHPs they are going to get

'so that they can budget accordingly'.

What on earth does that mean? I will tell you what it means. It means that if there is not enough money to offset any reduction in housing benefit, you will just have to find the money from somewhere else. That is easy for cash-strapped local authorities to do.

Wel, pen-blwydd hapus yn wir i'r dreth ystafell wely. Ni fydd cardiau pen-blwydd o'r ochr hon nac oddi wrth lawer o bobl yng Nghymru. Rwyf am ganolbwyntio ar effaith yr hyn a elwir yn dreth ystafell wely ar bobl anabl yng Nghymru—ein pobl fwyaf agored i niwed.

Ar y pwynt hwn, hoffwn ddiolch i Gymdeithas Tai Wales and West a Cartrefi Cymunedol Cymru am ddarparu gwybodaeth bwysig am y cyllid dan sylw, ond heb fynegi barn. Mae'n ddigon hawdd i Cameron a'i gyfeillion sy'n filiwnyddion ddweud y dylai pobl sydd â'r hyn y maent yn ei galw'n ystafell wely ychwanegol symud i dŷ llai. Ceisiwch chi ddweud hynny wrth bobl anabl sy'n byw mewn eiddo cymdeithasol wedi'i addasu. Rwy'n gynnyrch tai cymdeithasol fy hun, gyda llaw. Gwariwyd dros £0.5 miliwn ar addasu cartrefi ar gyfer trigolion mewn un gymdeithas dai'n unig y gwn amdani. Os gorfodir y trigolion hyn i symud am eu bod wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n tanfeddiannu, bydd llawer o'r buddsoddiad hwnnw'n cael ei wastraffu a bydd angen mwy o arian i addasu cartrefi eraill i'r bobl hyn allu byw ynddynt.

Amcangyfrifir y bydd y gost debygol o ail-addasu cartrefi ar gyfer Cymru gyfan yn £40 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £25 miliwn a wariwyd eisoes ar addasu eiddo presennol a £15 miliwn y byddai angen ei wario ar addasiadau i'r cartrefi llai y byddent yn symud iddynt, gan dybio, wrth gwrs, bod digon o gartrefi llai ar gael, sydd fel y gwyddom, yn annhebygol iawn. Mae hynny'n wastraff arian anfaddeuol a beth yw ateb y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol i hyn oll? Wel, taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Rydym wedi'i glywed yn cael ei grybwyll yma. Fodd bynnag, mae hyd yn oed Gweinidog y DU sy'n gyfrifol am hyn oll yn cyfaddef bod y taliadau hyn

'not intended to cover every shortfall created by Housing Benefit reforms',

ac mae'n mynd ymlaen i ddweud bod awdurdodau lleol yn cael gwybod ymlaen llaw faint o daliadau tai yn ôl disgrisiwn y maent yn mynd i gael

'so that they can budget accordingly'.

Beth ar y ddaear y mae hynny'n ei olygu? Dywedaf wrthyb beth y mae'n ei olygu. Mae'n golygu, os nad oes digon o arian i ddigolledu gostyngiadau mewn budd-daliadau tai, bydd yn rhaid i chi ddod o hyd i'r arian o rywle arall. Mae hynny'n hawdd i awdurdodau lleol sy'n brin o arian ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What has been the impact so far of the Tory-Lib Dem welfare reforms on disabled people generally and on those living in adapted homes? Disabled people have suffered from the onslaught on benefits in two major areas: the coalition Government introduced means-testing for the employment and support allowance that reduces the entitlements that people have had; and, secondly, the replacement of disability allowance with personal independence payments. Add to that the performance of Atos in assessing disabled people as capable of working when they are clearly incapable of doing so, and we are left wondering what on earth this Westminster Government has got against disabled people.

When we come to the bedroom tax and its impact on disabled people, first of all, there are not enough suitably adapted homes for disabled people to downsize into. Secondly, many of those people are already in arrears with their rent and are in danger of losing their homes anyway. That, Messrs Cameron and Clegg, is the real world. Try to get into the real world, I beg you. In Wales, more than 35,000 people have been affected by the bedroom tax and around 80% of those have some form of disability.

What does Plaid Cymru want to do about the impact of welfare reforms and, in particular, the bedroom tax on the people of Wales? Quite naturally and easily, we want to abolish the bedroom tax full stop. At the very least, as far as disabled people are concerned, we want them to be exempt from having to move or suffer housing benefit cuts of up to 25% and, secondly, we want the UK Government to disregard disability-related benefits, such as the disability living allowance, as income in assessing the income of disabled residents living in social housing. Finally, of course, we want a clear majority of Members in this Senedd to support our proposals and, by doing so, to give a clear message to local authorities and housing associations in Wales that we want to free them from having to put into practice a welfare reform that they do not support. I worked for 25 years in social housing, and, let me tell you, those people care about their tenants. Happy birthday, bedroom tax—there will be no birthday party or presents, just literally abject misery. Happy birthday indeed.

Hyd yn hyn, beth fu effaith diwygiadau lles y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar bobl anabl yn gyffredinol ac ar bobl sy'n byw mewn cartrefi a addaswyd? Mae pobl anabl wedi dioddef yn sgîl yr ymosodiad ar fudd-daliadau mewn dau faes o bwys: cyflwynodd Llywodraeth y glymblaid brawf modd ar gyfer y lwfans cyflogaeth a chymorth sy'n cyfyngu ar yr hyn y mae gan bobl hawl i'w gael; ac yn ail, cyflwynodd daliadau annibyniaeth bersonol yn lle'r lwfans anabled. At hynny, ychwanegwch berfformiad Atos yn asesu bod pobl anabl yn gallu gweithio pan oeddent yn amlwg yn analluog i wneud hynny, mae'n gwneud i ni feddwl beth ar y ddaear sydd gan Lywodraeth San Steffan yn erbyn pobl anabl.

Wrth ystyried y dreth ystafell wely a'i heffaith ar bobl anabl, yn gyntaf oll, nid oes digon o gartrefi wedi'u haddasu'n briodol i bobl anabl symud iddynt. Yn ail, mae gan lawer o'r bobl hynny ôl-ddyledion rhent eisoes ac maent mewn perygl o gollu eu cartrefi beth bynnag. Dyna'r byd go iawn, Mr Cameron a Mr Clegg. Ceiswch ddod i mewn i'r byd go iawn, rwy'n erfyn arnoch. Yng Nghymru, mae mwy na 35,000 o bobl wedi cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely ac mae gan oddeutu 80% o'r rheini ryw fath o anabled.

Beth y mae Plaid Cymru am ei wneud ynglŷn ag effaith diwygiadau lles ar bobl Cymru, yn enwedig y dreth ystafell wely? Yn naturiol ac yn ddigon syml, rydym yn awyddus i ddiddymu'r dreth ystafell wely a dyna ni. Fan lleiaf, rydym am i bobl anabl gael eu heithrio rhag gorfod symud neu ddioddef toriadau o hyd at 25% yn eu budd-dal tai ac yn ail, rydym am i Lywodraeth y DU ddiystyru budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabled megis y lwfans byw i'r anabl fel incwm wrth asesu incwm trigolion anabl sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Yn olaf, wrth gwrs, rydym am weld mwyafrif clir o'r Aelodau yn y Senedd hon yn cefnogi ein cynigion ac yn anfon neges glir drwy wneud hynny i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru ein bod eisieu eu rhyddhau rhag gorfod gweithredu diwygiadau lles nad ydynt yn eu cefnogi. Bùm yn gweithio am 25 mlynedd ym maes tai cymdeithasol a gadewch i mi ddweud wrthy, mae'r bobl hynny yn malio am eu tenantiaid. Pen-blwydd Hapus, dreth ystafell wely—ni fydd parti nac anrhegion pen-blwydd, dim ond diflastod llwyr. Pen-blwydd hapus yn wir.

16:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf y Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant.

I call the Minister for Housing and Regeneration, Carl Sargeant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:57 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity today to reiterate our position on the bedroom tax that has brought unnecessary hardship to around 40,000 households in Wales, as well as creating significant problems for landlords. May I say very clearly, as the Members on the Plaid Cymru benches have been saying today, we call, as a Labour administration and Government here in Wales, for the abolition of the bedroom tax? It is very plain; it is very simple.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle heddiw i ailadrodd ein safbwynt ar y dreth ystafell wely sydd wedi creu caledi diangen i tua 40,000 o aelwydydd yng Nghymru yn ogystal â chreu problemau sylweddol i landlordiaid. A gaf fi ddweud yn glir iawn fel y mae'r Aelodau ar feinciau Plaid Cymru wedi bod yn ei ddweud heddiw, fel gweinyddiaeth Lafur a'r Llywodraeth yma yng Nghymru, galwn am ddiddymu'r dreth ystafell wely. Mae'n amlwg iawn; mae'n syml iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Housing benefit is non-devolved. We cannot control the policy; we are just left to pick up the pieces. The bedroom tax was intended to incentivise tenants to move to 'more suitably sized' accommodation but, clearly, there just are not enough one and two-bedroomed properties to meet the demand. It was also intended to free up larger properties, but housing associations, again, report that these properties are becoming increasingly unaffordable, which is increasing their voids. It was intended to create improved work incentives for working-age claimants, but the only incentive that I can see is fear—fear for families of losing their homes.

The bedroom tax has cost the Welsh social rented sector £23 million in 2013-14. Discretionary housing payment increases are welcome, but these are increases from a very low base—only £7 million in 2013-14. The quart in a pint pot scenario springs to mind. This discretionary payment fund is the UK Government's half-baked response to financial problems caused by the bedroom tax. It is nowhere near enough money to deal with the issue.

There has also been a campaign by opposition parties, based on questionable mid-year statistics, to rubbish local authorities for the way they have administered their allocations. Let me tell you that 21 out of the 22 Welsh local authorities spent 100% of their allocation last year, and the other authority spent 98% of its allocation. Do not tell me that we are not delivering through local authorities. This Chamber should be praising the work of local authorities across Wales and of many others who are doing great work to cope with the impacts of welfare reform. Local authorities are able to top up the discretionary housing payments by two and a half times the amount allocated by the DWP. However, this is referred to in both amendments as the cap, but councils cannot afford to top up the payments to this level.

So, how are tenants coping? Many Members today have told us how. They are not—plain and simple. In November 2013, Community Housing Cymru reported that housing association rent arrears had increased by £1 million due to the bedroom tax alone. This figure was expected to rise to £2 million by April 2014. The Trussell Trust reports that nearly 1 million emergency food parcels were handed out in 2013—a staggering 163% increase—with a third going to children. The DWP responded by saying that there is no robust evidence that welfare reforms are linked to an increase in the use of food banks. 'Rubbish', I say.

I would now like to address the amendments to the motion. I am astonished by the Liberal Democrats' contribution this afternoon. Peter Black, his party's spokesperson for social justice, has clearly lost the way in terms of social justice in representing his party. They are the party propping up the Conservatives in the UK Government in the introduction of this bedroom tax. I will take no lessons from them saying that they did this or did that to protect certain groups. They are part of the big plan by the UK Government to have a big effect on Welsh and UK residents, as many Members have alluded to today.

Mae budd-dal tai yn fater heb ei ddatganoli. Ni allwn reoli'r polisi; cawn ein gadael i glirio'r llanast ar ei ôl. Bwriad y dreth ystafell wely oedd cymell tenantiaid i symud i lety 'o faint mwy addas' ond yn amlwg, nid oes digon o eiddo un a dwy ystafell wely ar gael i ateb y galw. Roedd bwriad hefyd i ryddhau eiddo mwy o faint ond mae cymdeithasau tai, unwaith eto, yn dweud bod eiddo o'r fath yn mynd yn fwyfwy anfforddiadwy, sy'n cynyddu eu nifer o unedau gwag. Y bwriad oedd creu gwell cymhellion i weithio ar gyfer hawlwr o oedran gweithio ond yr unig gymhelliad y gallaf ei weld yw ofn—ofn teuluoedd eu bod yn mynd i golli eu cartrefi.

Costiodd y dreth ystafell wely £23 miliwn i'r sector rhentu cymdeithasol yng Nghymru yn 2013-14. Mae cynnydd mewn taliadau tai yn ôl disgrisiwn i'w croesawu ond cynnydd o sylfaen isel iawn yw hwn—dim ond £7 miliwn yn 2013-14. Daw senario'r chwart mewn gwyrd peint i'r meddwl. Y gronfa daliadau yn ôl disgrisiwn yw ymateb hanner pob Llywodraeth y DU i broblemau ariannol a achosir gan y dreth ystafell wely. Nid yw'n agos at fod yn ddigon o arian i fynd i'r afael â'r mater.

Hefyd, cafwyd ymgyrch gan y gwrthbleidiau, yn seiliedig ar ystadegau canol blwyddyn amheus, i ladd ar awdurdodau lleol am y ffordd y maent wedi gweinyddu eu dyraniadau. Gadewch i mi ddweud wrthyh fod 21 o 22 awdurdod lleol Cymru wedi gwario 100% o'u dyraniad y llynedd a gwariodd yr awdurdod arall 98% o'i ddyraniad. Peidiwch â dweud wrthyf nad ydym yn cyflawni drwy'r awdurdodau lleol. Dylai'r Siambr hon fod yn canmol gwaith awdurdodau lleol ledled Cymru a llawer o bobl eraill sy'n gwneud gwaith gwych i ymdopi ag effeithiau diwygio lles. Mae awdurdodau lleol yn gallu ychwanegu hyd at ddwywaith a hanner y swm a ddyrannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau at y taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Fodd bynnag, cyfeirir at hyn yn y ddau welliant fel y cap ond ni all cyngorau fforddio ychwanegu at y taliadau at y lefel hon.

Felly sut y mae tenantiaid yn ymdopi? Mae llawer o Aelodau heddiw wedi dweud wrthym sut. Mae'n syml—nid ydynt yn ymdopi. Ym mis Tachwedd 2013, adroddodd Tai Cymunedol Cymru fod ôl-ddyledion rhent cymdeithasau tai wedi cynyddu £1 filiwn oherwydd y dreth ystafell wely'n unig. Roedd disgwyl i'r ffigur hwn godi i £2 filiwn erbyn Ebrill 2014. Mae Ymddiriedolaeth Trussell yn nodi bod bron i 1 filiwn o barseil bwyd argyfwng wedi'u dosbarthu yn 2013—cynnydd syfrdanol o 163%—gyda thraean ohonynt ar gyfer plant. Ymatebodd yr Adran Gwaith a Phensiynau drwy ddweud nad oes tystiolaeth gadarn bod cysylltiad rhwng diwygiadau lles a chynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd. 'Rwtsh' meddaf fi.

Hoffwn droi yn awr at y gwelliannau i'r cynnig. Rwy'n cael fy synnu gan gyfraniad y Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma. Mae Peter Black, llefarydd ei blaid ar gyfiawnder cymdeithasol, yn amlwg wedi colli'r ffordd o ran cyfiawnder cymdeithasol wrth gynrychioli ei blaid. Dyma'r blaid sy'n cynnal y Ceidwadwyr yn Llywodraeth y DU wrth iddi gyflwyno'r dreth ystafell wely hon. Ni chymeraf unrhyw wersi ganddynt yn dweud eu bod yn gwneud y peth hwn neu'r peth arall i amddiffyn rhai grwpiau. Maent yn rhan o gynllun mawr Llywodraeth y DU i gael effaith fawr ar drigolion Cymru a'r DU, fel y cyfeiriodd nifer o Aelodau ato heddiw.

The UK Government has offered to transfer the power to set the cap on discretionary housing payment to Scotland. If Scotland accepts this offer, it will have the flexibility to pass on more funding from its block grant to local authorities. That does not apply to Wales.

I listened very carefully to the contribution made by Jocelyn Davies, asking what we can do, rather than political point scoring of saying, 'We just don't want this'. I have been in lots of correspondence with Lord Freud. Only recently, I wrote to him around the issue of disabled claimants with regard to housing allowance. We asked the UK Government for a fund to support additional guidance for people to understand exactly what this non-devolved bedroom tax means, and how people can be supported. Unfortunately, Lord Freud refused to offer any more support in that process.

I would like to address Paul Davies's amendment very briefly. I will be opposing it today. The cap is not being changed in Wales. The size criteria rules in the private rented sector are fundamentally different to the ones in the bedroom tax, and there is no compulsion within the revised guidance for local authorities to prioritise disabled tenants. It is shameful, as Lindsay Whittle said, that disabled people are not exempt from the bedroom tax, particularly when they are living in specially adapted properties. Wales and West Housing Association estimates that applying the bedroom tax in these cases will cost the public purse around £40 million: that is, £25 million that has already been spent on adaptations and £15 million to adapt new, smaller properties.

As one of the Ministers on the task and finish group, we have written to Lord Freud seeking an exemption for disabled tenants living in significantly adapted accommodation. The response we got was predictably scathing. He rejected again our request to exempt disabled tenants. First, Lord Freud, in his letter, corrected our terminology; he said to us, 'Please don't refer to it as the bedroom tax, as it is not a tax'. There is something that he seems to have forgotten as he used that phrase in the House of Commons recently, when he referred to it as 'the bedroom tax'. However, he does not like us calling it that. Secondly, he advised that it was too complicated to ensure exemptions for people living in properties with significant adaptations, and that discretionary housing payments should be used in these cases.

To conclude, in Wales we are doing our best to help with our partners, such as CHC and other organisations, to mitigate the impact of the bedroom tax and other welfare reforms. We have set up a task and finish group to work with the housing sector. It recently reported on 16 recommendations, many of which we have acted upon. We have provided an additional £1.3 million to further top up discretionary housing payments. We have made £20 million available to support the building of one and two-bedroomed new affordable homes. We are investing a further £20 million over the next two financial years for smaller properties.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig trosglwyddo'r pŵer i osod y cap ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn i'r Alban. Os yw'r Alban yn derbyn y cynnig, bydd ganddi'r hyblygrwydd i drosglwyddo mwy o arian o'i grant bloc i awdurdodau lleol. Nid yw hynny'n gymwys i Gymru.

Gwrandewais yn astud iawn ar gyfraniad Jocelyn Davies a ofynnai beth y gallwn ei wneud yn hytrach na sgorio pwyntiau gwleidyddol drwy ddweud, 'Nid ydym eisiau hyn'. Rwyf wedi gohebu cryn dipyn â'r Arglwydd Freud. Ysgrifennais ato'n ddiweddar ynglŷn â mater lwfans tai i hawlwr anabl. Gofynasom i Lywodraeth y DU am gronfa i gefnogi canllawiau ychwanegol i bobl allu deall yn union beth y mae'r dreth ystafell wely hon nad yw wedi'i datganoli yn ei olygu a sut y gellir cynorthwyo pobl. Yn anffodus, gwrthododd yr Arglwydd Freud gynnig cymorth ychwanegol yn y broses honno.

Hoffwn roi sylw i welliant Paul Davies yn fyr iawn. Byddaf yn ei wrthwynebu heddiw. Nid yw'r cap yn cael ei newid yng Nghymru. Mae'r rheolau meini prawf maint yn y sector rhentu preifat yn sylfaenol wahanol i rai'r dreth ystafell wely ac nid oes gorfodaeth o fewn y canllawiau diwygiedig i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i denantiaid anabl. Mae'n gywilyddus, fel y dywedodd Lindsay Whittle, nad yw pobl anabl yn cael eu heithrio o'r dreth ystafell wely yn enwedig pan fyddant yn byw mewn eiddo a addaswyd yn arbennig. Mae Cymdeithas Tai Wales and West yn amcangyfrif y bydd cymhwyso'r dreth ystafell wely yn yr achosion hyn yn costio tua £40 miliwn i'r pŵrs cyhoeddus: hynny yw, £25 miliwn sydd eisoes wedi'i wario ar addasiadau a £15 miliwn i addasu eiddo newydd llai o faint.

Fel un o'r Gweinidogion yn y grŵp gorchwyl a gorffen, rydym wedi ysgrifennu at yr Arglwydd Freud yn gofyn am eithrio tenantiaid anabl sy'n byw mewn llety wedi'i addasu'n sylweddol. Roedd yr ymateb a gawsom yn ddeifiol fel y gellid disgwyl. Gwrthododd unwaith eto ein cais i eithrio tenantiaid anabl. Yn gyntaf yn ei lythyr, cywirodd yr Arglwydd Freud ein terminoleg, drwy ddweud wrthym am beidio â chyfeirio ati fel y dreth ystafell wely gan nad yw'n dreth. Dyna rywbeth y mae i'w weld wedi'i anghofio gan iddo ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw yn Nhŷ'r Cyffredin yn ddiweddar wrth gyfeirio ati fel 'y dreth ystafell wely'. Fodd bynnag, nid yw'n hoffi i ni ei galw'n hynny. Yn ail, dywedodd fod sicrhau eithriadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn eiddo wedi'i addasu'n sylweddol yn rhy gymhleth ac y dylid defnyddio taliadau tai yn ôl disgrisiwn yn yr achosion hyn.

I gloi, yng Nghymru, rydym yn gwneud ein gorau i helpu gyda'n partneriaid megis Cartrefi Cymunedol Cymru a sefydliadau eraill i liniaru effaith y dreth ystafell wely a diwygiadau lles eraill. Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i weithio gyda'r sector tai. Yn ei adroddiad yn ddiweddar, nododd 16 o argymhellion ac rydym wedi gweithredu ar lawer ohonynt. Rydym wedi darparu £1.3 miliwn ychwanegol i gynyddu taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Rydym wedi rhyddhau £20 miliwn i gefnogi'r gwaith o adeiladu cartrefi newydd fforddiadwy un a dwy ystafell wely. Rydym yn buddsoddi £20 miliwn pellach dros y ddwy flynedd ariannol nesaf ar gyfer eiddo llai.

Julie Morgan alluded to the very fact that only 6% of people have actually moved on to smaller accommodation when the DWP's target was indeed 25%. Finally, I believe that it is only a matter of time before the whole policy comes crashing down around the UK Government's feet. This is a decision made by the Conservatives, propped up by the Liberal Democrats, which they show no shame about. It is absolutely shameful.

Cyfeiriodd Julie Morgan at y ffaith mai dim ond 6% o bobl sydd wedi symud i lety llai er bod targed yr Adran Gwaith a Phensiynau yn 25%. Yn olaf, rwy'n credu mai dim ond mater o amser yw hi cyn i'r polisi cyfan ddisgyn yn chwilfrw wrth draed Llywodraeth y DU. Mae hwn yn benderfyniad a wnaed gan y Ceidwadwyr a'i gynnal gan y Democratiaid Rhyddfrydol nad ydynt yn dangos unrhyw gywilydd yn ei glych o gwbl. Mae'n gwbl ddigywilydd.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

I call on Jocelyn Davies to respond to the debate.

17:05 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It has been an interesting debate, and I am delighted, obviously, to respond to it. First, the amendments were incredibly lengthy for the very briefest of motions. I am sorry; I cannot support them. The Lib Dem amendment was almost acceptable, and I welcome much of what is in it; however, I object to describing people as 'deserving cases'. The Tory amendment is, of course, less palatable and repeats the mistake that Labour introduced the bedroom tax in the private sector. You continue to confuse it with the local housing allowance. If you prefer, of course, to pretend that it was not introduced by Thatcher as a rent control measure on deregulation in the 1980s, that is up to you, but you are wrong. Incidentally, you also promised, in opposition, to abolish that local housing allowance if you won the elections. Of course, the world is still waiting.

Mae hi wedi bod yn ddadl ddiddorol ac rwy'n amlwg yn falch tu hwnt i ymateb iddi. Yn gyntaf, roedd y gwelliannau'n anhygoel o hir ag ystyried bod y cynnig mor fyr. Mae'n ddrwg gennyf; ni allaf eu cefnogi. Roedd gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol bron yn dderbyniol ac rwy'n croesawu llawer o'r hyn sydd ynddo; fodd bynnag, rwy'n gwrthwynebu disgrifio pobl fel 'achosion teilwng'. Mae gwelliant y Toriaid, wrth gwrs, yn llai derbyniol ac mae'n ailadrodd y camgymeriad mai Llafur a gyflwynodd y dreth ystafell wely yn y sector preifat. Rydych yn parhau i ddrysau rhyngddo a'r lwfans tai lleol. Wrth gwrs, os yw'n well gennych esgus na chafodd ei gyflwyno gan Thatcher fel mesur rheoli rhent wrth ddadreoileiddio yn y 1980au, gwnewch chi hynny ond rydych yn anghywir. Gyda llaw, gwnaethoch addewid hefyd pan oeddech yn wrthblaid y byddech yn diddymu'r lwfans tai lleol pe baech yn ennill yr etholiad. Wrth gwrs, mae'r byd yn dal i aros.

I thought that Peter Black made a thoughtful contribution and I agree with much of it, but I cannot see somehow the Lib Dems rushing back into Government with a party that insists on maintaining this policy.

Roeddwn i'n meddwl bod cyfraniad Peter Black yn feddylgar ac rwy'n cytuno â llawer ohono ond rywsut, ni allaf weld y Democratiaid Rhyddfrydol yn rhuthro'n ôl i mewn i'r Llywodraeth gyda phlaid sy'n mynnu cadw'r polisi hwn.

In terms of Mark Isherwood's contribution, I am not sure as to why you would punish tenants now for what you say were previous Governments' failures. That is hardly fair. If the private sector felt that this policy was a runner, I think that it would be building one and two-bedroomed properties right now to fill a massive market gap. However, it is not. Why is it not? It is because that it does not believe that it will last long. The existence, by the way, of discretionary housing payments does not justify this policy, and your reliance on it demonstrates that the policy itself is flawed.

O ran cyfraniad Mark Isherwood, nid wyf yn siŵr pam y byddech yn cosbi tenantiaid yn awr am yr hyn y dywedwch oedd yn fethiannau Llywodraethau blaenorol. Go brin fod hynny'n deg. Pe bai'r sector preifat yn teimlo bod y polisi hwn yn llwyddiant, rwy'n meddwl y byddai'n adeiladu eiddo un a dwy ystafell wely yr eiliad hon er mwyn llenwi bwlch yn y farchnad enfawr. Ond nid yw'n gwneud hynny. Pam nad yw'n gwneud hynny? Am nad yw'n credu y bydd yn para'n hir. Nid yw bodolaeth taliadau tai yn ôl disgrisiwn, gyda llaw, yn cyfiawnhau'r polisi hwn ac mae eich dibyniaeth arnynt yn dangos bod y polisi ei hun yn ddiffygiol.

Bethan gave us a flavour of what this policy actually means to families in practice, and I congratulate her on her efforts to support people in her region. She also reminded us of the UK Government support for those wanting to buy homes, without any size restriction, up to the value of £600,000.

Rhoddodd Bethan flas i ni o'r hyn y mae'r polisi hwn yn ei olygu'n ymarferol i deuluoedd mewn gwirionedd ac rwy'n ei llongyfarch ar ei hymdrechion i gefnogi pobl yn ei rhanbarth. Cawslom ein hatgoffa ganddi hefyd am gefnogaeth Llywodraeth y DU i rai sydd eisiau prynu cartrefi, heb unrhyw gyfyngiad ar faint, gwerth hyd at £600,000.

Lynne, this debate does matter. It is very depressing if your message is to say, 'Just wait until we take over at Westminster again'. People cannot wait. They cannot wait that year. They need help now. This Government, of course, can help to deliver assistance now. I know that there was a Labour motion in November, but do not forget that there was a Plaid Cymru motion in February last year, but it is better late than never to come to the party.

Rhun outlined the impact on his constituency, and the statistics that he shared with us were a stark reminder of the few choices that people have. It reminded us that people have that choice of going without food and heat, perhaps, to pay their rent. Some, he told us, could not afford to cook the food that they were being given in their food bank parcel.

Julie reminded us of the importance of dignity and respect in housing, the importance of housing to fulfilling lives and making communities, and the disproportionate effect on women and the normal functioning of families.

Minister, I am very pleased that the Welsh Government would like to see the bedroom tax abolished, and I am pleased to see you prepared to defend the local authorities' spend of the discretionary housing payment. That £2 million arrears owed to housing associations by now, of course, could no doubt be better spent borrowing to build more. I hope that the Minister will give some thought to what he can do to lead the sector on this. Do not waste any more time writing to Lord Freud. He is not listening. Labour must, by now, regret appointing him in the beginning.

Lindsay made an excellent case for the exemption of disabled people and properties that have had adaptations made to them, and that would make perfectly good sense. You would have to ask yourself why that is not the case right now. To add to that, I saw an article in the 'Western Mail' on the weekend in which Councillor Paul James highlighted the fact that the UK Government likes to give the impression that forces personnel are exempt, but it is actually restricted to those who are involved in military operations. Being posted away from home or abroad is not sufficient; maybe they do not hit that 'deserving' button.

So, just to finish, this Government must lead the way on championing the mitigation of this policy, tenants' benefits and their rights, access to discretionary housing payments and, most of all, appeals. Build and present the moral and financial case, including exempting disabled people and adapted properties, against this policy, Minister; if you do, we will be right beside you.

Lynne, mae'r ddadl hon yn cyfrif. Mae'n ddigalon iawn os yw eich neges yn dweud, 'Arhoswch nes y byddwn yn cymryd yr awenau yn San Steffan eto'. Ni all pobl aros blwyddyn. Mae arnynt angen cymorth yn awr. Wrth gwrs, gall y Llywodraeth hon helpu i ddarparu cymorth yn awr. Rwy'n gwybod bod y Blaid Lafur wedi cyflwyno cynnig ym mis Tachwedd ond peidiwch ag anghofio cynnig Plaid Cymru ym mis Chwefror y llynedd, ond gwell hwyr na hwyrach.

Amlinellodd Rhun yr effaith ar ei etholaeth, ac mae'r ystadegau a rannodd gyda ni yn ein hatgoffa cyn lleied o ddeisiadau sydd gan bobl. Roedd yn ein hatgoffa bod gan bobl ddewis rhwng mynd heb fwyd a gwres efallai, neu dalu eu rhent. Dywedodd wrthym nad oedd rhai'n gallu fforddio coginio'r bwyd a gaent yn eu parsel banc bwyd.

Atgoffodd Julie ni am bwysigrwydd urddas a pharch ym maes tai, pwysigrwydd tai i wneud bywydau'n fwy cyflawn a chreu cymunedau, a'r effaith anghymesur ar fenywod a gweithrediad normal teuluoedd.

Weinidog, rwy'n falch iawn fod Llywodraeth Cymru am weld y dreth ystafell wely yn cael ei diddymu ac rwy'n falch o weld eich bod yn barod i amddiffyn y modd y mae awdurdodau lleol yn gwario'r taliad tai yn ôl disgrisiwn. Nid oes amheuaeth wrth gwrs na ellid gwario'r ôl-ddyledion o £2 filiwn sy'n ddyledus i gymdeithasau tai erbyn hyn yn well o fentyca er mwyn adeiladu mwy. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'r hyn y gall ei wneud i arwain y sector ar hyn. Peidiwch â gwastraffu rhagor o amser yn ysgrifennu at yr Arglwydd Freud. Nid yw'n gwranddo. Rhaid bod Llafur bellach yn difaru ei benodi.

Cyflwynodd Lindsay achos rhagorol dros eithrio pobl anabl ac eiddo a addaswyd a byddai hynny'n gwneud synnwyr perffaith. Byddai'n rhaid i chi ofyn i chi'ch hun pam nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. I ychwanegu at hynny, gwelais erthygl yn y 'Western Mail' ar y penwythnos lle'r oedd y Cynghorydd Paul James yn tynnu sylw at y ffaith fod Llywodraeth y DU yn hoffi rhoi'r argraff fod personél y fyddin wedi'u heithrio ond mae'n cael ei gyfyngu mewn gwirionedd i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd milwrol. Nid yw cael eich anfon o gartref neu dramor yn ddigon; efallai nad ydynt yn ffitio i'r categori 'teilwng'.

Felly, i orffen, rhaid i'r Llywodraeth hon arwain y ffordd a hyrwyddo mesurau i liniaru effeithiau'r polisi hwn, budd-daliadau tenantiaid a'u hawlau, mynediad at daliadau tai yn ôl disgrisiwn ac yn bennaf oll, apeladau, ac adeiladu a chyflwyno'r achos moesol ac ariannol, gan gynnwys eithrio pobl anabl ac eiddo wedi'i addasu, yn erbyn y polisi hwn, Weinidog; os gwnewch hyn, byddwn wrth eich ochr.

17:10

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed. Does any Member object? There is objection, therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Ynni

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 8 a 9 yn Paul Davies, gwelliannau 2, 3, 4, 6 a 7 yn enw Elin Jones, a gwelliant 5 yn enw Lesley Griffiths. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol.

Welsh Liberal Democrats Debate: Energy

The following amendments have been selected: amendments 1, 8 and 9 in the name of Paul Davies, amendments 2, 3, 4, 6 and 7 in the name of Elin Jones, and amendment 5 in the name of Lesley Griffiths. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

17:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on William Powell to move the motion.

Galwaf ar William Powell i symud y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5499 Aled Roberts

Motion NDM5499 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi cyhoeddi adroddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 'Powering Wales' Future'.

1. Notes the publication of the Welsh Liberal Democrat report 'Powering Wales' Future'.

2. Yn gresynu bod pleidiau ledled y DU sy'n wleidyddol geidwadol yn parhau i wrthod y dystiolaeth lethol sy'n cadarnhau'r newid yn yr hinsawdd.

2. Regrets that politically conservative parties across the UK are increasingly denying the overwhelming evidence which substantiates climate change.

3. Yn cydnabod y gellir sicrhau dyfodol carbon isel cynaliadwy drwy newid uchelgeisiol o ran sut rydym yn cynhyrchu ynni.

3. Recognises that a sustainable low carbon future can be achieved through an ambitious change in how we generate energy.

4. Yn cydnabod bod rhwydwaith grid clyfar ac amrywiol yn hanfodol i sicrhau y gellir diwallu ein hanghenion ynni ar gyfer y dyfodol mewn modd dibynadwy a chynaliadwy.

4. Acknowledges that a smart and diverse grid network is essential for ensuring that our future energy needs can be met in a reliable and sustainable manner.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

5. Calls on the Welsh Government to:

a) adolygu Nodyn Cyngor Technegol 8 i ganiatáu diweddariadau sy'n adlewyrchu gwelliannau technolegol a datblygu Ardaloedd Chwilio Strategol newydd, i annog prosiectau newydd a lleihau crynodiadau presennol;

a) review Technical Advice Note 8 to permit updates which reflect technological improvements and the development of new Strategic Search Areas, to encourage new projects and reduce existing concentrations;

b) gweithio gyda diwydiant i ddatblygu cynlluniau budd cymunedol rhanbarthol, er mwyn i gymunedau ar hyd coridorau cludiant a grid gael budd o'r buddsoddiadau economaidd sydd ynghlwm wrth ynni adnewyddadwy;

b) work with industry to develop regional community benefit schemes, so that communities along transportation and grid corridors can benefit from the economic investments which come with renewables;

c) sicrhau manteision economaidd mwyaf posibl ynni adnewyddadwy drwy weithio gyda datblygwyr a sefydliadau addysgol i ehangu cadwyni cyflenwi a chanolfannau rhagoriaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf o beirianwyr a phrentisiaid;

c) maximise the economic benefits of renewables by working with developers and educational institutions to expand supply chains and centres of excellence for the next generation of engineers and apprentices;

d) archwilio datblygu Canolfannau Ynni Morol i ddarparu amgylchedd diogel i weithgynhyrchu a phrofi technolegau morol sy'n dod i'r amlwg i helpu Cymru i gael mantais gystadleuol;

d) explore the development of Marine Energy Hubs to provide a safe environment to manufacture and test emergent marine technologies to help Wales gain a competitive advantage;

e) canolbwyntio cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ymchwil i dechnoleg storio drydanol ar raddfa fawr fel batris;

e) focus public support for research into large scale electrical storage technology such as batteries;

f) archwilio potensial datblygu cyfleusterau storio pwmp newydd er mwyn gallu storio mwy o ynni at ddefnydd yn ystod oriau brig a sicrhau cyflenwad sefydlog o drydan carbon isel; a

g) datblygu cyngor technegol newydd ar gyfer hollti hydrologig, gan gynnwys profion tyllu, i sicrhau bod diogelwch a diogelu'r amgylchedd yn cyrraedd y safonau uchaf.

f) explore the potential of developing new pumped storage facilities so that more energy can be stored for peak time usage and ensure a stable supply of low carbon electricity; and

g) develop new technical advice for hydraulic fracturing, including test drilling, to ensure that safety and environmental protection can be guaranteed to the highest standards.

17:11

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

It gives me great pleasure to open this important debate today and to move the motion tabled in the name of Aled Roberts. How we generate our power is perhaps one of the most important questions that any country can ask itself. It underpins all aspects of our society, and it is one of the single largest factors upon which our economy depends. The undeniable threats posed by climate change mean that every nation on earth is now asking itself what the future holds for electrical generation.

It is clear to us that Wales has the potential to lead the way in fostering a green revolution and by removing all carbon dioxide emissions from our generation grid. Doing so, however, is anything but an easy process. That is why I have taken a lead within my party to look at the way in which, decades ahead, we can do this and investigate medium-term options to look at how Wales could generate all of our electrical power by the middle of the century. I believe that in doing so, there will be a high degree of common ground across this Chamber, and I hope that today's debate will also foster a rational discussion about Wales's future energy provision.

I think that we all realise the opportunities that the green sector represents in terms of jobs, investment and training, and these are points that, with your indulgence, Dirprwy Lywydd, my colleague Eluned Parrott will be developing. More than this, we realise that we owe it to future generations to provide an environment and an economy that are prosperous and sustainable. Renewable energy technologies provide both in abundance, and it is a sector that we must pursue with relish.

I am encouraged by much of what the Government has said in papers such as 'Energy Wales: A Low Carbon Transition' over the years, and I am pleased to see that the First Minister again confirmed his commitment to the sector in his speech to the RenewableUK Cymru conference just last Thursday. If we are going to take these words further, we need to be delivering real options on the ground. It is some of these options that we have put in our motion for debate this afternoon.

Cynigiad y cynnig.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi agor y ddatl bwysig hon heddiw ac i gynnig y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Mae'n bosibl mai sut rydym yn cynhyrchu ein hynni yw un o'r cwestiynau mwyaf pwysig y gall unrhyw wlad ei ofyn iddi'i hun. Mae'n sail i bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n un o'r ffactorau unigol mwyaf y mae ein heconomi yn dibynnu arnynt. Mae'r bygythiadau diymwad a achosir gan newid yn yr hinsawdd yn golygu bod pob cenedl ar y ddaear yn awr yn gofyn iddi'i hun beth fydd yn digwydd o ran cynhyrchu trydan yn y dyfodol.

Mae'n amlwg i ni fod potensial gan Gymru i arwain y ffordd o ran meithrin chwyldro gwyrdd a chael gwared ar allyriadau carbon deuocsid o'n grid cynhyrchu. Ond nid yw gwneud hynny'n broses hawdd o gwbl. Dyna pam rwyf wedi arwain y gwaith yn fy mhlaid i edrych ar ffyrdd o wneud hyn yn y degawdau nesaf ac i ymchwilio i opsiynau yn y tymor canolig i weld sut y gallai Cymru gynhyrchu ein holl bŵer trydanol erbyn canol y ganrif. Drwy wneud hynny, rwy'n credu y bydd cryn dipyn o dir cyffredin ar draws y Siambr hon ac rwy'n gobeithio y bydd y ddatl heddiw hefyd yn meithrin trafodaeth resymol ynghylch darpariaeth ynni Cymru yn y dyfodol.

Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn sylweddoli faint o gyfleoedd y mae'r sector gwyrdd yn eu cynnig o ran swyddi, buddsoddiad a hyfforddiant ac mae'r rhain yn bwyntiau, gyda'ch caniatâd, Ddirprwy Lywydd, y bydd fy nghydweithiwr Eluned Parrott yn eu datblygu. Yn fwy na hyn, rydym yn sylweddoli ei bod yn ddyletswydd arnom i ddarparu amgylchedd ac economi sy'n ffyniannus a chynaliadwy er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Mae technolegau ynni adnewyddadwy yn cynnig digonedd o'r ddau ac mae'n sector y mae'n rhaid inni ei feithrin yn frwd.

Cefais fy nghalonogi gan lawer o'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i ddweud mewn papurau megis 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' dros y blynyddoedd, ac rwy'n falch o weld bod y Prif Weinidog wedi cadarnhau ei ymrwymiad i'r sector unwaith eto yn ei araith i gynhadledd RenewableUK Cymru ddydd lau diwethaf. Os ydym yn mynd i ategu'r geiriau hyn, mae angen i ni ddarparu opsiynau go iawn ar lawr gwlad. Dyna rai o'r opsiynau rydym wedi'u rhoi yn ein cynnig ar gyfer y ddatl y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In my time on the Environment and Sustainability Committee, it has become increasingly clear that many of these options will include our marine environment. Regrettably, however, it has also become clear that we are thus far unprepared to take full advantage of them, with the Wales marine spatial plan yet to be completed. As Members in this Chamber will be aware, the waters around Wales are some of the most attractive to wave and tidal technology developers anywhere in the world. The tidal range of the Severn and the Bristol channel makes them ideal for experimental lagoon and barrage development. The shallow beds of the north are perfect for offshore wind foundations, and the rough waves and rapid currents of the west are excellent for submerged turbines and floating wave devices. In recent years, we have seen developers bring forward concepts for every one of these areas, and I am pleased to see progress being made in each area. One point that is continually made to me by developers, especially those who produce wave and tidal stream devices, is how beneficial it would be to make use of marine energy hubs, sometimes termed demonstrator zones, so that concerns around the environment can be satisfied in advance of deployment, thereby expediting large-scale development. This idea has been taken forward in the last 12 months by the Crown estate, and this is to be welcomed. It has conducted a leasing round across the UK in a bid to encourage and accelerate technological development. To quote its head of offshore wind:

'The emerging wave and tidal industry has already taken great strides, but we want to encourage faster progress in technology development and rapid cost reduction by introducing managed demonstration zones. We are offering a key opportunity to other organisations to lend tangible support in their local areas.'

We do not yet know the results of the now-completed leasing round. However, it would seem abundantly sensible for the Welsh Government to take advantage of such opportunities as outlined in its marine renewable infrastructure study. Such advances are already being explored in rival areas of the UK, such as Cornwall, where its planned hub has already been filled by prospective developers. This is also the case in Scotland.

We on this side of the Chamber firmly believe that Wales should be doing the same in order to attract international developers and to bolster the domestic supply chain. However, in doing so we also recognise that development must not be allowed without the proper environmental tests and due diligence. While this is often time-consuming, it is nonetheless essential, and I am sure that the Minister will welcome the opportunity of this debate to confirm that, in his attempts to break down the barriers to marine renewables, no breaking will be done at the cost of environmental scrutiny and appropriate habitat mitigation.

Yn fy nghyfnod ar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, daeth yn fwyfwy amlwg y bydd llawer o'r opsiynau hyn yn cynnwys ein hamgylchedd morol. Yn anffodus, fodd bynnag, daeth yn amlwg hefyd nad ydym yn agos at fod yn barod i gymryd mantais lawn ohonynt gan fod cynllun gofodol morol Cymru eto i'w gwblhau. Fel y bydd yr Aelodau yn y Siambr hon yn gwybod, mae'r dyfroedd o amgylch Cymru yn rhai o'r mwyaf deniadol yn y byd i ddatblygwyr technoleg tonnau a'r llanw. Mae amrediad llanw afon Hafren a Môr Hafren yn eu gwneud yn ddelfrydol ar gyfer datblygu morlyn a morglawdd arbrofol. Mae gwelyau bas y gogledd yn berffaith ar gyfer sylfeini ynni gwynt ar y môr a thonnau garw a cherrynt cyflym y gorllewin yn ardderchog ar gyfer tyrbinau tanddwr a dyfeisiau tonnau arnofiol. Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld datblygwyr yn cyflwyno cysyniadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn ac rwy'n falch o weld y cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob maes. Un pwynt sy'n codi o hyd gan ddatblygwyr, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu dyfeisiau tonnau a ffrydiau llanw, yw'r budd a geid o wneud defnydd o ganolfannau ynni morol, a elwir weithiau'n barthau arddangos, fel y gellid lleddfu pryderon ynghylch yr amgylchedd cyn rhoi datblygiadau ar waith, a thrwy hynny gyflymu datblygiadau ar raddfa fawr. Datblygydd y syniad hwn yn ystod y 12 mis diwethaf gan ystâd y Goron ac mae hyn i'w groesawu. Mae wedi cynnal cylch prydlesu ar draws y DU mewn ymgais i annog a chyflymu datblygiadau technolegol. Dyma ddyfynnu ei bennaeth ynni gwynt ar y môr:

'The emerging wave and tidal industry has already taken great strides, but we want to encourage faster progress in technology development and rapid cost reduction by introducing managed demonstration zones. We are offering a key opportunity to other organisations to lend tangible support in their local areas.'

Ni wyddom eto beth oedd canlyniadau'r cylch prydlesu sydd bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos yn gwbl synhwyrol i Lywodraeth Cymru fanteisio ar gyfleoedd o'r fath fel yr amlinellir yn ei hastudiaeth o'r seilwaith ynni adnewyddadwy morol. Archwiliir datblygiadau o'r fath eisoes mewn ardaloedd o'r DU sy'n cystadlu, fel Cernyw, lle mae'r ganolfan a gynlluniwyd ar ei chyfer eisoes wedi'i llenwi gan ddarpar ddatblygwyr. Mae hyn hefyd yn wir yn yr Alban.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu'n gryf y dylai Cymru fod yn gwneud yr un peth er mwyn denu datblygwyr rhyngwladol ac i hybu'r gadwyn gyflenwi ddomestig. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, rydym hefyd yn cydnabod na ddylid caniatáu datblygu heb y profion amgylcheddol priodol a diwydrwydd dyladwy. Er bod hyn yn aml yn cymryd amser, mae'n hanfodol serch hynny, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn croesawu'r cyfle yn y ddatl hon i gadarnhau, yn ei ymdrechion i chwalu'r rhwystrau i ynni adnewyddadwy morol, na fydd y chwalu'n digwydd ar draul gwaith craffu amgylcheddol a lliniaru priodol ar yr effeithiau ar gynefinoedd.

Before ending this introduction I want briefly to touch upon the Plaid Cymru and Conservative amendments to point 2 of our motion. I do so now in order that the political point-scoring can be quickly dispensed with, and so that the appropriate spokespeople can make their response. We will not be supporting either of the amendments to point 2. Regarding the Conservative wording, we feel that it does not reflect the firm Liberal Democrat belief that those who do question the rationale behind changes in our global climate are quite often flying in the face of direct scientific evidence and that there is no longer a debate to be had on these points, as was aired just yesterday in this Chamber. The scientific evidence supporting man-made climate change is overwhelming and now is not the time to pander to the flat-earthers who remain.

Instead, now is the time for us to act and to respond to the threats that climate change poses to us all. Regarding the Plaid Cymru amendment, we regret that Plaid Cymru has sought to broaden the remit of the amendment to apparently include Liberal Democrats, but to exclude those outside the UK Government. Ed Davey, the Secretary of State for Energy and Climate Change, is a firm supporter, and has said that the evidence is 'irrefutable' and that

'human activity is significantly contributing to the warming of our planet.'

Nick Clegg has also said:

'If there was ever a time to sharpen our focus on our green commitments, it's now.'

He has also been vehement in opposing Tory voices calling for the scrapping of so-called green taxes. While there may well be a growing number of voices within the UK Government casting doubt on the reality of climate change, these voices do not come from the Liberal Democrat benches. That much is clear.

We also regret the fact that Plaid has in effect removed other politically conservative parties from our original motion. I am greatly concerned by many of the things that UKIP candidates up and down this country are advancing. There is a real danger to our country in the message that they are peddling. Their energy policy says:

'The slight warming in the last hundred years is entirely consistent with well-established, long-term, natural climate cycles'.

They have pledged to ban the teaching of climate change in schools, and their leader in Scotland, Lord Monckton, has even gone so far as to compare climate scientists with Nazis. I am therefore disappointed that Plaid has sought to let UKIP off the hook for its outrageous climate change denial. However, these matters aside, I hope that we can have a full and broadly consensual debate this afternoon that can take these issues forward.

Cyn gorffen y cyflwyniad hwn, rwyf am droi'n frysioq at welliannau Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr i bwynt 2 ein cynnig. Gwnaf hynny yn awr er mwyn gallu dod i ben â'r sgorio pwyntiau gwleidyddol yn gyflym er mwyn i'r llefarwyr priodol allu ymateb. Ni fyddwn yn cefnogi'r un o'r gwelliannau i bwynt 2. O ran geiriad y Ceidwadwyr, teimlwn nad yw'n adlewyrchu cred gadarn y Democratiaid Rhyddfrydol fod y rhai sy'n cwestiynu'r rhesymeg sy'n sail i newidiadau yn ein hinsawdd fyd-eang yn aml yn gwrthwynebu tystiolaeth wyddonol uniongyrchol ac nad oes dadl i'w chael mwyach ar y pwyntiau hyn fel y mynegwyd yn y Siambr ddoe. Mae'r dystiolaeth wyddonol sy'n sail i newid yn yr hinsawdd wedi'i achosi gan bobl yn llethol ac nid dyma'r amser i ryngu bodd y gweddill o'n plith sy'n dal i dyngu bod y ddaear yn wastad.

Yn lle hynny, dyma'r amser i ni weithredu ac ymateb i'r bygythiadau y mae newid yn yr hinsawdd yn eu creu i ni i gyd. O ran gweliant Plaid Cymru, mae'n anffodus fod Plaid Cymru wedi ceisio ehangu cylch gorchwyl y gweliant i gynnwys Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl pob golwg, ond i eithrio'r rhai y tu allan i'r Lywodraeth y DU. Mae Ed Davey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, yn gefnogwr brwd ac mae wedi dweud bod y dystiolaeth yn 'ddiymwad' a bod

'human activity is significantly contributing to the warming of our planet.'

Dyweddodd Nick Clegg hefyd:

'If there was ever a time to sharpen our focus on our green commitments, it's now.'

Bu'n chwyrn ei wrthwynebiad hefyd i leisiau Toriaidd a alwai am gael gwared ar drethi gwyrdd fel y'u gelwir. Efallai'n wir fod nifer cynyddol o leisiau yn Llywodraeth y DU yn bwrw amheuaeth ar realiti newid yn yr hinsawdd, ond nid yw'r leisiau hyn i'w clywed o feinciau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae hynny'n glir.

Rydym hefyd yn gresynu at y ffaith fod Plaid Cymru i bob pwrpas wedi cael gwared ar bleidiau eraill sy'n geidwadol yn wleidyddol o'n cynnig gwreiddiol. Rwy'n bryderus iawn ynghylch llawer o'r pethau y mae ymgeiswyr UKIP ar hyd a lled y wlad yn eu hyrwyddo. Mae'r neges y maent yn ei lledaenu'n creu perygl gwirioneddol i'n gwlad. Mae eu polisi ynni'n dweud:

'The slight warming in the last hundred years is entirely consistent with well-established, long-term, natural climate cycles'.

Maent wedi addo gwahardd addysg ar newid yn yr hinsawdd yn yr ysgolion ac mae eu harweinydd yn yr Alban, yr Arglwydd Monckton, wedi mynd cyn belled â chymharu gwyddonwyr hinsawdd â Natsiaid. Felly rwy'n siomedig fod Plaid Cymru wedi ceisio esgusodi UKIP am y modd gwarthus y mae'n gwrthod newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, ar wahân i'r materion hyn, rwy'n gobeithio y gallwn gael dadl lawn a lled unfryd y prynhawn yma er mwyn symud ymlaen ar y materion hyn.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the nine amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call on Russell George to move amendments 1, 8 and 9, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y naw gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar Russell George i gynnal gwelliannau 1, 8 a 9, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le 'Yn nodi bod pobl ym mhob rhan o gymdeithas a fydd yn dal i gwestiynu'r rhesymau sydd wrth wraidd newidiadau yn ein hinsawdd fyd-eang'.

Delete point 2 and replace with 'Notes that there are people across all aspects of society who will continue to question the rationale behind changes in our global climate'.

Gwelliant 8—Paul Davies

Amendment 8—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi amrywiol fathau o ynni adnewyddadwy, a buddsoddi ynddynt, er mwyn cyflawni'r amcanion allweddol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac yn nodi bod digon o geisiadau ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir ar y gweill yn y system gynllunio i fodloni targedau ynni adnewyddadwy'r DU.

Believes that the Welsh Government must support and invest in a variety of renewable energy forms to achieve key climate change objectives and notes that there are enough onshore wind farm applications in the planning pipeline to fulfil UK renewable energy targets.

Gwelliant 9—Paul Davies

Amendment 9—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu y dylai'r Bil Cynllunio roi mwy o rym i gymunedau lleol dderbyn neu wrthod cynlluniau ynni adnewyddadwy penodol yn ôl yr hyn sydd orau i'w hardal leol.

Believes the Planning Bill should give local communities more power to accept or reject particular renewable energy schemes to best fit their locality.

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the Welsh Conservative amendments 1, 8 and 9 in the name of Paul Davies.

Cynigaf welliannau Ceidwadwyr Cymru 1, 8 a 9 yn enw Paul Davies.

I would like to thank the Lib Dems for bringing forward this debate and their policy paper today, 'Powering Wales' Future'. I think it is important that, beyond Government scrutiny, opposition parties contribute positively to public policy debate and explore and offer policy alternatives that go beyond what they lay out in their election manifestos. The Welsh Conservatives have been extremely proactive in doing that, working positively with groups and individuals across sectors to build consensus on initiatives that will bring significant benefits to Wales and its people.

Hoffwn ddiolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl hon ac am eu papur polisi heddiw, 'Powering Wales' Future'. Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod y gwrthbleidiau'n cyfrannu'n gadarnhaol at y drafodaeth ar bolisi cyhoeddus, ar wahân i graffu ar y Llywodraeth, a'u bod yn archwilio ac yn cynnig dewisiadau polisi eraill sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei gynnwys yn eu manifestos etholiadol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn hynod ragweithiol wrth wneud hynny gan weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau ac unigolion ar draws y sectorau i adeiladu consensws ar fentrau a fydd yn creu manteision sylweddol i Gymru a'i phobl.

Developing a consensual approach on tackling climate change is absolutely crucial because it affects the entire population of this planet. There is much I can agree with in your paper. I hope that the consensus that has existed in this Chamber can be further developed. That is why I was not wholly disappointed, or surprised, by the Minister's comments yesterday during the coastal flooding review statement. I think that he should perhaps stop adding to the climate crisis himself with his own hot emissions and get on with delivering what the Welsh Government has committed to do.

Before Bill Powell started talking to some of the amendments, I agreed with every word he said. I am, of course, disappointed that he, other Members in this Chamber, and the Lib Dems have joined the Minister on the platform of division with regard to the amendments. I would say to Members, if you want to go down the American route, where climate politics have become very divisive, you can do that, but you will do it without these benches.

I am not standing here today as an apologist for anyone. I believe that man-made climate change is one of the most serious threats that this country and the world faces. Left unchecked it will have far-reaching consequences for our society. That is the view of the Welsh Conservatives and that is the view of the Prime Minister. That said, if you think that I am going to stand here and put down what a minority of people who are not convinced by some elements of climate science say, as others have done, you can think again. I do believe that comments made from some quarters, suggesting that deniers of a man-made impact on climate change are like holocaust deniers, are disgraceful comments to make.

There are eminent scientists across a range of fields, such as astronomy, astrophysics and geology, who challenge most of the man-made elements underpinning current climate science thinking because they feel that there are stronger natural elements to climate change than human carbon release. Science exists to be challenged. Are we so arrogant as to stand here today and say they are wrong?

David Rees ac Aled Roberts a gododd—

17:23 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will give way to David Rees first.

17:23 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. You say that science is there to be challenged, but 235 experts in the recent Intergovernmental Panel on Climate Change conference analysed the evidence and came up with the fact that it is there—there is climate change and it is man-made. They are scientists and there are a large number of them.

Mae datblygu agwedd gytûn ar fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gwbl hanfodol gan ei fod yn effeithio ar boblogaeth gyfan y blaned. Mae llawer y gallaf gytuno ag ef yn eich papur. Rwy'n gobeithio y gellir datblygu ymhellach y consensws sydd wedi bodoli yn y Siambr hon. Dyna pam nad wyf yn gwbl siomedig, nac yn cael fy synnu gan sylwadau'r Gweinidog ddoe yn ystod y datganiad ar adolygu llifogydd arfordirol. Rwy'n meddwl efallai y dylai roi'r gorau i ychwanegu at yr argyfwng hinsawdd ei hun gyda'i allyriadau poeth a bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud.

Cyn i Bill Powell ddechrau siarad am rai o'r gwelliannau, rwy'n cytuno â phob gair a ddywedodd. Wrth gwrs, rwy'n siomedig ei fod ef, Aelodau eraill yn y Siambr hon a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ymuno â'r Gweinidog ar lwyfan o raniad o ran y gwelliannau. Byddwn yn dweud wrth yr Aelodau, os ydych am fynd yr un ffordd ag America, lle mae gwleidyddiaeth yr hinsawdd yn ymrannol iawn, gallwch wneud hynny ond byddwch yn ei wneud heb gefnogaeth y meinciau hyn.

Nid wyf yn sefyll yma heddiw i achub cam neb. Rwy'n credu bod newid yn yr hinsawdd a achoswyd gan y ddynoliaeth yn un o'r bygythiadau mwyaf difrifol y mae'r wlad hon a'r byd yn eu hwynebu. Os na wnawn ddim yn ei gylch, bydd ein cymdeithas yn wynebu canlyniadau pellgyrhaeddol. Dyna farn y Ceidwadwyr Cymreig a dyna yw barn y Prif Weinidog. Wedi dweud hynny, os ydych yn credu fy mod yn mynd i sefyll yma'n dilorni'r hyn y mae lleiafrif o bobl nad ydynt wedi'u hargyhoeddi gan rai elfennau o wyddoniaeth yr hinsawdd yn ei ddweud, fel y mae eraill wedi'i wneud, gallwch feddwl eto. Rwy'n credu bod y sylwadau a wnaed gan rai, sy'n awgrymu bod pobl sy'n gwrthod effaith y ddynoliaeth ar newid yn yr hinsawdd yn debyg i bobl sy'n gwadu bod yr holocost wedi digwydd, yn warthus.

Ceir gwyddonwyr amlwg mewn amryw o feysydd, megis seryddiaeth, astroffiseg a daeareg, sy'n herio'r rhan fwyaf o'r elfennau a achoswyd gan y ddynoliaeth sy'n sail i syniadau cyfredol am wyddoniaeth yr hinsawdd oherwydd eu bod yn teimlo bod elfennau naturiol cryfach i newid yn yr hinsawdd na rhyddhau carbon dynol. Mae gwyddoniaeth yno i gael ei herio. A ydym mor drahaus ag i sefyll yma heddiw a dweud eu bod yn anghywir?

David Rees and Aled Roberts rose—

Ildiaf i David Rees yn gyntaf.

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Rydych yn dweud bod gwyddoniaeth yno i gael ei herio ond dadansoddodd 235 o arbenigwyr yng nghynhadledd ddiweddar y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd ar y dystiolaeth a dod i'r casgliad fod newid yn yr hinsawdd yn bodoli a'i fod wedi'i achosi gan y ddynoliaeth. Gwyddonwyr yw'r rhain ac mae nifer fawr ohonynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:24	Russell George Bywgraffiad Biography	I am happy to take another intervention.	Rwy'n fodlon cymryd ymyriad arall.	Senedd.tv Fideo Video
17:24	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	No, you cannot. You must reply to that intervention and you will not have time to take another.	Na, ni allwch wneud hynny. Mae'n rhaid i chi ateb yr ymyriad ac ni fydd amser gennych i gymryd un arall.	Senedd.tv Fideo Video
17:24	Russell George Bywgraffiad Biography	I do not disagree, David, with your comments. The point I was making is simply that we cannot be so arrogant as to say that all other scientists who have a different view are entirely wrong in their approach. You know what my views are and the view of my party.	Nid wyf yn anghytuno â'ch sylwadau, David. Y pwynt roeddwn yn ei wneud yn syml yw na allwn fod mor drahaus â dweud bod yr holl wyddonwyr eraill sydd â barn wahanol yn gwbl anghywir. Rydych yn gwybod beth yw fy marn a barn fy mhlaid.	Senedd.tv Fideo Video
		I do need to talk to our amendments. In relation to amendment 8, I think it is pretty self-explanatory. We have always believed in a balanced mix of renewables to reduce carbon emissions and secure our long-term energy needs. I think we also need to recognise that current UK planning data show that we are on schedule to meet our EU renewable electricity targets for the end of the decade, even if we call a halt to consenting further onshore windfarms. I think that it is right that my party is looking to remove public subsidy for onshore wind, because, as they Minister cites with regard to agricultural payments, I do not think that it is realistic that the industry should receive public money on an ongoing basis.	Mae angen i mi siarad am ein gwelliannau. O ran gwelliant 8, rwy'n credu ei fod egluro'i hun yn eithaf da. Rydym bob amser wedi credu mewn cymysgedd cytbwys o ynni adnewyddadwy i leihau allyriadau carbon a diogelu ein hanghenion ynni hirdymor. Rwy'n credu bod angen i ni hefyd gydnabod bod data cynllunio cyfredol y DU yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau trydan adnewyddadwy yr UE ar ein cyfer erbyn diwedd y degawd hyd yn oed os ydym yn rhoi'r gorau i ganiatáu rhagor o ffermydd gwynt ar y tir. Rwy'n credu ei bod yn iawn fod fy mhlaid yn awyddus i gael gwared ar gymorthdaliadau cyhoeddus i ynni gwynt ar y tir, oherwydd, fel y mae'r Gweinidog yn sôn mewn perthynas â thaliadau amaethyddol, nid wyf yn credu ei bod yn realistig y dylai'r diwydiant gael arian cyhoeddus ar sail barhaus.	
		Finally, on amendment 9, this is something that we have continued to call for, as we would like to see many of the powers conveyed in the Localism Act 2011 in England placed on the statute book in Wales, not just deregulating powers, but allowing communities enhanced rights to determine what they want to develop in their own localities.	Yn olaf, o ran gwelliant 9, mae hyn yn rhywbeth rydym wedi parhau i alw amdano gan y byddem yn hoffi gweld llawer o bwerau Deddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr yn cael eu rhoi ar y llyfr statud yng Nghymru, nid dadroleiddio bwerau'n unig ond caniatáu gwell hawliau i gymunedau benderfynu beth y maent am ei ddatblygu yn eu hardaloedd eu hunain.	
17:25	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Conclude with that, please.	Gorffennwch â hynny, os gwelwch yn dda.	Senedd.tv Fideo Video
17:25	Russell George Bywgraffiad Biography	Thank you, Deputy Presiding Officer.	Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.	Senedd.tv Fideo Video
17:25	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I call on Alun Ffred Jones to move amendments 2, 3, 4, 6 and 7, tabled in the name of Elin Jones.	Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliannau 2, 3, 4, 6 a 7, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.	Senedd.tv Fideo Video
		<i>Gwelliant 2—Elin Jones</i>	<i>Amendment 2—Elin Jones</i>	
		<i>Ym mhwynt 2, dileu 'pleidiau ledled y DU sy'n wleidyddol geidwadol' a rhoi 'Llywodraeth y DU' yn ei le.</i>	<i>In point 2, delete 'politically conservative parties across the UK are' and replace with 'the UK Government is'.</i>	
		<i>Gwelliant 3—Elin Jones</i>	<i>Amendment 3—Elin Jones</i>	
		<i>Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:</i>	<i>Insert as new point 3 and renumber accordingly:</i>	

Yn gresynu at y cyfyngiadau a osodwyd ar gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes ynni.

Regrets the restrictions placed on the competence of the National Assembly for Wales in the field of energy.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Cynnwys is-bwynt 5b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new sub-point 5b) and renumber accordingly:

archwilio potensial sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, hyd braich, nid er elw i'w ddsbarthu;

explore the potential of establishing a publicly-owned, not-for-distributable-profit, arm's length energy company.

Gwelliant 6—Elin Jones

Amendment 6—Elin Jones

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

Add as new sub-point at end of point 5:

cyllido cynllun ôl-ffitio ledled y wlad i leihau'r defnydd o ynni a sicrhau biliau ynni is i ddefnyddwyr;

fund a nation-wide retrofitting scheme to cut energy consumption and lower energy bills for consumers.

Gwelliant 7—Elin Jones

Amendment 7—Elin Jones

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 5:

Add as new sub-point at end of point 5:

cyhoeddi unrhyw ymchwil i ddichonoldeb adeiladu cysylltiad grid rhwng gogledd a de Cymru;

publish any research into the feasibility of building a grid connection between the north and south of Wales.

17:25

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiad welliannau 2, 3, 4, 6 a 7.

I move amendments 2, 3, 4, 6 and 7.

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y drafodaeth hon heddiw, ac mae'r ffaith ein bod wedi gosod nifer o welliannau yn dangos ein bod yn cymryd y ddadl hon o ddifrif.

I am pleased to take part in this debate today, and the fact that we have tabled many amendments show that we take this debate seriously.

Mae newid hinsawdd wedi'i wthio i gyrion y drafodaeth wleidyddol yn y blynyddoedd diwethaf, am resymau amlwg, ac mae hynny wedi bod yn gamgymeriad mawr. Mae rhybuddion y gwyddonwyr yn dychryn—ac mi ddylent fod yn dychryn—y byd i gyd. Mae adroddiadau diweddar, fel y clywsom yn gynharach, yn tanlinellu'r dystiolaeth sydd wedi cael ei chyflwyno dros ddegawd a mwy erbyn hyn. Mae'n rhaid inni ymateb, ac mae'n rhaid inni symud oddi wrth ein dibyniaeth ar danwydd ffosil.

Climate change has been pushed to the outer reaches of political debate in recent years, for obvious reasons, and that has been a huge mistake. The warnings of scientists are frightening—and they should be frightening—to the whole world. Recent reports, as we heard earlier, underline the evidence that has been presented over a decade and more now. We have to respond, and we have to move away from our dependence on fossil fuels.

Er fy mod yn gwerthfawrogi ysbryd y cynnig gan y Rhyddfrydwyr Democrataidd, ac yn cytuno efo llawer iawn—y mwyafrif, mae'n siŵr—o sylwadau Bill Powell, mae'n rhaid i'r blaidd dderbyn ei chyfrifoldeb fel rhan o'r glymblaid yn Llundain. Fodd bynnag, rwy'n cytuno'n llwyr â sylwadau Bill Powell ar agweddau dall a dwl UKIP tuag at newid hinsawdd—agweddau peryglus iawn pe bai'n llwyddiannus yn etholiadau yn y dyfodol.

Although I appreciate the spirit of the Liberal Democrats' motion, and agree with much—the majority, indeed—of what Bill Powell said, the party has to accept its responsibility as part of the coalition in London. However, I do agree completely with Bill Powell's comments on UKIP's blind and stupid stance on climate change—a very dangerous stance if it were to be successful in future elections.

A gaf i gyfeirio at rai o'r gwelliannau yr ydym wedi'u cyflwyno? Mae'r gwelliant cyntaf, gwelliant 2 yn enw Elin Jones, yn cywiro'r frawddeg ffuantus sy'n awgrymu nad oes gan y Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw rôl i'w chwarae o fewn Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Mae'r cynnig heddiw yn trio gwneud yr awgrym fod yna wahaniaeth mawr rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r hyn sy'n digwydd yn y Llywodraeth. Llywodraeth glymblaid ydy hi, ac rwy'n gwybod bod hynny'n gallu bod yn anodd ac yn anghyfforddus i'r rhai sydd ynddi, ond mae'n rhaid ichi dderbyn y cyfrifoldebau sy'n dod gyda hynny. Nid Llywodraeth Geidwadol sydd yn San Steffan, ond Llywodraeth glymblaid, ac mae'r Llywodraeth honno wedi troi ei chefn, mewn nifer o agweddau, ar y mater hynod o bwysig o leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil. Fodd bynnag, ni af ar ôl hynny ymhellach.

Mae'n ail welliant, gwelliant 3, yn cyfeirio at y ffaith nad oes gennym reolaeth ar y diwydiant hwn yng Nghymru. Rydym yn cwyno'n aml iawn am Lywodraeth San Steffan—am yr hyn y mae'n ei wneud o ran polisi ynni—ac, yn wir, mae'r cynnig heddiw yn cwyno am safbwynt y Llywodraeth ar ynni adnewyddadwy. Wrth gwrs, pe bai ynni wedi'i ddatganoli'n llawn, heb unrhyw derfyn diystyr fel 50 MW, ni fyddai angen inni gwyno o gwbl. Mae Plaid Cymru yn gwbl glir ar hyn—pobl Cymru sy'n berchen ar adnoddau naturiol ein gwlad, nid Llywodraeth San Steffan ac nid cwmnïau preifat. Dylai pobl Cymru elwa o'r adnoddau naturiol hynny, a Llywodraeth Cymru ddylai greu polisi ynni, nid Llywodraeth San Steffan.

Mae'r Blaid Lafur yma yn aml yn crybwyll ei bod o blaid datganoli ynni yn llawn, ar wahân i niwclear—am ryw reswm, nid ydym yn abl i ddelio efo niwclear. Yn wir, mae'r Blaid Lafur wedi pleidleisio yma o blaid datganoli'r cyfrifoldebau hynny. Fodd bynnag, mater arall ydy hi'n llwyr pan fo aelodau'r Blaid Lafur yn San Steffan yn dod i bleidleisio—nid ydynt yn gefnogol. Mae'n rhaid ichi siarad gydag un llais os ydych i gael eich cymryd o ddirif.

Mae gwelliant 4 yn gofyn i'r Llywodraeth edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cwmni ynni cenedlaethol i Gymru. Unwaith eto, rydym yn trio tanlinellu'r angen i bobl Cymru elwa'n uniongyrchol o'n hadnoddau. Byddai cwmni felly yn gallu cynhyrchu a gwerthu ynni yn uniongyrchol i gwsmeriaid Cymru ac, o bosibl, y tu hwnt i Gymru, a chadw unrhyw elw ar gyfer naill ai buddsoddi mewn seilwaith ynni neu sybsideiddio biliau cwsmeriaid Cymru. Mae gennym fodel yng Nghymru, wrth gwrs, sef Glas Cymru, sy'n gwneud hynny gyda dŵr, ac fe allem wneud hynny gydag ynni hefyd maes o law.

Ffordd arall o ostwng biliau ynni, wrth gwrs, yw defnyddio llai o ynni yn y lle cyntaf, a dyna'r hyn y mae gwelliant 6 yn cyfeirio ato. Mae cynlluniau'r Llywodraeth, Arbed a Nyth, yn ddwy esiampl lwyddiannus gan y Llywodraeth hon ac rydym yn llongyfarch y Llywodraeth ar y rheini. Fodd bynnag, dylai'r Llywodraeth adeiladu ar y llwyddiant hwn ac ehangu'r rhaglenni. Yn sicr, mae cyflwr llawer iawn o'r hen stoc dai—ac mae hynny'n wir yn y gorllewin, y gogledd a'r de—yn golygu ei fod mewn angen dybryd i gael 'retrofit', ac mae'n bwysig iawn felly bod gennym raglen i ddelio â hynny.

May I refer to some of the amendments that we have tabled? The first amendment, amendment 2 in the name of Elin Jones, corrects the disingenuous sentence that suggests that the Liberal Democrats do not have a role to play in the UK Government. The motion today tries to suggest that there is a great difference between the Liberal Democrats and what is happening in the Government. It is a coalition Government, and I know that that can be difficult and uncomfortable for those in it, but you have to accept the responsibilities that come with that. It is not a Conservative Government in Westminster, but a coalition Government, and that Government has turned its back, in many respects, on the very important subject of reducing our dependence on fossil fuels. However, I will not pursue that further.

Our second amendment, amendment 3, refers to the fact that we do not have control over this industry in Wales. We very often complain about the Westminster Government—about what it is doing in terms of energy policy—and, indeed, the motion today complains about the UK Government's stance on renewable energy. Of course, if energy were fully devolved, without any meaningless limit such as 50 MW, then we would not have to complain at all. Plaid Cymru is completely clear on this—the people of Wales own our country's natural resources, not the Westminster Government and not private companies. The people of Wales should benefit from those natural resources, and the Welsh Government should be creating energy policy, not the Westminster Government.

The Labour Party here often says that it is in favour of devolving energy in full, apart from nuclear—for some reason, we are not able to deal with nuclear. Indeed, the Labour Party has voted here in favour of devolving those responsibilities. However, it is another matter completely when Labour Party members in Westminster come to vote—they are not supportive. You have to speak with one voice if you are to be taken seriously.

Amendment 4 asks the Government to look at the possibility of establishing a national energy company for Wales. Once again, we are trying to underline the need for the people of Wales to benefit directly from our resources. Such a company would be able to generate and sell energy directly to customers in Wales and, possibly, outside of Wales, and keep any profit either to invest in energy infrastructure or to subsidise the bills of customers in Wales. We do have a model in Wales, of course, Glas Cymru, which is for water, and we could do that for energy as well in the future.

Another way to reduce energy bills, of course, would be to use less energy in the first place, and this is what amendment 6 refers to. The Government's schemes, Arbed and Nest, are two successful examples from this Government and we congratulate the Government on those. However, the Government should build on this success and expand these schemes. Certainly, the state of some of the old housing stock—and this is true in west Wales, north Wales and south Wales—means that it desperately needs to be retrofitted, and it is very important that we have a programme to deal with that.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Natural Resources and Food to move amendment 5, tabled in the name of Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i gynnig gwelliant 5, a gyflwynwyd yn enw Lesley Griffiths.

Gwelliant 5—Lesley Griffiths

Amendment 5—Lesley Griffiths

Dileu is-bwynt 5g.

Delete sub-point 5g.

17:31 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 5.

Cynigiau welliant 5

17:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to focus this afternoon on the benefits that Wales can gain from the low-carbon economy. However, before I do that, as my party's spokesperson on science, I want to respond to some of the comments made by Russell George this afternoon. Russell, science works on balancing evidence and understanding the proportionality of the evidence that is presented to you. If you have 99 pieces of evidence that the world is flat, it is not balanced or scientific to give both viewpoints equal weight. Science does not support flat-earth theories nor does science support climate change deniers. The balance of the evidence is absolutely clear that climate change is a real thing. Vanishing fossil fuels is a real thing. These are real challenges that we as a society and an economy will have to face up to and will have to take seriously.

Hoffwn ganolbwyntio y prynhawn yma ar y manteision y gall Cymru eu cael o'r economi carbon isel. Fodd bynnag, cyn imi wneud hynny, fel llfarydd fy mhlaidd ar wyddoniaeth, rwyf am ymateb i rai o'r sylwadau a wnaed gan Russell George y prynhawn yma. Russell, mae gwyddoniaeth yn gweithio drwy gydbwysu tystiolaeth a deall cymesuredd y dystiolaeth a gyflwynir i chi. Os oes gennych 99 darn o dystiolaeth fod y byd yn grwn ac un darn o dystiolaeth fod y byd yn wastad, nid yw'n gydbwys nac yn wyddonol i roi pwysau cyfartal i'r ddau safbwynt. Nid yw gwyddoniaeth yn cefnogi pobl sy'n mynnu bod y byd yn wastad ac nid yw gwyddoniaeth yn cefnogi pobl sy'n gwadu bod newid hinsawdd yn digwydd. Mae trwch y dystiolaeth yn gwbl eglur fod newid yn yr hinsawdd yn beth go iawn. Mae diflaniad tanwyddau ffosil yn beth go iawn. Dyma heriau go iawn sy'n rhaid i ni fel cymdeithas ac fel economi eu hwynebu a'u hystyried o ddifrif.

Returning to the idea of climate change deniers, I am aware that some commentators believe that bringing forward more environmental policies will hurt our economic growth. Obviously, as our economy spokesperson, I need to respond to that. For example, Nigel Lawson has claimed this month that anti-climate change policies are

I ddychwelyd at y syniad o bobl sy'n gwrthod derbyn newid yn yr hinsawdd, rwy'n ymwybodol fod rhai sylwbyr yn credu y bydd cyflwyno polisiau mwy amgylcheddol yn niweidio ein twf economaidd. Yn amlwg, fel llfarydd ar yr economi, mae angen i mi ymateb i hynny. Er enghraifft, honnodd Nigel Lawson y mis hwn fod polisiau i wrthsefyll newid hinsawdd yn

'inflicting increasing damage on the British economy, to no useful purpose whatever.'

'inflicting increasing damage on the British economy, to no useful purpose whatever.'

I absolutely refute that. Not only, as I said, do we need to respond to the fact that we will need to provide for the future of the economy a stable and reliable energy infrastructure, but I also would suggest that the renewable and low-carbon industries offer huge potential advantages for Wales. We have significant environmental resources and enormous potential for wind, wave and solar power here. In fact, the valuing our environment study for Wales calculated that the environment in Wales provides £6 billion to the Welsh economy, one in six Welsh jobs, £821 million in tourism spending, and 15% of goods and services produced in Wales. We really must protect that very important resource. Some 41,000 people are currently employed in the renewable, low carbon and environmental industries in Wales. Those are jobs that we should be supporting and celebrating. However, we are by some measures falling behind some of the other nations in the UK, such as England and Scotland, in terms of our percentage share of this cake, and we cannot afford to lag behind.

Rwy'n gwrthod hynny'n llwyr. Fel y dywedais, nid yn unig y mae angen i ni ymateb i'r ffaith fod yn rhaid i ni ddarparu seilwaith ynni sefydlog a dibynadwy ar gyfer dyfodol yr economi, ond byddwn hefyd yn awgrymu bod y diwydiannau adnewyddadwy a charbon isel yn cynnig manteision enfawr posibl i Gymru. Mae gennym adnoddau amgylcheddol sylweddol a photensial enfawr ar gyfer ynni'r haul, gwynt a'r tonnau yma. Yn wir, cyfrifodd yr astudiaeth ar werthfawrogi ein hamgylchedd fod yr amgylchedd yng Nghymru yn cyfrannu £6 biliwn i economi Cymru, un o bob chwe swydd yng Nghymru, £821 miliwn mewn gwariant twristiaeth a 15% o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yng Nghymru. Mae gwir angen i ni ddiogelu'r adnodd pwysig hwn. Mae tua 41,000 o bobl yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn y diwydiannau adnewyddadwy, carbon isel ac amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r rheini'n swyddi y dylem fod yn eu cefnogi ac yn eu dathlu. Fodd bynnag, yn ôl rhai dulliau o fesur, rydym yn llusgo tu ôl i rai o wledydd eraill y DU fel Lloegr a'r Alban, o ran ein cyfran o ganran y gacen hon ac ni allwn fforddio cael ein gadael ar ôl.

We need to ensure that the soft infrastructure is in place to allow growth in the low-carbon economy and the creation of the necessary hard infrastructure that then follows. In particular, we need to ensure the availability of apprenticeships and other training opportunities to deliver the science, technology, engineering and mathematics skills that our economy needs, and we need to ensure that they are properly prepared for. In particular, I want to see more young people going into things like electrical engineering courses, to help to design and build the sustainable grid and other infrastructure that we will need, because it is a seriously underrepresented discipline at the moment. Skills gaps in these areas will act as a real barrier to developing the low-carbon economy in Wales.

I believe that we need to work with potential developers and education and training providers to develop centres of excellence for the next generation of engineers and apprentices, because, of course, we have the most wonderful access to natural resources, and that is a very important commercial advantage. The UK Government has established a renewables training network, with 2,000 places on training courses specifically tailored to those wanting to make the move into the renewable energy sector. We must target funding at apprenticeships in appropriate sectors, such as the renewable and low-carbon industries, to ensure that those skills are being delivered to meet the needs of a new, greener Wales. We believe that there is a real role as well for public investment in research and development to focus on technological innovations that can overcome some of the practical issues and reduce the environmental impacts of tidal and wave power, for example. We would like to see a collaborative industry-stakeholder-Government partnership developed to monitor the impact of marine renewables on the environment, so that we can be sure that these technologies are taken forward in the most appropriate ways.

I also believe that we need to support research into things such as battery storage technologies so that we can create that low-carbon grid, make it more flexible to demand and ensure that all generation technologies can be fully utilised, which of course will give us greater energy security and stability, not only for consumers but for businesses and, hopefully, lower bills for both.

Finally, I briefly want to mention fracking. Hydraulic fracturing is often touted for its economic benefits, but I think that we have to balance those very carefully against strong environmental and health concerns, and that is why we have called for new technical advice. I believe that the ways in which we control and manage new technologies in energy generation need careful consideration. So, new technical advice would be very helpful here.

Mae angen i ni sicrhau bod y seilwaith meddal yn ei le i ganiatáu twf yn yr economi carbon isel a'r gwaith o greu'r seilwaith caled angenrheidiol sy'n dilyn hynny. Yn benodol, mae angen i ni sicrhau bod prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi eraill ar gael er mwyn darparu'r sgiliau gwyddonol, technolegol, peirianegol a mathemategol sydd eu hangen ar ein heconomi ac mae angen inni sicrhau ein bod yn paratōi'n briodol ar eu cyfer. Yn benodol, rwyf am weld mwy o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau fel peirianeg drydanol er mwyn helpu i ddylunio ac adeiladu'r grid cynaliadwy a seilwaith arall angenrheidiol gan nad oes digon o bobl yn ymwneud â'r ddisgyblaeth ar hyn o bryd. Bydd y bylchau sgiliau yn y meysydd hyn yn rhwystro gwirioneddol i ddatblygu economi carbon isel yng Nghymru.

Rwy'n credu bod angen i ni weithio gyda datblygwyr posibl a darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf o beirianwyr a phrentisiaid oherwydd mae gennym adnoddau naturiol rhyfeddol at ein defnydd wrth gwrs, ac mae hynny'n fantais fasnachol bwysig iawn. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu rhwydwaith hyfforddiant ynni adnewyddadwy gyda 2,000 o leoedd ar gyrsiau hyfforddi wedi'u teilwra yn benodol ar gyfer y rhai sydd am symud i'r sector ynni adnewyddadwy. Rhaid i ni dargedu cyllid ar gyfer prentisiaethau mewn sectorau priodol megis y diwydiannau ynni adnewyddadwy a charbon isel er mwyn sicrhau bod y sgiliau hynny ar gael i ddiwallu anghenion Cymru newydd a mwy gwyrdd. Rydym yn credu bod rôl go iawn hefyd i fuddsoddiadau cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu er mwyn canolbwyntio ar arloesi technolegol a all oresgyn rhai o'r materion ymarferol, a lleihau effeithiau amgylcheddol ynni llanw a thonau er enghraifft. Byddem yn hoffi gweld partneriaeth gydweithredol yn datblygu rhwng y diwydiant, y rhanddeiliaid a'r Llywodraeth i fonitro effaith ynni adnewyddadwy morol ar yr amgylchedd fel y gallwn fod yn sicr fod y technolegau hyn yn cael eu datblygu yn y ffyrdd mwyaf priodol.

Rwyf hefyd o'r farn fod angen i ni gefnogi gwaith ymchwil ar bethau fel technolegau storio batri fel y gallwn greu'r grid carbon isel, ei wneud yn fwy hyblyg i'r galw a sicrhau bod pob technoleg gynhyrchu yn cael ei defnyddio'n llawn, a fydd wrth gwrs yn cynnig mwy o ddiogelwch a sefydlogrwydd ynni, nid yn unig i ddefnyddwyr, ond i fusnesau hefyd, gan arwain at filiau is i bawb, gobeithio.

Yn olaf, rwyf am sôn yn fyr am ffracio. Yn aml, caiff hollti hydrolog ei hyrwyddo oherwydd ei fanteision economaidd ond rwy'n credu bod yn rhaid inni gydbwyso hynny'n ofalus iawn yn erbyn pryderon amgylcheddol ac iechyd cryf a dyna pam rydym wedi galw am gyngor technegol newydd. Rwy'n credu bod angen ystyried yn ofalus sut rydym yn rheoli technolegau newydd wrth gynhyrchu ynni. Felly byddai cyngor technegol newydd ar hyn yn ddefnyddiol iawn.

I am pleased to have the opportunity to speak in this debate on renewable energy and policy and climate change. I still hope that we are all united in our desire to secure a sustainable energy future for Wales and that this will be directed towards low-carbon and, eventually, carbon-free energy production. I welcome the fact that the Welsh Government's energy strategy is focused on the generation of renewable energy, and I am pleased with the recent proposals from the Silk commission to endow the National Assembly with more wide-ranging powers over energy policy. I think that it should have been power over more than 350 MW as well.

Despite the persistence of climate change deniers—and this is critical—it is vital for us to recognise the evidence and the important role that renewable energy will play in our future as the environmental cost of fossil fuels becomes ever more apparent. Only last month—we are talking about four weeks ago—in Berlin at the launch of the most recent Intergovernmental Panel on Climate Change report on climate change, the German co-chair, Ottmar Edenhofer, highlighted the need to combat any claims that global warming is not having a detrimental impact on our planet stating:

'There is a clear message from science: To avoid dangerous interference with the climate system, we need to move away from business as usual.'

And that follows its second report in March this year, which showed how climate change is already having an impact and warned of severe, pervasive and irreversible impacts in the future if action is not taken to address emissions now.

Rwy'n falch o'r cyfle i siarad yn y ddatl hon ar ynni adnewyddadwy, polisi a newid yn yr hinsawdd. Rwy'n dal i obeithio ein bod i gyd yn gytún yn ein hawydd i sicrhau dyfodol ynni cynaliadwy i Gymru ac y bydd hyn yn cael ei gyfeirio tuag at gynhyrchiant ynni carbon isel ac yn y pen draw, at gynhyrchiant ynni di-garbon. Rwy'n croesawu'r ffaith fod strategaeth ynni Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac rwy'n falch o argymhellion diweddar comisiwn Silk y dylid rhoi mwy o bwerau eang i'r Cynulliad Cenedlaethol dros bolisi ynni. Rwy'n meddwl y dylai fod wedi cynnwys pŵer dros 350 MW yn ogystal.

Er gwaethaf dyfalbarhad y rhai sy'n gwadu bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd—ac mae hyn yn allweddol—mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod y dystiolaeth a'r rôl bwysig y bydd ynni adnewyddadwy yn ei chwarae yn ein dyfodol gan fod cost amgylcheddol tanwyddau ffosil yn dod yn fwyfwy amlwg. Y mis diwethaf—gwta bedair wythnos yn ôl—yn Berlin, wrth lansio adroddiad diweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, tanlinellodd Ottmar Edenhofer, y cyd-gadeirydd o'r Almaen, yr angen i fynd i'r afael ag unrhyw honiadau nad yw cynhesu byd-eang yn effeithio'n andwyol ar ein planed gan ddatgan:

'There is a clear message from science: To avoid dangerous interference with the climate system, we need to move away from business as usual.'

Ac mae hyn yn dilyn ei ail adroddiad ym mis Mawrth eleni a ddangosai sut y mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith ac a rybuddiai am effeithiau difrifol, hollbresennol a di-droi'n-ôl yn y dyfodol os na roddir camau ar waith i fynd i'r afael ag allyriadau yn awr.

The Welsh Government has been consistent in its desire to support and source alternatives to fossil fuel energy generation, concentrating efforts on investment in clean and sustainable energy sources, such as onshore and offshore wind, solar, tidal and hydroelectric energy. Onshore wind power will, I feel, prove to be particularly crucial. I welcome the leader of the opposition's agreement with that, as I saw written today. The Pen y Cymoedd project, the largest onshore project for wind generation in the UK, is based both in my constituency and the neighbouring constituency of my colleague Leighton Andrews in the Rhondda. It is currently under construction and it is an example of clean power generation. This is a crucial element as well: it is offering a potential 25-year community benefit scheme, supporting more than 350 Welsh jobs and generating more than £100 million in contracts with Welsh companies. This scheme has already supported many community projects, such as the redevelopment of bike trails in Glyncoed and the upper Afan valley, and the developer is proactively working with local communities to identify schemes and projects that will provide sustainable opportunities for local people. So, I am in agreement with point 5(b) of the motion in the respect that I feel that there is a clear need to ensure and safeguard the economic benefits received by local communities from renewable energy projects. However, I feel that there must be more emphasis on those benefits being localised rather than more widespread, as identified in the Liberal Democrat document, so that the affected communities directly receive the benefits coming from the community benefit scheme.

I further support points 5(d) and 5(e) of the motion in that the potential for Wales to become a leader in marine energy generation cannot be underestimated. Our extensive coastline, as mentioned by William Powell, already offers such opportunities and we must recognise that the Welsh Government has already made substantial investment in this area. As part of those hubs, I hope to see a variety of marine technologies explored, and the proposed tidal lagoon project in Swansea bay, which is currently in its early stages and which will be decided by the Department of Environment and Climate Change, may provide further opportunities to look at these in detail. They can potentially offer not only low-cost clean energy production but, again, the opportunity for local businesses and local materials being used along with local employment for local workers and other community facilities such as recreational tourism and perhaps even sporting facilities.

Point 5 (g) of this motion regarding technical advice for hydraulic fracturing and test drilling, I think, is of significant importance. I will declare an interest here, because there is an existing application in my own village about to be considered.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyson yn ei hawydd i gefnogi a defnyddio dewisiadau amgen ar gyfer cynhyrchu ynni yn lle tanwydd ffosil gan ganolbwyntio'i hymdrechion ar fuddsoddi mewn ffynonellau ynni glân a chynaliadwy fel ynni gwynt ar y tir ac ar y môr, ynni solar, llanw a dŵr. Bydd ynni gwynt ar y tir, rwy'n teimlo, yn arbennig o bwysig. Rwy'n croesawu'r ffaith fod arweinydd yr wrthblaid yn cytuno â hynny fel y gwelais wedi'i ysgrifennu heddiw. Mae prosiect Pen y Cymoedd, y prosiect cynhyrchu gwynt ar y tir mwyaf yn y DU, wedi'i leoli yn fy etholaeth ac yn etholaeth fy nghydweithiwr, Leighton Andrews, yn y Rhondda. Mae'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac mae'n enghraifft o gynhyrchu ynni glân. Mae hon yn elfen allweddol hefyd: mae'n cynnig cynllun budd cymunedol dros 25 mlynedd, yn cefnogi mwy na 350 o swyddi yng Nghymru ac yn creu mwy na £100 miliwn mewn contractau gyda chwmnïau o Gymru. Mae'r cynllun eisoes wedi cefnogi nifer o brosiectau cymunedol fel ailddatblygu llwybrau beicio yng Nglyncoed a Chwm Afan uchaf, ac mae'r datblygwr yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau lleol i nodi cynlluniau a phrosiectau a fydd yn darparu cyfleoedd cynaliadwy i bobl lleol. Felly rwy'n cytuno â phwynt 5(b) y cynnig yn yr ystyr fy mod yn teimlo bod angen clir i sicrhau a diogelu'r buddiannau economaidd y mae cymunedau'n eu cael o brosiectau ynni adnewyddadwy. Ond teimlaf fod yn rhaid cael mwy o bwyslais ar ganolbwyntio'r manteision hynny'n lleol yn hytrach nag yn fwy cyffredinol, fel y nodwyd yn nogfen y Democratiaid Rhyddfrydol, er mwyn i'r cymunedau yr effeithir arnynt allu elwa'n uniongyrchol ar y manteision o'r cynllun budd cymunedol.

Rwyf hefyd yn cefnogi pwyntiau 5(d) a 5(e) yn y cynnig gan na ellir tanbriso'r potensial sydd gan Gymru i ddod yn arweinydd ym maes cynhyrchu ynni morol. Fel y crybwyllodd William Powell, mae ein morlin helaeth eisoes yn cynnig cyfleoedd o'r fath a rhaid inni gydnabod bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn. Fel rhan o'r canolfannau hynny, rwy'n gobeithio gweld amrywiaeth o dechnolegau morol yn cael eu harchwilio a bydd prosiect môr-lynoedd llanw arfaethedig Bae Abertawe, sydd ar hyn o bryd yn ei gamau cynnar ac a fydd yn cael ei benderfynu gan Adran yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd, yn cynnig cyfleoedd pellach i edrych yn fanwl ar y rhain. O bosibl, gallant gynnig cynhyrchiant ynni glân cost isel yn ogystal â rhoi cyfle i ddefnyddio busnesau a deunyddiau lleol a chynnig gwaith i weithwyr lleol, a chyfleusterau cymunedol eraill megis twristiaeth hamdden a chyfleusterau chwaraeon hyd yn oed.

Credaf fod pwynt 5(g) y cynnig hwn ynghylch cyngor technegol ar hollti hydrologig a drilio archwilio yn bwysig iawn. Rwy'n datgan buddiant yma gan fod cais ar fin cael ei ystyried yn fy mhentref fy hun ar hyn o bryd.

Across the globe, environmental groups have mounted significant protests against the use of what is properly known as fracking. Aside from the fact that a detrimental environmental impact of such drilling and shale gas extraction might well prove to be substantial. There is no doubt that significant public concern exists on fracking and the related industrial processes. So much so that many areas across the globe have actually imposed moratoria on its use, stating that, until it can be proven to be an environmentally clean means of energy production, preventative measures are required to offset the potential environmental impact. Indeed, it is actually alleged that we have seen small seismic tremors as a result of a recent borehole testing site in the UK. Consequently, I support a precautionary stance on this matter and consideration of further examination into potential environmental impact of the energy production method. To that end, I would ask the Minister whether he will have discussions with the office of unconventional gas and oil in DECC to ensure a detailed analysis of the evidence that it has undertaken in order to arrive at a point where guidance can be given.

Ym mhedwar ban byd, mae grwpiau amgylcheddol wedi bod yn protestio cryn dipyn yn erbyn y defnydd o'r hyn a elwir yn ffracio. Ar wahân i'r ffaith y gallai effaith amgylcheddol andwyol drilio o'r fath ac echdynnu siâl nwy fod yn sylweddol, nid oes amheuaeth fod cryn dipyn o bryder cyhoeddus ynghylch y prosesau diwydiannol sy'n gysylltiedig â ffracio, cymaint felly fel bod llawer o ardaloedd ar draws y byd wedi gosod moratoria ar ei ddefnydd, gan ddatgan bod angen mesurau ataliol i wrthbwyso effaith bosibl ar yr amgylchedd hyd nes y gellir profi ei fod yn ddull o gynhyrchu ynni sy'n lân yn amgylcheddol. Yn wir, honnir ein bod wedi gweld dirgryniadau seismig bach o safle profi twll turio yn y DU yn ddiweddar. O ganlyniad, rwy'n cefnogi safbwynt rhagofalus ar y mater a dylid ystyried archwiliad pellach i effaith amgylcheddol posibl y dull hwn o gynhyrchu ynni. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog a yw'n bwriadu trafod gyda'r swyddfa nwy ac olew anghonfensiynol yn Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i sicrhau bod dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth yn cael ei wneud er mwyn cyrraedd pwynt lle y gellir rhoi cyfarwyddyd.

- 17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish with this, please. Gorffennwch â hyn, os gwelwch yn dda.
- 17:41 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
This is my final statement. We are all aware of the increase in energy needs that is required to support our high-powered lifestyles and the devastating—and often fatal—environmental impacts of our actions. Renewable energy sources must be addressed as they offer a means for us to offset that impact. Dyma fy natganiad terfynol. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r cynnydd yn yr ynni sydd ei angen er mwyn cynnal ein ffordd o fyw sydd mor drwm ar ynni ac effeithiau amgylcheddol dinistriol—angheuol yn aml—ein gweithredoedd. Rhaid i ni fynd i'r afael â ffynonellau ynni adnewyddadwy sy'n cynnig ffordd i ni wneud iawn am yr effaith honno.
- 17:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Aled Roberts. Galwaf ar Aled Roberts.
- 17:41 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'r cynnig hwn nid yn unig yn delio â thechnoleg, sydd yn rhaid inni ei dderbyn oherwydd y broblem o newid hinsawdd, ond hefyd mae'n peri inni gydnabod bod problemau o ran yr isadeiledd yng Nghymru. Mae hon yn thema eithaf cyffredin i ni, os ydym yn sôn am ffordd neu reilffyrdd. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni gydnabod bod y Grid Cenedlaethol, i ryw raddau, wedi cael ei gynllunio ar gyfer symud ynni o Gymru, ar draws Glawdd Offa, yn hytrach nag i ddelio â'r broblem sydd gennym yma yng Nghymru. Dyna pam mae'n rhaid inni, wrth drafod dyfodol ynni yng Nghymru, ddatblygu rhwydwaith sy'n ddeallus ac sy'n ymateb i ofynion Cymru, a dyna pam, felly, byddwn ni'n cefnogi gweliant 7 Plaid Cymru. This motion not only deals with technology, which we will need to have because of the problem of climate change, but also it causes us to recognise that there are problems with the infrastructure in Wales. This is a fairly common theme for us, if we are talking about roads or railways. However, we must recognise that the National Grid, to some extent, has been designed for the movement of energy out of Wales, across Offa's Dyke, rather than to deal with the problem that we have here in Wales. That is why we must, when discussing the future of energy in Wales, develop a network that is intelligent and that responds to the needs of Wales, and that is why, therefore, we will be supporting Plaid Cymru's amendment 7.

Rydym yn credu y dylem edrych ar y cyd-gysylltydd hwn rhwng y de a'r gogledd a gofyn, wrth wneud hynny, i Lywodraeth Cymru a yw'n bosibl iddi gyhoeddi unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud ganddi hi neu'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â'r dechnoleg honno. We believe that we should look at this interconnection between the north and the south and ask the Welsh Government, in so doing, whether it is possible to publish any assessment that has been carried out by it or by the National Grid on that technology.

Fodd bynnag, wrth ddweud bod yn rhaid ymateb i broblemau'r rhwydwaith, mae hefyd cyfle i ni ystyried gwahanol dechnolegau sydd ar gael, ac wrth wneud hynny, hwyrach, ffocysu, yn y rhan hon o'r ddadl a'r drafodaeth, ar gynlluniau 'hydro'. Mae nifer o siaradwyr wedi sôn am ynni sy'n cael ei gynhyrchu gan y môr. Mae rhai cynlluniau wedi bod ers degawdau—yn Eryri, o ran cynlluniau 'hydro', yn Ninorwig, a chyn hynny yn Ffestiniog, wrth gwrs. Rydym yn credu y dylai Lywodraeth Cymru gymryd mantais o'r ddaearyddiaeth sydd gennym yma yng Nghymru er mwyn inni allu ymateb yn y ffordd hon.

Wrth sôn am y rhwydwaith, mae'n rhaid inni ddatblygu rhwydwaith sydd ddim yn gorfod gwrthod cyflenwad is-garbon na chyflenwad adnewyddadwy pan nad yw'r galw yno, neu sy'n dibynnu ar bŵer confensiynol neu niwclear pan mae'r galw'n cynyddu. Fodd bynnag, fel y dywedodd David Rees, wrth sôn am rwydweithiau'r Grid Cenedlaethol a, hwyrach, rhai cynlluniau o ran adeiladu gorsafoedd ynni newydd, mae'n rhaid inni hefyd, fel Cynulliad ac fel Llywodraeth, dderbyn bod rhai cymunedau sy'n cael eu heffeithio'n fwy na rhai eraill. Dyna pam mae rhai cymunedau, megis y rhai sydd yn y gogledd ar hyn o bryd, yn gwrthwynebu rhai o'r cynlluniau sydd wedi dod gerbron.

Mae'n rhaid inni feddwl yn ehangach am y buddiannau cymunedol sydd ar gael. Mae'n rhaid inni gydnabod erbyn hyn bod miliynau o bunnoedd yn dod i mewn i rai o'r cymunedau gwledig hyn—yr union gymunedau sydd, hwyrach, yn wynebu rhai o'r toriadau o ran eu gwasanaethau llywodraeth leol. Fodd bynnag, os ydym i fod yn llwyddiannus o ran rhai o'r newidiadau hyn, mae'n rhaid i ni feddwl yn fwy eang am y buddiannau cymunedol. Mae'n rhaid i ni gael dadl eithaf onest ynglŷn â rhai o'r gwrthdystiadau yn sir Drefaldwyn, er enghraifft, lle mae yna deimlad eithaf cryf ar lawr gwlad bod yna ormod o ffocysu ar ardal eithaf bach ac nad ydynt yn gweld eu bod nhw fel cymuned yn elwa o'r newidiadau hynny.

Yn olaf, rwyf am edrych ar welliannau 8 a 9 gan y Torïaid. Rydym ni'n cytuno bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi a buddsoddi yn y ffyrdd adnewyddadwy hyn. Mae'n rhaid i ni gael gwared, fel y dwedodd Bill Powell, â'r orddibyniaeth ar ynni ffosil, ond wrth i ni ddweud ein bod ni'n credu hefyd fod digon o geisiadau cynllunio ar hyn o bryd i gyrraedd targed 2025 Llywodraeth Prydain, mae'n rhaid i ni fel gwlad fynd yn bellach na'r targedau presennol hyn. Mae'n rhaid i ni edrych ymhellach na 2025 a dweud ein bod yn fodlon ysgwyddo rhywfaint o'r baich o ran ynni adnewyddadwy a chymryd y mater hwn o ddifrif. Rydym ni'n credu bod yn rhaid i gymunedau lleol gymryd rhan yn y broses gynllunio, ond rydym yn meddwl bod rhai o sylwadau'r Torïaid yn mynd i effeithio ar hyder y sector i fuddsoddi.

However, in stating that we have to respond to the problems of the network, there is also an opportunity to consider the different technologies available, and in so doing, perhaps focus, in this part of the debate and discussion, on hydro schemes. A number of speakers have mentioned the energy that is produced in the marine environment. Some schemes have been in place for decades—in Snowdonia, in terms of hydro schemes, in Dinorwig, and before that in Ffestiniog, of course. We believe that the Welsh Government should take advantage of the geography that we have here in Wales so that we can respond in this way.

When talking about the network, we have to develop a network that does not have to reject a low-carbon supply or a renewable supply when the demand is not there, or who rely on conventional or nuclear power when the demand increases. However, as David Rees said, when talking about the National Grid networks and, perhaps, some plans for building new power stations, we must also, as an Assembly and as a Government, accept that some communities that are affected more than others. That is why some communities, such as those in north Wales, are opposing some of the schemes that have been put forward.

We must think more broadly about the community benefits available. We must recognise that there are now millions of pounds coming in to some of these rural communities—the very communities that are, perhaps, facing some of the cuts in local government services. However, if we are to be successful in terms of some of implementing some of these changes, we have to think more comprehensively about community benefits. We must have an honest debate on some of the protests that we have seen in Montgomeryshire, for example, where there is quite a strong feeling at grass-roots level that there has been too much focus on a relatively small area and they do not see that they, as a community, are benefiting from those changes.

Finally, I want to look at amendments 8 and 9, tabled by the Tories. We agree that the Welsh Government must support and invest in renewables. We must, as Bill Powell said, get rid of this over-reliance on fossil fuels, but in stating that we also believe that there are enough applications in the planning pipeline to fulfil the UK Government's 2025 target, we as a nation must go further than the current targets. We must look beyond 2025 and state that we are willing to shoulder some of the burden in terms of renewable energy and to take this issue seriously. We believe that local communities must play a full role in the planning process, but we also believe that some of the comments made by the Tories will impact upon the confidence of the sector in investing in these projects.

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree that it is important that communities feel that they are involved in any changes that are going on around renewable energies and other things, but I also think that it is very important that we do not make ourselves victims or captive to the flat-earthers in our society who are in denial about the changes that we absolutely have to make for future generations. There was an article in the 'Western Mail' yesterday, where the AA was decrying the fact that fuel sales have gone down absolutely since 2008. Instead of celebrating the fact that we now have cars that are more energy-efficient, it was decrying the fact that less fuel is being consumed.

Therefore, I think that we have to tackle this in many different ways. We have to reduce our energy consumption, with energy conservation measures, and we have to reuse things and then get more efficient at producing forms of electricity and energy that do not harm the environment. We have huge opportunities in Wales, which several Members have spoken about already. With tidal energy alone we could be self-sufficient in energy in Wales, but that is something that, obviously, involves quite a lot of complex technology and which is very hard for the average person in the community to feel that they could be individually taking part in. It relies on people with a great deal of expertise and, indeed, money to help bring that about.

However, on a day when there is a lot of bad news about the state of the Co-operative Bank, there is a home-grown co-op here in Wales that is alive and kicking—a success, in the Amman valley, which was launched in the Senedd some three months ago, and that is the Egni solar PV co-op, which was launched by Gwenda Thomas. In less than three months, it has managed to raise £155,000 from a community subscription to build 155 kW of solar PV panels on community buildings. It will save more than 1,000 tonnes of carbon dioxide over the lifetime of the project. I think that that is an excellent example of what can be done. It has minimum shares of £250, but, with the use of crowdfunding, people who wanted to contribute less than that were also able to get involved. It will offer a 4% return on investment, which is not bad given current bank rates.

Rwy'n cytuno ei bod yn bwysig i gymunedau deimlo'u bod yn rhan o'r newidiadau sy'n digwydd mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a phethau eraill ond rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig iawn inni beidio â dioddef neu gael ein caethiwo gan y rhai yn ein cymdeithas sy'n mynnu bod y ddaear yn wastad ac yn gwrthod y newidiadau sy'n rhaid i ni eu gwneud ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mewn erthygl yn y 'Western Mail' ddoe, roedd yr AA yn lladd ar y ffaith fod gwerthiant tanwydd wedi gostwng cymaint ers 2008. Yn hytrach na dathlu'r ffaith fod gennym geir bellach sy'n gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni, roedd yn gwarafun y ffaith fod llai o danwydd yn cael ei ddefnyddio.

Felly credaf fod yn rhaid inni fynd i'r afael â hyn mewn sawl ffordd wahanol. Mae'n rhaid i ni leihau ein defnydd o ynni drwy fesurau arbed ynni ac mae'n rhaid i ni aildefnyddio pethau a dod yn fwy effeithlon am gynhyrchu ffurfiau ar drydan ac ynni nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd. Mae gennym gyfleoedd aruthrol yng Nghymru ac mae nifer o'r Aelodau wedi sôn amdanynt eisoes. Gydag ynni'r llanw'n unig, galem fod yn hunangynhaliol mewn ynni yng Nghymru ond mae hynny'n rhywbeth sy'n galw am lawer o dechnoleg gymhleth, mae'n amlwg, ac mae'n anodd iawn i'r person cyffredin yn y gymuned deimlo y gallent gymryd rhan ynddo fel unigolion. Mae sicrhau hynny'n dibynnu ar bobl sydd â llawer iawn o arbenigedd ac arian yn wir.

Fodd bynnag, ar ddiwrnod pan gafwyd llawer o newyddion drwg am sefyllfa Banc y Co-operative, mae gennym gwmni cydweithredol gartref yma yng Nghymru sy'n fyw ac yn iach-llwyddiant yng Nghwm Aman a lansiwyd yn y Senedd oddeutu tri mis yn ôl, sef cwmni cydweithredol paneli solar ffotofoltaig Egni a lansiwyd gan Gwenda Thomas. Mewn llai na thri mis, mae wedi llwyddo i godi £155,000 mewn tanysgrifiadau cymunedol i adeiladu 155 kW o baneli solar ffotofoltaig ar adeiladau cymunedol. Bydd yn arbed mwy na 1,000 tonnell o garbon deuocsid dros oes y prosiect. Rwy'n meddwl bod hynny'n enghraifft wych o'r hyn y gellir ei wneud. Isafswm pris ei gyfranddaliadau yw £250 ond gyda'r defnydd o arian torfol, gallai pobl sydd am gyfrannu llai na hynny gymryd rhan hefyd. Bydd yn cynnig 4% o elw ar fuddsoddiad nad yw'n ddrwg o ystyried y cyfraddau banc cyfredol.

So, inspired by the Egni project, I thought that I would apply the science to looking around my constituency, which is one of the most densely populated urban areas in Wales. Nevertheless, it is fertile ground for feasible renewable energy projects. Not least, the roofs of every single building—at least for those buildings that are correctly oriented towards the south or south-west—are an opportunity for making or saving money from solar panels. In addition to that, the layout of the housing estates in the Llanedeyrn and Pentwyn areas of my constituency also provide fertile ground for ground source heat pumps. So, I was fascinated that, in a short space of time, since the middle of February, I have had expressions of interest from schools, housing associations, churches, care homes and leisure centres that are interested in lending their roofs in order to be able to lower their own bills and reduce carbon emissions. I am hoping to go ahead with a similar scheme in my constituency, following on the inspiration of Egni. This, of course, is using the benefits and incentives from the feed-in tariff, which enables excess electricity to be sold back to the grid. This is a model that has taken off across parts of the UK—

Felly, ar ôl cael fy ysbrydoli gan brosiect Egni, credais y byddwn yn cymhwysu'r wyddoniaeth wrth edrych o gwmpas fy etholaeth sy'n un o'r ardaloedd trefol mwyaf poblog yng Nghymru. Serch hynny, mae'n dir ffrwythlon ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy ymarferol. Nid yn lleiaf, mae toeau pob adeilad-yr adeiladau hynny sy'n gogwyddo'n gywir tuag at y de neu'r de-orllewin o leiaf-yn gyfle i wneud neu arbed arian o baneli solar. Yn ogystal â hynny, mae cynllun y stadau tai yn ardaloedd Llanedern a Phentwyn yn fy etholaeth hefyd yn dir ffrwythlon ar gyfer pympiau gwres o'r ddaear. Felly cefais fy rhyfeddu fy mod mewn cyfnod byr o amser, ers canol mis Chwefror, wedi cael mynegiadau o ddiddordeb gan ysgolion, cymdeithasau tai, eglwysi, cartrefi gofal a chanolfannau hamdden sydd â diddordeb mewn benthyca eu toeau er mwyn gallu gostwng eu biliau eu hunain a lleihau allyriadau carbon. Rwy'n gobeithio bwrw ymlaen â chynllun tebyg yn fy etholaeth yn dilyn ysbrydoliaeth Egni. Wrth gwrs, mae hyn yn gwneud defnydd o fanteision a chymhellion y tariff cynhyrchu trydan sy'n ei gwneud hi'n bosibl gwerthu trydan dros ben yn ôl i'r grid. Dyma fodel sydd wedi profi'n llwyddiant mewn rhannau o'r DU—

- 17:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
You must finish with this, please. Mae'n rhaid i chi orffen gyda hyn, os gwelwch yn dda.
- 17:52 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I feel that it is something that we could be doing in all of our constituencies to ensure that we are fully addressing the challenges that we face. Rwy'n teimlo ei fod yn rhywbeth y gallem ei wneud ym mhob un o'n hetholaethau i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau sy'n ein hwynebu.
- 17:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies. Galwaf ar Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.
- 17:52 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food
Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It is a real pleasure to reply to this debate, which has explored all of the different aspects of energy policy and the potential and opportunities available to us. The Government will be supporting all of the amendments that have been placed on the agenda this afternoon, with the exception of those placed by our Conservative friends. At the risk of being seen as somewhat churlish, I did feel that Russell George gave us a masterclass in the 'on the one hand, and on the other hand' school of politics this afternoon. I still have absolutely no idea at all where the Welsh Conservative party stands on climate change. Is that not quite a statement? It is one of the greatest challenges facing the globe today and the Welsh Conservatives do not know where they stand. Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser go iawn cael ymateb i'r ddadl hon sydd wedi edrych ar bob un o wahanol agweddau'r polisi ynni a'r potensial a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni. Bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r holl welliannau a roddwyd ar yr agenda y prynhawn yma ac eithrio'r rhai a osodwyd gan ein cyfeillion Ceidwadol. Os caf fentro swnio braidd yn anfoesgar, teimlwn fod Russell George wedi rhoi dosbarth meistr i ni ar wleidyddiaeth 'ar y naill law, ac ar y llaw arall' y prynhawn yma. Rwy'n dal heb syniad o gwbl beth yw safbwynt Plaid Geidwadol Cymru ar newid yn yr hinsawdd. Onid yw hynny'n dipyn o ddatganiad? Mae'n un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw ac nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwybod ble maent yn sefyll.
- 17:53 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad?
- 17:53 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Perhaps we will be enlightened. Efallai y cawn ein goleuo.

17:53

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thought, Minister, that I was quite clear on where we, the Welsh Conservatives, stand. We believe that man-made climate change is one of the biggest significant issues that we have to deal with, as a country and in the world. That is our position; that is the view of the Welsh Conservatives.

Rwy'n meddwl, Weinidog, fy mod wedi bod yn eithaf dir ynglŷn â ble rydym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, yn sefyll. Rydym yn credu bod newid yn yr hinsawdd wedi'i achosi gan y ddynoliaeth yn un o'r materion pwysicaf sy'n rhaid inni ymdrin ag ef, fel gwlad ac yn y byd. Dyna ein safbwynt; dyna yw barn y Ceidwadwyr Cymreig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:53

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We might have moved forward there. It is a great significant issue, but does it drive and inform policy? That is the question. The other two amendments that you have tabled seem to have the objective of preventing renewable energy from being developed. The Conservatives seem now to be taking the view that they oppose all onshore wind development with the single exception of that being planned on the land of the leader of the opposition. [Assembly Members: 'Oh'.] So, we now have a situation—and this is something, is it not?—whereby the official opposition in this place marches up and down the country, up and down Wales, campaigning against every single development on onshore wind and supporting it on the land owned by the leader of the opposition. They call that a policy position. They ask Members here to support an amendment saying that. I tell you, we will not. We will not do it today and I do not think that anyone else in this place will do so either.

Efallai y byddem wedi symud ymlaen yno. Mae'n fater sylweddol iawn ond a yw'n gyrru ac yn llywio polisi? Dyna'r cwestiwn. Ymddengys mai nod y ddau welliant arall rydych wedi'u cyflwyno yw atal ynni adnewyddadwy rhag cael ei ddatblygu. Mae'n ymddangos bellach fod y Ceidwadwyr yn gwrthwynebu pob datblygiad gwynt ar y tir ac eithrio un, sef y datblygiad sy'n cael ei gynllunio ar dir arweinydd yr wrthblaid. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'] Bellach, felly, mae gennym sefyllfa—ac mae'n dipyn o sefyllfa, onid yw?—lle mae'r wrthblaid swyddogol yn y lle hwn yn gorymdeithio ar hyd a lled y wlad, ledled Cymru, yn ymgychu yn erbyn pob datblygiad ynni gwynt ar y tir ac yn ei gefnogi ar y tir sy'n eiddo i arweinydd yr wrthblaid. Maent yn galw hyn yn safbwynt polisi. Maent yn gofyn i'r Aelodau yma gefnogi gwelliant sy'n dweud hynny. Rwy'n dweud wrthyhych, ni wnawn hynny. Ni wnawn hynny heddiw ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw un arall yn y lle hwn yn gwneud hynny chwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On amendment 3, we accept that the limits placed upon us by the UK Government mean that we are not able to realise all the ambitions that I think we share in most parts of the Chamber today, and, as the First Minister outlined some weeks ago, not only do we want to see the Silk recommendations developed, we want to see further devolution of energy consents to Wales. We want to be put on an equal footing with Scotland and Northern Ireland. We did not feel that the threshold of 350 MW was presented with a compelling case.

O ran gwelliant 3, rydym yn derbyn bod y cyfyngiadau a roddir arnom gan Lywodraeth y DU yn golygu nad allwn wireddu'r holl uchelgeisiau y credaf fod y mwyafrif o'r Siambwr yn eu rhannu heddiw ac fel yr amlinellodd y Prif Weinidog rai wythnosau yn ôl, rydym am weld argymhellion Silk yn cael eu datblygu, ond rydym hefyd am weld mwy o ddatganoli pwerau caniatâd ynni i Gymru. Rydym yn awyddus i gael ein rhoi ar sail gyfartal â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Ni themlem fod achos cryf dros gyflwyno trothwy o 350 MW.

Amendment 4—and I felt that Alun Ffred made a very good case for it—asks us to explore the potential of establishing a publicly owned not-for-distributable-profit arm's-length energy company. Let me say this: we are looking at how we develop energy projects. We will clearly do that in different ways in different places using different technologies. However, the more important point in the individual motion, though we are happy to accept the amendment, is this: we need to use the resources we have available to us, in terms of the resources of Government, in the form of the public resources available to us, to take down and systematically remove the barriers that are currently preventing the development of renewable energy projects and to then enable those projects to go ahead. Now, it may well be that using a public vehicle will be a way for us to do that, but we would also support community-led initiatives and private business-led initiatives, and, through the rural development plan, I would like to see many more rural businesses, seeking to take this up as well. So, we will support that, but we will also want to go further and to do this in different ways.

Roedd gwelliant 4—ac rwy'n teimlo bod Alun Ffred wedi gwneud achos da iawn drosto—yn gofyn i ni edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cwmni ynni eiddo cyhoeddus hyd braich nid er elw i'w ddosbarthu. Gadewch i mi ddweud hyn: rydym yn edrych ar sut i ddatblygu prosiectau ynni. Byddwn yn amlwg yn gwneud hynny mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol fannau drwy ddefnyddio technolegau gwahanol. Fodd bynnag, y pwynt pwysicach yn y cynnig unigol, er ein bod yn hapus i dderbyn y gwelliant, yw hyn: mae angen i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni, o ran adnoddau'r Llywodraeth, ar ffurf adnoddau cyhoeddus sydd ar gael i ni, i chwalu a mynd ati'n systematig i dynnu'r rhwystrau sy'n atal y gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar hyn o bryd ac yna, galluogi'r prosiectau hyn i symud ymlaen. Yn awr, mae'n ddigon posibl y bydd defnyddio cerbyd cyhoeddus yn ffordd i ni wneud hynny ond byddem hefyd yn cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned a mentrau a arweinir gan fusnesau preifat, a thrwy'r cynllun datblygu gwledig, hoffwn weld llawer mwy o fusnesau gwledig yn ceisio gwneud defnydd o hyn hefyd. Felly byddwn yn cefnogi hynny, ond byddwn hefyd yn awyddus i fynd ymhellach a gwneud hyn mewn gwahanol ffyrdd.

Amendment 6 asks that we fund a nationwide retrofitting scheme to cut energy consumption. Of course, we do fund retrofitting schemes. We do not have the funds available to us to do all that we would wish to do, but I shall be announcing a review very soon of Nest and Arbed, and we will look to how we can take those schemes forward. They have been successful to date, but we want them to be successful in the future, and that means that we do not simply do in the future what we are doing today or what we did yesterday, but that we will do in the future what new technology and a connected community allow us to do while continuing to retrofit homes where necessary.

Amendment 7 asks that we publish any research into the feasibility of building a grid connection between the north and south of Wales. This, of course, is something that has been debated and discussed. I think that National Grid is looking at the options for such a connector. Clearly, the Welsh Government would seek to support that, for the reasons given by speakers supporting the amendment, such as William Powell in introducing the motion, and we will support that.

However, fundamentally, let me say this: in terms of where we are going, there is irrefutable evidence that we are seeing irreversible climate change taking place that will effect different weather patterns and affect the way that we do business as Governments and as people. That must drive policy, and it must underpin the approach that we take to the generation of energy. However, let me say this as well: the development of distributed energy generation and the development of renewables is not there simply to address climate change and climate change alone, although it is an important driver. It must also be there to drive economic policy and to drive social policy. All too often we have said that we can do one thing or we can do another thing—we can address fuel poverty or we can address climate change; we can have economic growth and jobs or we can have a green economy. Let me say this: through the development of renewable generation, we can have all of those things and achieve all of those different objectives. We can start to address fuel poverty not only through ensuring that we retrofit, which we are already doing, but by enabling community-owned generation sources and facilities to deliver energy to people who need it and to people who are at the moment suffering the impacts of poverty. I would ask every single person in this Chamber today to look at the deep place study that has just been published from my home town of Tredegar and to look at that as a template not only to generate energy, but to address fundamental social issues and to create jobs and sustainable economic growth.

We have the opportunity to do all of these different things, and the 'Energy Wales' strategy asks us to deliver those things. I believe that the motion that has been placed on the agenda this afternoon by the Liberal Democrats supports many of those ambitions and objectives, and if the Government amendment is supported by the Chamber this afternoon, we would be happy to support the motion.

Mae gwelliant 6 yn gofyn i ni ariannu cynllun ôl-ffitio cenedlaethol i leihau'r defnydd o ynni. Wrth gwrs, rydym yn cyllido cynlluniau ôl-ffitio. Nid oes gennym arian ar gael i wneud popeth y byddem yn dymuno ei wneud ond byddaf yn cyhoeddi adolygiad yn fuan iawn o Nest ac Arbed a byddwn yn edrych ar sut y gallwn ddatblygu'r cynlluniau hynny. Maent wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn ond rydym am iddynt fod yn llwyddiannus yn y dyfodol ac mae hynny'n golygu nad yr hyn a wnawn heddiw neu'r hyn a wnaethom ddoe yn unig y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol, ond hefyd yr hyn y mae technoleg newydd a chymuned gysylltiedig yn caniatáu i ni ei wneud gan barhau i ôl-ffitio cartrefi lle bo angen.

Mae gwelliant 7 yn gofyn i ni gyhoeddi ymchwil i ddichonoldeb adeiladu cysylltiad grid rhwng gogledd a de Cymru. Mae hyn, wrth gwrs, yn rhywbeth sydd wedi cael ei drafod a'i drafod. Rwy'n credu bod y Grid Cenedlaethol yn edrych ar y dewisiadau ar gyfer cysylltiad o'r fath. Yn amlwg, byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi hynny am y rhesymau a roddwyd gan siaradwyr i gefnogi'r gwelliant, fel William Powell wrth gyflwyno'r cynnig, a byddwn yn cefnogi hynny.

Yn y bôn, fodd bynnag, gadewch i mi ddweud hyn: o ran lle'r ydym yn mynd, mae tystiolaeth ddiymwad ein bod yn gweld newid yn yr hinsawdd di-droi'nôl yn digwydd a fydd yn effeithio ar wahanol batrymau tywydd ac yn effeithio ar y ffordd rydym yn gwneud pethau fel Llywodraethau ac fel pobl. Rhaid i hynny lywio polisi ac mae'n rhaid iddo fod yn sail i'n hagwedd tuag at gynhyrchu ynni. Fodd bynnag, gadewch i mi ddweud hyn hefyd: nid yw datblygiad cynhyrchu ynni gwasgaredig a datblygu ynni adnewyddadwy yn digwydd er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn unig neu newid yn yr hinsawdd ei ben ei hun, er ei fod yn sbardun pwysig. Rhaid iddo hefyd yrru polisi economaidd a gyrru polisi cymdeithasol. Yn rhy aml rydym wedi dweud y gallwn wneud un peth neu gallwn wneud y peth arall-gallwn fynd i'r afael â thlodi tanwydd neu gallwn fynd i'r afael newid yn yr hinsawdd; gallwn gael twf economaidd a swyddi neu gallwn gael economi werdd. Gadewch i mi ddweud hyn: drwy ddatblygu ynni adnewyddadwy, gallwn gael pob un o'r pethau hynny a chyflawni'r holl amcanion gwahanol. Gallwn ddechrau mynd i'r afael â thlodi tanwydd, nid yn unig drwy sicrhau ein bod yn ôl-ffitio fel rydym eisoes yn ei wneud, ond drwy alluogi ffynonellau a chyfleusterau cynhyrchu sy'n eiddo i'r gymuned i ddarparu ynni i bobl sydd ei angen ac i bobl sydd ar hyn o bryd yn dioddef effeithiau tlodi. Byddwn yn gofyn i bob person yn y Siambr hon heddiw i edrych ar yr astudiaeth fanwl sydd newydd ei chyhoeddi gan fy nhref enedigol, sef Tredegar, ac edrych arni fel templed nid yn unig ar gyfer cynhyrchu ynni, ond ar gyfer mynd i'r afael â materion cymdeithasol sylfaenol a chreu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy.

Mae gennym gyfle i wneud yr holl bethau gwahanol hyn ac mae strategaeth 'Ynni Cymru' yn gofyn i ni i gyflawni'r pethau hyn. Rwy'n credu bod y cynnig a roddwyd ar yr agenda y prynhawn yma gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn cefnogi llawer o'r uchelgeisiau a'r amcanion hynny ac os yw'r Siambr yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth y prynhawn yma, byddem yn hapus i gefnogi'r cynnig.

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

I thank everyone for their contributions to the Welsh Liberal Democrat debate this afternoon. I welcome what Russell George had to say in moving the amendment on behalf of the Welsh Conservative group about the real threat that climate change poses not just to Wales, but to the globe. However, I must say that that message was significantly diluted by what you went on to say about so-called eminent scientists who question man-made climate change. Let us be absolutely clear: the overwhelming scientific view is that it is happening, and it is happening because of the activities of all of us across the globe. We need to act.

I am glad that Alun Ffred, too, in his contribution, recognised what I would regard as dangerous views being espoused by UKIP in this regard. Not only are they not willing to accept the overwhelming scientific view, they do not want our children to hear about it either. I think that is particularly sinister, and is reminiscent of some of the bans in other countries on the teaching of the evolutionary process. It is absolutely vital that such views cannot win over.

Alun Ffred also went on to raise the issue of energy consents, and Liberal Democrats have long called for energy consents to be devolved to this institution. We were doing that, first, in the face of a Welsh Government that did not want those powers, and when a previous incarnation of the Welsh Government decided that it did want those powers, it was turned down repeatedly by a Labour Government in London. What I am really pleased about now is that the recognition that greater powers should come to this institution has been made by the Silk commission and accepted by the Welsh Government, and I am really hopeful that those powers will find themselves into the manifestos of all political parties as we go forward to the next general election.

We will support Plaid's amendments 4, 6 and 7. There is a great deal of synergy between what those amendments say and the detail of our policy paper. It is just impossible to put all of that detail into a particular motion.

I thank David Rees for his contribution, where he reiterated the point made by Eluned Parrott that, rather than being a threat to our economy, actually renewables could be a huge boost and driver for Welsh economic success. You are right: projects like the Swansea lagoon, which we support also, could be exemplars, and could be a real boost in terms of employment, boosting skills within the workforce, and a really positive development. I thank him for his careful and considered comments about the need for a technical advice note with regard to fracking—a view that we support, which was supported by David Rees, and which is also the view of the Welsh Local Government Association; it would like to see a TAN being brought forward in this regard.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau at ddatllyd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y prynhawn yma. Rwy'n croesawu'r hyn a oedd gan Russell George i'w ddweud wrth gynnig y gwelliant ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru am y bygythiad go iawn y mae newid yn yr hinsawdd yn ei greu, nid yn unig i Gymru, ond i'r byd. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud bod y neges honno wedi'i gwanhau'n sylweddol gan yr hyn yr aethoch ymlaen i'w ddweud am yr hyn a elwir yn wyddonwyr o fri sy'n cwestiynu newid yn yr hinsawdd wedi'i achosi gan y ddynoliaeth. Gadewch inni fod yn hollol glir: y farn wyddonol ddiwrthdro yw ei fod yn digwydd, ac mae'n digwydd oherwydd gweithgareddau pob un ohonom ar draws y byd. Mae angen i ni weithredu.

Rwy'n falch bod Alun Ffred hefyd yn ei gyfraniad yn tynnu sylw at yr hyn y byddwn yn eu hystyried yn safbwyntiau peryglus sy'n cael eu harddel gan UKIP yn y cyd-destun hwn. Nid yn unig eu bod yn amharod i dderbyn y farn wyddonol ddiwrthdro, nid ydynt ychwaith eisiau i'n plant glywed am y peth. Credaf fod hynny'n arbennig o sinistr ac yn ein hatgoffa o rai o'r gwaharddiadau mewn gwledydd eraill ar addysg esblygiad. Mae'n gwbl hanfodol na chaiff safbwyntiau o'r fath fagu gwraidd.

Aeth Alun Ffred ymlaen hefyd i sôn am fater caniatâd ynni ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi galw ers amser am ddatganoli pwerau caniatâd ynni i'r sefydliad hwn. Rydym yn gwneud hynny, yn gyntaf, yn wyneb Llywodraeth Cymru nad oedd eisiau pwerau o'r fath a phan benderfynodd ymgawdoliad blaenorol o Lywodraeth Cymru ei bod yn dymuno'r cyfryw bwerau, cafodd y cais ei wrthod dro ar ôl tro gan Lywodraeth Lafur yn Llundain. Yr hyn rwy'n wirioneddol falch yn ei gylch yn awr yw bod comisiwn Silk wedi cydnabod y dylid rhoi mwy o bwerau i'r sefydliad hwn a bod hynny wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n wirioneddol obeithiol y bydd y pwerau hynny'n cael eu cynnwys ym manifestos pob plaid wleidyddol wrth inni symud ymlaen at yr etholiad cyffredinol nesaf.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru rhifau 4, 6 a 7. Mae llawer iawn o synergedd rhwng yr hyn sydd yn y gwelliannau a manylion ein papur polisi. Mae'n amhosibl rhoi'r holl fanylion mewn cynnig penodol.

Diolch i David Rees am ei gyfraniad ac am ailadrodd y pwynt a wnaed gan Eluned Parrott, sef yn hytrach na bod yn fygythiad i'n heconomi, gallai ynni adnewyddadwy fod yn hwb enfawr ac yn sbardun i lwyddiant economaidd Cymru mewn gwirionedd. Rydych yn iawn: gallai prosiectau fel morlyn Abertawe a gefnogir gennym ninnau hefyd, fod yn hwb go iawn o ran cyflogaeth, gan hybu sgiliau'r gweithlu a bod yn ddatblygiad cadarnhaol iawn. Diolch iddo am ei sylwadau gofalus ac ystyriol am yr angen am nodyn cyngor technegol mewn perthynas â ffracio—barn a gefnogwn, ac a gefnogwyd gan David Rees, a dyna hefyd yw barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; byddai'n hoffi gweld TAN yn cael ei gyflwyno ynglŷn â hyn.

Jenny Rathbone reminded us that actually there is not a part of Wales that cannot contribute to this agenda. A great deal of time has been spent on offshore wind, onshore wind and tidal resources, but actually there is not a part of Wales that cannot contribute to this agenda. She went on to remind us that there are many ways and many different technologies that we must utilise if we are to make progress in this regard.

Minister: churlish? Surely no-one in this Chamber could ever accuse Alun Davies of being churlish. [Laughter.] But, I did welcome what he had to say about energy consents, and what he had to say about Arbed and Nest. Those are two projects that the Welsh Liberal Democrats have supported, and actually increased the budgets for when we negotiated budget agreements with the Welsh Labour Government. However, what the Minister did not say in his contribution this afternoon is why the Welsh Government has set its face against issuing a TAN on fracking. It has failed to engage in that part of this debate, and that is disappointing. If the Government in intent on deleting that from the Welsh Liberal Democrat motion, the Minister should explain why that is the case, and why he would set his face against views being expressed inside this Chamber, and outside it, about how a technical advice note with regard to fracking would be of benefit and is desirable. I am sorry that he failed to do that in his contribution this afternoon.

I am pleased that we have been able to establish a consensus about the need to act and about how this particular policy agenda is not just about making a contribution to protecting our environment for generations to come, but that it actually presents Wales with a real opportunity, in the Welsh economy, to use the natural resources that we have been blessed with to drive down energy prices for our citizens while providing good clean energy to the rest of the UK. I thank Members for their time this afternoon.

Cawsom ein hatgoffa gan Jenny Rathbone nad oes unrhyw ran o Gymru mewn gwirionedd na all gyfrannu at yr agenda hon. Mae llawer iawn o amser wedi'i dreulio ar ynni gwynt ar y môr, ynni gwynt ar y tir ac adnoddau llanw ond mewn gwirionedd, nid oes unrhyw ran o Gymru na all gyfrannu at yr agenda hon. Aeth ymlaen i'n hatgoffa fod llawer o ffyrdd a llawer o dechnolegau gwahanol sy'n rhaid inni eu defnyddio os ydym i wneud cynnydd yn hyn o beth.

Weinidog: anfoesgar? Siawns na allai neb yn y Siambr hon gyhuddo Alun Davies o fod yn anfoesgar. [Chwerthin.] Ond roeddwn yn croesawu'r hyn a oedd ganddo i'w ddweud am ganiatâd ynni ac am Arbed a Nest. Dyma ddau brosiect y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi'u cefnogi ac wedi cynyddu'r cyllidebau ar eu cyfer mewn gwirionedd wrth drafod cytundebau'r gyllideb â Llywodraeth Lafur Cymru. Fodd bynnag, yr hyn na ddywedodd y Gweinidog yn ei gyfraniad y prynhawn yma yw pam y mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chyhoeddi TAN ar ffracio. Mae wedi methu â chymryd rhan yn y rhan honno i'r ddadl hon ac mae hynny'n siom. Os yw'r Llywodraeth yn benderfynol o ddileu hynny o gynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, dylai'r Gweinidog egluro pam, a pham y byddai'n gwrthwynebu'r farn a fynegir yn y Siambr hon a thu allan iddi ynglŷn â sut y byddai nodyn cyngor technegol mewn perthynas â ffracio'n fuddiol ac yn ddymunol. Mae'n ddrwg gennyf ei fod wedi methu â gwneud hynny yn ei gyfraniad y prynhawn yma.

Rwy'n falch ein bod wedi gallu sefydlu consensws am yr angen i weithredu ac ynglŷn â sut y mae agenda'r polisi penodol hwn yn ymwneud â mwy na chyfrannu tuag at warchod ein hamgylchedd ar gyfer y cenedlaethau i ddod ond ei fod mewn gwirionedd yn cyflwyno cyfle go iawn i Gymru, yn economi Cymru, i ddefnyddio'r adnoddau naturiol y cawsom ein bendithio â hwy i wthio prisiau ynni i lawr ar gyfer ein dinasyddion gan ddarparu ynni glân, da i weddill y DU. Diolch i'r Aelodau am eu hamser y prynhawn yma.

18:05

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore, I defer all voting under this item until voting time. Voting time now follows.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Amser pleidleisio bellach yn dilyn.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:05

Cyfnod Pleidleisio **Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will proceed.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5497.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5498.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Voting Time

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly awn ymlaen.

[Result of the vote on motion NDM5497.](#)

Motion agreed: For 36, Against 12, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5498.](#)

Motion agreed: For 32, Against 16, Abstain 0.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5499.](#)

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 5, Yn erbyn 43, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5499.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 32, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 0, Ymatal 11.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5499.](#)

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5499.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 11, Yn erbyn 30, Ymatal 7.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnis NDM5499.](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 18, Yn erbyn 25, Ymatal 5.

Cynnis NDM5499 fel y'i diwygiwyd:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyhoeddi adroddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 'Powering Wales' Future'.

[Result of the vote on motion NDM5499.](#)

Motion not agreed: For 5, Against 43, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5499.](#)

Amendment not agreed: For 11, Against 37, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 32, Against 16, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 37, Against 0, Abstain 11.

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 25, Against 23, Abstain 0.

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 37, Against 0, Abstain 11.

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5499.](#)

Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.

[Result of the vote on motion amendment 8 to motion NDM5499.](#)

Amendment not agreed: For 11, Against 30, Abstain 7.

[Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5499.](#)

Amendment not agreed: For 18, Against 25, Abstain 5.

Motion NDM5499 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the publication of the Welsh Liberal Democrat report 'Powering Wales' Future'.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn parhau i wrthod y dystiolaeth lethol sy'n cadarnhau'r newid yn yr hinsawdd.

3. Yn gresynu at y cyfyngiadau a osodwyd ar gymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes ynni.

4. Yn cydnabod y gellir sicrhau dyfodol carbon isel cynaliadwy drwy newid uchelgeisiol o ran sut rydym yn cynhyrchu ynni.

5. Yn cydnabod bod rhwydwaith grid clyfar ac amrywiol yn hanfodol i sicrhau y gellir diwallu ein hanghenion ynni ar gyfer y dyfodol mewn modd dibynadwy a chynaliadwy.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) adolygu Nodyn Cyngor Technegol 8 i ganiatáu diweddariadau sy'n adlewyrchu gwelliannau technolegol a datblygu Ardaloedd Chwilio Strategol newydd, i annog prosiectau newydd a lleihau crynodiadau presennol;

b) archwilio potensial sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, hyd braich, nid er elw i'w ddsbarthu;

c) gweithio gyda diwydiant i ddatblygu cynlluniau budd cymunedol rhanbarthol, er mwyn i gymunedau ar hyd coridorau cludiant a grid gael budd o'r buddsoddiadau economaidd sydd ynghlwm wrth ynni adnewyddadwy;

d) sicrhau manteision economaidd mwyaf posibl ynni adnewyddadwy drwy weithio gyda datblygwyr a sefydliadau addysgol i ehangu cadwyni cyflenwi a chanolfannau rhagoriaeth ar gyfer y genhedlaeth nesaf o beirianwyr a phrentisiaid;

e) archwilio datblygu Canolfannau Ynni Morol i ddarparu amgylchedd diogel i weithgynhyrchu a phrofi technolegau morol sy'n dod i'r amlwg i helpu Cymru i gael mantais gystadleuol;

f) canolbwyntio cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ymchwil i dechnoleg storio drydanol ar raddfa fawr fel batris;

g) archwilio potensial datblygu cyfleusterau storio pwmp newydd er mwyn gallu storio mwy o ynni at ddefnydd yn ystod oriau brig a sicrhau cyflenwad sefydlog o drydan carbon isel;

h) cyllido cynllun ôl-ffitio ledled y wlad i leihau'r defnydd o ynni a sicrhau biliau ynni is i ddefnyddwyr; a

i) chyhoeddi unrhyw ymchwil i ddichonoldeb adeiladu cysylltiad grid rhwng gogledd a de Cymru.

2. Regrets that the UK Government is increasingly denying the overwhelming evidence which substantiates climate change.

3. Regrets the restrictions placed on the competence of the National Assembly for Wales in the field of energy.

4. Recognises that a sustainable low carbon future can be achieved through an ambitious change in how we generate energy.

5. Acknowledges that a smart and diverse grid network is essential for ensuring that our future energy needs can be met in a reliable and sustainable manner.

6. Calls on the Welsh Government to:

a) review Technical Advice Note 8 to permit updates which reflect technological improvements and the development of new Strategic Search Areas, to encourage new projects and reduce existing concentrations;

b) explore the potential of establishing a publicly-owned, not-for-distributable-profit, arm's length energy company;

c) work with industry to develop regional community benefit schemes, so that communities along transportation and grid corridors can benefit from the economic investments which come with renewables;

d) maximise the economic benefits of renewables by working with developers and educational institutions to expand supply chains and centres of excellence for the next generation of engineers and apprentices;

e) explore the development of Marine Energy Hubs to provide a safe environment to manufacture and test emergent marine technologies to help Wales gain a competitive advantage;

f) focus public support for research into large scale electrical storage technology such as batteries;

g) explore the potential of developing new pumped storage facilities so that more energy can be stored for peak time usage and ensure a stable supply of low carbon electricity;

h) fund a nation-wide retrofitting scheme to cut energy consumption and lower energy bills for consumers; and

i) publish any research into the feasibility of building a grid connection between the north and south of Wales.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5499 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5499 as amended.](#)

Derbyniwyd cynnis NDM5499 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Yn erbyn 11, Ymatal 5.

Motion NDM5499 as amended agreed: For 32, Against 11, Abstain 5.

18:10	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I ask that all Members who are leaving the Chamber do so quickly and quietly, please.	Gofynnaf i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel, os gwelwch yn dda.
18:11	Dadl Fer: Cost Bod yn Dlawd	Y Senedd.tv Fideo Video
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	
	The final item is the short debate and I call on Mike Hedges to speak on the topic that he has chosen.	Yr eitem olaf yw'r ddadl fer a galwaf ar Mike Hedges i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddewis.
18:11	Mike Hedges Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I have given a minute in this debate to Rebecca Evans, Jocelyn Davies, Julie James and Bethan Jenkins.	Rwyf wedi rhoi munud yn y ddadl hon i Rebecca Evans, Jocelyn Davies, Julie James a Bethan Jenkins.
	Stating something that sounds a bit strange: it is very expensive to be poor. This is not a new phenomenon—Jesus threw the moneylenders out of the temple. We even have the old word 'usury' for the practice of making unethical or immoral monetary loans intended to unfairly enrich the lender. We also have a more modern word—'loan shark'.	Dyma ddatgan rhywbeth sy'n swnio braidd yn rhyfedd: mae'n ddrud iawn i fod yn dlawd. Nid yw hon yn ffenomen newydd—taflodd Iesu'r benthycwyr arian allan o'r deml. Mae gennym hen air, 'usuriaeth', am yr arfer o wneud benthyciadau ariannol anfoesol gyda'r bwriad o greu cyfoeth yn annheg i'r benthyciwr. Mae gennym air mwy modern am fenthycwyr arian didrwydded hefyd—'siarcod'.
	Historically, Christianity in much of medieval Europe and Islam in many parts of the world today have regarded charging any interest for loans as sinful, never mind the high interest rates that are charged by some lenders today. Some of the earliest known condemnations of usury come from the Vedic texts of India. Similar condemnations are found in religious texts ranging from Buddhism to Judaism. Many nations, from ancient China and ancient Greece to ancient Rome, have outlawed loans with any interest. The Christian church in medieval Europe banned the charging of interest at any rate. The pivotal change in the English-speaking world seems to have come with the permission to charge interest on lent money by Henry VIII—another problem that Henry VIII gave us.	Yn hanesyddol, mae Cristnogaeth mewn rhannau helaeth o Ewrop yr Oesoedd Canol ac Islam mewn sawl rhan o'r byd heddiw wedi ystyried bod codi unrhyw log ar fenthyciadau yn bechadurus, heb sôn am y cyfraddau llog uchel a godir gan rai benthycwyr heddiw. Daw rhai o'r condemniadau cynharaf o usuriaeth y gwyddys amdanynt o'r testunau Vedic yn India. Gwelir condemniadau tebyg mewn testunau crefyddol Bwdhaidd ac Iddewig. Roedd llawer o genhedloedd, o'r hen Tsieina i'r hen Roeg a'r hen Rufain, yn gwahardd unrhyw log ar fenthyciadau. Gwaharddodd yr eglwys Gristnogol yn Ewrop yr Oesoedd Canol yr arfer o godi llog ar unrhyw gyfradd. Mae'n ymddangos bod y newid allweddol yn y byd Saesneg ei iaith wedi digwydd pan roddodd Harri VIII ganiatâd i godi llog ar arian benthycy—problem arall a achosodd Harri VIII i ni.
	Many people take out a loan until pay day. Many people in here take out a loan until pay day—they use a credit card. It is paid back when the bill becomes due on or after pay day, and the cost is zero. For those who have money, the cost is zero; for those who do not have money, the cost can be quite excessive.	Mae llawer o bobl yn cael benthyciad diwrnod cyflog. Mae llawer o bobl yma'n cael benthyciadau diwrnod cyflog—maent yn defnyddio cerdyn credyd. Caiff ei dalu'n ôl pan ddaw'r bil yn ddyledus ar y diwrnod talu neu wedyn, ac mae'r gost yn sero. Ar gyfer pobl sydd ag arian, mae'r gost yn sero; ar gyfer pobl nad oes ganddynt arian, gall y gost fod yn ormod.
	I take an example of how all of this works from that well-known socialist journal, the 'Daily Mail'. Jenny Poyser spent £8,000 on a new kitchen using a credit card with no interest to pay for 15 months. She says:	Daw un enghraifft o'r ffordd y mae hyn yn gweithio o'r cylchgrawn sosialaidd adnabyddus hwnnw, y 'Daily Mail'. Gwariodd Jenny Poyser £8,000 ar gegin newydd gan ddefnyddio cerdyn credyd heb unrhyw log i'w dalu am 15 mis. Mae hi'n dweud:
	'With a loan we would have been paying interest, whereas the credit card was interest-free. We could also repay as and when. In the months when we were on holiday or preparing for Christmas we could make just the minimum repayment.'	'With a loan we would have been paying interest, whereas the credit card was interest-free. We could also repay as and when. In the months when we were on holiday or preparing for Christmas we could make just the minimum repayment.'

Jenny works as a project manager and is married to Matt, who runs his own accounting business. There is £6,000 left to pay on the card and time is running out before interest is applied, but Jenny says she is ready: she is going to change cards. The plan is to pay off what they can and transfer to another 0% balance card. Unfortunately, if you are poor and unable to access a credit card, you will end up paying large sums, either borrowing from a doorstep lender or a pay-day lender.

Let us look at the cost of borrowing £500. 'Not a very large sum of money', I would think that most people here would think. However, to many of my constituents, it is the sort of loan that they look to take out to pay for Christmas or, in many cases, for a funeral, which can be incredibly expensive and often comes at a time when you do not expect it. Pay-day lenders lend amounts that have to be paid within 30 days. For a loan of £500, you would have to pay £278 in interest for 30 days—56%. A loan from a company can cost you £118 and an unarranged overdraft can cost £95 for one month, while a credit union—the best place to borrow, and I wish that more people got involved in them—costs £36 for up to 12 months at 7%. Overdrafts can cost £8 for one month, but a credit card at 0% costs you nothing.

How do people who are relatively affluent borrow? Do they go to pay-day lenders? Do they go to unarranged overdrafts? No; they use the benefit that they have of being able to use credit cards, and benefit by being able to plan how they spend it.

I plan to give some examples using the words of people affected. The first is someone some of you may have seen, Serai Hann, aged 33, a constituent of mine who lives in Bonymaen. She took out several pay-day loans over three years ago. She was on her own, looking after two children and, unsurprisingly, struggled to repay. Her financial plight saw her fall into depression, but Serai found the help she needed from a family support worker and the friendship of a group of other young mums near where she lives in Swansea. They had all had exactly the same problem with pay-day and doorstep lenders and were angered by the high interest rates, lax checks, if any were done at all, regarding whether an applicant could afford to repay the loan, and the barrage of daytime television and radio advertising. If you have seen any of these tv adverts, you will know that it makes it all look comfy and cosy, as if they are nice people who will help you with a few pounds, but the reality is that it is causing a huge amount of upset and huge financial problems to very many people, many of them my constituents.

Mae Jenny'n gweithio fel rheolwr prosiect ac yn briod â Matt sy'n rhedeg ei fusnes cyfrifyddu ei hun. Mae £6,000 ar ôl i'w dalu ar y cerdyn ac mae'n nesu at yr amser y daw'r llog yn daladwy ond mae Jenny'n dweud ei bod yn barod: mae hi'n mynd i newid cardiau. Y bwriad yw talu'r hyn y gallant a throsglwyddo i gerdyn balans 0% arall. Yn anffodus, os ydych yn dlawd ac yn methu â chael cerdyn credyd, byddwch yn talu arian mawr, naill ai drwy fenthycia gan fenthyciwr ar garreg y drws neu fenthyciwr diwrnod cyflog.

Gadewch inni edrych ar y gost o fenthycia £500. Credaf y byddai'r rhan fwyaf o bobl yma'n meddwl nad yw hynny'n swm mawr iawn o arian. Fodd bynnag, i lawer o fy etholwyr, dyma'r math o arian y byddent yn ystyried ei fenthyg i dalu am y Nadolig neu mewn llawer o achosion, i dalu am angladd sy'n gallu bod yn hynod o ddrud ac yn aml yn dod ar adeg nad ydych yn ei ddisgwyl. Bydd benthycwyr diwrnod cyflog yn benthycia symiau sy'n rhaid eu talu o fewn 30 diwrnod. Ar gyfer benthyciad o £500, byddai'n rhaid i chi dalu £278 mewn llog am 30 diwrnod—56%. Gall benthyciad gan gwmni gostio £118 a gall gorddrafft heb ei drefnu gostio £95 am un mis, tra byddai undeb credyd—y lle gorau i fenthycia, a hoffwn pe bai mwy o bobl yn dod yn rhan ohonynt—yn costio £36 am hyd at 12 mis ar 7%. Gall gorddrafftau gostio £8 am un mis ond ni fydd cerdyn credyd ar 0% yn costio dim i chi.

Sut y bydd pobl sy'n gymharol gefnog yn benthyg? A ydynt yn mynd at fenthycwyr diwrnod cyflog? A ydynt yn defnyddio gorddrafftau heb eu trefnu? Nac ydynt; maent yn defnyddio'r fantais sydd ganddynt o allu defnyddio cardiau credyd ac elwa drwy allu cynllunio sut y byddant yn ei wario.

Rwy'n bwriadu rhoi rhai enghreifftiau gan ddefnyddio geiriau'r bobl sydd wedi cael eu heffeithio. Mae'r gyntaf yn rhywun y bydd rhai ohonoch wedi'i gweld efallai, sef Serai Hann, 33 mlwydd oed ac un o fy etholwyr sy'n byw ym Môn-y-maen. Cafodd sawl benthyciad diwrnod cyflog dros dair blynedd yn ôl. Roedd hi'n edrych ar ôl dau o blant ar ei phen ei hun ac nid yw'n syndod ei bod wedi'i chael hi'n anodd ad-dalu'r benthyciad. Achosodd ei sefyllfa ariannol iddi ddioddef o iselder ond daeth Serai o hyd i'r cymorth roedd ei angen gan weithiwr cymorth i deuluoedd a chyfeillgarwch grŵp o famau ifanc eraill yn agos i ble mae hi'n byw yn Abertawe. Mae pob un ohonynt wedi cael yn union yr un broblem gyda benthycwyr diwrnod cyflog a benthycwyr carreg y drws a chaent eu cynddeiriogi gan y cyfraddau llog uchel, yr archwiliadau ffordd-â-hi i weld a allai'r ymgeisydd fforddio ad-dalu'r benthyciad—os caent eu gwneud o gwbl—a'r rhaeadr o hysbysebion ar y teledu a'r radio yn ystod y dydd. Os ydych wedi gweld yr hysbysebion teledu hyn, gwyddoch eu bod yn gwneud i'r cyfan edrych yn gyfforddus ac yn glyd fel pe baent yn bobl neis a fyddai'n eich helpu drwy roi ychydig o bunnoedd i chi, ond y gwir amdani yw bod hon yn broblem sy'n achosio gofid a phroblemau ariannol enfawr i lawer iawn o bobl, yn cynnwys llawer o fy etholwyr.

This led the group to join forces to run a local campaign warning others about the dangers of pay-day lending. Serai, who is a stay-at-home mum for Tayla, aged 4, and Logan, aged 3, is now a spokeswoman for Sharkstoppers, a national campaign for fair credit. She says that she is campaigning for friends as much as for herself. This follows horror stories from borrowers who have had to cope with debt collectors peering through the windows of their home and tailing them in cars and, worst of all, following the children home as they know that the door will be opened for them.

Serai stated that joining the campaign has made her feel empowered, and she has started saving £5 a week with a credit union. She has said that:

'The easier option is not always the best. It's hard to say no when money is pressed into your hands, but there are better ways.'

Sometimes, that is actually what happens—people come and press money into your hand. They come with £100 in £10 notes, because it looks more than it does in £20 notes; they press it into your hand and say, 'You can borrow this'.

Movement for Change in Swansea is taking off. High-cost credit companies would have been rubbing their hands at the prospect, last year, of another year where prices rose faster than wages and the teeth of the Government's cuts sank further into the flesh of poorer communities across Britain. People looking for a way to treat their families over the festive period would have been looking for quick and easy money. Sadly, if the incessant advertising is anything to go by, they probably had a bumper Christmas. However, in Swansea, the Movement for Change activists running Swansea Bay Fair Credit made a dent in their plans. Unfortunately, it was only a dent.

After action and negotiations with the 'South Wales Evening Post' and the Wave, Swansea Bay Fair Credit ensured that, in the run-up to Christmas, there would be free advertising for the local credit agency spread far and wide, and the tactic worked. Denis Greenall at Loans and Savings Abertawe said:

'It was incessant...as soon as the ad went out...we were just inundated with calls.'

That, I am sure, is what happens to a lot of these other people when they put the advert out: they are also inundated with calls.

Oherwydd hyn, daeth y grŵp at ei gilydd i gynnal ymgyrch leol i rybuddio eraill am beryglon benthycia diwrnod cyflog. Bellach, Serai, sy'n fam sy'n aros gartref i fagu Tayla, 4 oed, a Logan, 3 oed, yw llefarydd Sharkstoppers, ymgyrch genedlaethol dros gredyd teg. Mae hi'n dweud ei bod yn ymgyrchu dros ffrindiau lawn cymaint ag y mae drosti ei hun. Mae hyn yn dilyn straeon erchyll gan bobl sydd wedi benthycy arian am orfod ymdopi â chasglwyr dyledion yn edrych drwy ffenestri eu cartref ac yn eu dilyn mewn ceir ac yn waeth na dim, yn dilyn y plant adref gan eu bod yn gwybod y bydd y drws yn cael ei agor iddynt.

Dywedodd Serai bod ymuno â'r ymgyrch wedi gwneud iddi deimlo'i bod wedi'i grymuso ac mae hi wedi dechrau cynilo £5 yr wythnos gydag undeb credyd. Mae hi'n dweud:

'The easier option is not always the best. It's hard to say no when money is pressed into your hands, but there are better ways.'

Weithiau, yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw hyn—dau pobl atoch a gwasgu arian i'ch llaw. Dönt â £100 mewn papurau £10 am ei fod yn edrych yn fwy nag y mae mewn papurau £20; maent yn ei wasgu i'ch llaw a dweud, 'Gallwch fenthycy hwn'.

Mae Movement for Change yn Abertawe yn mynd o nerth i nerth. Byddai cwmnïau credyd cost uchel wedi bod yn rhwbio eu dwylo y llynedd wrth ystyried y posibilrwydd o flwyddyn arall o brisiau'n codi'n gyflymach na chyflogau a dannedd toriadau'r Llywodraeth yn suddo'n ddyfnach fyth i gnawd cymunedau tlotach ledled Prydain. Byddai pobl a chwiliat am ffordd o roi ychydig o bleser i'w teuluoedd dros gyfnod y Nadolig yn edrych am arian yn gyflym ac yn hawdd. Yn anffodus, os yw'r hysbysebion diddiwedd yn arwydd o unrhyw beth, maent yn sicr o fod wedi cael Nadolig heb ei ail. Fodd bynnag, yn Abertawe, rhoddodd gweithredwyr Movement for Change sy'n rhedeg Credyd Teg Bae Abertawe dolc i'w cynlluniau. Yn anffodus, dim ond tloc oedd hi.

Ar ôl gweithredu a chynnal trafodaethau gyda'r 'South Wales Evening Post' a Wave, sicrhodd Credyd Teg Bae Abertawe yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig y byddai'n lledaenu hysbysebion am ddim ar ran yr asiantaeth gredyd leol ymhell ac agos a gweithiodd y dacteg. Dywedodd Denis Greenall yn Benthyciadau a Chynilion Abertawe:

'It was incessant...as soon as the ad went out...we were just inundated with calls.'

Rwy'n siŵr mai dyma sy'n digwydd i lawer o'r bobl eraill hyn pan fyddant yn lledaenu hysbyseb: maent hwy hefyd yn cael eu llethu â galwadau.

The impact that Swansea Bay Fair Credit has had on fair credit was immediately apparent as soon as the campaign started. The rate of growth in savings increased dramatically once the campaign began in September, and the number of approved short-term loans grew alongside that. That trend continued to Christmas, before a spike thanks to the work of Swansea Bay Fair Credit. In the three months prior to the beginning of the campaign, LASA approved 50 loan applications. That grew considerably once the campaign began. However, in December, that spiked to over 100 in a single month. Those loans totalled £50,000. Broadly, that saved over £35,000 for LASA members who would otherwise have had to go to pay-day lenders and paid sky-high interest. Really, that is something that we need to be promoting more and more in order to get people away from these high-interest lenders and get them to borrow from the local credit unions. Credit unions are something that Members across the Chamber fully support. They really are an important way forward.

I will finish with the testimony of someone who worked as an agent for a well-known doorstep lender:

'We were paid commission only. You were self-employed, so all phone calls and petrol costs had to come out of your commission. The more loans you sold, the more commission you received. If you refused a loan to a potential customer, for whatever reason, you were asked into the office to explain your reasons and to explain why you were not doing your job of getting these loans. You were told that you should do better and not to refuse any loans. There was competition to see which agent could get the most new customers. Canvassers had the job of signing up new customers and were paid £10 for each one. However, if the customer did not make the repayments, it was the agent's responsibility and not that of the canvasser. We had no advice or training on how to deal with non-paying customers. Actually, in one case, one person sold a loan to an empty house. For every non-paying customer, you would lose commission on two other paying customers. Effectively, you were punished by losing commission on three customers. This put huge pressure on us to put pressure on customers to pay.'

I think that, sometimes, many of us blame the people going around collecting the money as though they are the problem. They are just part of—. They are just equally victims of the people who are running these schemes. They quite often live in the same community and they are quite often equally as poor.

'A loan was sold by a canvasser to an empty house once. It was kept on my books for 16 weeks, causing me to lose commission on two paying customers for the whole time. Perhaps the worst thing is when, as an agent, offering existing customers bigger loans to repay previous loans. I wouldn't do that. I felt a responsibility to the customer and was worried about how on earth they would repay a bigger loan if they could not pay current ones. This also meant my losing out on three commissions.'

Roedd yr effaith a gafodd Credyd Teg Bae Abertawe ar gredyd teg yn amlwg ar unwaith cyn gynted ag y dechreuodd yr ymgyrch. Cynyddodd cyfradd twf cynilion yn sylweddol pan ddechreuodd yr ymgyrch ym mis Medi a thyfodd nifer y benthyciadau byrdymor ochr yn ochr â hynny. Parhaodd y duedd honno hyd at y Nadolig cyn cyrraedd pwynt uchaf, diolch i waith Credyd Teg Bae Abertawe. Yn ystod y tri mis cyn dechrau'r ymgyrch, cymeradwyodd LASA 50 o geisiadau am fenthyciadau. Cynyddodd hyn yn sylweddol pan ddechreuodd yr ymgyrch. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr, cyrhaeddodd dros 100 mewn un mis. Roedd cyfanswm y benthyciadau yn £50,000. Yn fras, arbedodd hynny dros £35,000 i aelodau LASA a fyddai fel arall wedi gorfod troi at fenthycwyr diwrnod cyflog a thalu llog eithriadol o uchel. Mae hyn yn rhywbeth y mae gwir angen i ni ei hwyryddo fwyfwy er mwyn denu pobl oddi wrth y benthycwyr llog uchel a'u cael i fenthyca gan undebau credyd lleol. Mae undebau credyd yn rhywbeth y gall Aelodau ar draws y Siambr eu cefnogi'n llawn. Maent yn ffordd wirioneddol bwysig ymlaen.

Hoffwn offren gyda thystiolaeth rhywun a weithiai fel asiant i fenthyciwr carreg drws adnabyddus:

'We were paid commission only. You were self-employed, so all phone calls and petrol costs had to come out of your commission. The more loans you sold, the more commission you received. If you refused a loan to a potential customer, for whatever reason, you were asked into the office to explain your reasons and to explain why you were not doing your job of getting these loans. You were told that you should do better and not to refuse any loans. There was competition to see which agent could get the most new customers. Canvassers had the job of signing up new customers and were paid £10 for each one. However, if the customer did not make the repayments, it was the agent's responsibility and not that of the canvasser. We had no advice or training on how to deal with non-paying customers. Actually, in one case, one person sold a loan to an empty house. For every non-paying customer, you would lose commission on two other paying customers. Effectively, you were punished by losing commission on three customers. This put huge pressure on us to put pressure on customers to pay.'

Rwy'n meddwl weithiau fod llawer ohonom yn rhoi'r bai ar y bobl sy'n mynd o gwmpas yn casglu arian fel pe baent hwy'n broblem. Dim ond rhan o'r—. Maent yn dioddef llawn cymaint gan y bobl sy'n rhedeg y cynlluniau hyn. Yn aml iawn, maent yn byw yn yr un gymuned ac yn eithaf aml, maent yr un mor dlawd.

'A loan was sold by a canvasser to an empty house once. It was kept on my books for 16 weeks, causing me to lose commission on two paying customers for the whole time. Perhaps the worst thing is when, as an agent, offering existing customers bigger loans to repay previous loans. I wouldn't do that. I felt a responsibility to the customer and was worried about how on earth they would repay a bigger loan if they could not pay current ones. This also meant my losing out on three commissions.'

The other little trick is that, if someone owed £200 and they paid back £100, you would give them another loan of £200, but you would not give them the whole amount because you would use the other £100 to pay off the loan, but they would still be paying interest on the first £100 as well.

'The pressure from customers pleased that you were their only hope of accessing money was awful when you had to say "no" as you knew that they couldn't pay back. Telling your manager that you hadn't collected enough was awful. Missing a payment and wondering whether it was better to lose more fuel and try again later or lose three commissions was awful.'

Really, the whole idea of going out there and collecting money like this—that is what is awful.

Y tric bach arall yw hyn: os byddai dyled o £200 gan rywun a'u bod yn ad-dalu £100, byddech yn rhoi benthyciad arall o £200 iddynt ond ni fyddech yn rhoi'r swm cyfan iddynt am y byddech yn defnyddio'r £100 arall i dalu'r benthyciad, ond byddent yn dal i fod yn talu llog ar y £100 cyntaf hefyd.

'The pressure from customers pleased that you were their only hope of accessing money was awful when you had to say "no" as you knew that they couldn't pay back. Telling your manager that you hadn't collected enough was awful. Missing a payment and wondering whether it was better to lose more fuel and try again later or lose three commissions was awful.'

Mewn difrif, y syniad o fynd allan a chasglu arian fel hyn—dyna beth sy'n ofnadwy.

18:21 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I congratulate Mike Hedges on his excellent choice of topic. I will use my brief contribution to talk about the Keep Me Posted campaign, which acknowledges that, while digital communications are a useful and convenient tool for many consumers, a large number of people still rely on paper-based communications to manage their finances. Research shows us that older people, disabled people and people on low incomes are less likely to have access to digital technologies and that people in rural communities have a preference towards paper-based communications. More than 7 million people have never used the internet and a further 16 million adults in the UK do not have basic online skills. Despite this, some banks, financial services companies, utilities companies, media companies and other service providers show a clear preference for a digital medium with online-only tariffs or charge extra for paper bills, meaning the services can be more expensive for the people who can least afford it.

The Keep Me Posted campaign seeks to ensure that consumers do not face a financial penalty as a result of choosing to receive paper-based bills or statements. Given that we know that many people who require paper-based correspondence do so against a backdrop of deprivation, I hope that Members will also support the campaign.

Rwy'n llongyfarch Mike Hedges ar ei ddewis ardderchog o bwnc. Byddaf yn defnyddio fy nghyfraniad byr i siarad am ymgyrch Keep Me Posted. Er bod cyfathrebu digidol yn adnodd defnyddiol a chyfleus i lawer o ddefnyddwyr, mae nifer fawr o bobl yn dal i ddibynnu ar gyfathrebu drwy lythyron er mwyn rheoli eu harian. Mae ymchwil yn dangos bod pobl hŷn, pobl anabl a phobl ar incwm isel yn llai tebygol o allu defnyddio technolegau digidol a'i bod yn well gan bobl mewn cymunedau gwledig gyfathrebu drwy lythyron. Mae dros 7 miliwn o bobl nad ydynt erioed wedi defnyddio'r rhyngwyd ac nid oes sgiliau ar-lein sylfaenol gan 16 miliwn arall o oedolion yn y DU. Er gwaethaf hyn, mae rhai banciau, cwmnïau gwasanaethau ariannol, cwmnïau cyfleustodau, cwmnïau cyfryngau a darparwyr gwasanaethau eraill yn dangos ffafriaeth eglur tuag at gyfryngau digidol gyda thariffau ar-lein yn unig neu'n codi tâl ychwanegol am filiau papur, sy'n golygu bod y gwasanaethau yn gallu bod yn fwy drud i'r bobl sydd leiaf abl i'w fforddio.

Nod ymgyrch Keep Me Posted yw sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu cosb ariannol am ddewis derbyn biliau neu ddatganiadau papur. O ystyried ein bod yn gwybod bod llawer o bobl sydd angen gohebiaeth ar bapur yn gwneud hynny oherwydd amddifadedd, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r ymgyrch hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have been a member of the Plaid Cymru credit union for many, many years—probably at least 15. However, I can recall other times in my life when cheap finance was not available to me, so I understand fully the position of those who are not in a position to shop around but need finance. I would obviously like to see a capping of interest rates, but we have to make sure that restricting finance does not then push people into the clutches of the loan sharks that were mentioned by Mike Hedges earlier on. I would just like to put on the record really that I commend the Moneyline Cymru initiative through housing associations in conjunction with the Assembly Government, which I think could, along with credit unions, help to fill that gap.

Bûm yn aelod o undeb credyd Plaid Cymru ers llawer iawn o flynyddoedd—o leiaf 15 mlynedd n ôl pob tebyg. Fodd bynnag, gallaf gofio adegau eraill yn fy mywyd pan nad oedd cyllid rhad ar gael i mi, felly rwy'n llwyr ddeall sefyllfa rhai nad ydynt mewn sefyllfa i siopa o gwmpas ond sydd angen cyllid. Byddwn yn amlwg yn hoffi gweld capio cyfraddau llog ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw cyfyngu ar gyllid wedyn yn gwrthio pobl i grafangau'r benthycwyr arian didrwydded y soniodd Mike Hedges amdnynt yn gynharach. Hoffwn gofnodi fy mod yn cymeradwyo menter Moneyline Cymru drwy gymdeithasau tai ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, y credaf y gallai helpu i lenwi'r bwch hwnnw ynghyd ag undebau credyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:23

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I congratulate Mike on bringing this forward as well. Last week, over Easter, I had the great good fortune to be in America. While I was there, I had a good look at the 'USA Today' publication money section, where my eye was caught by something entitled 'highest, lowest pay-day loan rate surprise'. This told me that Idaho had the US's highest interest rates for pay-day loans according to a report by the Pew Charitable Trusts, which I recommend to all Members as a good read. The average rate there was 582%—this in the most capitalist nation in the world. Wonga's quoted rate today is 5,853% here in Britain, just by way of contrast. It also told me that 15 states ban pay-day loans or cap interest rates at 36% and that the federal Government has limited rates offered to any military personnel to no more than 36%. This, again, is in the most capitalist country in the world. I think that it is well worth bearing that in mind.

Rwy'n llongyfarch Mike ar gyflwyno hyn hefyd. Yr wythnos diwethaf, dros y Pasg, bŵm yn ddigon ffodus i gael mynd i America. Tra roeddwn yno, cefais gyfle i ddarllen adran ariannol y cyhoeddiad 'USA Today' a glaniodd fy llygaid ar y pennawd 'highest, lowest pay-day loan rate surprise'. Dywedodd wrthyf mai Idaho sydd â chyfraddau llog uchaf yr UDA ar fenthyciadau diwrnod cyflog yn ôl adroddiad gan ymddiriedolaethau elusennol Pew, ac rwy'n ei argymhell i bob Aelod fel deunydd darllen da. Y gyfradd gyfartalog yno oedd 582%—hyn yng ngwlad fwyaf cyfalafol y byd. Cyfradd Wonga heddiw ym Mhrydain yw 5,853%, i ddangos y cyferbyniad. Nododd yr erthygl hefyd fod 15 o'r taleithiau'n gwahardd benthyciadau diwrnod cyflog neu'n capio cyfraddau llog ar 36% a bod y Llywodraeth ffederal wedi cyfyngu cyfraddau sy'n cael eu cynnig i bersonél milwrol i ddim mwy na 36%. Mae hyn, unwaith eto, yn y wlad fwyaf cyfalafol yn y byd. Rwy'n meddwl ei bod yn werth cadw hynny mewn cof.

The Chancellor of the Exchequer was forced, in November last year, to agree that there should be some kind of rate capping, having most reluctantly been brought to that conclusion by the lobbying of nearly every sector of the economy. The Financial Conduct Authority has promised that that will be one of its first acts and it should be looking at that as we speak, because it said that it would start in April this year.

Ym mis Tachwedd y llynedd, gorfodwyd Canghellor y Trysorlys i gytuno y dylai fod rhyw fath o gap ar gyfraddau, ar ôl cael ei dynnu i'r casgliad hwnnw'n anfoddog iawn gan lobio o bron bob sector o'r economi. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi addo y bydd hynny'n un o'r pethau cyntaf y bydd yn ei gyflawni a dylai fod yn edrych ar hynny wrth inni siarad gan iddo ddweud y byddai'n dechrau arni ym mis Ebrill eleni.

I would like to encourage it to look at America as a good example of how it works.

Hoffwn ei annog i edrych ar America fel enghraifft dda o sut y mae'n gweithio.

18:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You are well over a minute.

Rydych wedi cael cryn dipyn dros funud.

18:25

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The research there shows that competition does not increase credit for people who cannot afford it. In fact, the only thing that does increase is this sort of capping. I recommend the research to you as a way forward.

Mae'r ymchwil yno'n dangos nad yw cystadleuaeth yn cynyddu credyd ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu ei fforddio. Yn wir, yr unig beth sy'n cynyddu yw'r math hwn o gapio. Rwy'n argymhell y gwaith ymchwil i chi fel ffordd ymlaen.

18:25

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to thank Mike Hedges for bringing this debate forward. I think that it is safe to say that many local authorities are at their wits' end in trying to control the predatory practices of high-interest lenders who have created a business model in hammering, again and again, deprived communities for every penny that they can get. I read recently, 'It's an expensive business being poor'. Never was a truer word said about this morally repugnant business model. Of course, I wanted to find solutions to this in my Member-proposed Bill on financial education and inclusion and we might not be able to do everything, as has been highlighted, constructively, by Julie James, because we simply do not have powers over financial services. However, we do have the powers to educate people that there are always ways other than high-interest lenders and we owe it to deprived communities to use our powers to help them to overcome this additional and unwanted blight on their lives.

Hoffwn ddiolch i Mike Hedges am gyflwyno'r ddadl hon. Credaf ei bod hi'n ddiogel dweud bod llawer o awdurdodau lleol yn cyrraedd pen eu tennyn wrth geisio rheoli arferion rheibus benthycwyr llog uchel sydd wedi creu model busnes o daro cymunedau difreintiedig dro ar ôl tro am bob ceiniog y gallant ei chael. Darllenais yn ddiweddar fod bod yn dlawd yn fusnes drud. Ni ddywedwyd dim sy'n fwy gwir am y model busnes anfoesol a gwrthun hwn. Wrth gwrs, roeddwn eisiau dod o hyd i atebion i hyn yn fy Mil Arfaethedig Aelod ar addysg ariannol a chynhwysiant ac efallai na fyddwn yn gallu gwneud popeth, fel y mae Julie James wedi'i nodi'n adeiladol, yn syml oherwydd nad oes gennym bwerau dros wasanaethau ariannol. Fodd bynnag, mae gennym bwerau i addysgu pobl fod yna bob asner ffyrdd eraill yn hytrach na throi at fenthycwyr llog uchel ac mae gennym ddyletswydd i gymunedau difreintiedig i ddefnyddio ein pwerau i'w helpu i oresgyn malltod ychwanegol a diangen o'r fath ar eu bywydau.

So, this is a bid—

Felly, mae hwn yn gais—

- 18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Quickly now, please. Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.
- 18:26 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—to ask people to consider the measures that I put in place, as opposed to saying that legislation is not necessary. [Yn parhau.]—i ofyn i bobl ystyried y camau rwyf yn eu rhoi ar waith, yn hytrach na dweud nad oes angen deddfwriaeth.
- 18:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate—Jeff Cuthbert. Diolch yn fawr. Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Jeff Cuthbert.
- 18:26 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty
Diolch, Deputy Llywydd. I welcome this debate and I want to thank Mike Hedges for highlighting the impact that high-cost personal credit lenders have on the most vulnerable people in Wales. Their influence in the very midst of our Welsh communities is posing a harmful threat to the stability of the financially vulnerable and exacerbating the already challenging work that the Welsh Government is undertaking to alleviate poverty. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddadl hon ac rwyf am ddiolch i Mike Hedges am dynnu sylw at yr effaith y mae benthycwyr credyd personol cost uchel yn ei chael ar y bobl fwyaf agored i niwedd yng Nghymru. Mae eu dylanwad ynghanol ein cymunedau yng Nghymru yn peri bygythiad niweidiol i sefydlogrwydd pobl sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol ac yn gwaethygu'r gwaith heriol y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud i liniaru tlodi.
- This debate today demonstrates that we are all concerned about the increasing number of people being drawn into high-interest credit agreements with doorstep lenders, pay-day loan and instant loan companies. Many people are denied access, as has been outlined, to mainstream credit, thus, effectively, forcing such individuals and their families to borrow funds from high-cost lenders at exorbitant rates of interest. Such high-interest products cannot be supported on any level by the Members of this Chamber. We see, on an all-too-frequent basis in our constituencies, how people are struggling to make ends meet. These products might seem like the answer when there is nowhere else to turn, but they often lead to further debt and despair and blight our society. Mae'r ddadl hon heddiw yn dangos ein bod i gyd yn pryderu am y nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu denu i gytundebau credyd llog uchel gan fenthycwyr ar garreg y drws, benthycwyr diwrnod cyflog a chwmnïau benthyciadau brys. Fel yr amlinellwyd, gwrthodir credyd prif ffrwd i lawer o bobl, gan orfodi'r cyfryw unigolyn a'u teuluoedd i bob pwrpas i fenthycu arian gan fenthycwyr cost uchel ar gyfraddau llog afresymol. Ni all Aelodau'r Siambr hon gefnogi cynhyrchion sydd â llog mor uchel ar unrhyw lefel. Yn llawer rhy aml, gwelwn sut y mae pobl yn ein hetholaethau yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Gallai'r cynhyrchion hyn ymddangos fel ateb pan nad oes unrhyw le arall i droi ond yn aml, arweiniant at ddyled a gofid pellach ac maent yn bla yn ein cymdeithas.
- The regulation of credit rates rests with the UK Government. While this is an area on which the Welsh Government has no direct influence, it is an issue of serious concern to all in this Chamber. The UK Government, as has been mentioned, is to introduce a new law to cap the cost of pay-day loans. The level of the cap, which has not yet been announced, will be decided by the new regulator, the Financial Conduct Authority. The FCA has said that it will consult on the design of the cap in the summer with, I understand, final rules to be published before the end of the year. All lenders will then need to be compliant with the cap by 2 January 2015. Mater i Lywodraeth y DU yw rheoleiddio cyfraddau credyd. Er bod hwn yn faes lle nad oes gan Lywodraeth Cymru ddylanwad uniongyrchol, mae'n fater o bryder difrifol i bawb yn y Siambr hon. Mae Llywodraeth y DU, fel y crybwyllwyd, yn mynd i gyflwyno deddf newydd i gapio cost benthyciadau diwrnod cyflog. Bydd lefel y cap, nad yw wedi'i gyhoeddi eto, yn cael ei benderfynu gan y rheoleiddiwr newydd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r Awdurdod wedi dweud y bydd yn ymgynghori ar gynllun y cap yn yr haf gyda'r rheolau terfynol, yn ôl yr hyn a ddeallaf, i'w cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn. Yna bydd angen i bob benthyciwr gydymffurfio â'r cap erbyn 2 Ionawr 2015.

I have recently written to the FCA about the review that it will be undertaking on the way that pay-day lenders and other high-cost, short-term lenders collect debts and manage borrowers in arrears. I want to take an active role in this inquiry process. I want to see urgent measures put in place to address these bad practices and to warn people of the dangers of this. Our collective aim must be to ensure that people know that there are other, more affordable and, I would say, more ethical options available.

While regulation of this industry is not a matter for the Welsh Government, we must focus on what we are able to achieve within the devolved context. Our work in this area supports our tackling poverty action plan, where we target resources across departments to prevent poverty and alleviate its impact on people's lives, while also helping individuals into work. Tackling the problem of financial exclusion is an important part of our action plan, and we have been working with our partners over the past few years to break the cycle of disadvantage that causes financial exclusion.

Ensuring that alternative, more affordable forms of credit are a viable choice to higher risk customers is fundamental to this commitment. We are working to help people manage their money in a better way, in the hope that they never have to turn to high-interest lenders. Credit unions and advice services have a key role to play in this agenda, to help mitigate this worrying trend. I am proud of our record in supporting credit unions in Wales to build their capacity to support people who are unable to access financial services from mainstream providers and who, otherwise, could be subject to exploitation from high-cost lenders. I see credit unions as a key part of the local network of support that should exist in all communities. By providing access to affordable finance, they are part of the solution to tackling higher cost lenders. Indeed, I have committed almost £1.9 million to support credit unions over the next three years. This money will be used to enable credit unions to provide support to financially excluded people who may not be able to access mainstream financial products. This funding builds on previous funding given to credit unions from the Welsh Government and European structural funds for the access to financial services through credit unions project. This project has helped over 33,000 financially excluded adults to have access to financial services.

As was mentioned earlier today, I want to help increase the membership base of credit unions to support their aims of becoming sustainable, and I will continue to do all that I can in this respect. Therefore, earlier this year, I awarded funding for a national credit union marketing and advertising campaign, which is being led by the North Wales Credit Union. This campaign, launched on 14 April, is working both on a national and on a local basis to further attract new members.

Yn ddiweddar, ysgrifennai at yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ynglŷn â'r adolygiad y bydd yn ei gynnal ar y ffordd y mae benthycwyr diwrnod cyflog a benthycwyr cost uchel tymor byr eraill yn casglu dyledion a rheoli pobl sydd ag ôl-ddyledion ar fenthyciadau. Rwyf am gymryd rhan weithredol ym mhroses yr ymchwiliad. Rwyf am weld mesurau brys yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r arferion gwael hyn ac i rybuddio pobl am y peryglon. Ein nod cyffredin fydd sicrhau bod pobl yn gwybod bod dewisiadau eraill ar gael sy'n fwy fforddiadwy-ac yn fwy moesol, byddwn yn dweud.

Er nad yw rheoleiddio'r diwydiant hwn yn fater i Lywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni o fewn y cyd-destun datganoledig. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cefnogi ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi lle rydym yn targedu adnoddau ar draws adrannau i atal tlodi a lliniaru ei effaith ar fywydau pobl, gan helpu unigolion hefyd i gael gwaith. Mae mynd i'r afael â phroblem allgau ariannol yn rhan bwysig o'n cynllun gweithredu ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid dros y blynyddoedd diwethaf i dorri'r cylch o anfantais sy'n achosi allgau ariannol.

Mae sicrhau bod ffurfiau eraill mwy fforddiadwy ar gredyd yn ddewis ymarferol i gwsmeriaid risg uwch yn allweddol i'r ymrwymiad hwn. Rydym yn gweithio i helpu pobl reoli eu harian yn well yn y gobaith na fydd byth angen iddynt droi at fenthycwyr llog uchel. Mae gan undebau credyd a gwasaethau cynghori rôl allweddol i'w chwarae yn yr agenda hon i helpu lliniaru'r duedd hon sy'n peri cymaint o bryder. Rwy'n falch o'n record o ran cefnogi undebau credyd yng Nghymru a meithrin eu gallu i gefnogi pobl nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaethau ariannol gan ddarparu'r prif ffrwd ac a allai, fel arall, fod yn agored i gam-fanteisio gan fenthycwyr cost uchel. Rwy'n gweld undebau credyd fel rhan allweddol o'r rhwydwaith lleol o gefnogaeth a ddylai fodoli ym mhob cymuned. Drwy ddarparu mynediad at gyllid fforddiadwy, maent yn rhan o'r ateb ar gyfer mynd i'r afael â benthycwyr cost uwch. Yn wir, rwyf wedi ymrwymo bron i £1.9 miliwn o gymorth i undebau credyd dros y tair blynedd nesaf. Defnyddir yr arian hwn i alluogi undebau credyd i ddarparu cymorth i bobl sydd wedi'u hallgáu yn ariannol nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad at gynhyrchion ariannol prif ffrwd. Mae'r cyllid hwn yn adeiladu ar gyllid blaenorol a roddwyd i undebau credyd gan Lywodraeth Cymru a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd fel rhan o'r prosiect mynediad at wasanaethau ariannol drwy undebau credyd. Mae'r prosiect hwn wedi helpu dros 33,000 o oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol i gael mynediad at wasanaethau ariannol.

Fel y crybwyllwyd yn gynharach heddiw, rwyf yn awyddus i helpu gyda'r gwaith o gynyddu sylfaen aelodaeth undebau credyd er mwyn cefnogi eu nod o ddod yn gynaliadwy a byddaf yn parhau i wneud popeth o fewn fy ngallu yn hyn o beth. Yn gynharach eleni felly, rhyddheais gyllid ar gyfer ymgyrch farchnata a hyrwyddo undeb credyd cenedlaethol sy'n cael ei harwain gan Undeb Credyd Gogledd Cymru. Mae'r ymgyrch hon a lansiwyd ar 14 Ebrill yn gweithio ar lefel genedlaethol a lleol i ddenu rhagor o aelodau newydd.

I know that there are examples of where credit unions and partner organisations work together to campaign against high-interest doorstep lenders. I recently attended, together with Mike Hedges, a Swansea bay fair credit campaign event in Bonymaen. I was very impressed by the drive and commitment of the partnership work being undertaken within the local community by the Bonymaen mums and the work with LASA Credit Union and the City and County of Swansea on this agenda.

I want to also encourage closer working between credit unions and advice providers so that people facing financial difficulties are made aware of alternative, more ethical options and other possible solutions to their problems. On 15 April, I announced further funding of £1 million this year to support free and independent front-line advice services, as the impact of welfare changes hit communities. This funding will be based on the growing need for services that offer help with welfare benefits, debt and money management, housing and discrimination. This funding is another example of our commitment to taking action to provide practical help to people who either are living in poverty or might be at risk of falling into poverty. It sends a clear signal about our commitment to tackling inequality and to ensuring that anyone who is struggling to get by does have somewhere to turn.

People who are at risk of using a high-interest lender may also require advice on what benefits they are entitled to. In this respect, we support Citizens Advice Cymru for the Better Advice, Better Lives benefit take-up programme. We know that this programme is making a real difference to people's lives. During April to March 2014, almost 21,000 people were helped, and there was over £16 million of new benefits gained by those individuals.

A recent research report, prepared by the StepChange debt charity entitled 'Wales in the Red', suggests that the percentage of people in debt is higher some of Wales's most deprived areas. The report also examines the rapid growth in pay-day loan use in recent years among the charity's Welsh clients.

In our most deprived areas, we are supporting a Communities First/Citizens Advice joint project, which will deliver outreach debt advice through on-the-ground outreach workers in Communities First areas. This project will run until 2015. The discretionary assistance fund is supporting our most vulnerable individuals who are unable to meet their immediate living costs, many of whom would no doubt be tempted by high-interest lenders. Awards made from the fund in the first year of the scheme have totalled £27,839 for emergency assistance payments and individual assistance payments. The total spend in the first year is in excess of £7.2 million.

Gwn fod enghreifftiau lle mae undebau credyd a sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd i ymgyrchu yn erbyn benthycwyr llog uchel ar garreg y drws. Yn ddiweddar, mynychodd Mike Hedges a minnau ddiwyddiad a gynhaliwyd gan ymgyrch credyd teg bae Abertawe ym Môn-y-maen. Roeddwn yn llawn edmygedd o frwdfrydedd ac ymrwymiad y gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud yn y gymuned leol gan famau Bôn-y-maen a'r gwaith gydag Undeb Credyd LASA a Dinas a Sir Abertawe ar yr agenda hon.

Hefyd, rwyf am annog undebau credyd a darparwyr cyngor i weithio'n agosach er mwyn i bobl sy'n wynebu anawsterau ariannol gael gwybod bod dewisiadau eraill, mwy moesol ar gael ac atebion eraill posibl i'w problemau. Ar 15 Ebrill, cyhoeddais gyllid pellach o £1 filiwn eleni i gefnogi gwasanaethau cyngor rheng flaen rhad ac am ddim ac annibynnol wrth i effaith y newidiadau lles daro cymunedau. Bydd y cyllid hwn yn seiliedig ar yr angen cynyddol am wasanaethau sy'n cynnig help gyda budd-daliadau lles, dyled a rheoli arian, materion yn ymwneud â thai a gwahaniaethu. Mae'r cyllid hwn yn enghraifft arall o'n hymrwymiad i weithredu er mwyn darparu cymorth ymarferol i bobl sydd naill ai'n byw mewn tloedi neu a allai fod mewn perygl o fynd i dlodi. Mae'n anfon neges glir ynglŷn â'n hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac i sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cael trafferth i ddod trwyddi rywle i droi.

Efallai y bydd pobl sydd mewn perygl o ddefnyddio benthyciwr llog uchel hefyd yn gofyn am gyngor ar ba fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yn hyn o beth, rydym yn rhoi cymorth i Cyngor ar Bopeth Cymru ar gyfer y rhaglen defnyddio budd-daliadau, Cyngor Da, Bywyd Da. Gwyddom fod y rhaglen hon yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Yn ystod mis Ebrill-mis Mawrth 2014, cynorthwywyd bron i 21,000 o bobl, a darparwyd dros £16 miliwn o fudd-daliadau newydd i'r unigolion hyn.

Mae adroddiad ymchwil diweddar a baratowyd gan yr elusen ddyledion StepChange o'r enw 'Cymru yn y Coch' yn awgrymu bod canran y bobl sydd mewn dyled yn uwch yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar y twf cyflym yn y defnydd o fenthyciadau diwrnod cyflog yn y blynyddoedd diwethaf ymhlith cleientiaid yr elusen yng Nghymru.

Yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig, rydym yn cefnogi prosiect ar y cyd rhwng Cymunedau yn Gyntaf a Chyngor ar Bopeth a fydd yn darparu cyngor allgymorth ar ddyledion drwy weithwyr allgymorth ar lawr gwlad mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Bydd y prosiect ar waith tan 2015. Mae'r gronfa gymorth yn ôl disgrisiwn yn cefnogi ein hunigolion mwyaf bregus yr ariannol nad ydynt yn gallu talu eu costau byw uniongyrchol y byddai llawer ohonynt, heb unrhyw amheuaeth, yn cael eu tentio gan fenthycwyr llog uchel. Mae cyfanswm yr arian a ddyrannwyd o'r gronfa yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun yn £27,839 tuag at daliadau cymorth mewn argyfwng a thaliadau cymorth i unigolion. Mae cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn gyntaf dros £7.2 miliwn.

To conclude, financial inclusion matters, because being financially excluded is likely to cause poverty and hardship among those who are already the most vulnerable and disadvantaged members of our society. The temptation to use high-cost lenders among individuals who may fall into this category will no doubt be high, and this will compound the problem. We are clear that we must continue to support and develop more responsible and affordable credit options for all consumers, while, at the same time, encouraging greater financial capability and responsibility. In Wales, our commitment to this is clear and will continue throughout this Government's term.

I gloi, mae cynhwysiant ariannol yn bwysig, oherwydd mae bod wedi eu hallgáu'n ariannol yn debygol o achosi tlodi a chaledi ymhlith pobl sydd eisoes yn aelodau mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig ein cymdeithas. Diau y bydd yn demtasiwn fawr i unigolion a allai fod yn y categori hwn ddefnyddio benthyccwyr cost uchel a bydd hyn yn cymhlethu'r broblem. Rydym yn glir fod yn rhaid inni barhau i gefnogi a datblygu opsiynau credyd mwy cyfrifol a fforddiadwy i bob defnyddiwr gan annog mwy o allu a chyfrifoldeb ariannol ar yr un pryd. Yng Nghymru, mae ein hymrwymiad i hyn yn glir a bydd yn parhau drwy dymor y Llywodraeth hon.

18:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:37.

The meeting ended at 18:37.